




Caniadau cymru : wedi eu dethol a'u golygu

<https://hdl.handle.net/1874/380727>



DAD
AND
SONS


PUBLISHED BY
[illegible]

VAN HAMEL
470

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS
ORDINARIII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946




UNIVERSITEITSBIBLIOTHEEK UTRECHT



3928 9867

CANIADAU CYMRU



Manuscript 470

**Caniadau
Cymru**

Wedi eu detbol
a'u golygu gan
W. Lewis Jones

AIL-ARGRAFFIAD

Bangor
Jarvis a Foster
mcmvii




RHAGYMDRODD.

FY unig esgus dros gyhoeddi ail argraffiad o "Ganiadau Cymru" ydyw fod yr argraffiad cyntaf wedi ei werthu allan ers rhai blynnyddoedd, ac fod y cyhoeddwyr yn derbyn ceisiadau parhaus am y llyfr. Cynhwysa'r argraffiad hwn rai caniadau ychwanegol, ynghyd ag ychydig gyfnewidiadau a gwelliantau yn y caniadau a gyhoeddwyd yn y cyntaf.

Ysgrifennwyd y nodiadau ar eiriau a geir yn y diwedd gan Mr. Ifor Williams, M.A., Athraw Cynnorthwyol yn y Gymraeg yng Ngholeg Bangor; ac y mae fy niolchgarwch yn fawr iddo am danynt. Dymunaf hefyd gydnabod yn gynnes y cynhorthwy gwerthfawr a gefais ynglyn a chywiro'r prawflenni, a gol-ygu'r nodiadau ar yr awdwyr, gan y Parch. T. Shankland, Arolygydd Llyfrgell Gymreig Coleg y Gogledd.

W. LEWIS JONES.

COLEG GOGLEDD CYMRU,
BANGOR, *Hydref*, 1907.



CYNHWYSIAD.

RHIF.	TUD.
i. Cân y Mai	<i>Gwilym Tew</i> 1
ii. Boreuddydd	2
iii. Carol i'w Gariad	<i>Richard Hughes</i> 3
iv. Cân i Giwpyd	4
v. Arwyrain Rhiain y Rhianedd	<i>Huw Morus</i> 6
vi. Molawd Merch	<i>Huw Morus</i> 8
vii. Molawd Merch	<i>Huw Morus</i> 10
viii. I Hyfawl Riain	<i>Huw Morus</i> 12
ix. Cwyn Cariad	<i>Huw Morus</i> 16
x. Cyffes y Serchog	<i>Huw Morus</i> 17
xi. Byrder Einioes	<i>Huw Morus</i> 18
xii. Cyffes a Hanes Dic y Dawns	<i>Huw Morus</i> 19
xiii. Prif Ddull Naturiaeth	22
xiv. Carol Ciwpyd	<i>Edward Morus</i> 26
xv. Yr Haf yn Llatai	<i>Edward Morus</i> 32
xvi. Melwawd Mai	<i>Edward Sanwael</i> 34
xvii. Y Coler Du	<i>Gruffudd Phylip</i> 39
xviii. Angeu	<i>Elis Wyn</i> 41
xix. Bugellio'r Gwenith Gwyn	<i>Wil Hopkin</i> 42
xx. Cathl y Gair Mwys	<i>Peter Lewis</i> 44
xxi. Y Deryn Pur	46
xxii. Herodraeth yr Ehedydd	47
xxiii. Bugeilgerdd	<i>Edward Rhisiart</i> 48
xxiv. Bugeilgerdd	<i>Edward Rhisiart</i> 56
xxv. Carol Haf	<i>John Howel</i> 58
xxvi. Lladron Grigyll	<i>Lewis Morus</i> 61
xxvii. Caniad y Gog i Feirionydd	<i>Lewis Morus</i> 64
xxviii. Y Gofuned	<i>Goronwy Owen</i> 66
xxix. Twyll y Byd	<i>Williams, Pantycelyn</i> 69
xxx. Cariad	<i>Twm o'r Nant</i> 72
xxxi. Gofid	<i>Twm o'r Nant</i> 74
xxxii. Edn Buan ydyw'n Bywyd	<i>Bardd Nantglyn</i> 76
xxxiii. Canu gyda'r Tannau	<i>Bardd Nantglyn</i> 78
xxxiv. 'Mynnaf gasglu'r niwl a'i hel'	79
xxxv. Y Delyn	80
xxxvi. Y Delyn	81
xxxvii. Llais yr Adar	82

Cynhwysiad.

RHIF.		TUD.
xxxviii.	'Hardd yw gwen yr haul yn codi'	83
xxxix.	'Blodau'r flwyddyn yw f' anwylyd'	83
xl.	Y Galon	84
xli.	Hiraeth	85
xlii.	'Gwynt ar fôr a haul ar fynydd'	86
xliii.	Fy Anwyl Fam fy Hunan	<i>Dafydd Ddu Eryri</i> 86
xliv.	Annerch Merch Ieuanc	<i>Dafydd Ddu Eryri</i> 89
xlv.	Cân Gwenfron	<i>Dafydd Ionawr</i> 92
xlvi.	Ber Eannyd Einioes	<i>Robert ap Gwilym Ddu</i> 95
xlvii.	Annerch i Lygad y Dydd	<i>Daniel Ddu o Geredigion</i> 96
xlviii.	Falentin	<i>Daniel Ddu o Geredigion</i> 98
xlx.	Cân i Gariad	<i>Tegid</i> 101
l.	Hiraeth y Bardd	<i>Tegid</i> 102
li.	Elisa	<i>D. ap Gwilym o Fwallt</i> 103
lii.	Gwenno Llangynydd	<i>Gwilym Glanwysg</i> 106
liii.	Molawd Morgannwg	<i>Gwilym Iiid</i> 107
liiv.	Cân Gwraig y Pysgotwr	<i>Alun</i> 109
lv.	Y Ddeilen Grin	<i>Alun</i> 111
lvi.	Cathl i'r Eos	<i>Alun</i> 112
lvii.	Cwyn ar ol Cyfaill	<i>Alun</i> 113
lviii.	Bugeilgerdd	<i>Alun</i> 115
lix.	Cwyn Cariad	<i>Alun</i> 117
lx.	Cerdd Hela	<i>Alun</i> 118
lxi.	Rhywun	<i>Alun</i> 121
lxii.	Cyflafan Morfa Rhuddlan	<i>Ieuan Glan Geirionnydd</i> 123
lxiii.	Rhiangerdd Bugail Cwmdyli	<i>Ieuan Glan Geirionnydd</i> 125
lxiv.	Caniad y Gog i Arfon	<i>Ieuan Glan Geirionnydd</i> 127
lxv.	Cariad a Rheswm	<i>Ieuan Glan Geirionnydd</i> 131
lxvi.	Glan Geirionnydd	<i>Ieuan Glan Geirionnydd</i> 135
lxvii.	Y Ferch o'r Scêr	139
lxviii.	Y Fwyalchen yn Llatai	140
lxix.	Bugail Aberdyfi	141
lxx.	Gwenno Fwyn Gu	142
lxxi.	Hên Wlad fy Nhadau	<i>Ieuan ab Iago</i> 144
lxxii.	Ynadawiad a Chariad	<i>Cawrdaf</i> 145
lxxiii.	Cwynfan y Dall	<i>Cawrdaf</i> 147
lxxiv.	Can y Bardd wrth Farw	<i>Gwenffrawd</i> 149
lxxv.	Y Morwr Mwyn	<i>Gwenffrawd</i> 150
lxxvi.	Fy Mwthyn Genedigol	<i>Gwenffrawd</i> 152

Cynhwysiad.

RHIF.		TUD.
lxxxvii.	Hiraeth y Bardd am ei Wlad <i>John Jones, Llansantffraid</i>	153
lxxxviii.	Myfyrdod ar lannau Conwy <i>John Jones, Llansantffraid</i>	156
lxxxix.	Ei Chariad Dorrodd ei Chalon <i>John Jones, Llangollen</i>	157
lxxx.	Deio Bach - - - <i>John Jones, Llangollen</i>	159
lxxxxi.	Cerdd yr Hen Wr - - - <i>David Charles</i>	162
lxxxii.	Uwch Ben ei Bedd - - - <i>David Charles</i>	164
lxxxiii.	Cân Olwen - - - <i>Eben Fardd</i>	165
lxxxiv.	Cân yr Unig - - - <i>Eben Fardd</i>	166
lxxxv.	Ymrysonfa Serch - - - <i>Eben Fardd</i>	170
lxxxvi.	Myfyrdod ym mysg y Beddau - - <i>Eben Fardd</i>	172
lxxxvii.	Llongwr yn Canu'n Iach i'w Gariad - <i>Eben Fardd</i>	175
lxxxviii.	Y Morwr Bach - - - <i>Eben Fardd</i>	176
lxxxix.	Y Delyn - - - <i>Caledfryn</i>	178
xc.	Y Gwanwyn - - - <i>Caledfryn</i>	180
xc.	Bedd y Dyn Tylawd - - - <i>Ioan Emlyn</i>	182
xcii.	Ochenaid - - - <i>Elen Egryn</i>	184
xciii.	Cân Hen Wr y Cwm - - - <i>Gweryddon</i>	186
xciv.	Molawd Cymru - - - <i>Talhaearn</i>	188
xcv.	I Aderyn - - - <i>Talhaearn</i>	191
xcvi.	Tros y Garreg - - - <i>Talhaearn</i>	192
xcvii.	Serch Hudol - - - <i>Talhaearn</i>	193
xcviii.	Codiad yr Hedydd - - - <i>Talhaearn</i>	194
xcix.	Plygeingan - - - <i>Talhaearn</i>	196
c.	Calennig i Gymru - - - <i>Talhaearn</i>	197
ci.	Ar Farwo'aeth Baban - - - <i>Samuel Roberts</i>	198
cii.	I Faban Cyntafanedig fu Farw ar y Dydd ei Ganed - - - <i>Glan Alun</i>	200
ciii.	Cymru - - - <i>Glan Alun</i>	202
civ.	Beth yw Siomiant? - - - <i>Ieuan Gwynedd</i>	204
cv.	Pw Briod - - - <i>Ieuan Gwynedd</i>	206
cvi.	Trugaredd - - - <i>Nicander</i>	208
cvii.	Y Blodeuyn Olaf - - - <i>Emrys</i>	210
cviii.	Cryd Gwag fy Mhlentyn - - - <i>Emrys</i>	211
cix.	I Wennol Gyntaf y Tymor - - - <i>Hiraethog</i>	212
cx.	Adgofion Mebyd - - - <i>Hiraethog</i>	216
cx.	Beth sy'n Hardd? - - - <i>Ieuan o Leyn</i>	218
cxii.	Y Lili - - - <i>Torwerth Glan Aled</i>	220
cxiii.	Bedd fy Nghariad - - - <i>Ionoron Glan Dwyryd</i>	222
cxiv.	Y Bwthyn Mynyddig - - - <i>Robyn Ddu Eryri</i>	224
cxv.	Uchenaid am Gymru - - - <i>Robyn Ddu Eryri</i>	226

Cynhwysiad.

RHIF.	TUD.
cxvi. Yr Afonig - - -	<i>Roger Edwards</i> 227
cxvii. Mynwent Cwmwr Du - - -	<i>Gwilym Marles</i> 230
cxviii. Y Seren Gynffon - - -	<i>Gwilym Marles</i> 233
cxix. Cân y Fam i'w Phlentyn - - -	<i>Glan Padarn</i> 236
cxx. Bugeilgerdd - - -	<i>Gasynys</i> 238
cxxi. Cân Serch - - -	<i>Gasynys</i> 239
cxxii. Cân Gwen - - -	<i>Gasynys</i> 241
cxxiii. Ci Llywelyn - - -	<i>Gasynys</i> 242
cxxiv. Glyn yr Wnion - - -	<i>Gasynys</i> 243
cxxv. Myfanwy - - -	<i>Gasynys</i> 245
cxxvi. Cân Hywel i Fyfanwy - - -	<i>Gasynys</i> 247
cxxvii. Angel - - -	<i>Istwyn</i> 250
cxxviii. Fy Mam - - -	<i>Istwyn</i> 252
cxxix. Cystudd yn y Gwanwyn - - -	<i>Istwyn</i> 254
cxxx. Cymru - - -	<i>Istwyn</i> 255
cxxxii. Dyffryn Clwyd - - -	<i>Istwyn</i> 257
cxxxiii. Y Dylanwad - - -	<i>Istwyn</i> 259
cxxxiiii. Seren Heddwch - - -	<i>Istwyn</i> 260
cxxxv. Cartre'r Bardd - - -	<i>Mynyddog</i> 261
cxxxvi. Mae Cân yn Llond yr Awel - - -	<i>Mynyddog</i> 262
cxxxvii. Hwyrigan - - -	<i>Mynyddog</i> 264
cxxxviii. Yr Haf - - -	<i>Telynnog</i> 265
cxxxix. Yr Hedydd - - -	<i>Ossian Gwent</i> 266
cxxxix. Y Gwlithyn - - -	<i>Ossian Gwent</i> 267
cxl. Fy Narlun ar y Pared - - -	<i>Ioan Arfon</i> 269
cxli. Green y Bala - - -	<i>Huw Myfyr</i> 270
cxlii. Y Garreg Wen - - -	<i>Ceiriog</i> 273
cxliiii. Cân Hywel i Fyfanwy - - -	<i>Ceiriog</i> 276
cxliv. Cân Owain i Olwen - - -	<i>Ceiriog</i> 279
cxlv. Nant y Mynydd - - -	<i>Ceiriog</i> 281
cxlvi. Ti Wyddost Beth Ddywed fy Nghalon - - -	<i>Ceiriog</i> 282
cxlvii. Gofidiau Serch - - -	<i>Ceiriog</i> 285
cxlviii. Tuag Adref - - -	<i>Ceiriog</i> 286
cxlix. Beth yw Cariad? - - -	<i>Ceiriog</i> 288
cl. Yr Arad Goch - - -	<i>Ceiriog</i> 290
cli. Clychau Aberdyfi - - -	<i>Ceiriog</i> 293
cli. Aros mae'r Mynyddau - - -	<i>Ceiriog</i> 295
cliii. Codiad yr Hedydd - - -	<i>Ceiriog</i> 296
cliv. Y Gwanwyn - - -	<i>Ceiriog</i> 297
clv. Cerddi Cymru - - -	<i>Ceiriog</i> 299

RHAGDRAETH.

PRIN y mae'n rhaid i 'Drysor Aur' o ganiadau unrhyw wlad wrth ragdraeth,—yn enwedig 'trysor' o ganiadau ysgeifn a syml fel y rhai hyn. Daw canig fyw o hyd i galon dyn heb i feirniad lafurio i glirio'r llwybr; yn wir, mesur ei gwerth a'i pherffeithrwydd ydyw cyflymder a rhwyddineb ei dylanwad ar y meddwl a'r serchiadau. Er hynny erys pob golygydd, i ryw fesur, o dan rwymedigaeth i gyfiawnhau ac egluro ei amcanion wrth gyflwyno i'r cyhoedd gasgliad o ganiadau a ddetolwyd ganddo, yn bennaf, yn ol ei farn a'i chwaeth ei hun.

Dichon y dywed ambell un mai *Telynegion Cymru* y dylesid galw casgliad y ceir ei gynllun yn y *Golden Treasury of Songs and Lyrics* o waith Mr. Palgrave—casgliad sydd erbyn hyn yn un safonol, 'heb ry nag eisiau,' ymhlith y Saeson. Ond, rywfodd, prin y mae'r gair 'telyneg,' er ei brydferthed, wedi ennill iddo'i hun le cadarn yn iaith arferedig hyd yn oed llenorion Cymru. Awgryma 'telyneg' i Gymro berthynas llawer agosach ag offeryn cerdd hollol adnabyddus nag a wna'r gair *lyric* i'r Sais. Rhyw offeryn dieithr ac anelwig i feddwl Sais cyffredin heddyw ydyw *lyre*, tra y mae'r delyn eto'n gynnefin ac anwyl gan y Cymry. Fe ganai Bardd Nantglyn gan' mlynedd yn ol,

'Meddyges dda i feddwl gwan
Yw'r delyn gan y Cymry;'

Rbagdraeth.

a chymaint eto yw ei swyn fel y gallwn ddweyd gyda bardd diweddarach mai

‘Gwin a mêl i’r genau mau
Ei nodau dianwadal.’

Gwrthodwyd, felly, yr enw ‘telyneg’ am y gallai arwain llawer i dybied mai casgliad o benillion i’w canu gyda’r delyn yn unig oedd hwn. Yr amcan, yn hytrach, ydoedd crynhoi ynghyd yr engreiffitiau goreu sydd ar gael o ganiadau byrion ac ysgeifn Cymru,—caniadau tebyg o ran eu ffurf, eu cywair, a’u hysbryd i’r rhai a welir yn y *Golden Treasury* Seisnig.

Ychwanegir drachefn at bembleth y golygydd gan y llinell derfyn sydd mewn barddoniaeth Gymraeg rhwng y mesurau caethion a’r mesurau rhyddion. Ac ni wna’r gair ‘telyneg’ rwyddhau’r ffordd chwaith yn y cyfeiriad hwn. Oblegid fe genir cywyddau ac englynion gyda’r tannau mor aml ac mor hwylus a’r penillion pedair a chwe llinell a briodir yn gyffredin ag enw’r delyn; ac y mae llawer cywydd byr ac ambell gyfres o englynion mor drwyadl ‘delynegol’ eu cywair ag unrhyw ganig mewn mesur rhydd. ‘The chief lyric poet of Wales’ y gelwir Dafydd ap Gwilym gan feirniad Seisnig cymwys; ac ar fesur cywydd y mae bron bob cân o eiddo Dafydd. Y mae enaid y ‘delyneg,’ er engraifft, mewn llinellau fel hyn,

‘A bronfraith ar îr benfrig,
Cyn y glaw, yn canu’n glau
Ar lasbanc irlwys bynciau.
A’r hedydd aflonydd ei lais,

Rhagdraeth.

Cwcell-lwyd edn, cu, call-lais,
Ym myned mewn lludded llwyr
A chywydd i entrych awyr !'

neu mewn tarawiad fel hwn,

' Un ydwyf, ban bwyf heb Wen,
Afywiog, heb sawr awen ;
* * * * *

Heb gof, heb ynof enaid
Na rhith o'r synwyr fo rhaid.
Gyda Gwen wy'n ddibenyd,
Gwna hon fi'n galon i gyd,
A'm cân yn rhedeg i'm cof
Yn awen winaidd ynof !"

Drachefn, pan y deuwn ar draws englyn fel hwn o waith
Goronwy Owen,

' Mae cystudd rhy brudd i'm bron—'r hyd i' wyneb
Rhed afonydd heilltion ;
Collais Elin, liw hinon,
Fy ngeneth oleubleth lon !

yr ydym ar unwaith yn cydnabod fod y *lyric note*—y cywair
telynegol—mor glir yn y cynghaneddion hyn ag mewn
unrhyw bennill 'rhydd.' Rhyfygus yw'r sawl a ddir-
mygo'r gynghanedd yn wyneb llinellau fel hyn. Y
gynghanedd yn llyffethair, yn wir! Bron na ddywedwn
fod y gynghanedd, o'i hiawn arfer, yn rhan hanfodol o
athrylith barddoniaeth Gymraeg. Nid oes dim mor
'anorfod,'—Ieuan Glan Geirionnydd biau'r gair,*—dim

*Gwel tudal 129,—

'P'le mae'r beirddion mwya'u clod,
Anorfod, ond yn Arfon ?'

Nid oes gwell gair yn y Gymraeg i gyfleu un o hoff eiriau (gair ystryd-
ebol o'r bron erbyn hyn,) y beirniaid Seisnig—*inevitable*.

Rhagdraeth.

sy'n argyhoeddi dyn mor llwyr o bresennoldeb 'ysbryd y peth byw,' y wir Awen, â drychfeddwl prydferth yn llithro'n naturiol i blethiad o gynghanedd. Y mae hyn, beth bynnag, yn dyfod yn agos iawn i ddarnodiad Coleridge o *ffurf* barddoniaeth—'y geiriau goreu yn y drefn oreu.' Nid *ffurf* (*form*) ydyw unig hanfod barddoniaeth, ond nid oes barddoniaeth heb *ffurf*. Fel y mae barddoniaeth yn un o'r celfau, y mae *ffurf* yn nod angen iddi. Ac y mae ambell iaith yn hawlio mwy o ofal am *ffurf* oddiar law'r bardd nag iaith arall. Ni raid i neb fyned ymhellach na barddoniaeth Groeg a Rhufain er cael profion i'w argyhoeddi o hyn: a chredwn fod yr un peth yn wir am y Gymraeg. Y mae'r rhan fwyaf, a'r rhan oreu yn aml, o rym a phrydferthwch barddoniaeth Gymraeg i'w chael yn ei *ffurf*. Dirmyged a ddirmygo'r 'glec' mewn pennill neu gywydd neu englyn, eto, ynddi hi y ceir dirgelwch swyn llawer darn barddonol sydd wedi suddo'n ddwfn i serch y Cymro. Nis gall darlennydd y tudalennau sy'n dilyn lai na gweled cymaint o le y mae rhyw fath o 'glec' a chynghanedd yn ei gael yn y goreuon o'r caniadau 'rhyddion' hyn. Darllenner Lewis Morus, er engraifft;

'Gweddi ffyddlon dynion dŵr,
Y powdwr dan eu pedyll!
Na weler gwraich heb grach neu gri,
Yn pobi yn eu pebyll!
Bo eisiau bwyd o'r bais i'r bedd
Ar epil gwagedd Grigyll!'

A faidd neb wadu fod 'cleciadau' y pennill hwn yn un o

Rhagdraeth.

ddirgelion ei rym a'i nwyf a'i ynni? Y mae yn rhaid i'r delyneg, i'r *lyric*, yn anad unrhyw fath arall o farddoniaeth, wrth ffurf gywrain a phrydferth; ac y mae'r ffurf fwyaf priodol i'r Gymraeg yn cynnwys rhyw lun o gynghanedd. Er i Islwyn ganu

'Barddoniaeth, O Farddoniaeth! Pwy a roddes
I neb awdurdod ar y fath angyles
I bennu dy derfynau? Ymaith, Reol!'

nis gall ei edmygwyr mwyaf craff lai nag addef y buasai ei feddyliau arddunol ef yn sicrach o'u lle yng nghof ac yn serch cenhedlaethau fydd pe buasai'r bardd wedi talu mwy o sylw i ddetholiad a chyflead geiriau—i'r 'rheolau,' mewn gair, y mae'n eu melldithio.

Nid oes felly a fynno'r gwahaniaeth rhwng y caeth a'r rhydd yn ffurf barddoniaeth Gymraeg a phenderfynu beth yw 'telyneg.' A phe cawsai'r golygydd ei ffordd, ni charasai ddim yn fwy na chloddio yn nhrysorau cywyddau Cymru am emau i'w hychwanegu at y caniadau dethol hyn. Ond buasai rhoddi'r caeth a'r rhydd gyda'u gilydd yn chwyddo maint y casgliad tu hwnt i bob rheswm. Erys felly y gwaith hyfryd o ddethol a chyhoeddi 'Cywyddau Cymru' i rywun eto ei gyflawni. Er mai llinell ddamweiniol, mewn ystyr, ydyw'r un a geir yn y Gymraeg rhwng y mesurau caethion a'r rhyddion, eto cymerwyd mantais arni i gyfyngu'r llyfr hwn i ganiadau ar fesurau rhyddion yn unig. Ac fe welir fod digon o gyfoeth ym marddoniaeth rydd Cymru o Huw Morus hyd Geiriog

Rbagdraeth.

i wneud casgliad nid annheilwng o'i gymharu a 'Thryso-
rau Aur' cenhedloedd mwy eu rhif ac uwch eu bri na'r
Cymry.

Yn ol y cynllun a ddilynir yn y rhan fwyaf o gasgliad-
au o'r fath, ni chynrychiolir beirdd sydd eto'n fyw yn y
Caniadau hyn. Terfyna'r llyfr gyda Cheiriog, ac y mae'r
beirdd wedi eu gosod, mor agos ag sydd bosibl, yn ol trefn
eu hamser. Huw Morus, fel y gwelir, ydyw'r bardd
cyntaf o bwys a ysgrifennodd lawer, ac a ysgrifennodd ei
bethau goreu, ar fesurau rhyddion.* Ychydig a ganodd
Emwnt Prys, heblaw ei Salmau a'i Emynnau, ar fesur rhydd.
Ceir un ganig o'i eiddo yn y 'Blodeugerdd' o dan yr enw
'Cydsain Cerddorion ynglyn Helicon,' a theilyngai honno
le uchel pe buasai'r oll o honi cystal a'r llinellau hyn,

'A'r blodau ar drwynau drain,
A'r fedwen fain a'r glasddail;

* Dechreuai'r argraffiad cyntaf o'r 'Caniadau' hyn gyda Huw
Morus, ond rhagflaenir ef yn yr argraffiad hwn gan ganeuon a gyfan-
soddwyd, rai o honynt, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr ydym yn
ddyledus am y caneuon hyn i Mr. J. H. Davies, a chyhoeddwyd hwynt
ganddo yn nghyfres Cymdeithas Llen Cymru (Rhif v., vi.) Mewn
rhagymadrodd sydd o ddyddordeb neilltuol i'r sawl sy'n caru hanes
barddoniaeth y Cymry, dywed Mr. Davies:—"Nid ydyw yn bosibl
dywedyd pa fardd ddechreuodd ganu ar y mesurau rhydd na phwy luniodd
y triban a'r tri th'rawiad a'r mesurau eraill a ddaeth mor boblogaidd yng
Nghymru. Nis gallwn ddywedyd pa mor bell y cydnabyddid y mesurau
hyn yn amser Dafydd ab Gwilym; ond y mae'n lled sicr na fu ond
ychydig o ganu arnynt yng Ngwynedd a Phowys rhwng, dyweder, 1400
a 1500. Pa fodd bynnag, daethant yn gyffredin iawn hyd yn oed yng
Ngogledd Cymru erbyn 1600, a llwyddasant i ennill tir yn deg ar y
mesurau caethion o tua 1640 ymlaen hyd 1750."

Rhagdraeth.

Gloew yw'r ffynnon, glân yw'r fan,
Sy'n codi dan y gwiall;
Y croewddwr, y gloewddwr!
Lle teg yw eu llwyddiant!
Lle i gysgu, lle i ddysgu
Holl felus wir foliant.'

Ond cawn y bardd yn disgyn fwy nag unwaith i linellau
fel hyn,

'Rhyw bynciadau nefol,
Nid tryblus ond trablus,
Fenus a biau'r faenol.'

Prin chwaith y mae caneuon y Ficer Pritchard, ar wahan
i'w testynau, yn ddigon coeth eu hiaith a chain eu ffurf i
hawlio lle ymhlith gorchestion ein barddoniaeth rydd. Y
mae'r Hen Ficer weithiau'n taro tant lled fawreddus:

'Ni ddiflannwn fel y cysgod,
Ni lwyr doddwn fel y manod,
Ni ddiharddwn fel glaswelltyn,
Ni ddiffoddwn fel yr ewyn!'

Ond darlennwn ymlaen a deurn ar draws pennill fel hwn,

'Felly gwywa, felly tyr,
Felly cracia'n bywyd byr,
Felly cropir einioes dyn,
Felly cwypwn bob yr un.'

Huw Morus, felly, ydyw'r cyntaf ar restr y beirdd
Cymreig sydd wedi enwogi eu hunain fel ceiniaid ar fes-
urau rhyddion. Y mae'n wir fod ei fesurau ef y rhan
amlaf yn bur gywrain ac anodd; eto fel 'bardd rhydd,' yn
enwedig fel y cyntaf ddarganfyddodd rym a phrydferthwch

Rbagdraeth.

y mesur 'tri thrawiad,'* y ceidw ef ei le. Ceiriog, drachefn, ydyw prif fardd telynegol y ganrif hon. Nid efe yw'r diweddaf o ran amser o'r beirdd a gynrychiolir yma, ond y mae mor fawr wrth ochr ei gyfoedion fel mai efe sy'n naturiol yn gorffen ac yn coroni'r casgliad. Gormod fyddai dweyd mai Ceiriog ydyw'r mwyaf o'r beirdd sy'n hawlio lle yn y llyfr; ond efe'n ddiau ydyw bardd 'rhydd' goreu Cymru yn yr ystyr o fod yn hollol anibynnol ar gynghanedd neu 'glec' o unrhyw fath. Nid ydyw Ceiriog bob amser yn gelfydd—ond y mae bron yn ddieithriad yn syml ac yn swynol. Y mae miwsig yn yr oll o'i ganeuon. Symledd, dychymyg chwim a chwareus, a chydymdeimlad byw a Natur—dyma brif nodweddion Ceiriog. 'Mab y mynydd,' yn wir ydyw ef, yn breuddwydio am yr awelon a'r ffrydiau a'r blodau; er mai 'oddi cartref' y gwnaed y rhan fwyaf o'i ganeuon, eto tystiant oll mai

' Yn y mynydd mae ei galon
Efo'r grug a'r adar mân.'

Nid ydyw pob bardd o fri a gododd o Huw Morus hyd Geiriog yn cael ei gynrychioli yma. Ni raid ond enwi dau na cheir mo'u henwau ar y tudalennau hyn—

* Er nad oes yn y casgliad hwn un gân o eiddo Huw Morus ar y mesur yma, eto ar hwn y canodd efe amlaf. Y mae'r rhan fwyaf o'i 'Foebolion' a'i 'Briodolion' (i ddefnyddio termau Gwallter Mechain) ar y mesur hwn. Edward Morus, bardd oedd yn cydsyw a Huw Morus, ac yn un o'i gyfeillion, ydyw awdwr y deryn cyntaf a geir ar y mesur yn y llyfr hwn.

Rhagdraeth.

Ieuan Brydydd Hir a Dewi Wyn o Eifion. Methwyd a chael dim mewn mesur rhydd o waith y naill na'r llall teilwng i'w roddi ymysg y Caniadau hyn. Fe ganodd y Prydydd Hir, fel Gruffudd Phylip (gwel tudal. 39) am 'Y Coler Du,' ar y mesur 'awdl y canodd Goronwy Owen ei 'Ofuned' arno. Gellir barnu teilyngdod y gân oddi-wrth y pennill hwn, sydd cystal a'r un a geir ynndi,

'Ni châr y Coler a'i arferau
Neb rhyw gyweithas gymdeithasau,
Na chymdeithion mwynion mewn manau—o'r byd;
Pob adfyd penyd ef a'i piau.'

Ymadawai'r Awen ag Ieuan pan y ceisiai brydyddu ar fesurau rhyddion; ac ni fedrai hyd yn oed 'Genedigaeth Tywysog Cymru' ei denu ato.* Eto dyma'r bardd a ganodd am Lys Ifor Hael:

'Drain ac ysgall mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd.'
'Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y ddylluan.'

Engreiffitiau eto o rym anorfod y gynghanedd! Salw

* Nid oes gan y Prydydd Hir ddim gwell na'r hyn a ganlyn i'w ganu ar y testyn hwn,

'Moeswch, feirdd, mewn cywrain gân
(Ond diddan yw i'n dyddiau?)
Roi geiriau glwys o gywir glod
At hynod lais y tannau,
I ganmol Llywydd nef a llawr
Am roi Tywysog, enwog wawr,
Er llawenydd, ddedwydd awr,
A dirfawr, lwysfawr, leisiau.'

Rhagdraeth.

iawn, drachefn, ydyw caneuon rhyddion Dewi Wyn; ond gadewch iddo yntau gynghaneddu a chawn linellau y mae pawb yn eu gwybod.

' Aml y mae yn teimlo min
Yr awel ar ei ewin.

* * * * *

Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
Rhoi angen un rhwng y naw !

Rhoddir un engraifft yn y 'Caniadau' o waith Goronwy Owen, rhag cau allan y bardd mwyaf coeth a chlasurol o holl feirdd y cyfnod. Saif 'Y Gofuned' bron ar y llinell derfyn rhwng y caeth a'r rhydd. Gelwir hi yn 'awdl,' ond dywedir iddi gael ei 'chanu yn y flwyddyn 1752, cyn gwybod o'r bardd pa beth oedd awdl.' Y mae y gân hon yn un o'r darnau mwyaf swynol a gyfansoddodd Goronwy. Gwan ydyw yntau yn y mesurau rhyddion, ond yr oedd yn feistr ar y gynghanedd ac ar Gymraeg grymus a dilediaith. Ceir yn y casgliad ganiadau o waith amryw feirdd eraill nas gellir ond prin eu hadnabod wrth eu caneuon rhyddion yn unig. I weled gwir athrylith Dafydd Ionawr, Robert ap Gwilym Ddu ac Eben Fardd, rhaid darllen eu cywyddau a'u hawdlau.

Nid oes a fynno'r llyfr hwn ag Emynnau—y mae digon o gasgliadau da o Emynnau Cymru yng nghyrraedd pawb—nac, ychwaith, â darnau barddonol nad ydynt namyn diwinyddiaeth ar gân. Dyma'r paham na cheir, er eng-raifft, gân fel 'Y Cyfamod Disigl' o eiddo Huw Derfel ymhllith y Caniadau hyn. Diau fod llawer o elfennau

Rhagdraeth.

barddoniaeth yn y dernyn poblogaidd hwnnw, ond y mae cymaint o athrawiaeth ynddo—cymaint o dermau priod y diwinyddion—nes ei osod o'r tu allan i derfynau'r 'telynegol.' Tra na chynhwysir yma ganiadau diwinyddol—hynny yw, caniadau y mae iaith a damcaniaethau'r eglwysi a'r credoau yn cael lle mawr ynddynt—eto, ceir yn y casgliad lawer canig grefyddol ei thôn a'i thuedd. Heb y rhai hyn ni fuasai'r Caniadau yn adlewyrchu'n deg fywyd y Cymry yn ystod y cyfnod a gynrychiolir. Y mae y Diwygiad Methodistaidd a'i ddylanwadau wedi rhoddi cyfeiriad crefyddol i gymeriad a bywyd y genedl yng nghorff y can' mlynedd diweddf—ac y mae barddoniaeth Cymru'n arbennig yn dwyn ei nodau. Heblaw caniadau diwinyddol, gwrthodwyd hefyd ddau ddsbarth arall o ganeuon ag y mae cnwd toreithiog o honynt yn ein llenyddiaeth, sef caneuon digrifol a Charolau Plygain. Gwrthodwyd y dosbarth cyntaf oherwydd eu diffygion mewn ffurf ac arddull. Prin y cawn ni ddim, er engraifft, yng nghaneuon John Jones, Glanygors, neu John Thomas, Pentrefoelas, sydd i fyny o ran arddull a 'Phrif Ddull Naturiaeth,' neu 'Gathl y Gair Mwys,'—dwy gân chwareus a welir yn y casgliad hwn. Drachefn, ychydig o farddoniaeth sydd yn y Carolau Plygain, er mor boblogaidd y buont unwaith ac er cymaint o honynt sydd eto ar gael.

Dyddorol ydyw sylwi wrth ddarllen y Caniadau hyn fel y mae eu nodweddion yn newid y naill genhedlaeth a'r

Rhagdraeth.

naill gyfnod ar ol y llall. Cyfnod y Caneuon Serch a'r Bugeilgerddi ydyw'r cyfnod cyntaf—cyfnod sy'n ymestyn o Huw Morus hyd Oronwy Owen. Caneuon serch Huw Morus sydd megis yn taro'r cywair i'r cyfnod hwn. Yn y caneuon hyn y mae 'Eos Ceiriog' ar ei oreu. Y mae'n wir fod ganddo yntau ei 'Ddifrifolion' a'i 'Foesolion,'—i ddefnyddio termau Gwallter Mechain drachefn,—a medrai ar adegau daro tant mawreddus ar destynau dwys.

'Nid ydyw golud, parch, neu glod
Ond adail darfodedig ;
Nid ydyw hardd hawddgarwch gwedd
Wrth borth y bedd ond benthig :
Fel llysic ar las fore mewn gloew flode glân,
Cyn darfod y diwrnod dan gawod gwywo wnân.'

Ond pan y cawn ni ef yn datgan clod rhyw riain

'Wawrlon, eurlwys, berlwys, burlan,'
y gwelwn ni Huw Morus yn ei elfen.

'Fy nghalon i sydd yn danfon bob dydd
At flodau brig dansi, lon ffansi, lawn ffydd ;
Mor bêr yw dy bryd fel rhos ar lan rhyd,
Neu loew wen lili, neu deg bwysi'r byd ;
Dy gusan di-gêl yw'r mwsg ar y mêl,
Cnewyllyn dy ddeufin i'm dilyn y dêl ;
Mwy braint a mwy bri cael ymwasgu a thydi
Na chyweth brenhinieth, gwen eneth, gen i.'

Nid oes dim yng nghaneuon serch Cymru, ar fesur rhydd beth bynnag,—os nad oes rhai pethau o eiddo Ceiriog i'w heithrio,—yn deilwng i'w gymharu a chaneuon y can' mlynedd cyn y Diwygiad. Saif 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' a'r 'Deryn Pur' eto heb eu hail yn eu dosbarth

Rhagaraeth.

eu hunain. Yr oedd rhyw nwyf a naws ysgafn yn perthyn i'r ceiniaid hyn na chawn ni ond ychydig o honynt mewn beirdd diweddar. Nid oeddynt, hwyrach, mor lân eu buchedd bob amser ag y dylent fod, ac y mae'r rhan fwyaf o honynt, fel Twm o'r Nant, yn ceisio cymodi am eu pechodau trwy ganu llawer cân edifeiriol a defosiynol. Ond gorfodir pawb i deimlo fod gwir 'wreiddyn y mater' gan y beirdd hyn pan y symbylir hwy i 'annerch merch icuanc,' neu i anfon llatai at ryw

'feinir dlos gariadus.'

O gyfnod y Diwygiad ymlaen y mae'r cywair yn newid. Y dwys, y pruddglwyfus a'r lleddf sydd yn teyrnasu o Robert ap Gwilym Ddu hyd Islwyn. Cawn ambell fardd fel Alun neu Ieuan Glan Geirionnydd yn ceisio dianc o'i amgylchedd trwy efelychu caneuon serch yr hen feirdd. Ond y mae ôl ymdrech a llafur caled ar y fath efelychiadau. Y maent yn 'glasurol' eu hiaith a'u harddull—ond y mae mwy o gywreinrwydd nag o farddoniaeth yn y rhan fwyaf o honynt. Y maent yn gain ac yn gaboledig fel delw farmor—ond y maent hefyd yr un mor oer.* Y gwir yw fod cysgod y Diwygiad dros braidd yr oll o farddoniaeth hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chyda'r dwys a'r difrifol a'r galarus y

* Cymharer 'Cwyn Cariad' o eiddo Alun, neu 'Cariad a Rheswm' o waith Ieuan Glan Geirionnydd. O'r braidd y gellir dweyd am y caneuon hyn eu bod mor naturiol, mor hoenus ac mor ysgafn a chaneuon serch y cyfnod cyntaf.

Rhagdraeth.

mae'r beirdd yn aros. Talhaearn, hwyrach, ydyw'r unig un o honynt sydd heb ddangos llawer o'i ddylanwad—Talhaearn, y tebycaf ei hoen a'i helynt i Robert Burns o'r holl feirdd Cymreig. Yn ddiweddarach cawn Lasynys a Cheiriog yn ceisio diangfa o'r pruddglwyf trwy fyned yn syth at Natur am eu hysbrydoliaeth. Anian yn ei phrydferthwch a'i bywyd diofal ei hun, nid Anian fel y'i gwelir hi trwy wydrau lliwiedig yr athronydd neu'r diwinydd—dyma'r hyn a symbylai Awen Ceiriog.

Tueddir dyn i feddwl weithiau fod a wnelo awyr laith ac awelon trist glannau Cymru, yn gystal a dylanwadau'r Diwygiad, â phruddglwyf llawer un o'n beirdd. Barddoniaeth y tawch a'r niwl, sydd mor aml yn gordoi cymoedd a nentydd ein gwlad, ydyw llawer o'r Caniadau hyn. 'Byrder Einioes,' 'Bedd fy Nghariad,' Cân y Bardd wrth Farw,' 'Cystudd yn y Gwanwyn,'—swn peswch a chaethiwed a darfodedigaeth a gawn ni mewn testynau fel hyn. Eto ar y fath destynau y prydyddwyd cyfrolau gan feirdd diweddar Cymru. Da yn ddiau yw i bawb

'droi i wrando,
Yn un fwriad gan fyfyrío,
Fel mae'n llethrog ddydd yn llithro.'

Ond gan mai ynghanol gofalon a helyntion a gofidiau

'ffwdanus—fyd
Direol, bawlyd, rhy helbulus,'

y mae'r rhan fwyaf ohonom yn byw, gwell gennym glywed y beirdd yn ceisio ysgafnhau tipyn ar ein calonnau na'n

Rhagdraeth.

cadw o hyd i syllu ar wendid corfforol a hedfan buan bywyd.
O swm tannau'r delyn a hen alawon Cymru y daw'r ym-
wared. Daw gwên ar y wyneb drachefn wrth feddwl am
ddifyrrwch llon y dynion doniol a diddan a ganent gyda'r
tannau.

'Cytodi calon drom yn iach
Wna mwyn gyfeillach felly.'

Penillion ysgeifn, nwyfus a llawen yw'r mwyafrif o'r can-
euon a geir yn y llyfr hwn ar gyfer alawon Cymru. Yn
wir, y mae'r delyn weithiau fel pe bai'n dwyn y bardd i
wenu ac i goegi tipyn hyd yn oed yn ei ddagrau.

'Hiraeth, hiraeth, cilia, cilia,
Paid a phwyso'n rhy drwm arna'!
Nesa dipyn at yr erchwyn,
Gad i mi gael cysgu gronyn.'

Anodd cael pennill mor nodweddiadol a hwn o dymer
gyfnewidiog y Cymro. Oblegid y mae'r chwareus mor
reddfol ynddo ef a'r dwys, wedi'r cwbl.

Llygad i weled Anian, medd hen ddiareb, yw un o
nodweddion y gwir fardd. Ni raid difynnu yma linellau
o'r Caniadau sy'n dangos fod hyn yn wir am feirdd Cymru
—gall pawb a ddarllenno gael digon o engreiffiau. Ond
y mae'n syn gan lleied sydd ym marddoniaeth rydd Cymru
o ganu am Anian yn ei rhwysg a'i mawredd a'i haruchel-
edd. Ychydig y mae hyd yn oed y beirdd sydd wedi byw
ar hyd lethrau mynyddoedd Cymru wedi ei ganu am
wyltineb eu creigiau, neu wg eu clogwyni, neu wib yr
ystormydd sy'n ysgubo'u cribau a'u cilfachau. Tawelwch

Rbagdraeth.

a distawrwydd y mynydd yn hytrach na'i aruthredd, si yr awel yn y grug yn hytrach na thabwrdd y gwynt yn y goedwig, murmur yr afonig yn hytrach na chenllif y ceunant—dyma'r hyn a ddenai fryd y prydydd gan amlaf.

'Sibrwd rhediad afon Aled
Tros y cerrig llyfnion mân,'

neu ddistawrwydd 'y fangre unig fud' ar Lan Geirionnydd na thorrir mono ond gan

Wawch y gigfran ambell waith
O'r graig uchelfaith draw,
A bref y defaid ar y twyn,
A'r llonwych wŷn gerllaw,'

—dyma'r agweddau ar Anian yr ymhoffai'r beirdd Cymreig ynddynt. Ceir mwy o'r gwyllt a'r ysgythrog yn y mesurau caethion, mae'n wir; ond 'Cymru lonydd' a ddarlunir yn y Caniadau a ganlyn, gwlad y dolydd a'r dyffrynnoedd tawel,


'*rura quae Liris quieta
mordet aqua taciturnus amnis.*'

Y mae barddoniaeth pob gwlad yn ddrych o gymeriad ei thrigolion; ac y mae'r tawelwch hwn yn gyson ag un o nodweddion amlycaf cenedl y Cymry heddyw. Bu ein hanes unwaith yn wyllt a rhamantus—bu cri y rhyfelgyrch a thwrf byddinoedd yn adsain hyd gymoedd a bryniau Cymru. Ond erbyn hyn fel gwlad yr heddwch, 'gwlad y menyg gwynion,' y ceidw Cymru ei bri yn Nheyrnas Prydain. Gall y neb a ddarllenno'n ystyriol y

Rhagdraeth.

Caniadau hyn weled ac adnabod y dylanwadau sydd wedi gwneud y Cymro yr hyn ydyw. Dichon y gwel llawer un fylchau yn y casgliad. Ond nid ein hamcan oedd crynhoi yr oll, nac agos oll, o'r hyn sydd deilwng a da ym marddoniaeth ein cyfnod, eithr yn hytrach *debol* y Caniadau hynny sydd ar un llaw yn engreiffiau teg o gelfyddyd beirdd diweddar Cymru, ac ar y llaw arall yn fynegiadau ffyddlon o feddwl a chalon y genedl.





I.

CAN Y MAI.

Rhodes fy mrŷd a'm serch yn llwyr,
 A Duw a'i gwyr a'm gwired,
 Ar garu'r fwyn hygar ferch,
 Ba edwyn serch ei hired.

Rhyfedd ni cheir bun i oed,
 A gweled coed cydecod;
 Blodau hafaidd hyd y llawr,
 A gwych y pawr a'i lased.

Canes côg ers llawer dydd,
 A phêr yngwŷdd ei chlywed;
 Llawen mwyalch a'i balch big,
 Ni chân yngwig ei phered.

Darfu gyrwynt tros frig gallt,
 A'r tonddwr hallt a ddofed;
 Daeth oes cynnes hafdes hardd,
 Ni chanes bardd ei cheined.

O daw Llio i oet dydd,
 A chael yngwŷdd ei gweled,

Can y Mai.

Gweiliaf dŷ a gwely dail
Dan wiail, dyna ' neued.

O daw'r ferch, dyn wiwserch wyl,
Em anwyl, yw ' namuned,
Esgud awn i lasgoed îr,
A llenwir serch ein lloned.

Gwilym Tew (circa 1450.)

II.

BOREUDDYDD.

Gwrandewch ganmol brig y don,
Iraidd wynion ddeurudd,
Gorlliw ewyn ymlaen lli,—
Fe'i gelwir hi *Boreuddydd*.

O baem noswaith niwlog, blin,
Yn rhodio gerwin fynydd,
Mi a law'nychwn uwch y rhiw
Pan welwn liw *Boreuddydd*.

Ni ddymunwn hirddydd ha',
Pan fydde lasa'r dolydd,
Ond cael rhodio 'r hyd y rhai'n,—
Myfi a'r fain *Foreuddydd*.

Boreuddydd.

Bara a dwr dri Gwener gwyn,—
A hyn a wnawn i'n ufudd,—
Gyda gwisgo crys o rawn,
Pe gwyddwn i cawn *Foreuddydd.*

III.

CAROL I'W GARIAD.

O wir drymder canu'r wy',
Nid o nwy' na maswedd,
Ond un modd a'r alarch gwyn
Yn canu cyn ei ddiwedd.

Afraid im dy ganmol, bun,
Na'th liw, na'th lun, lle'i delid,
Ond wrth ynfyd, ffôl, neu ddall,
Ni ddichon ddeall glendid.

Ni bu, nid oes, deuliw'r ôd,
Ni ddichon fod yng Nghymru,
Fab a garodd ferch yn fwy
Nag yr wy' i 'n dy garu.

Gwn y gwyddost bart o'm clwy'
A maint yr wy'n dy garu,
Eto'r wyt a mi—Ow, p'am?—
Yn gwneuthur cam er hynny.

Carol i'w Gariad.

Nid am goweth,—Duw'n dyst,—ferch,
Ond o serch a chariad
I ti'n unig, y rhois i
Fy mryd a'm ffansi arnad.

Er cyfrannu o Dduw im lai
O dda na rhai a'th geisiodd,
Er a'i gwado, mi a'i gwna'n dda
Mai fi yw'r mwya' a'th garodd.

Odid anfoes, llid na bâr
Rhwnng dau a gâr yn ffyddlon;
Gwell ychydig drwy râd Duw,
Na'r byd a byw'n anfodlon.

Richard Hughes.

IV.

CAN I GIWPYD.

Dyn wyf fi sy' brudd heb wên,
Ni byddai lawen ennyd;
Ond am fy ngholled ni wna i lai
Na bwrw'r bai ar Giwpyd.

Can i Gwopyd.

Y fo yn saethu'n amal iawn,
A minne'n llawn diofalwch ;
O ran ei hanwadalwch hi
Digwyddodd i mi dristwch.

Mi a fum flwyddyn, doedai'n hy',
Fy hun yn caru honno ;
Fe ddaeth ynte a'i olwg wan,
A'i dwyn hi dan ei ddwylo.

Ond mawr na bai yn Lloeger faith
Ryw fath ar gyfraith union,
Naill a'i nadu hwn i'r dre,
Ai torri ei saethe llymion.

Er cael colled am fy Ngwen,
Mi a fydda'n llawen eto,
Mewn gobaith mawr cyn hir o ddydd
Y bydd hi'n rhydd oddiwrtho.

(*Circa 1640.*)

V.

ARWYRAIN RHIAIN Y RHIANEDD.

Meillionen burwen beredd, o fonedd rinwedd ryw,
 A luniodd Duw yn lana', hawddgara', fwyna'n fyw;
 Gwech raddol rasol rosyn, lliw plisgyn irwyn wŷ,
 Un dyner, cofia am dana',—bryd Efa, noddfa nwy',
 Yn hardd fel gardd deg urddol o lesol nefol nod,
 Ail Fenws, oleu, fwynwar, lon, glaear, lawn o glod.

Rhain yr holl lendyd, gnawd hyfryd gain wyt ti,
 Diana i daflu hudolieth, mewn afieth o'm blaen i;
 Well-well fel Siwsanna, a'th eirda a wela'n wych,
 F' angyles, yn fy ngolwg mor ddi-ddrwyg yw dy
 ddrych;

Yr wyt ti, meinir odieth, yn berffeth beth i'r byd,
 Hawddgara', a'r fwyna', f' enaid, deg euraid wyt i
 gyd.

Dy fanwallt tros dy fynwes sy'n taenu'n llaes fel llin,
 Pob modfedd rinwedd raenus, yn drefnus wrth ei
 drin;

Tra byddo ffansi ffyddlon ynghalon gyfion gwr,
 Cei gariad di-derfyniad trwy sail osodiad siwr;
 Tra byddo adar oediog yn rhodio brigog bren,
 Bydd hynod glod y gwledydd iach beunydd uwch
 dy ben.

Arwyrain Rhiain y Rhianedd.

Tydi yw Phenix ffyniant, tydi yw seren serch,
Tydi sydd bêr winwydden o foliant, irwen ferch;
Tydi sydd hylaw heulwen, eglurwen, glaerwen, glir,
Dy lendid sy'n disgleirio i serio llanciau'r sîr;
Gwen eneth fel gwenynen, a'i mân yw mwynen mêl,
Dy gorff, dy gnawd, dy fwynder, mun dyner, i mi y
dél.

'Rwy'n danfon serch a chariad a chaniad atoch chwi,
I 'smwytho caeth ochneidion sy'n 'nafu 'nwyfron i;
Chwi gawsoch wraidd fy meddwl yn gyfa' gwblwl,
gwawr,

A chwithau, gangen heini, a'ch serch yn oeri'n awr;
Rhyw ofal sy'm rheoli, 'rwy'n ofni am Wen liw'r ôd,
Gan hiraeth a gorthrymder, cyfyngder y ca'i fod!

Trwy fy hun mi a'ch gwelwn, bun addfain, gefn y
nôs,

Yn hoew fenyw feinwasg, fel gwridog ddamasg rôs;
Ow! Ow! na chawn yn effro, pan fawn yn nofio o
nwy',

Mor hawdd eich nawdd i'm noddï, i ddiffodd cledi
clwy'!

Sala swydd yw seilio serch a marw am ferch mor
fwyn,

Ac oni cha' eich 'wyllys da, fe ddarfu am dana' ar
dwyn.

Huw Morus.

VI.

MOLAWD MERCH.

Y fun iraidd fwyn, clyw ganu clau gŵyn,
 A wnaeth im' dy ganmol, M. ddoniol i 'mddwyn,
 Y ffyddlon gorff aeth yn gul ac yn gaeth,
 Dy weddaidd air peraidd genethaidd a'i gwnaeth;
 Un diwrnod nid oes, ni wn funud yn f'oes
 Nad wyf yn dy hoffi, mewn drysni mi 'mdroes;
 Fy hiraeth sydd fawr, bun burwen, bob awr,
 I'm dysgu rhag cysgu'n fy ngwely, fy ngwawr!

Cariad yw'r cur a borthais i'n bur
 Heb lid na chenfigen i'm seren ddi-sur;
 Fe brifiodd yn hy' lle gwreiddiodd yn gry',
 Er llidiog drallodion, athrodion, ni thry.
 Fy nuwies fwyn nod, da fyddai dy fod
 A'th friwiau fel finnau, lloer olau, lliw'r ôd;
 Ni fynnwn i fwy na'th gael o'r un glwy',
 Cawn fwynder am fwynder yn amser fy nwy'.

Fy nghalon i sydd yn danfon bob dydd
 At flodau brig dansi, lon ffansi, lawn ffydd;
 Mor bêr yw dy bryd fel rhôs ar lan rhyd,
 Neu loew wen lili, neu deg bwysi'r byd;

Molawd Merch.

Dy gusan di-gél yw'r mwsg ar y mêl,
Cnewyllyn dy ddeufin i'm dilyn y dêl;
Mwy braint a mwy bri cael ymwasgu a thydi
Na chyweth brenhinieth, gwen eneth, gen i!

Nid ydyw da'r byd, a'i hyder, o hyd
I wŷr ac i wragedd ond gwagedd i gyd;
Mawr serch a hir sai', da drysor di drai,
Yn hwy o flynyddoedd na thiroedd na thai.
Cei draserch heb droi, a chalon i'w chloi,
Os wyt ti f' anwylyd, yn dwedyd y doi;
Os tynni di'n groes, mae'n berygl am f' oes,
O gariad, dwys drawiad, 'madawiad nid oes.

Dy harddwch dy hun, lân Fenws, lon fun,
A'm gyrrodd mewn gofid am lendid dy lun;
I'm bron y mae briw, y gangen deg wiw,
Os lleddi dy gariad a'th lygad a'th liw.
Ow! meddwl, M. I., mai gogan a gei
A gormod o bechod mewn anghlod a wnei;
Ti fyddi, da'i rhyw, gwawr anwyl, gwir yw,
Os lleddi fi wrth garu, 'n 'difaru'n dy fyw.

Rhag clywed pob gradd yn lliwied fy lladd,
Gan ddwedyd, "Gwae honno, er ceisio, a'i nacâdd!"
Moes gusan, moes gael mwyn eiriau, main ael,
A phardwn a phurdeb dy wyneb di-wael;

Molawd Merch.

Moes galon lwyslawn, cardigrwydd a dawn,
Tiriondeb, ffyddlondeb, uniondeb yn iawn ;
Ystyria, moes di, lliw ewyn dwr lli,
Drugaredd gyfaredd, M. waredd, i mi.

Huw Morus.

VII.

MOLAWD MERCH.

Y gu eneth gain, a'r goleuni glain,
Benodol bun wiwdlws, liw Fenws ael fain ;
Eich tegwech a'ch dawn, rhy loew a rhy lawn,
A'm gyrrodd dan gurio, i dramwyo'n drwm iawn ;
Ciwpyd a'i gwnai, fe fu arno fai,
Na wnaethai ar gariad na throeadd na thrai ;
Os serch a hir sai', fel llwydrew fis Mai
Mi a dodda'n y diwedd, modd rhyfedd, medd rhai.

Fy llygaid fy hun a'm clustiau'n gytun,
A wnaethon' gam hwythau, bu beiau ar bob un !
Am graffu ar eich lliw, y winwydden wiw,
A gwranddo'ch ymadrodd a'm brathodd i'm briw,
'Rwy'n diodde' ac yn dwyn pur gariad heb gwyn,
Oblegid fod glendid yn f' erlid yn fwyn.
Ni fuasai dan f' ais na thrallod na thrais,
Pe boaswn heb weled a chlywed eich llais.

Molawd Merch.

Cardigrwydd rwydd radd mewn cwlwm a'm cadd,
'Rwy'n ofni mai cariad i'm lleuad a'm lladd ;
Os tegwch a'm dwg i'r ddacar ddi-ŵg,
Fe fydd i chwi ogan a'i ddrogan yn ddrwg ;
Ystyriwch mewn pryd mai gwagedd i gyd
Yw cywaeth, hudoliaeth, bywioliaeth y byd ;
Llareiddiach, lliw'r ôd, i fyw ac i fôd
Yw twymyn ffyddlonddyn na cherlyn â chôd.

Dyn wyf fi dan ia, ni wn beth a wna'
Am wres a chynhesrwydd, rhywiogrwydd yr ha';
Y chwi a'm hiacha, os dyfn 'wyllys da
O'ch tyner glaeawch hawddgarwch a ga';
Mi fyddaf, fy lloer, di ana' a di oer,
Yn llon ac yn llawen fel clomen mewn cloer ;
Mwy mawredd i mi eich hardd wyneb chwi,
Liw Efa, na lifin mawr frenin a'i fri.

Canmoliaeth a gewch, os chwi drugarhewch,
Rhoi purdeb am burdeb, mewn undeb, a wnewch ;
Rhowch imi serch lefn, drych afiaith drachefn,
A chariad am gariad, di-droead, da 'i drefn ;
Wel, dyna'r tri pheth, na phlŷg teg ei phleth,
I gynnal diddanwch, difyrrwch di-feth ;
Gwell i barhau yw dwy galon glau
Na dwyfil o bunnau yn dyrrau rhwng dau.

Molawd Merch.

Dymunwn cyn hir, wen seren y sir,
O waelod cydwybod gael gwybod y gwir,—
Oes modd imi, 'r fun, eich cael wrth fy nglun,
Y wiwloer ddi-welw, ar f' elw fy hun?
S gynnes os ca' y wawr ddydd, ar awr dda,
Iawn ddwedyd, "Rwyn ddedwydd," yn ufudd a
wna'—

"Meillionen y llês yn goflaid a gês,
"Lân ethol wenithen, sef twysen y tês."

Huw Morus.

VIII.

I HYFAWL RIAIN.

Y gangen gain, foddol, fain,
Gwyradd, gywrain, riain, reiol, seren siriol,
Wiwddoeth, weddol, o rasol freiniol fron;
Derbyn di, yr oreu 'i bri,
Yn ddiwegi genni' ganiad, arwydd tyfiad
Gwrol gariad, y wastad leuad lon.
Un feinir glir ar dir nid oes
A gara' i 'n f' oes yn fwy
Na thi, lliw'r don, lili lon,
Dirion, wenfron, wiwlon, olau, gwenlliw'r blodau,
Pwy na'i hoffai, a'i gwelai'n nyddiau 'i nwy'?
Fy lloer naturiol, arnat ti

I Hyfawl Riain.

Y syniais i fy serch,
O ran dy fod a'th rudd fel 'r ôd,
Fein-gan, barod, hynod, hoenus, ddinam, ddawnus,
Lawen, liwus, y fedrus, foddus ferch !

Pe casglwy' 'nghyd ferchedau byd,
Fel y'u gwelid cfo'u gilydd o ben gwinwydd
Glân y gwledydd, gymaint sydd ar sail,
I'r un man, i dref neu lan,
Ddiwael, eirian, fein-gan, fwyn-gu, 'r ydwy'n credu,
Leuad Cymru, y methwn dynnu d' ail.
Dy glod, a'th fawl, glau odiaeth ferch,
Sy'n peri i'm d' annerch di
Am lendid lwys, a 'madrodd mwys,
Wawrlon, eurlwys, berlwys, burlan, hardd, ryw-
ioglan,
Fwyn, ddi-ogan, o ddinam freulan fri;
Nid oes mo'th debyg mewn un man,
Don seirian, dan y sêr
Am draethu hedd o'th min fel medd,
O bur rinwedd, hoff, eirianwen, siriol glomen,
Liwus, lawen, y gangen burwen, bêr.

Yr ydwy'n glaf, pa beth a wnaif?
Wrthyt, rien, wawr oleuwen, clyw fi'n ochen,
Gwna i mi 'lusen, y gangen lawen lwys;
Ac oni cha' d' ewyllys da,

I Hyfawel Riain.

Byw nid alla', mwyna' meinwar,—caeth yw'r carchar,
Cyfyng siambar, tan y ddaear ddwys;
Bydd prudd fy lle mewn pridd a llwch
O waith dy degwch di,
Os ti, gwawr glyd, ni 'mroi mewn pryd [edd,
I 'smwytho 'nghlefyd, benyd bonedd, trwy drugar-
Feinir fwynedd, un weddedd, ffraethedd, ffri.
Iachâ o gur, gwawr deg ei gwedd,
Rieinedd, luniedd lân;
Mi wn, y fi, y rhoddi di
Gysur imi, eli i 'nolur;—coelia, feinir,
Araith eirwir, tra traethir, gywir gân.

Fy newis beth, mun deg ei phleth,
Trwy orchafieth, odieth ydyw cael dy gwmni,
Gwen gnawd lili, i gydoesi ein dau;
Os doi i'r daith, mwyn ei hiaith,
Ti gei berffaith lawnfaith wynfyd, awr ac ennyd,
Trwy lawenfyd, a hawddfyd clirfyd clau:
Ffyddlonaf dyn a luniwyd wy'
I ti, lliw'r wÿ, erioed;
Bydd dda gen i, lle rhodi di,
Gangen wisgi, heini', hoenus, garu'n ddilys
A'm holl ewyllys ol dy drefnus droed;
Fy mun deg gu, er dim dy gael
Mi fynnaf, feinael ferch;

I Hyfawel Riain.

Fy ffydd sydd gref yn Nuw o'r Nef,
Nosau a dyddiau, foddau ufuddol, i fyw'n obeithiol
Yn wastadol trwy gysurod serch.

Ow ! tost yw hyn, y foddol fun,
Na chae gorffyn iach gywirffydd fynd o gystudd,
Gerwin gerydd, y sydd o'ch herwydd chwi:
Fe a weli di, teg ei bri,
Pwy sy i'th hoffi heb dewi o'r diwedd,—gwna dru-
garedd

Barod buredd, yn fwynedd â myfi !
Os doi yn fwyn i estyn f' oes,
Iacheir fi o'r loes yn lân ;
Ti gei barch hyd fy arch,
Tan ymgyfarch, tyn fi o'm gofid, na âd i fawrlid
Amlwg ymlid fy nghalon ddiwyd dda ;
Ow ! ystyr hawl fy 'stori hon,
A'm cwynion sythion sydd :
Na âd i'm clwy' fynd yn fwy,
Fy nghaled adwy dramwy'n drymach, sydd heb
eiriach,
F'enaid fwynach, yn rhwyddach trugarhâ.

Huw Morus.

IX.

CWYN CARIAD.

Fy ngwenithen lawen liwus,
 O ran dy ddäed 'r wy'n dy ddewis ;
 Nid am ddiwrnod hynod heini'
 Y dymunwn gael dy gwmni,
 Nid am fis neu ddau, neu flwyddyn,
 Trwy gymhendod ar wan dafod yr wy'n d' ofyn ;
 Tra fo f' einioes heb derfynu,
 Mynnwn beunydd, difai ddeunydd, dy feddiannu.

Ystyria dithau 'stori y doethion,
 Y glana' i'w gael yw'r glana' ei galon ;
 Mwyaf mawredd yw bodlonrwydd,
 Y man y bo y bydd diddigrwydd ;
 Lle byddo dau'n un gywir galon
 Gyda heddwch, ufudd degwch, fe fydd digon ;
 Gwell iti ar les dy gorff a'th enaid
 Fwynddyn serchog na gwr tiriog ar gowrt euraid.

Os a'th gâr a'th geiff, gwawr olau,
 Mae'n ddi-alar, meinaidd aelïau ;
 Myfi a fydd trwy ddeddf cyfiawnder
 I'th feddiannu, perl y purder ;

Cwyn Cariad.

Moddus afiaith mi ddeisyfa' [goelia';
Gael gwir union mwyn o'th galon, minnau a'th
Llunia amod llawen imi,
F' anwyl feinwen, gua' dwysen, i gyd oesi.

Huw Morus.

X.

CYFFES Y SERCHOG.

Ystyriwch, baunes dirion, a'r minau mwynion mêl,
Nad ydyw gweithred gyflawn na sicr iawn heb sêl;
Nid ydyw'ch glendid gloewaidd ond marwaidd nôd
i mi

Heb gael addewid fywiol o'ch bron fucheddol chwi;
Os ca' a ddymuna', meinwen, fy nghlomen wrth fy
nghlun,

Cewch weled arnaf arwydd llawenydd beunydd, bun.

Haws troi'r hen afon Ddulas i'r bryn i Ddinas Brân,
Na throi fy serch oddiwrthych, fy nrych goleuwych
glân; [gwir,

Ac oni cha'i'ch meddiannu, nid gweddol gwadu'r
Gwell i mi gael fy nghladdu na nychu, a hynny'n hir;
Fy nghalon fydd i'ch caru, tra byddwy'n chwythu
chwyth,

A'm hwyllys i'ch cofleidio—ni fedraf beidio byth!

Huw Morus.

XI.

BYRDER EINIOES.

Ieuencid nwyfus, anrhydeddus,
 Cydystyriwch gŵyn dosturus yn un fwriadus fryd ;
 Na rowch hyder ar ddisgleirder,
 Tegwch tyner, dysg, na doethder, nac uchder balch-
 der byd ;
 Nid ydyw golud, parch, neu glod
 Ond adail darfodedig ;
 Nid ydyw hardd hawddgarwch gwedd
 Wrth borth y bedd ond benthig ;
 Fel llysie ar lân fore mewn gloew flode glân,
 Cyn darfod y diwrnod dan gawod gwywo wnân'.

* * * * *

Einioes glanddyn sydd fel rhosyn,
 Teg flodeuyn mis Mehefin, ar dyddyn hanner dydd ;
 Pan fo siriola' y gwrês a'i gwywa,
 Y gwynt a'i chwytha i ffwrdd fel hedfa gwennol o
 law'r gwŷdd ;
 Fel y saeth o'r bwa yw,
 Fel gwalch yn hoew 'hedeg ;
 O awr i awr, o ddydd i ddydd,
 Yr hoedel sydd yn rhedeg ;

Byrder Einioes.

Tynghedfen, fel mellten, ar ddamwen oer a ddaw,
Ac angau'n ddichwarau a'i gleddau, briwiau braw.
* * * * *

Na oganed mab a'r aned,
Ac na farned neb mo'i dynged, ond holed pawb ei
hun;

Nid oes un gyfle ddieithr i ange,
Er nas gwelir drwy naws gole, na'i liw, na'i le na'i
lun;

Ni wŷr y doetha' a'r ucha' ei ran,

Pa fodd, pa fan, pa funud,

Y daw a'i saeth, oer wae di swyn,

A'i fwa i ddwyn ei fywyd;

Rhai'n dyfod i'r tywod trwy nychdod dyrnod taer,

Rhai'n sydyn, fel derwen, a dorrai dwylo'r saer.

Huw Morus.

XII.

CYFFES A HANES DIC Y DAWNS.

Pob glanddyn cariadus, afieithus, yn fwyn
Gwrandewch ar fy hanes, a'm cyffes, a'm cwyn;
'Rwy'n dangos hysbysrwydd wych hylwydd i chwi,
Na welsoch chwi haeach ynfytach na m'fi;

Cyffes a Hanes Dic y Dawns.

Mi a fum mewn oferedd yn hoewedd yn hir,
Ac weithiau'n byw'n boenus, awyddus yn wir
I ennill y geiniog mor gefnog a'r gwynt,—
Er cynted y'i 'nnillwn mi a'i gwariwn yn gynt.

Llawer celfyddyd, wr ehud, erioed
Yn ufudd fy nyfais a dreiais ar droed;
Pob campiau, pob castiau, rhag gostwng fy ngradd,
A phob math ar afrad, ond lledrad a lladd,
Mi fum yn gyfoethog er gwaethed fy nghwrs,
Ac arian yn gorwedd ym mherfedd fy mhws.
'Roedd pawb yn fy mostio, i'm treio â phob tric;
Nid oedd neb ynfytach na dewrach na Dic.

Ynghwmni'r ieuencid ni welid neb well,
Canfyddid fy nghysgod yn barod o bell,
A llawer cydymaith, drwy fawr weniaith draw,
Mewn ufudd lawenydd a lynai'n fy llaw;
Dywedai'r cybyddion mor oerion a'r ia
Fy mod i'n gymydog nodedig o'r da;
Cawn ganddynt fy nghoelio, a rhodio'n wr rhydd,
Tra bum i'n gofalu am dalu'n y dydd.

Tra bu gennyf geffyl mi gawn fenthig march,
Tra gellais ei ganlyn gan bobdyn cawn barch,
A chroeso, a chymeriad, a chariad a chwyn,
A Nosdawch a Dy'dawch, a dwedyd yn fwyn;

Cyffes a Hanes Dic y Dawns.

Anwadal fynediad yw rhediad y rhod,
Y golud pan giliodd, newidiodd y nod,
Y parch a'r helaethrwydd a lithrodd yn is,
A Dic aeth yn hurtyn heb ronyn o bris.

Tra bum yn wr cynnes a'm lloches yn llawn,
Fy marnu'n synhwyrol ragorol a gawn ;
Troi'n ynyfd a wnaethum pan aethum yn ol,
Di-ras, a direswm, a phendwrwm, a ffol ;
Fy anwyl gymdeithion a droison' y drych,
Yrŵan nis gwelan' ysgoewan was gwyh ;
Heb un gair o gellwair, pe gallen', yn rhwydd
Ynghysgod rhedynen ymguddien' o'm gŵydd.

Ni cheir un gymwynas gyweithas fel gynt,
Ni roir i mi garrai lle gweriais i bunt ;
O ganol y gwenith (fy mendith i'w mysg)
Fe'm gyrrwyd i'r braenar i brynu fy nysg.
Er blined fy ngherdded, er lleied fy llês,
Adnabod rhai dynion yn gyson a gês ;
Pan gaffwyf gynheddfau rhinweddau'n y rhai'n,
Afalau ga'i 'n felus mewn dyrus lwyn drain.

Yn hwyr brynhawn gynne, nid bore, gwybum,
Mai di-fudd a diofal benfeddal a fum ;
Ni orffwys yr iachus ar erchwyn y cla'—
Caredigrwydd â'n ddifudd os derfydd y da ;

Cyffes a Hanes Dic y Dawns.

Ni welwn mo'r pethau yn nyddiau fy nwy',
Er lledu fy llyged cyn lleted a llwy !
Yr awron 'r wy'n canfod wrth hynod waith hael
Nad ydyw cydymeth digyweth ond gwael.

Llawer a heuais, ni fedais i fawr,
A heuais, mi a'i tenais, gollyngais i'r llawr ;
Os medru a wnai gasglu, rhag ail methu ' mwth
Ni fynnai roi f' ennill mewn rhidyll mor rwth ;
'R wy'n dallt wrth gydnabod a'r gafod a ge's
Mai oerllyd yw aelwyd heb gronglwyd na gwrês ;
Gwell imi na chastell gorchestol yr un
Dy bach ar ben erw o'm heiddo fy hun.

Huw Morus.

XIII.

PRIF DDULL NATURIAETH.

I ba beth y gwnaed y byd
Ac y cynhaliwyd hwn o hyd,
Er dechreuad hyn o bryd ?
Ni bâm i ond ennyd ynddo,
Nid wyf fi ond gwirion, Duw'n fy rhan,
Rwy'n gweled hyn er synwyr wan,
Mai amla arfer ym mhob man—

Yw cogio.

Prif Ddull Naturiaeth.

Nid oes un deyrnas dan y Ne',
Nid oes na gwlad, na thrad, na thre',
Nid oes na man, na llan, na lle,
Na chyfle ond i chwilio;
Nid oes nag oes na blwyddyn faith,
Mis na dydd, na munud chwaith,
Na bo nhwy oll yn deall gwaith—

I gogio.

Y gwr gwnog enwog iawn
Yn ei wisg a'i ddysg a'i ddawn,
A'i ymadroddion llon yn llawn,
A hynny am gyfiawn bledio;
Os chwi a roiff yr aur o'i flaen,
Fe chwery hwn *Legerdemain*,
Mae ganddo driciau Lloegr a Spaen—

I gogio.

A'r Eglwyswr, Doctor mawr,
A'i own a'i gassoc laes hyd lawr,
Chwi a'i cewch o'n dwndro fel y cawr,
Tra fyddo'r awr yn pasio,
Yn traethu beiau cymaint un,
Twyll a malais calon dyn,
Fe wŷr hwn y ffordd ei hun—

I gogio.

Prif Ddull Naturiaeth.

A'r Physygywr caeth i'r cry',
Gwr mawr ar y methiant lu,
Pa le bynnag y bo 'i dy,
Bydd rhai yn cyrchu ato
Am gyffuriau loned sach,
I gael eu gwneud hwy oll yn iach ;
Ym mhob un bydd tipyn bach—
O gogio.

Beth am y cerlyn cottyn clyd,
Sy' a'i ysguboriau 'n llawn o yd ?
Fe fydd yn disgwyl blwyddyn ddrud,
A hon sydd hyfryd gantho ;
Os eiff i werthu yd neu wair,
Neu hen geffylau hyd y ffair,
Bydd siwr i'r sawl a goelio 'i air—
Ei gogio.

Y Marsiandwr cefnog gwych,
A'r Morwr braf a'r wyneb brych,
A fydd yn croesi'r cefnfor crych,
Fe fyn ei fynych gargo ;
Os edrychwch ar ei war,
Pob pac, pob bwndel, mawr yw'r bar.
Beth ydi'r marc, a beth ydi'r tar—
Ond cogio?

Prif Ddull Naturiaeth.

Gwaith y Porthmon hyd y ffeiriau,
Gwaith y gwyr sy'n cadw siopau,
A gwaith gwragedd tai'r tafarnau,
A gwaith pen clarciau Llwydlo ;
A gwaith y trinwyr llin a gwlan,
A gwaith cofleidio llances lân,
A gwaith priodi o Siôn a Siân—

Yw cogio.

Beth am y Teiliwr, a pheth am y Gwydd ?
Beth am y Cowper, beth am y Crydd ?
Beth am y Gof, a'r Pannwr prudd,
A'r Melinydd cryno ?
Chwi gewch y rheini yn ddi-wad
Yn trin eu gwaith mewn tre' a gwlad
A'u dwylo traws, yn dilyn trad—

I gogio.

Afraid i mi draethu mwy
Am wyr cleifon o'r un clwy' ;
O'm rhan fy hun 'wyllysio 'rwy',
Ni waeth gen i bwy a'i gwypo,—
Nid ydwy'n ceisio bod mor lân,
Am ryw ddiniwed gastiau mân,
Mi fedraf finnau wnaeth y gân—

Beth cogio.

XIV.

CAROL CIWPYD.

Fel 'r oeddwn nos Wener yn cymryd fy 'smwythder
O'm poen ac o'm blinder yn nyfnder y nos ;
Ces freuddwyd trwm-hunog, fe gofia'r fron ddrylliog
Hyn yma o beth ofnog bythefnos.

Clywn esgill yr hwylwynt, a nerth y Deheuwynt,
A swm megis corwynt yn curo 'mron gaeth,
A'r gwydyr yn siglo a goleu'r lloer arno,
A dychryn yn taro i'm naturiaeth.

Troi 'ngolwg i 'styriaeth, a chael gweledigaeth,
Pwy oedd mewn ias afiaith yn sefyll ger llaw :
Bachgennyn anwastad, sef Ciwpyd, duw'r Cariad,
A'i saethiad ar ddaliad ei ddwylaw.

Gwr gwamal, adeiniog, aur walltiad modrwyog,
A bwa cwmpasog analog ddoe 'n nes,
A'i euraid saeth ganddo,—mi lefais trwy gyffro
Rhag iddo fo 'i minio 'n fy mynwes.

“ Paid, Ciwpyd, o'm dwyfron—on'd digon yw digon
O serch yn y galon heb gilio ddim llai ?

Carol Ciwpyd.

Na ddyro lwyr laddiad i'r gwirion o gariad,
Pardyniad i'r deiliad a'i dylai.

“Rwy' fi er ys pymtheg, neu flwyddyn ychwaneg,
Dan d' arfau di 'n rhedeg, ond rhy-dost fu'r bar ;
Pwy wnaeth wrth ystyriaeth it' fwy o wasanaeth,
Naturiaeth dynoliaeth dan alar ?

“Mi genais gerdd gwplws i lawer merch wiwdlws,
Gen ti a'th Fam Fenws mi fynwn gael clod ;
At ddynes anciriol yr awn yn wastadol,
Ni wela'i fawr bobol heb wybod.

“Os hapie i ofn adfyd fy nhynnu at un ynfyd,
O chwant am ei golud, nid gwynfyd ei gwedd,
Mi godwn serch twymyn â merch yr hen gerlyn,
Heb fod ynddi ronyn o rinwedd.

“Ac felly 'rwy'n wastad yn filwr pur danad,
Na saetha fi a phigiad neu drawiad rhy drwch,
Ond dyro i mi'r pardwn yn ddilys a ddylwn,
Mi dybiwn yr haeddwn awr heddweh.

“Ymhellach 'rwy'n gofyn, p'le gwneis i fai 'n d'erbyn
Ond bod yn ymgalyn yn dwymyn ar d' ol ;
Gwn hoffi a llawn fwriad d' alluog deyrnasiad
A'th gariad llym hediad llam hudol.

Carol Cwpyd.

“ Ni ddwedai chwaith iti fod rheswm yn peri
I'm felly dy hoffi,—nid hyffordd y tro :
Ond anian fy natur drwy gerdded cam lwybyr
Sy'n erbyn fy synwyr yn seinio.”

A Chiwpyd yn ddie mewn tyb a'm hatebe,
Gan ddwedyd mwyn eirie mewn araith oedd dda:
“Nid ydw i mor llidiog i'th erbyn, ddyn serchog,
Am hynny bydd gefnog, nag ofna.

“Ti wnaethost y gore o'th oed ac o'th ddyddie,
'Rwy' felly 'n cyfadde' cu feddwl dy serch,
I'm llys, fel rhyw gynghor neu ddeiliad anhepgor,
Drwy gasglu imi drysor o draserch.

“Ow, gwranddo, fy neiliad, mi wela' fai arnad,
Broffesu gwir gariad mewn cydiad mwyn cu,
A throi oddiwrth Wenddydd fel llwfr was diddef-
nydd,
Pan gafodd hi gerydd am garu.”

Y BARDD.

“Ow, Cwpyd, fy meister, ni chiliais un amser,
Oddiwrth y fun wiwber, oedd dyner dda'i dallt,
Gwn wylo 'r afonydd hyd gulni fy nwyrudd
Oherwydd ei cherydd, ferch eurwallt.

Carol Ciwpyd.

“ Pa les imi, er myned at luniedd aur Luned,—
Ni fyn hi mo'm gweled, gu, wiwlan, liw'r tês—
Chwanegu at ei thristyd, lle troes ei meddylfryd,
A pheri mwy penyd i'm paunes.

“ Fe wŷr y Gorucha' na chyll y dim lleia'
O gariad hon yma hen amod a fo,
Os ydyw'r hardd leuad, er maint sydd yn siarad,
Heb newid mo'i bwriad i'm bario.

“ Fe edwyn lloer wenbur fy muchedd a'm natur
Yn well na'r absenwyr sy heb synied yn dda.
Hi wŷr yn ei chalon na ddywed athrodion
Mo'r union i ddynion am dana'.

“ Ystyried cydwybod pob rhai sydd yn athrod,
Fod cariad oddiuchod, na ddichon y byd
Mo'i symud o'r ddwyfron, os bydd o serch ffyddlon;
Bodlonrwydd y galon yw'r golud.

“ Ow, Ciwpyd afeithus, moes gyngor llwyddiannus,
Pa fodd y gwnai f' 'wyllys yn hyspys i hon ;
Fe bery serch wiwgar i ddynes ddianwar,
Er athrod a thrydar athrodion.”

Carol Ciwpyd.

CIWPYD.

“ Gwrando, fy neiliad, ymsiria 'n dy siarad,
Mi ddaethum hyd atad, da 'hedriad di hûd :
Mae mam yn fy hwylio mewn serch i'th atgofio,
Fel gynt at Calisto, coel astud.

“ Mi a' drosot ti 'n gennad, 'rwyn hudol ar 'hedriad,
A'm bwa ar ei 'neliad, rho' saethiad o serch ;
Nid oes drwy gyfryngdod tan oleu'r nef uchod
Eill weithio mwy drosot ti o draserch.

“ Mi fynna i ti gyfle drwy ddirgel bwytmanne
I siarad mwys eirie a'th seren dda'i gwedd,
Cei goelio o galon na throes mo'i meddylion,
Pen bloden rhyw union rhianedd.”

Y BARDD.

“ A glywi di, Ciwpyd, on'd gwaetha imi symud?
Os cawn i f' anwylyd, fain oleu, liw'r ôd,
Ymroi fel dyn gwirion tan ddwylo 'nghaseion
Er maint fydd o'i dynion i'w dannod.

“ Nid awn at liw'r hinon, a'i ffrins yn anfodlon,
Ond clywed fod Gwenfron, gu union ei gwawr,
Yn ffyddlon ddidroeod, os coelir rhai 'n siarad,
Heb newid ei chariad, wych eurwawr.

Carol Ciwpyd.

“ Am hynny dos ati, doed a ddel iti,
Dan obaith daioni di-anair a chêl :
Ac yno dof inne, yn ol dy bwyntmanne,
I selio 'r amode neu i 'madel.

“ Os cais y ddyn wiwglod dy omedd di o amod,
Nag ymbil chwaith ormod a'r hynod wawr hael;
Mawr lwyddiant i Wenfron a roddo Duw cyfion,
Wrth fodd ei gwir galon, gwawr gulael.”

CIWPYD.

“ Y carwr aflonydd, cei glywed rhyw newydd,
Ar hedfa f' adenydd 'rwy'n saethydd a'm serch ;
I ennyn gwres cariad, a'm bwa ar ei 'neliad,
Rhof bigiad o gennad ac annerch.”

Ar hynny pan dawodd i'r uchder fe 'hedodd,
A chwsg a'm gadawodd, ni'm daliodd mor dynn.
Deffrôdd fy synhwyre gan dywallt ochneidie,
A'r diwrnod yn dechre mewn dychryn.

A chan i mi ddwedyd fy meddwl i Giwpyd,
Ni wadai mo'm breuddwyd, er penyd i'm pen,
Deongled a'i gwypo, a thawed nis medro,
Tra byddw' i'n ymsirio am fy seren.

Edward Morus.

XV.

YR HAF YN LLATTAI.

Gan godi 'r dydd cynta' o Fai o'r claeara
Gydag Aurora, gwir arwydd i ni
Mae amser godidog yn twyso'r haf tesog,
A Phoebus, olwynog oleuni.

“ Dydd da fo i'r Haf perffaith, nod yngan naw deng-
waith

Mi a'th welais di yn odiaeth newidio pob glyn ;
A hefyd can croeso i'r wlad i lawn ffrwytho,
Lle'r wyt yn disgleirio 'n dês clærwyn.

“ Mae'r wlad yn dy hoffi am dy fod yn ei hoewi,
A Fflora 'n dy gwmni da heini dy hun,
A thithau mor enwog, a'th siaced werdd wlithog,
Ariannog fytymog fyd twymyn !

“ Mae'r coedydd yn glasu, mae'r meillion o'th
ddeutu,

Mae dail y briallu yn tyfu 'mhob twyn ;
A'r adar diniwed yn lleisio cyn fwyned,
I'w clywed a'u gweled mewn gwiwlwyn.

Yr Haf yn Llattai.

“Y tirion Haf perffaith, mi ofnais fynd ymaith
O'm helynt a'm halaeth i'm helor i'r gro,
O serch ar loer addfwyn cyn gweled y Gwanwyn,
Y dolydd a'r dulwyn yn deilio !

“Ond bellach mae 'ngobaith dy gael di'n gydymaith,
Diddanwch naturiaeth mwy afiaith i mi,
Dan ddisgwyl yn fwynedd dy gymorth di-gamwedd
I fynd a'm dŷn luniedd dan lwyni.”

YR HAF.

“Y Cymro llawn pleser, prysura at ei mwynder,
Cyn colli o'm hamser a'm llawnder a'm lles ;
Mi fydda'n ufuddol o'th du di 'n wastadol
I'w denu hi i'r faenol aur fynwes.

“Gwna hafdy clymedig ag adail o goedwig,
A thyn y glau ewig i glywed y gog ;
A newid yn ffyddlon gusanau 'n gysonion,
Dan dirion goed irion cadeiriog.”

Y BARDD.

“Can diolch, Haf perffaith, tydi yw 'nghydymaith,
I fynd ar wawr odiaeth yn helaeth mae'n haws ;
Dy ddyddiau sydd hirion hyd lwybrau mawr meith-
I fynd at liw'r hinon, loer hynaws. [ion,

Yr Haf yn Llattai.

“’Rwyt ti mor bresennol ’r hyd mynydd a maenol,
Y tymor naturiol mor fuddiol a fydd
Yn cario gorchmynion o roddiad arwyddion
Ein ffyddlon ddwy galon i’w gilydd.

“Tri mis y sydd iti mewn llan ac mewn llwyni,
O dês yn gwresogi, tro heini trwy hedd,
Ni ddichon cydwybod fy meinir liw ’r manod,
Wrth ofyn maith amod mo’th omedd.”

Edward Morus.

XVI.

MELWAUD MAI.

Y teulu hynod haelion,
Cydganwn yn deg union
Fawl gydlais fel gaeadlon
Ar dirion hinon Ha’;
Ac eiliwn gyda’n gilydd
Yn llawen i’n pen Llywydd
Ganmoliaeth helaeth hylwydd
Am ddedwydd dywydd da.

Mae creaduriaid mudion,
Bwystfilod a phlanhigion,

Melwawl Mai.

Yn rhoi gogoniant union
Yn rhadlon yn eu rhyw ;
A pham na chanwn ninnau
Yn beraidd hwyr a borau
I ganmol nerthol wyrthiau
A datgan doniau Duw ?

*Duw cadw'r Eglwys gymysg gall
Er holl fyddin hyll y fall,
Na allo'u llid o'r naill i'r llall
Na phall na gwall i'w gwedd ;
A'r Brenin yn bur union
Hoffeiddhwys iddi'n ffyddlon
I'w noddi rhag newyddion
Gelynion hyfion hedd.*

Bu iâ ac eira oeredd,
A'r gwynt yn chwythu'n chwithedd,
Y Gwanwyn diddigonedd
Er dialedd ar y da ;
Cawn weithion dirion doraeth
O weiriau ac ydau odiaeth
I'n porthi a'n llonni a lluniaeth
Yn helaeth yn yr Ha'.

Yn lle tymhestloedd llidiog
A mellt a dreigiau drygiog,

Melwared Mai.

A'r ddiriaid hin gynddeiriog
Ryfelog oer a fu,
Aurora sy i'n goreuro,
A'r haul yn clir ddisgleirio,
Wrth wresog wridog rodio
Mae'n tesio i'n twymno'n ty.

Duw cadw, &c.

Mae croth y ddaear feichiog
Yn esgor yn ddiysgog
Ar ffrwythau per toreithiog,
Yn llwythog a'n gwellha ;
A'r còr adeiniog dawnus
A ganant foliant felus
I'w nefol Dad cariadus
Yn hwylus amser Ha'.

Wrth glywed llais yr adar
A sain eu llefain llafar,
A gweled wyneb hawddgar
Y ddaear glaeur glyd ;
A rhywiog wlith y borau,
Cenhadon i ddwyn cnydau,
Disgwyliwn am dês golau
A'r ffrwythau gorau i gyd.

Duw cadw, &c.

Melwawd Mai.

Ni welwn had yr heiniar
A dduodd yn y ddaear
Yn ail egino 'n gynnar,
 A'r tymor claeaf clir ;
Daw 'n celaneddau priddlyd,
Er gorwedd yn y gweryd,
Mewn ffyniant yr un ffunud
 I fywyd hyfryd hir.

Y gwenyn hyd y gweunydd
A dynnant dan eu 'denydd
Y mêl o bob meillionwydd
 Yn gelfydd hirddydd Ha' ;
Gwnawn ninnau 'n gywrain unwedd
Y gore o bob trugaredd
I lân gyweirio 'n buchedd
 At gyrredd diwedd da.

Duw cadw, &c.

Wyn gwlanog yn y glynnau
Di-chwerwedd sydd yn chwarae,
A'r defaid hyd y bryniau
 A ffrwythau cneifiau cnai',
Y rhai sy'n dysgu beunydd
I ddynion ddiniweidrwydd,
A ffrwytho trwy sancteiddrwydd
 Tan Arglwydd mawrlwydd Mai.

Melwawd Mai.

Yr Ha' 'r llafurwr dilith
Sy'n chwynu 'n iach ei wenith,
Rhag bod yr efrau 'n dryfrith
 Ymhlith y fendith fâd ;
Diwreiddiwn ninnau 'n unyd
Gamweddau a beiau 'n bywyd,
A dygwn ffrwythau 'r yspryd
 A llawnfryd ar wellhad.

Duw cadw, &c.

Y morgrug diwyd glewion
Sy'n tyrru 'r hafddydd tirion
Gynhaliaeth helaeth hoewlon
 Rhag hinon greulon groes ;
Cynhullwn ninnau 'n unwedd
Drysorau rhannau rhinwedd,
Cyn delo dyddiau dialedd
 A diwedd oeredd oes.

Ond moli Celi o'n calon
Odiaethol am fendithion
Drwy gysur draw a gawson
 Yn llawnion ar wellhad,
A chasglu ffrwyth ysprydol
Wybodus o'n da bydol,

Melwared Mai.

Cawn nefol Haf tragwyddol
Ger bron ein Dwyfol Dad.

Duw cadw, &c.

Edward Samwel.

XVII.

Y COLER DU.

Er pan ydwyf yn y byd,
O'm dechreu hyd yrŵan,
Mwya' niwed imi wnaeth
Fy meddwl caeth fy hunan.

Nid wyf yn disgwyl gwell na gwaeth
Ond cael marwolaeth fuan,
Yr ydwyf wedi mynd yn gla'
O'm 'wyllys da fy hunan.

Fy rhoi yn drist,—on'd creulon yw?
Lle bum yn byw 'n fwyneiddlan,
Fy rhoi yn gaeth lle bum i ffri,
A wnaethum i fy hunan.

Y Coler Du.

Un wyf fi beunydd yn parhau
Fel dyn mewn poenau purdan,
O edifeirwch mynd ar ôl
Fy meddwl ffôl fy hunan.

Ni wnaeth na mab na merch ynghred
Erioed cyn ffoled amcan
Ag a wnaethum, Duw a'i gŵyr,
I'm lladd yn llwyr fy hunan.

Am fy ngeni i fod yn ffôl,
A dilyn meddwl trwstan,
Ni cha'i help dan haul a lloer
I'm calon oer fy hunan.

Curio 'r ydwy'n drwm bob pryd
Am fynd o'r byd hwn allan,
Rhag diglloned gennyf drin
Fy meddwl blin fy hunan.

A byw yr wyf mewn tristwch mawr,
Bob munud awr yn cwyntfan,
Hyn a wn a'm cadw 'nghudd,—
Fy meddwl prudd fy hunan.

Wedi i'r clefyd hwn fy nwyn,
Ni bydd fy nghwyn i ond bychan,

Y Coler Du.

Am fy ngwaith yn cynnal pwys
Fy meddwl dwys fy hunan.

Gruffydd Phylip.

XVIII.

ANGEU.

Gwŷr yr Aur, ond gwych y fai
Gael fyth fwynhau'ch meddiannau :
Mae'l y gwnewch 'i rhyngoch Rodd
A ryngo fodd i'r Angeu ?

Chwi rai glân o bryd a gwedd,
Sy'n gwallio gorsedd-feincieu !
Mae'l y trwsiwch chwithe 'ch min
I ddallu 'r Brenin Angeu ?

Chwi'r yscafna ar eich troed,
Yn ngrymus Oed eich blodeu ;
Ymwnewch i ffoi a chwi gewch glôd
O diengwch rhag nôd Angeu.

Mae clod i Ddawns a pheraidd Gân,
Am warrio aflan Ddrygeu :

Angeu.

Ond mawr na fedrei Sioncrwydd Ffrainc,
Rygyngu cainc rhag Angeu.

Chwychwi Drafaelwyr Môr a Thud,
A'r Byd i gyd a'i gyrreu :
Yn rhodd a welsoch mewn un lle,
Ryw gongol grê rhag Angeu ?

Chwi 'Scolheigion a Gwyr Llys,
Sy'n deall megys duwieu !
A rowch 'i mysg eich dysc a'ch dawn
Ryw gyngor iawn rhag Angeu ?

Elis Wyn.

XIX.

BUGEILIO'R GWENITH GWYN.

Mi sydd fachgen ifanc ffôl,
Yn byw yn ol fy ffansi,
Myfi 'n bugeilio 'r gwenith gwyn,
Ac arall yn ei fedî.
Pam na ddeui ar fy ol
Ryw ddydd ar ol ei gilydd,
Gwaith 'rwy'n dy weld, y feinir fach,
Yn lanach, lanach, beunydd.

Bugeilio'r Gwenith Gwyn.

Glanach, lanach, wyt bob dydd,
Neu fi sy' a'm ffydd yn ffolach ;
Er mwyn y Gŵr a wnaeth dy wedd,
Dod im' drugaredd bellach.
Cwenn yma'th ben, gwel oco draw,
Rho imi 'th law wen dirion ;
Gwaith yn dy fynwes bert ei thro
Mae allwedd clo fy nghalon,

Mi godais heddyw gyda'r wawr
Gan frysio 'n fawr fy lludded,
Im' gael cusanu ol dy droed
Ar hyd y coed wrth gerdded.
Cwnna 'mhen o'm galar maith,
Rho imi iaith gwarineb,
Gwaith mwy na'r byd i'r mab a'th gân
Yw golwg ar dy wyneb.

Tra fo dwr y môr yn hallt,
A thra fo 'ngwallt yn tyfu,
A thra fo calon dan fy mron,
Mi fydda 'n ffyddlon iti ;
Dywed imi 'r gwir heb gël,
A rho dan sêl d' atebion,
P'un ai myfi ai arall, Gwen,
Sydd ore gen dy galon.

Wil Hopcin.

XX.

CATHL Y GAIR MWYS.

Hi aeth, f' anwylyd, yn Glan-gaea',
Ti wyddost wrth y rhew a'r eira ;
Dywed imi 'n ddigyfrinach,
Pam na wisgi lewis bellach ?

Pan fo'r hin yn oer anciri,
A'r cynfasau'r nos yn rhewi,
Gwybydd, Gwen, mai dyna'r amser
Y gwnai lewis iti bleser.

Rhai ront lewis wrth eu breichiau,
Rhai ront lewis wrth eu cefnau,
Cymer ffasiwn newydd, Gwenfron,
Dyro lewis wrth dy ddwyfron.

Di gei grys o'r holand meina,
Di gei own o sidan siopa ;
Di gei'r ffasiwn y dymunech,
Di gei lewis fal y mynnech.

Gwelais ganwaith lewis gwynion,
Gan gyffredin a bonddigion,

Cathl y Gair Mwys.

Am dy weled mi rown fawrbris
Yn dda dy le, yn ddu dy lewis.

Arferol i bob merch a welis
Am ei breichiau wisgo llewis ;
I'r gwrthwyneb dyro dithau,
Am dy lewis gwisg dy freichiau.

Gwelais lawer merch na roisai
Yn ei llewis flaenau pinnau ;
Tithau fuost yn fwy dibris,
Saethau blennaist yn dy lewis.

Oer yw'r ty heb dân y gaea',
Oer yw'r cenllysg, oer yw'r eira ;
Oer yw'r hin pan fo hi'n rhewi,
Oer yw merch heb lewis ganddi.

Bydd di fwyn a rhwydd dy galon,
Paid ag edrych arnai'n ddigllon ;
Rhag ofn dyfod angeu dibris,
Ac ymaelyd yn dy lewis.

Mae dy siwt i gyd yn gryno,
Ond un peth sydd eisiau eto ;
Nid yw hynny i gyd mo'r llawer
Ond dwy lath o lewis ofer.

Cathl y Gair Mroys.

Ar dy lewis pe cait gynnig,
Gwn y gwerthit am ychydig;
Pe bait ti unwaith wedi 'marfer,
Ni chymrit am dy lewis lawer.

Peter Lewis.

XXI.

Y DERYN PUR.

Y 'deryn pur a'r adain lân,
Bydd imi 'n was dibrydar,
O brysur brysia at y ferch,
Lle rhoes i'm serch yn gynnar;
Dos di ati, dywed wrthi,
'Mod i'n wylo 'r dŵr yn heli,
'Mod i'n irad am ei gwelad,
Ac o'i chariad yn ffaelu a cherddad;
O, Duw faddeuo i'r hardd ei llun
Am boeni dyn mor galad!

Pan own i 'n hoenus iawn fy hwyl
Ddiwarnod gwyl yn gwyllo,
Canfyddwn fenyw lana 'rïoed
Ar ysgawn droed yn rhodio;

Y Deryn Pur.

Pan ei gwelas, syth mi sefas,
Yn fy nghalon mi feddylas,
Wele ddynas lana 'r deyrnas,
A'i gwên yn harddu 'r oll o'i chwmpas,
Ni fynsw'n gredu undyn byw
Nad oedd hi ryw angylas.

XXII.

HERODRAETH YR EHEDYDD.

'Rwy'n wyllo dŵr oddiwrth fy nghalon,
'Rwy'n dwyn yn deg yngolwg dynion,
'Rwy'n bwrw gwallt fy mhen gan hireth,
Am y ferch sy 'mhell, ysyweth,—
O wele 'nghyflwr am fy ngeneth!

Hedydd, hedydd, hêd yn hwylus,
A dwg fy neges yn gariadus,
Meddwl ddisgyn ar y goedfron,
Lle bum gynt yn iach fy nghalon
Ynghwmpeini dwy-rudd dirion.

Mae impiau pêr mewn gerddi gwyrddion
Ynghylch y fan lle mae lliw'r hinon,

Herodraeth yr Ehedydd.

Di gei gysgod dan y rheini
Hyd onid elo 'r teulu i gysgu ;
Bydd siwr a siarad â lliw 'r lili.

Ac yn ei llaw hi dod fy llythyr,
Trwy fodd cariadus cangen eglur,
A dywed iddi y modd sydd arna',
Mai o'i serch hi 'rwyf i 'n drymgla ;
Atolwg idd' iachau fy mriwia.

XXXIII.

BUGEILGERDD.

GRUFFUDD.

Pwy ydyw'r dyn truan fel hyn wrtho 'i hunan
'Rwy'n ganfod yn cwynfan, fel baban dan berth,
A'r dwr dros ei ddeurudd, yn gostwng dan gystudd?
Myneged i Ruffydd ei drafferth.

MEURIG.

Di weli d' anwylyd, hen gyfaill, mewn gofid,
Corff egwan dan adfyd o'i blegid a blyg :
Bid imi drugaredd, fe ddarfu pob rhinwedd,
Anrhydedd, a mawredd i Meurig.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

A laddodd y bleiddiaid yn ddifwyn dy ddefaid,
Neu a giliodd dy goelaid, lloer gannaid, o'i lle?
O'r ŵyn aeth i Frwyno, 'does un nad oes yno,
Pob un â i grwydro geir adre'.

MEURIG.

Ymwasgu â gwag gysgod, a charu'r byd ormod,
Ar ddarn o ddiwrnod i drallod a dry;
Ni chefais fawr golled, am dda nac am ddefed,
Mae'r ddôr yn egored i garu.

GRUFFUDD.

Ai trawsion trwy ysu, difudd sy'n dy faeddu,
A thramawr orthrymu 'n diraenu dy rudd?
Ochneidiau rhy oerion sy 'nghiliau fy nghalon,
Fod dwyfron dyn gwirion dan gerydd.

MEURIG.

Fy nyddiau'n anniddan ân' oll o hyn allan,
Gosodwyd Gweñllian mewn graian a gro;
Mae hiraeth fel cleddau yn syn dan f' asennau,
Fe lwyda lliw'r aelau lle'r elo.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Er syrthio 'r dywarchen i'r ddu oer ddaearen,
Hi gyfyd fel heulwen yn llawen o'i llwch;
I'r sawl sy'n troi ato, mae bywyd heb wywo
Ym mreichiau 'i Dad iddo, a dedwyddwch.

MEURIG.

O, taer yw naturiaeth, ni thry er athrawiaeth,
Ond wylo gan alaeth a hiraeth am hon;
A'r galon dan glwyfau dilês a du loesau
A dyrr, heb naws geiriau, 'n ysgyrion.

GRUFFUDD.

Mewn henaint, mewn ie'nctyd, mewn nych ac mewn
iechyd,
Mae 'n amal rai'n symud o fywyd i fedd;
Nid oes na dyfeisio, na golud, na gwilio,
All rwystro neb yno, na bonedd.

MEURIG.

Fy nydd sydd yn nyddu yn fanwl i fyny,
A'r nos sydd yn nesu i roi'n isel fy mhen,
Ac un nid oes genny', er wylo ar oer wely,
Pan bo im' glafychu, glyw f' ochen.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Ymostwng yn astud i Ffynnon y Bywyd,
Ac ochen am iechyd i'th glefyd a'th glwy';
E fydd, y mae 'n addo, i'r gwas sy'n ei geisio,
Dan wylo 'i gŵyn wrtho, 'n gynhorthwy.

MEURIG.

Gwenllian fwyn serchog, 'rwy' fyth yn hiraethog;
Yng nghŵyn yr anghenog gwnai 'n rhywiog ei
rhan,
A phorthi'r trafferthus yn hael, a'r anhwylyd,
Gwnaeth llawer gwan lliwus, Gwenllian.

GRUFFUDD.

Pe rhannwn yn rhywiog fy nghroen i'r anghenog,
Heb waed yr Oen serchog, ŵr euog yr wyf,
A thynnu 'ngwythennau ar lêd, a f' aelodau
I'r poenau 'n dameidiau, dim ydwyf.

MEURIG.

Os hoffi gorchymyn ei Dad wna'r credadyn,
(Trugarog i adyn o elyn yw o,)
Ac adde'i ddiffygion, mewn cof am un cyfion,
Ni chais ei law dirion le i daro.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Gan hynny bydd foddlon, fod cariad mor dirion
Yn myned yn union at Seion a Saint :
Fel ffrwyth pan addfedodd, mor deg hi 'madawodd,
O'i gwirfodd hi hunodd mewn henaint.

MEURIG.

Nid oes mwy hynawsedd i'w gael nac ymgeledd,
Gan roi'r un garuedd a llariedd i'r llwch :
Na gobaith 'does genny' gael unwaith ond hynny
Mewn mwynder chwaer iddi, a chareiddwch.

GRUFFUDD.

Gad ochen mor drymed, a dagrau, i rai digred,
(Na byddo gwargaled yn niwed i ni)
Ti a'i gwelaist, gobeithio, mewn heddwch yn huno,
Ac amdo 'n digwyddo 'n deg iddi.

MEURIG.

Dy eiriau da arail ni nyddant hen wiail ;
Cyn hawsed i fugail a sigo sail serch
Roi gosteg i'r gwyntoedd a thwrf mawr y moroedd,
Neu weddwod o'i hanfodd i henferch.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Mae gennyt ti ganu, a rhinwedd gyfrannu
Da ddoniau 'n diddanu, a llonni pob lle :
Os chwiban dy bib-goed felus-gerdd dan las-goed,
O'r coed ni fydd dwy-droed fynd adre'.

MEURIG.

Pen-addysg pan oeddwn, i'r gwyrdd-ddail mi
gerddwn,
A'r man y dymunwn mi ganwn â'r gôg ;
Yn awr dan ryw geubren 'rwy'n nychu ac yn ochen,
Fel clomen un aden andwyog.

GRUFFUDD.

Er niwl ac anialwch, a thrawster a thristwch,
Daw dyddiau dedwyddwch hyfrydwch i'r fro :
Daw Anna i dywynnu cyn nemawr, cân imi,
Di weli blwy' Dewi 'n blodeuo.

MEURIG.

Er mynych ddymuned o'r galon ei gweled,
Mor luniedd mor laned, a haeled yw hon ;
Mae'm march yn din-deneu, a llif dros y dolau,
Yn chwarae pentanau Pont-Einion.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Rhyw faich o afiechyd sy gâr i seguryd,
A hunan brynhawn-fwyd yw bywyd y balch;
Rhesymau mwyn hyfryd o'r galon yw golud,
A'r iechyd i'r ynyd a'r anfalch.

MEURIG.

Y Phenix hoff anian, aur eglur rywioglan,
Ni thyn Feurig allan, O druan, o'i dre';
A'r manna' pe 'i rhennid yn rhwydd er cyrhaeddyd,
Yr ynyd a chysglyd ni chasglai.

GRUFFUDD.

Nanteos heb orffwys, o'i mebyd, a Mabwys,
A'r Trawsgoed, le gwiwlwys, sy'n cynnwys gwŷr
call:
Gwell ambell awr ddigri' gael rhan gyda rhei'ny,
Na phoeni 'n trysori tros arall.

MEURIG.

Nid oes well cyfeillion, na donie mewn dynion,
Gwŷr rhyw y goreuon yn galon i gyd;
Er maint eu rhinwedde, diogel yw cartre',
Yn araf daw magle i dŷ myglyd.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Gan nad oes 'tu yma i fedd a dy foddia,
Amen, mi ddymuna, na ffaela 'n dy ffydd,
Rhag mynd i'r poen didranc fel annoeth un ieuanc,
Neu hen-lanc, dwy grafanc, digrefydd.

MEURIG.

Pob math ar fendithion, fy nghâr am gynghorion,
Fo'n llonni dy galon mewn dynion a da;
Diwael fo dy wely mewn lafant a lili,
A'r mêl yn diferu 'n dy fara.

GRUFFUDD.

Y ddafad ddu gyrnig gei'n lân yn galennig,
(Cydymaith caredig yw Meurig i mi)
O'r hwrdd sydd ym Mrwyno, mae'n gyfeb 'rwy'n
cofio,
Dwg honno 'n rhwydd eto 'n rhodd iti.

MEURIG.

Mae gennyf bâl newydd, was diddan, ers deuddydd,
Un graffus wen, Gruffudd, a hylwydd yw hi;
Danfonaf hon heno i'th dŷ, o waith Deio,
Pan dreulio mae'n addo min iddi.

Bugeilgerdd.

GRUFFUDD.

Mae 'n bwrw 'Nghwamberwyn, a'r cysgod yn estyn,
Gwna heno fy mwthyn yn derfyn dy daith,
Cei fara a chawl erfin iachusol, a chosyn,
A 'menyn o'r enwyn ar unwaith.

MEURIG.

Gwell cynghor rhagorol na maeddu'r beneiddiol,
Ond un peth dewisol, swydd rasol, sydd raid ;
Gofalwn am hwnnw, ni wŷr pridd a lludw
Y dydd y bo galw bugeiliaid.

Edward Rhisiart.

XXIV.

BUGEILGERDD.

HYWEL.

Hoff iawn oedd gorffennu tŷ haf wrth Lyn Teifi,
A'i donnau 'n ymdaenu yn loewddu at y lan,
Mae gweled ein gilydd yn llunio llawenydd,
Cawn beunydd gân newydd gan Iwan.

Bugeilgerdd.

IWAN.

Mae Hywel mor hwylus, mor wych ac mor awchus,
Wr enwog o'r ynys, gardd felus, gerdd fwyn,
Mîn miwsig mwy moesol, ac araith ragorol,
Mor siriol a gwennol y gwanwyn.

HYWEL.

Yn fore myfyrio mwyn gân a mîn Gweno
Yw golud bugeilio a rhodio'n ŵr rhydd,
Yn llwm ac yn llawen; mae'n amlach brig brwynen
Na deilen erfynen ar fynydd.

IWAN.

Pa beth a dâl canu a diddan brydyddu,
A'm defaid o'm deutu yn llamu wrth y llyn,
Ac eraill wrth ganu, a'i swyno a chusanu,
Yn denu'r fain aelddu, f' anwylddyn?

HYWEL.

Dyn beunydd dan benyd wyf finnau'r un ffunud,
Heb obaith am iechyd i'm clefyd a'm clwyf,
Ond annerch lliw'r hinon â phinnau drain duon,
A danfon penillion pan allwyf.

Bugeilgerdd.

IWAN.

Dibarch gan y merched a fydd dyn diniwed ;
Ni fynnant hwy glywed na gweled y gwr,
Gwarth ydyw, gwrthodant goegenod, cydganant
A chwaddant am lwyddiant ymladdwr.

Edward Rhisiart.

XXV.

CAROL HAF.

Mae'r ddaear fawr ffrwythlon, a'i thrysor, yn ddigon
I borthi ei thrigolion yn dirion bob dydd,
Pe byddem ni ddynion mewn cyflwr heddychlon
Yn caru'n un galon ein gilydd.

Pe bai gwir frawdgarwch, duwiolaidd dawelwch,
Da ddawn, a diddanwch, a harddwch o hyd
Rhng pawb o hîl Adda, ni chai mo'r tylota'
Un wasgfa, cul oedfa caledfyd.

Aeth heibio'r holl fyrddydd, a'r duaf oer dywydd,
A daeth yr hir hafddydd,—dywenydd, da yw
Fod llyisiau trwy 'r graean yn hollol ddod allan,
I bawb gael eu cyfran o'r cyfryw.

Carol Haf.

Os bu yn ddiweddar yn ddu wedd y ddaear,
Cydganodd yr adar yn gerddgar i gyd;
Gweld coedydd yn deilio wnaï iddynt ymbyncio,
Cydseinio drwy 'n hoewfro draw 'n hyfryd.

Llefaru maent beunydd wir fwyniaith ar fanŵydd,
Moliannu Duw 'n Llywydd yn ufudd a wnant;
Ers talm dan gydblethu cerddoriaeth felysgu
Am Haf i'w cynhesu canasant.

Mae'r defaid ar feusydd a bryniau a bronydd
Yn fawr eu lleferydd oherwydd eu hŵyn;
Pob 'nifail gwareiddia', 'n wir hefyd a'r hyfa',
Sy a'u tynfa i borfa wiw burfwyn.

Mae'r ddaear yn glasu, a'r coed sydd yn tyfu,
A gwyrddion yw'r gerddi, mae'r llwyni mor llon;
A heirdd yw'r eginau, a'r dail ar y dolau,
A blodau'r perllannau pur llawnion.

Y dail iraidd gleision, a'r blodau hyfrydlon,
Ddangosant yn gyson arwyddion o ras;
Nefolaidd blanhigyn a dyf fel eginyn,
Lle plannwyd y gwreiddyn gwir addas.

Mae'r Haf yn gyfflybiaeth o'r 'Fengyl bur berffaith,
A'r Gaea'n dystiolaeth o'r Gyfraith fu gaeth;

Carol Haf.

'E ddaeth yr Haf tesog, Efengyl sydd fywiog,
Blodeuog, ddoeth, rywiog athrawiaeth.

Mae amryw derfysgoedd taer naws rhwng teyrnas-
oedd,

A son am ryfeloedd ar diroedd a dwr ;
Duw, atal genfigen gelynyion bro Pryden,
Gwna orffen eu cynnen a'u cynnwr'.

A chadw Siôr dirion, ein Brenin mwyn graslon,
A'i ddeiliaid pur ffyddlon, rai dewrion a da ;
Dod ini ddiddanwch, a geirwir hawddgarwch,—
Tawelwch, cu heddwch, cyhoedda.

Os rhoddir gofyniad, pwy luniodd y ganiad?—
Mab ieuanc, llon, difrad ei fwriad wyf fi ;
JOHN HOWEL, hwy 'm galwan', eleni mae 'nhrigfan
Wrth geulan glyn gwiwlan Glangwili.

John Howel.

XXVI.

LLADRON GRIGYLL.

Gwych gan bobol onest lân,
Oleuni tân a channwyll;
Gwych gan wylliaid fod y nos
Mewn teios yn y tywyll;
Gwych gen innau glywed sôn
Am grogi lladron Grigyll.

Pentref yw di-Dduw, di-dda,
Lle 'r eillia llawer ellyll,
Môr-yspeilwyr, trinwyr trais,
A'u mantais dan eu mentyll.
Cadwed Duw bob calon frau
Rhag mynd i greigiau Grigyll.

Os llong a ddaw o draw i drai
I draethau'r bobl drythyll,
Tosturi 'r rhai'n sydd fel y tân,
Neu'r gwyndraeth a'u gwna'n gandryll;
Goreu gwaith a wnae' wyr Môn
Oedd grogi lladron Grigyll.

Lladron Grigyll.

Pan ddoed a'r gwylliaid at y bâr,
A beio ar eu bwyll,
Ni wnaethant hwy â'r cyrt (myn Mair)
Ond cellwair gyda'u cyllyll;
Cai'r byd weled yno ar fyr
Mor lân goreugwyr Grigyll.

Hwy roent, ar law 'r atwrnai, groes,
Yn sydyn troes yn sidyll;
Am aur melyn mae'r dyn du
Yn brathu fel y brithyll;
Mae 'nol i hwnnw wnelo hyn
Ei grogi 'n Nhywyn Grigyll.

Rhai cyfreithwyr mawr eu chwant
Yn chwareu plant mewn pistyll,
Y rhai gonest ar y cwest
Am guddio 'r orchest erchyll:
Och am Siapel yn sir Fon
I grogi lladron Grigyll!

Morus oedd fel môr ei swm
Am safio 'r cŵn yn sefyll,
Fe roi i'r capten aml sen,
Ac ysgwyd pen ac esgyll,

Lladron Grigyll.

Am fynd a'i long â meddwl drwg
I greigiau diddrwg Grigyll.

Fe yrr Duw in' Farnwr doeth
I safio 'n cyfoeth serfyll,
I ddistrywio gwylliaid Môn,
A'u cywion yn eu cewyll ;
A ddygodd gortyn, doed i'w ran
I'w grogi ar orllan' Grigyll.

Fe dâl yr Arglwydd i'r ysprêd
A wnaeth y weithred dywyll,
Yspeilio llong a gwylltio 'r gwŷr
Yn dostur yn y distyll :
Gweddwon oll, ac oer eu tôn,
Fo gwragedd lladron Grigyll !

Gweddi ffyddlon dynion dwr,
Y powdwr dan eu pedyll ;
Na weler gwrâch heb grach, neu gri,
Yn pobi yn eu pebyll ;
Bo eisiau bwyd o'r bais i'r bedd
Ar epil gwragedd Grigyll !

Ac oni chrogwch cyn yr haf,
Ddihiraf dyrfa derfyll,

Lladron Grigyll.

Rhowch hwy i Vernon, fawr ei fri,
A'u castiau i dorri cestyll;
Ac yno down, o fesul dau,
Yn rhydd i greigiau Grigyll.

Lewis Morus.

XXVII.

CANIAD Y GOG I FEIRIONNYDD.

Er a welais dan y sêr
O lawnder, glewder gwledydd,
O gwrw da a gwŷr i'w drin,
A gwin ar fin afonydd,
Goreu bîr a goreu bwyd
A rannwyd i Feirionnydd.

Eidion du a dŷn ei did
Ond odid i ddyn dedwydd,
I dorri ei gŵys ar dir ac âr,
A braenar yn y bronnydd;
Goreu tŷn, fe 'i gŵyr y tad,
Morwynion gwlad Meirionnydd.

Caniad y Gog i Feirionnydd.

Da yw'r gwaith, rhaid dweyd y gwir,
Ar fryniau Sir Feirionnydd,
Golwg oer o'r gwaela' gawn,
Mae eto 'n llawn llawenydd ;
Pwy ddisgwyliai canai côg
Mewn mawnog yn y mynydd ?

Pwy sydd lân o bryd a gwedd,
Ond rhyfedd iawn bentrefydd ?
Pwy sy 'mhob hwswiaeth dda,
Yn gwlm gyda'u gilydd ?
Pwy fu 'ymyl dwyn fy ngho' ?
Morwynion bro Meirionnydd.

Glân yw'r gleisiaid yn y llyn,
Nid ydyw hyn ddim newydd,
Glân yw'r fronfraith yn ei thŷ
Dan daenu ei hadenydd ;
Glanach yw, os dwedai 'r gwir,
Morwynion tir Meirionnydd.

Anwyl yw gan adar byd
Eu rhyddid hyd y coedydd,
Anwyl yw gan faban laeth
Ei famaeth odiaeth ddedwydd ;

Caniad y Gog i Feirionnydd.

Ow ! ni ddwedwn yn fy myw
Mor anwyl yw Meirionnydd !

Mwyn yw telyn o fewn tŷ
Lle byddo teulu dedwydd,
Pawb a'i benill yn ei gwrs,
Heb son am bwrs y cybydd ;
Mwyn y cân oddeutu 'r tân
Morwynion glân Meirionnydd.

Er bod fy nghorff mewn hufen byd
Yn rhodio hyd y gwledydd,
Yn cael pleser môr a thir,
Ni chaf yn wir mo'r llonydd,
Myned adre' i mi sydd raid,
Mae 'r enaid ym Meirionnydd.

Lewis Morus.

XXVIII.

Y GOFUNED.

O chawn o'r nef y peth a grefwn,
Dyma archiad im' a erchwn,
Un rodd orwag ni ryddiriwn—o ged,
Uniawn ofuned, hyn a fynnwn.

Y Gofuned.

Synhwyrfryd doeth a chorff anfoethus,
Cael, o iawn iechyd, calon iachus ;
A pheidio yno â ffwdanus—fyd
Direol, bawlyd, rhy helbulus.

Dychwel i'r wlad lle bu fy nhadau,
Bwrw enwog oes, heb ry nag eisiau,
Ym Môn araul, a man orau—yw hon,
Llawen ei dynion, a llawn doniau.

Rhent gymhedrol, plwyf da 'i reolau,
Tŷ îs goleufryn, twysg o lyfrau ;
A gwartheg res a buchesau—i'w trin
I'r hoew wraig Elin rywiog olau.

Gardd i minnau, gorau ddymuniad,
A gwasgawdwydd o wiw gysgodiad ;
Tra bwy'n darllain cain aceniad—beirdion,
Hîl Derwyddon, hylaw adroddiad.

Ac uwch fy mhen ym mysg canghenau,
Bêr baradwysaidd lwysaidd leisiau
Ednaint meinllais, adlais odlau—trydar
Mwyn adar cerddgar, lafar lefau.

Y Gofuned.

A thra bo'r adar mân yn canu,
Na ddeno gwasgawd ddyn i gysgu,
Cydgais â'r côr meinllais manllu—fy nghân,
Gwiw hoew a diddan gyhydeddu.

Minnau â'm deulanc mwyn i'm dilyn,
Gwrandawn ar awdl, arabawdl Robyn,
Gan dant Goronwy gywreinwyn,—os daw
I ware dwylaw ar y delyn.

Deued i Sais yr hyn a geisio,
Dwfr hoff redwyllt ofer a ffrydio
Drwy nant, a chrisiant (a chroeso)—o chaf
Fôn im', yn bennaf, henwaf honno.

Ni wna f' arwyrain yn fawreiriog,
Gan goffau tlysau, gwyrthiau gwerthiog,
Tud, myr, mynydd, dolydd deiliog—trysor
Yr India dramor, oror eurog.

Pab a gâr Rufain, gywrain gaerau;
Paris i'r Ffrancon, dirion dyrrau,
Llundain i Sais, lle nad oes eisiau—sôn
Am wychder dynion; Môn i minnau.

Y Gofuned.

Rhoed Duw im' adwedd iawnwedd yno,
A dihaint henaint na'm dihoeno,
A phlant celfyddgar a garo—eu hiaith,
A hardd awenwaith a'u hurdduno.

Goronwy Owen.

XXIX.

TWYLL Y BYD.

Megis llestr hen a drylliog
Ydyw'r byd, ar fôr tymhestlog;
Pleser ydyw edrych arno,
Ond peryglus iawn bod ynddo!
Os daw un i maes o'r tonnau
Ar ystyllen friwllyd deneu,
Fe glyw stŵr ar y dwr,
Dwndwr yr angau,
Draw ymhell gan ryw fyrddiynau
Aeth yn iach i'r llestr gynnau.

Beth, raid cymaint poen a gofid
Wrth a bery ond awr o ennyd?
A phe meddem aur yr India,
Perl Brazil, a sidan Persia,

Twyll y Byd.

Dyna'r man diwedda 'n henw—
“Pridd i'r pridd, a lludw i'r lludw;”

Dyma fe, yn ei le
Gerwin yn gorwedd !
Dyma ei oed mewn byd o wagedd,
Diarwybod daeth ei ddiwedd !

Uffern gau ei hun sy 'n gwenu
Fod plant Adda wedi ynfydu ;
Casglu cyfoeth erbyn angau,
Ac euogrwydd mwy o bwysau ;
Rhoi i briodas, adeiladu,
Noah 'n gwneud ei arch i fyny,
Twrio 'r don, casglu hon,
Diluw bron dyfod !
Erbyn bod yr arch yn barod,
Gorfod gado swm y sorod !

A raid i'r henaint sydd yn darfod,
Ac yn hongian uwch y beddrod,
Fel hen goedydd yrru eu gwreiddiau
Ddyfnach, ddyfnach rhwng y creigiau ?
Caru 'r ddaear yn anwylach
Fel bont ati 'n mynd yn nesach ?
Y dwylaw hyn, gweinion gwyn,
Crynion yn crynu,

Twyll y Byd.

Eto 'n daer yn ymafaelu
Am yr hyn sydd yn eu nychu.

Rhwymo 'r awyr lân a'i gasglu,
Beth yw ceisio 'r byd ond hynny?
Ychydig iawn ar ddyn sy'n eisiau,
A thros 'chydig o flynyddau.
Pa mor gynted rhaid im' ado
'R lludw llwyd sy'n awr yn eiddo,
Yr hwn a gês, er mawr lês,
Gan anian tros ennyd!
Pan alwo hi y mae'n rhaid symud,
A rhoi 'm lludw iddi hefyd.

Dyddiau mebyd sydd yn treulio
Cyn cael synwyr, a mynd heibio;
A phan ddown i brisio amserau,
Prynu deall trwy brofiadau,
Dechreu caffael allwedd bywyd,
Dawn a rheswm, rhinwedd hefyd,
Yna mae angau 'n glau
Yn dadrys ei ddrysau,
Gwneuthur ffordd ddinâg, ddiamau,
Fynd i mewn i'w ystafellau.

Pan bwy'n edrych ar rifedi
O flynyddau 'n ol, i gyfri.

Twyll y Byd.

Nifer o ryw ffrins ers dyddiau,
O'r un oedran, o'r un graddau,
Cryfach nerth, a mwy seguryd,
Iengach hefyd yn eu bywyd,
Carcus iawn, fore a nawn,
I achub llawn iechyd,
Hwythau 'n gynta' wedi eu symud,
'Rwy'n rhyfeddu medda'i fywyd !

Williams, Pantycelyn.

XXX.

CARIAD.

Clywch dderchafiad geirwir gariad,
Pur bwyth bwriad popeth byw ;
Dechreuol wreiddiol ryw, 'does unrhyw heb fy
swydd ;
'Rwyf fi 'n gynhyrfiad gwres cenhedliad ;
Teimlad cariad, magiad mwyn,
A ddeil bob peth i 'mddwyn
I'w ryw yn addfwyn rwydd.
Yn llwybr natur noeth,
Pwynt enwog eirias, tân o gariad,
A'm bwriad yma 'n boeth,

Cariad.

Drwy bob creadur byw, hynod yw anian ddoeth ;
Mae'r llewod mawr eu llid, a phob aflan fwystfil
byd

Yn cynniwair i'w cenawon yn gyson iawn i gyd,
A chariad piau 'r mawl, ailu hawl, felly o hyd.

Trwy wynt a dyfroedd, moroedd mawrion,
Trwy beryglon digllon daith,
Mae cariad, fwriad faith, yn berffaith ac yn bur ;
Er i Satan, anian wyniau, fagu 'n grau genfigen
gre',

Y cariad sai'n ei le, drwy dân ac arfau dur ;
Er digwydd fel y daeth, drwy'r cwmp drueni caeth,
Fe gafodd cariad fwy amlygiad,
A phrofiad yma 'n ffraeth ;
'R addewid a roi Duw, cywrain yw, 'n caru a wnaeth,
Ac achos unig yw adnabod hwn yn Nuw,
Caru'r ffrwythau gwir effeithiol, ysbrydol radol ryw,
'Ran dyna'r nerth a'r nodd,
Swydd union fodd sydd ini fyw.

Twm o'r Nant.

XXXI.

GOFID.

Tosturus yw ystyried
Wrth weled anferth wall,
A'r gofid byd sy'n gwasgu,
'Mron llethu hwn a'r llall.
I ble troir, na bo bloedd trwst,
Ac anian ffrwst, rhyw gŵynion ffraeth,
A dynol blant yn dŷn eu bloedd
Er bod yn goedd â'u byd yn gaeth?
Prudd, prudd, gwae anfon swm gofidiau sydd,
Yn gas o ran, gwir eisiau 'mroi
Am rym i ffoi dan rwymau ffydd.
P'le, p'le bydd dyn yn esmwyth dan y ne' ?
Cheir odid beth o rydid byd
Heb gadwyn gofid gydag e'.

Gofidus byw dan rwymau,
Gofidus bod yn rhydd,
Gofidus nos mewn gwely,
Gofidus ganol dydd;
Mae gofid blin yn gafod bleth
Wrth dalu treth neu ddilyn trâd,

Gofid.

I dorri dyn ar dir a dwr,
Mae mawr ystŵr ymhob rhyw stâd,
Blin, blin, gofidiau traws, gwael fod eu trin,
Eu pwyth sy'n bwys 'mhob peth sy'n bod,
Trwy riwl y rhod, trwy'r haul a'r hin.
P'le, p'le bydd dyn yn esmwyth dan y ne' ?
Cheir odid beth o rydid byd
Heb gadwyn gofid gydag e'.

Mae gofid yn y plentyn,
Mae gofid yn y fam,
Mae gofid mewn rhieni,
Mae cyni lawer cam.
Gofidiau'r byd, anfeidrol bwys,
Raid ddiode'n ddwys o ddydd i ddydd ;
Gofidiau maith yw'n hiaith a'n tôn,
A gresyn sôn am groesau sydd—
Briw, briw sy'n dŷn ar elfen dynolryw,
Gofidiau crych trwy'r cnawd a'r croen,
Mewn amryw boen 'rym ni yma'n byw,
P'le, p'le bydd dyn yn esmwyth dan y ne' ?
Cheir odid beth o rydid byd
Heb gadwyn gofid gydag e'.

Heblaw'r allanol ofid
Sy'n llid rhwng nef a llawr,

Gofid.

Gofidiau sy'n olynol
Tufewnol eto 'n fawr ;
Cydwybod flin â dibaid floedd
Sy'n gwaeddi 'n goedd, a'i gwaed yn gaeth ;
Bu Suddas ffals, bu Esau ffôl,
Bu Cain a Saul yn cwyno 'i saeth.
Duw, Duw, a wnelo i bawb anelu byw,
Trwy gadw ar draul cydwybod rydd,
Ond é daw 'r dydd bydd brudd y briw.
Ffydd gre'r creadur newydd eiff i'r ne';
Fe dderfydd poen, fe dderfydd byd,
Fe dderfydd gofid gydag e'.

Twm o'r Nant.

XXXII.

EDN BUAN YDYW'N BYWYD.

A fedd synhwyrau diau dowch,
Ar undeb trowch i wrando,
Yn un fwriad gan fyfyrio,
Fel mae 'n llethrog ddydd yn llithro ;
Ni rusir mono i aros munud,
Gwalch ar hedfan, edn buan ydyw 'n bywyd.

Edn Buan ydyw'n Bywyd.

I ba beth y gwnawn ein nyth
Lle na chawn byth fwyneidd-dra?
Llong ar dymestl yw'r byd yma,—
Rhyw groes ofid a'n croesawa;
Os heddyw dyddia byr ddedwyddwch,
Cawn gylchynnu cyn y foru âg annifyrrwch.

Gwagedd mawr rhoi serch a bryd
Ar olud byd a'i wychder;
Hedeg ymaith y mae 'n hamser,—
Ar ein hoedel na rown hyder.
Pa mor ofer yw ymrwyfo
Am ormodedd yn y diwedd a'n gadawo?

Ffôl i ddyn roi 'i goryn gwan
Yn filwr dan ofalon;
Tra fo conglau yn ei galon
Anostegol, nid oes digon
Bydol union a'i bodlona;
Pethau 'n darfod, ansawdd amod, hyn sydd yma!

Bardd Nantglyn.

XXXIII.

CANU GYDA'R TANNAU.

Ond diddan iawn y dyddiau 'n ol,
A doniol oedd y dynion,
Gymerent fwyn ddifyrrwch clau
Wrth sain y tannau tynion?
Fe ddaliai draw feddyliau drwg
O'r golwg ac o'r galon.

Hoff yw clywed merched glân
Yn lleisio cân ar dannau,
A hoff yw gwrando meibion gwych
Yn datgan drychfeddyliau;
Pob un a diddan fryd yn dal
I gynnal corddiganau.

Mae'r hen Gymraeg a'r delyn fwyn
Yn cydymddwyn yn ddoniol;
Mae 'n codi calon dyn a'i fryd
O bethau'r byd gelymol;
Rhyw effro swm a hoffai sant
Yw taro tant naturiol.

Canu gyda'r Tannau.

Os oes îs haul offeryn cerdd
Yn nwylaw pencerdd pynciol,
Cyffelyb i'r beroriaeth fry
Y delyn sy debygol ;
Mae son am dani wrth ei llais
Yn difa dyfais diafol.

Meddyges dda i feddwl gwan
Yw'r delyn gan y Cymry,
A chanu'n beraidd gyda hon
Ddwg isel fron i fyny,
Cyfodi calon drom yn iach
Wna mwyn gyfeillach felly.

Bardd Nantglyn.

XXXIV.

Mynnaf gasglu'r niwl a'i hel
A'i rwymo fel sachlenni
Ar hyd y nentydd fore a hwyr
Cyn bariai 'n llwyr dy gwmni ;
Mynnaf hynny, doed a ddel,
Cyn cana'i ffarwel iti.

Llawer gwaith, lliw 'r eira gwyn,
Y bum i'n synfyfrio,

Canu gyda'r Tannau.

P'un a wnawn ai digio 'nhad
Ai troi fy nghariad heibio ;
Gwell i mi yw digio 'nhad
Na throi fy nghariad heibio.

XXXV.

Y DELYN.

Llawen ydyw llais y gôg,
A'r deryn du pigfelen,
A digon ffri yw canig dlôs
Yr eos ar y ddraenen ;
Ond rhowch delyn dan fy nho,
A Gweno i'w chanu'n geinwen.

Mwyn yw llun a main yw llais
Y delyn farnais newydd ;
Haeddai glod am fod yn fwyn,
Hi ydyw llwyn llawenydd ;
Fe ddaw 'r adar yn y man
I diwnio dan ei 'denydd.

Pa ddyn all ddal pan glywo 'i llais,
Neu adlais ei pher odlau,

Y Delyn.

Heb hoffi 'r gân a'i heffaith gwir,
Mewn dyffryn hir a bryniau,
Cydgorriad lleisiau, pynciau pêr
Mwyn dyner ei mân dannau.

Pan gân y tafod gyda'r tant,
Ei mwyniant â drwy'r 'mennydd;
Fy nghalon lawenha yn wir
Dros amser hir o'i herwydd;
A'r meddwl bach ar lawer tro
A lama o lawenydd.

XXXVI.

Y DELYN.

Dŷn a garo grŵth a thelyn,
Sain cynganedd, cân ac englyn,
A gân y pethau mwya' tirion
Sy'n y nef ymhlith angylion.

Mwyn yw peraidd leisie 'r adar
Ar y clyw ar fore claeaf;
Gwell gen i yw clywed englyn
Mewn aceniad ar y delyn.

Y Delyn.

Gwych gan gerlyn yn ei wely
Glywed swm y droell yn nyddu ;
Gwych gen innau, dyn a'm helpo,
Glywed swm y tannau 'n tiwnio.

Llun y delyn, llun y tannau,
Llun cyweirgorn aur yn droeau,
Tan ei fysedd, O, na fuasau
Llun fy nghalon union innau !

Cleddwch fi pan fyddwyf farw,
Yn y coed tan ddail y derw,
Chwi gewch weled llanc penfelyn
Ar fy medd yn canu'r delyn.

XXXVII.

LLAIS YR ADAR.

Wrth wrando llais yr ednaint glân
Ar frigau mân y coedydd,
Fy holl feddyliau goreu i gyd
Mewn anial fyd a dderfydd,
Pan seiniant fawl yn dorf ddidawl,
Tra nefawl a mwyn ufudd.

Llais yr Adar.

Wrth rodio'r coedydd hirddydd haf
Yn araf ymhlith irwŷdd,
Y gôg a'r fronfraith yno gaf,
Rai mwynaf ar y mân-wŷdd,
A'u pêr ganiadau, lleisiau llon,
Cain, hylon, i'w Cynhalydd.

XXXVIII.

Hardd yw gwên yr haul yn codi
Gyda choflaid o oleuni,
Hardd y nos yw grudd y lleuad,
Harddach ydyw grudd fy nghariad.

Tlws yw'r lleuad yn y tonnau,
Tlws yw'r sêr ar noson olau,
Ond nid yw y sêr na'r lleuad
Hanner tlysed a fy nghariad.

XXXIX.

Blodau'r flwyddyn yw f' anwylyd,
Ebrill, Mai, Mehefin hefyd,
Llewyrch haul yn twnnu ar gysgod,
A gwenithen y genethod.

Penillion Telyn.

Main a chymwys fel y fedwen,
Berth ei llun fel hardd feillionen,
Teg ei gwawr fel boreu hafddydd,
Hon yw nôd holl glod y gwledydd.

XL.

Y GALON.

Dod dy law, ond wyd yn coelio,
Dan fy mron, a gwilia 'mrifo,
Ti gei glywed, os gwrandewi,
Swm y galon fach yn torri.

O f' anwylyd, cyfod frwynen,
Ac ymafael yn ei deupen,
Yn ei hanner torr hi 'n union,
Fel y torraist ti fy nghalon.

Mi ddymunais fil o weithiau
Fod fy mron o wydr golau,
Fel y gallai 'r fun gael gweled
Fod y galon mewn caethiwed.

XLI.

HIRAETH.

Gwedwch, fawrion o wybodaeth,
O ba beth y gwnaethpwyd hiraeth,
A pha ddefnydd a roed ynddo,
Na ddarfyddai wrth ei wisgo?

Hiraeth mawr a hiraeth creulon,
Hiraeth sydd yn torri 'm calon ;
Pan wyf dryma'r nos yn cysgu,
Fe ddaw hiraeth ac a'm deffry.

Hiraeth, hiraeth, cilia, cilia,
Paid a phwyso 'n rhy drwm arna',
Nesa dipyn at yr erchwyn,
Gad i mi gael cysgu gronyn.

Derfydd aur a derfydd arian,
Derfydd melfed, derfydd sidan,
Derfydd pob dilledyn helaeth,
Eto er hyn ni dderfydd hiraeth.

Hiraeth.

XLII.

Gwynt ar fôr a haul ar fynydd,
Cerrig llwydion yn lle coedydd,
A gwyllanod yn lle dynion,—
Och, na thorrwn i fy nghalon !

XLIII.

FY ANWYL FAM FY HUNAN.

Pwy a'm hymddygodd yn ddi-lys
O dan ei gwregys mwynlan ?
Pwy roes im' faeth a lluniaeth llon
O laeth ei bron bêr anian ?
A phwy a'm cadwai rhag cael cam ?
Fy anwyl fam fy hunan.

Pwy im' a suai uwch fy nghryd
Pan oeddwn wanllyd faban ?
A phwy fu 'n effro lawer gwaith
Drwy 'r hirnos faith anniddan ?
Pwy a'm gwarchodai rhag pob cam ?
Fy anwyl fam fy hunan.

Pwy a'm dilladai er fy llwydd
Bryd diniweidrwydd oedran,

Fy Anwyl Fam fy Hunan.

Rhag i mi fawr beryglu f' oes,
Ysigo einioes egwan?
A phwy a'm noddai rhag drwg nam?
Fy anwyl fam fy hunan.

Er blino mam garuaidd iawn,
A digio na chawn degan,
Hi 'n fynych wedi im' syrthio'n groes
Iachaes fy loes â chusan?
Pwy ni chwennychai imi gam?
Fy anwyl fam fy hunan.

A phwy a'm gwyliai ddydd a nos,
Rhag syrthio dros y geulan,
Neu gwympo ar yr aelwyd boeth
Mewn cyflwr noeth a thrwstan?
Pwy a'm golygai rhag drwg lam?
Fy anwyl fam fy hunan.

Pwy ond fy mam, dirionaf merch,
O eithaf traserch gwiwlon?
A wylai drosof, waelaf drych,
Pan oeddwn wrthrych truan?
A pheth ond llaw Rhagluniaeth lon
A ddaliai hon ei hunan?

Pwy a'm cynghorai bob rhyw bryd
Rhag arwain bywyd aflan,

Fy Anwyl Fam fy Hunan.

Ond parchu enw Duw trwy ffydd,
A chadw ei ddydd sancteiddlan,
Heb wneuthur unrhyw dwyll na cham?
Fy anwyl fam fy hunan.

Er mwyn i'm hawddgar fam heb groes
Ddiweddu oes yn ddiiddan,
Wrth iddi blygu bob yn bwyth
Dan ddirfawr lwyth o oedran,
Rhag suddo i'r bedd dan ofal bwn,
Cymeraf hwn fy hunan.

Pan fyddo angeu llym gerllaw,
Ei phen â'm dwylaw daliaf ;
A thrwyddi gras yn fendith gref
Fy Iôn o'r nef erfyniaf ;
A'm serch yn ddagrau heilltion red
Wrth dalu'r ddyled olaf.

Oblegid credu 'r wyf fod Duw
A wêl, a glyw y cyfan ;
Ei lid o entrych wybren fawr,
Melltennai lawr drwy f' anian,
Pe meiddiwn oddef cynnyg cam
I'm hanwyl fam fy hunan.

Dafydd Ddu Eryri.

XLIV.

ANNERCH MERCH IEUANC.

Y gangen wen ei gwawr,
Tro di 'n awr, tyrd yn nês,
Fwyna 'rïoed, feinir wen, lawen lês ;
Mynna 'n wir, sicr sôn,
Lunio tôn lân i ti ;
Cei 'n rhwydd oherwydd hawl
Gân o fawl gennyf fi.
Ordeiniodd Duw ei hunan
Gysylltu dau 'n yr unman ;
Hyn yw tueddiad diddan
Yn gynnes iawn ac anian,
 Doniol ran, dynol ryw.
Gobeithio cawn ni 'n pwrpas,
Cu foddion, waith cyfaddas,
I fynd trwy gariad gwiwras
Ryw bryd mewn glân briodas,
 Yn ddi-gâs, addas yw.

Rhois arnat ti fy serch,
Ddawnus ferch, ddynes fwyn ;

Annerch Merch Ieuanc.

Yn dyner iawn clyw di genni gŵyn.
Er gwynned yma 'n awr
Yw dy wawr a dy wedd,
Rhaid i ti o fwynder byd fynd i'r bedd;
Er bod dy gorff mwyneiddiol
Yn llawn o bechod marwol,
Ni fedraf lai na chanmol
Dy dirion gnawd daearol,
 Mwynaf rhôl er mawrhad ;
Y landeg liwdeg lodes,
Ragorol ddoniol ddynes,
Gobeithio caf fi loches
O fewn dy fwynaidd fynwes,
 Goreu llês—gwir wellhad.

Y landeg fwyndeg fun,
Mwys dy lun, moes dy law ;
Na thro, fy nghanen bêr, trwy drymder draw.
Cyn imi fynd i'r rhych,
Mewn tro gwych, mentra, Gwen,
Na ddelia 'n dŷn un awr dan y nen :
O gwrando gennyf gŵynion,
Wyt wedi dwyn fy nghalon,
Lloer heini, gwenlliw 'r hinon,
Ystyria, baunes dirion,
 Gryno, gron, fwynlon fun ;

Annerch Merch Ieuanc.

Nid ydyw 'r byd a'i bethau
I gyd ond gwael gysgodau,
Blâs oer fydd ar bleserau,
Pan ddelo dyrnod angau,
 Sy'n byrhau dyddiau dyn.

'Rwyf fi mewn lludded llawn,
Clwyfus iawn—claf o serch ;
Mae'r hyn a wna im' lês ym mynwes merch ;
'Rwy'n addef ar bob pryd,
Yn y byd, ynfyd wyf,
O achos morwyn wen, mawr yw'm nwyf ;
'Rwy'n addef nad rhinweddol
Hyderu ar ddyn daearol,
Neu foli 'r fun derfynol
A fydd ar fŷr yn farwol ;
 Ond wyf yn ffôl ganmol Gwen ?
Fe guddir dy wynepryd
Pureiddliw mewn lle priddlyd ;
A heibio awel bywyd,
Rhoir di dan gaerau'r gweryd
 O drwst y byd dros dy ben.

Dafydd Ddu Eryri.

XLV.

CAN GWENFRON.

[O GYWYDD 'Y DRINDOD.']

Iehofah hael,
Dydi, O Dad,
Glywi 'mhob gwlad
Gri gweddi 'r gwael.
O, gwel fi 'n isel yn awr,
Iôr hedd, o flaen d' orsedd Di!
Tro, Iôn, d' olygon i lawr
O'r nef wên fawr arnaf fi ;
Ond Ti, ein Tŵr,
Dywysi 'n glau dy weision glân drwy dân a dwr !

O d' ŵydd nid âf ;
Pa glau ddu glo,
Pa fryn, pa fro
Na welo Naf?
Pe 'mgodwn, pe hedwn hynt
Ar laswen aden y wawr

Can Gwenfron.

Neu olwynion gwylltion gwynt,
I'r tonnog fôr, murmurog, mawr ;
Ym mynwes môr
Byddaf o hyd, hyfryd yw hyn, dan edyn Iôr.

O deg liw dydd,
O gyrraedd gwawr
Ffurfafen fawr,
I'r orawr rydd,
Pe 'mguddio wnawn yno, Nêr
Mewn gwawl anfeidrawl a fydd!
Y nos sydd, heb loer na sêr,
I'r Iôn mor dirion a'r dydd ;
O Arglwydd glân !
Personol Dad, presennol Di i mi 'mhob man.

Fy meddwl mad
O herwydd hyn
Sy'n soddi 'n syn,
Ddiderfyn Dad !
I'r nef, i'r oleunef lân,
Mal pybyr eryr, pe 'r awn,
Y siriol anfeidrol fan,
Tydi sy'n eu llenwi 'n llawn :
Dwys hynt os af
I Uffern ddu, yn ei Ffwrn ddofn Cyfion y'th caf.

Can Gwenfron.

Gormod yw 'r gwaith,
Anfeidrol Fod !
Egluro 'th glod,
Rhyfeddod faith !
Dy ddeddfau a d' eiriau Di,
Sydd lawn mor diriawn a'r dydd;
Mor bêr yw eu mêr i mi !
Hwy 'n orau trysorau sydd;
Mal mêl im' ynt,
O fwyned yw i f' enaid i eu holi hwynt !

Drugarog Iôn !
Yn d' eiriau Di
Myfyriaf fi,
Er si 'r oes hon.
Y ddaear werdd, liwgar lân,
A'r glaerwen ffurfafen fawr,
Newidio, heneiddio wnan',
Er gwyrdded, gwynned eu gwawr ;
Duw lwys di lyth,
Diriona' Tad, yr un wyt Ti, a fyddi fyth.

Dafydd Iona'wr.

XLVI.

BER ENNYD EINIOES.

O hyd yr oes pechadur wyf,
Dan glwy',—fy nwyf yn afiach,—
Yn dwyn fy mriwiau dan fy mron,
Archollion pwy erchyllach?
O waeledd nerth ni welodd Naf
Tirionaf neb truanach.

Anghofio 'n dost fy nghyfiawn Dŵr,
Gwir noddwr trugareddau,
Heb ado drwg y byd a'i drais,
Taer redais at ei rwydau,
Pob ynfyd naws yn draws a drodd,
Ymledodd dros fy mlodau.

Aeth talm, ysywaeth, dan y sêr
O'm hamser hoewber heibio,
A'r oes o hyd sy'n dwys fyrhau,
Mae pwys fy oriau'n pasio,
A'r corff i'r bedd, naws agwedd swrth,
A dorrir wrth ei daro.

Ber Ennyd Einioes.

Ow ! gwan yw dyn, a gwn nad oes
I'r einioes ond bër ennyd,
Tyrr angau'r byw trwy ing i'r bedd
I orwedd dan ei wryd ;
Nid oes un nodded îs y nen,
Na chilen i'w ochelyd.

Robert ap Gwilym Ddu.

XLVII.

ANNERCH I LYGAD Y DYDD.

Lysieuyn glwys a dengar,
Sy'n harddu wyneb daear,
Rhyw ddwys hyfrydwch mawr a'm medd
Wrth weld dy agwedd hygar.

Ti yw y cynta' 'leni
A welais er ymholi,—
Cei am dy eon yspryd mad
Roesawus ganiad genni'.

A deimlaist ddim amheuon
Ac ofnau, wawr fwyn wirion,
Wrth godi 'th ben o'r ddaear glyd
O flaen dy gyd-gyfeillion ?

Annerch i Lygad y Dydd.

Anturiaist yn galonnog
Fel capten dewr galluog,
Yn deg a hardd wynebu'r hin,
Pa un ai blin ai tesog.

O'th ôl mae mil yn llechu
Mewn braw, yn dwys ymgelu,
Rhag fod y gaeaf oer ei naws
Yn para 'n trawsdeyrnasu.

Mynega 'n dirion iddynt
Fod disgwyl mawr am danynt,
A gwed nad oes trwy'r dyffryn glân
Nac eira mân, nac oerwynt.

O'u canfod mawr fydd balchedd
Yr anifeiliaid glanwedd,
A'r oen na phrofodd hwynt o'r bla'n
A deimla lân orfoledd.

'E fydd yn mawr ryfeddu
Wrth weld pob man o ddeutu
O flodau gwynion oll yn llawn
Yn hyfryd iawn olygu.

Prysurwch, lysiau glwysaf,
'E ddarfu rhew a gaeaf,—

Annerch i Lygad y Dydd.

O eisiau 'ch dod i doi ein tir
Rhyw hiraeth gwir a deimlaf.

Mil glanach, pan bo'ch ddibrin,
Eich gwawr a'ch gwên oriesin
Na'r gemau sydd yn rhesi llon
Yn harddu coron brenin.

Prysurwech, lysiau mwyngu,
Daw'r awel i'ch cusanu
Yn desog bêr, a gwyn ein byd,
Mae hyn o bryd yn nesu.

Mor hyfryd fydd y borau
Cydrodio hyd y caeau,
A gwrando cerddi llu y llwyn
I'r Awen fwyn a finnau.

Daniel Ddu o Geredigion.

XLVIII.

FALENTIN.

Fe ddarfu 'r gaeaf creulon,
Tawelach yw'r awelon,—

Falentin.

A'r adar bach, gan fywiocau,
Sy'n dechreu gweu caneuon.

Holl anian gain sy'n gwenu,
Gan nawsaidd ymgynhesu;
Ac nid yw 'n deilwng rhoddi sèn
I minnau, Gwen, am ganu.

Wrth weld dy lun mor laned,
Pa fab all dewi, dywed?
O, rho i lanc ar soddi i lawr
O'i ddolur mawr ymwarded!

Yn dewis y mae 'r adar
Yn awr bob un ei gymar,
I fyw mewn undeb eithaf llon
Uwch pob argoelion galar.

Un, un ddewisaf finnau,
A hon wyt ti, lliw'r blodau;
Yn rheidiol lês, O, rho dy law
I dorri 'm braw a'm briwiau.

Yr eneth fwyn eirianaf,
Tydi yw 'r lana' welaf;
Na âd, a mi mor wael fy nrych,
Fath bwn o oernych arnaf.

Falentin.

Rho 'th law 'n addewid imi,
Rho 'th gusan i'm sirioli;
O galon rydd, yn glodydd glân,
Diderfyn gân gei genni.

Y mae dy wên yn waddol,
Deg Wen, o werth digonol;
Uwch unrhyw bris yw'th lygaid pêr
Sydd fel y sêr yn siriol.

O! tro yn awr tra 'n iraidd,
I rwymyn cariaid puraidd,—
Cawn fyw mewn tês yn gynnes, Gwen,
A'n byd yn hufen hafaidd.

Mae'r gwanwyn ar egino,
Daw blodau 'r haf i'w rhifo;
Anturia, Gwen, mae natur gain
Yn cymell sain cydsynio.

Daniel Ddu o Geredigion.

XLIX.

CAN I GARIAD.

Cariad unwaith aeth i chwarae
Ar ei daith i blith rhosynau ;
Ac yno 'r oedd heb wybod iddo
Wenynen fach yn diwyd sugno.

Wrth arogli o hono 'n hoew
Y rhosyn hwn a'r rhosyn acw,
Y wenynen fach a bigodd
Ben ei fys, ac ymaith hedodd.

A gwaeddodd yntau rhag ei cholyn,
A chan y boen a oedd yn dilyn
At ei fam y gwnai brysuero,
A'r dagrau dros ei ruddiau 'n llifo.

Gwaeddai "Mam! yr wyf yn marw,
Brathwyd fi yn arw, arw,
Gan ryw sarff hedegog, felen,
Ac ei henw yw Gwenynen."

Can i Gariad.

Ebai Gwener, "Os Gwenynen
A'th bigodd di mor drwm, fy machgen,
Pa faint mwy y saethau llymion
A blennaist ti mewn llawer calon?"

Tegid.

L.

HIRAETH Y BARDD.

P'am mae 'm calon fel y don
Mor aflonydd yn fy mron?
O! am Elen, Elen lon,
Elen, Elen, O!

Meddwl am ei llais a'i gwedd
Ar fyr a'm doda yn y bedd;
Hebdi hi nid oes i'm hedd,
Elen, Elen, O!

Y gwynt, adrodda di fy nghwyn
Yn ddistaw bach wrth Elen fwyn!
Hi a wneiff a mi gyd-ddwyn,
Elen, Elen, O!

Hiraeth y Bardd.

Y lloer, bob nos mynega di
Fy mod yn ffyddlaw'n iddi hi,
Ac ar ei hol mor brudd wyf fi,
Elen, Elen, O!

Prysured amser ar ei daith,
Na foed yr oriau ddim yn faith
I glywed eto ddengar iaith
Elen, Elen, O!

Cryf yw cariad, trech nâ'r bedd ;
Er dwr, er tân, er miniog gledd,
Byw o hyd a wna yng ngwedd
Elen, Elen, O!

Tegid.

LI.

ELISA.

Canmoled Athen yn gytun
Ei harfog fun Minerfa,
A dweded Sparta byth ar goedd
Ow ! laned oedd Helena ;
Minnau ganaf—harddach hi,—
Felysair i f' Elisa.

Elisa.

O bryd a gwedd, a harddwch llun,
Fy anwyl fun yw'r fwyna';
Wrth weld ei thegwch gwrida'r lloer,
Dan gaddug oer ymguddia;
A'r haul ni wêl, trwy'r cylch y rhed,
Un lwysed a'm Helisa.

I'r blodeu, melus ydyw'r gwllith
Yn foreu i'w plith ddifera,
A melus yw'r llysiuyn glâs
I'r praidd a'i flâs pereiddia',—
I mi ni ddwedwn yn fy myw
Felysed yw f' Elisa.

Glân, rhwng drain, yw lili'r glyn
O liw mor wyn a'r eira,
Ac hardd yw'r lloer, rhwng sêr y nen,
Yn glaerwen pan ddisgleiria;
Ymysg morwynion Cymru wiw,
Ow ! lwysed yw'm Helisa.

Ar noswaith oer am doriad gwawr
Y gwylwr 'fawr ddisgwylia :
Yr hydd yn flin gan wres yr hin
Am ddwr i'w fin riddfanna :

Elisa.

Ond hiraeth mwy sydd dan fy mron,
Mwy loesion, am Elisa.

O, clyw, f' anwylyd ! clyw fy nghais,
Tosturus lais ystyria ;
Iachâ fy mron, dan ddirfawr nych
Yn fynych a riddfanna ;
'Dall neb roi imi ar fin fy medd
Hwylusedd ond f' Elisa.

Bu'n hyfryd gennyf weld dy lun,—
Do, ganwaith, fun addfwyna',—
A'th wallt modrwyog oll yn bleth ;
Ond, eto, 'r peth hyfryta'
Fai gweld dan sêl, mewn eglwys plwy',
Law aswy fy Elisa.

D. ap Gwilym o Fuallt.

LII.

GWENO LLANGYNYD.

Pa wrthrych fu o'm mebyd,
Yn anwyl im' bob ennyd,
A phwy yn gyntaf aeth a'm serch
Ond Gweno, merch Llangynydd?

'Rw'i'n caru'r llwch mae'n siengyd,
Gwen oleu, fy anwylid!
Er mwyn fy nghymen seren syw
Llon gennyf yw Llangynydd.

Pe rhodded im' bob gwynfyd,
A chyfoeth India hefyd,
Anghofia'i fyth, er dim a fo,
Y ferch o fro Llangynydd.

Pan fyddw'i 'n goddef blinfyd,
A chroesau annedwyddyd.
At bwy 'r âf i ddweyd fy nghwyn
Ond geneth fwyn Llangynydd?

Pan bwyf ar wely clefyd,
Yn achlaf, hên, a nychlyd,

Gweno Llangynydd.

Pwy ddeil fy nghlwyfus, boenus ben,
Ond geneth wen Llangynydd ?

Nis gallaf dreulio 'mywyd
Heb gynnes ferch Llangynydd ;
Hon yw'r feinwen glaerwen, glyd,
A garaf hyd y gweryd.

Cyn twyllw'i f' anwyl feinwen,
A'm siriol, hawddgar seren,
Fe droir y môr, er maint ei rwyg,
A'r afon Wysg, o'u helfen.

Gwilym Glanwysg.

LIII.

MOLAWD MORGANNWG.

Hoff gan rai yw canu, 'n wir,
Fawlgerddi i dir eu trigfan ;
Hoff gen innau wau, 'n ddiwâd,
I f' anwyl wlad fy hunan,
Ar y gwledydd oll sydd ben,
Un geinwych fel hen Ganaan.

Molawd Morgannwg.

Dyma ardd flodeuog, ffriw,
Paradwys wiwlwys olwg,—
Brenhines Cymru lwysgu lon ;
Mae teithi hon yn amlwg.
Dyma dir toreithiog, mât,
Hên gynnes wlad Morgannwg.

Gwlad yw hon gynhyrchiol iawn
Mewn ŷd a grawnwin odiaeth ;
Trysordy llâd o hyd yn llawn
O foethau hylawn helaeth.
Mae Morgannwg deg ei phryd
Yn llonni'r byd a lluniaeth.

Gwlad y Beirdd, têt glod y byd,
Yw ceinfro hyfryd Hafren ;
Llawnfro isel, dawel, deg,—
Gwir yw,—lle megir Awen,
A lle mae'r beirdd o hyd mewn hedd
Yn llywio 'u sedd yn llawen.

'E fu Taliesin, fawr ei rin,
A'r hen Aneirin wrawl,
Yn eu llafur pur mewn parch
Yn cyfarch Catwg hyfawl ;
Dyma'r fro lle cawsant faeth,
Magwriaeth wych ragorawl.

Molawd Morgannwg.

Mae ynddi gestyll caerog, cain,
A threfydd mirain, mawrwyd,—
Tal-y-fan, fu'n fawr ei fri,
A hen Gaerffili glodwyd ;
Y rhai'n fu gynt yn gorn a phen
Y deyrnas wen gadarnwyd.

Tra haul ar daith, tra hwyl ar dòn,
Tra mwynion, dynnion dannau,
Tra cŵyn y gwan, tra cân y gôg,
Tra niwl yn glôg i'r bannau,
Bydd clod gwlad Forgan, wiwlan ardd,
Yn gân bob bardd a genau.

Gwilym Ild.

LIV.

CAN GWRAIG Y PYSGOTWR.

Gorffwys, dòn ! dylifa'n llonydd,
Paid a digio wrth y creigydd ;
Y mae anian yn noswyllo,
Pam y byddi di yn effro ?
Dwndwr daear sydd yn darfod—
Cysga dithau ar dy dywod !

Can Gwraig y Pysgotwr.

Gorffwys, fôr ! mae ar dy lasdon
Un yn dwyn serchiadau 'nghalon ;
Nid ei ran yw bywyd segur,
Ar dy lifiant mae ei lafur ;
Bydd dda wrtho, fôr diddarfod,
Cysga 'n dawel ar dy dywod !

Paid a grwgnach, bydd yn ddiddig,
Dyro ffrwyn ym mhen dy gesig ;
A pha esgus iti ffromi ?
Nid oes gwynt ym mrig y llwyni :
Tyrd â bâd fy ngŵr i'r diddos
Cyn cysgodion dwfn y ceunos.

Iawn i wraig yw teimlo pryder
Pan bo 'i gŵr ar gefn y dyfnder ;
Ond os cyffry dig dy donnau,
Pwy a ddirnad ei theimladau ?
O, bydd dirion wrth fy mhriod,—
Cysga 'n dawel ar dy dywod !

Byddar ydwyt i fy ymbil,
Fôr didostur, dwfn dy grombil !
Trof at Un a all dy farchog
Pan bo'th donnau yn gynddeiriog ;
Cymer Ef fy ngŵr i'w gysgod,
A gwna di'n dawel ar dy dywod.

Alun.

LV.

Y DDEILEN GRIN.

Sech yw'r ddeilen ar y brigyn,
Buan iawn i'r llaid y disgyn ;
Ond y meddwl call a ddarllen
Wers o addysg ar y ddeilen.

Unwaith chwarddodd mewn gwyrddlesni,
Gwawr y nef orffwysodd arni ;
Gyda myrddiwn o gyfeillion
Dawnsiodd yn yr hwyr awelon.

Darfu 'r urdd oedd arni gynnu,
Prin y deil dan wlith y borau,
Cryna rhag y chwa ireiddlon
Sydd yn angau i'w chyfoedion.

Ni all haul er ymbelydru,
Na llawn loer er ei hariannu,
Ac nis gall yr awel dyner
Alw 'n ol ei hen ireidd-der.

Y Ddeilen Grin.

Blaguro 'chydig oedd ei chyfran,
Rhoi un wên ar wyneb anian ;
Llef o'r nef yn Hydref waedda,—
“ Darfu 'th waith,” a hithau drenga.

Alun.

LVI.

CATHL I'R EOS.

Pan guddio nos ein daear gu
O dan ei du adenydd,
Y clywir dy delori mwyn,
A chôr y llwyn yn llonydd ;
Ac os bydd pigyn dan dy fron
Yn peri i'th galon guro,
Ni wnai nes torro'r wawrddydd hael,
Ond canu a gadael iddo.

A thebyg it' yw'r feinir wâr
Sydd gymar gwell na gemau,
Er cilio haul a hilio bro
A miloedd o gymylau ;

Cathl i'r Eos.

Pan dawo holl gysurwyr dydd,
Hi lynna yn ffyddlonaf;
Yn nyfnder nos o boen a thrais
Y dyry lais felusaf.

Er dichon fod ei chalon wan
Yn delwi dan y dulid,
Ni chwyna, i flino 'i hanwyl rai,—
Ei gwên a guddia 'i gofid;
Ni pheidia 'i chan trwy ddunos faith,
Nes gweled gobaith goleu
Yn twnnu, megis llygad aur,
Trwy bur amrantau 'r boreu.

Alun.

LVII.

CWYN AR OL CYFAILL.

Trwy ba bleserau byd
Yr wyt yn crwydro cyd?
Mae pleser fel y lli',
A'r moethau goreu i mi
Yn wermod hebot ti,
Siôr anwylaf.

Cwyn ar ol Cyfaill.

Trwm wibio llygad llaith
Am danat yw fy ngwaith ;
A rhodio godrau'r bryn,
A gwyrddion lannau'r llyn,
Lle rhodit ti cyn hyn,
Siôr anwylaf.

Mae peraidd flodau d' ardd
Yn gwywo fel dy fardd ;
A'th ddefaid hyd y ddôl,
A'u gwirion ŵyn o'u hol
Yn gofyn ddoi di 'n ol,
Siôr anwylaf.

Mae 'n Nghymru laeth a mêl,
Mae 'n Nghymru fron ddi-gêl,
Mae 'n Nghymru un yn brudd
O'th eisiau nos a dydd,
A'i gair wrth farw fydd,
“ Siôr anwylaf!”

Alun.

LVIII.

BUGEILGERDD.

DEWI.

A welaist, a 'dwaenaist ti Doli,
Sy a'i defaid ar ochr Eryri?
Ei llygad byw llon
Wnaeth friw ar fy mron ;
Melusach na'r diliau yw Doli.

HYWEL.

O do, mi adwaenwn i Doli,
Mae 'i bwthyn wrth droed yr Eryri ;
'D oes tafod na dawn
All adrodd yn iawn
Mor hawddgar a dengar yw Doli.

Un dyner, un dawel yw Doli,—
Mae 'n harddach—mae'n lanach na'r lili ;
'D oes enw îs nen
A swnia 'n ddisen
Mor bêr gyda'r delyn a Doli.

Bugeilgerdd.

DEWI.

Ow ! Ow ! nid yw 'n dyner wrth Dewi ;
'D oes meinir yn delio fel Doli,
Er ymbil â hi
A'm llygaid yn lli,
Parhau yn gildynnus mae Doli.

Ymdrechais wneud popeth i'w boddio,
Mi gesglais y geifr idd eu godro,
Dan obaith yn llwyr
Y cawn yn yr hwyr
Gusanu yn dalu gan Doli.

Mae 'i mhyndwys mor wynnodd a'r eira,—
Mae 'i chalon mor oered, mi wiria' ;
Ar f' elor ar fyr
Fy nghariad a ngyr
O oered a deled yw Doli !

Tri pheth a dim mwy wy'n ddymuno,—
Pob bendith i Doli lle delo,—
Cael gweled ei gwedd
Nes myned i' medd,—
A marw yn nwylo fy Noli.

Alun.

LIX.

CWYN CARIAD.

F' anwyl ferch, delw 'm serch, clyw annerch clwy'
 enaid,

Troist yn ddu 'r cariad cu, a chanu 'n ochenaïd?

A oedd un llaw drwy'r dref draw i nharaw'n an-
 nhirion?

A oedd ymhlêth, at y peth, ddwrn yr eneth union?

Yn wir dy wêg dagrau ddwg i'r golwg o'r galon,

Oni chaf hedd, af i'm bedd i orwedd yn wirion.

P'le mae'r gred, gofus ged, adduned oedd anwyl?

Ai sî a siom yr amod drom unasom ryw noswyl?

P'le mae'r drem, fel gwawr gem, a luniem dan
 lwynydd?

Torraï 'n syn swyn y llyn, y delyn, a'r dolydd:

Yn iach i'th wedd, mi wela 'medd, wan agwedd yn

agor;

Dywed di, fy mun, i mi, a wyli ar f' elor?

Pan weli sail y bedd, a'r dail ar adail mor hoewdeg,

Ac uwch y tir ysgrif hir, o'r gwir ar y garreg,

Mae d'achos di, greulon gri, fu gwelwi'r fau galon,

Ai dyma'r pryd daw gynta'i gyd iaith hyfryd o'th

ddwyfron?

Cwyn Cariad.

Gorchwyl gwan rhoi llef drwy'r llan, troi'r fan yn
afonydd;
Rhy hwyr serch, felly ferch i'm llannerch bydd
llonydd.

Alun.

LX.

CERDD HELA.

Mae awelon dydd yn deffro,
Gwelwch ruddiau'r bore'n gwrido,
A glywch chwi sain corn hela 'r Gelli,
Yn rhoi tafod i'r clogwyni!
Twrf helyddion—cŵn yn udo,
Pob peth megis yn cydfloeddio,
“Heddyw ydyw 'r dydd i ddala
Cadno cyfrwys Craig-y-Byllfa!”

Dacw 'r fywiog dyrfa 'n cychwyn,
Ac ym mlaenaf yn y fyddin
Gwelir ar ei helfarch gwisgi
Foneddigaidd ŵr y Gelli,
A'i gâr, ymfrost Blaen-y-corwg,
Mél ac enaid hîl Morgannwg;

Cerdd Hela.

O gwm i fynydd dacw 'r dyrfa
'Nawr yn ymyl Craig-y-Byllfa.

Oergri 'r cŵn sydd acw'n dangos
Fod llochesau 'r cadno 'n agos,
Clywch y floedd sy'n crugo 'r creigiau !
Dacw 'r cadno 'n llamu 'r rhiwiau,
I Gwmaman, i Gwmgwyngul,
A chŵn y Gelli yn ei ymyl ;
Rhy ddiweddar edifara
Adaef cilfach Craig-y-Byllfa.

Gwelwch, ni wna nant na chlogwyn
Beri i Nimrod wyro mymryn !
Leader, Guider, Topper, German,
Fel yn hedeg drwy Gwmaman,
Ringwood, Famous, Countess, Collier,
Blucher, Stately,—am gyflymder,
Haeddant sylw yng ngherdd hela
Cadno cyfrwys Craig-y-Byllfa.

Gan mor gyflym mae y cwmni
'N gado ar ol y coed a'r llethri,
Y mae'r llethri fel yn neidio,
A'r coedwigoedd fel yn dawnsio.

Cerdd Hela.

Gwelwch fel y mae'r helyddion,
Yn neidio'r cae—yn rhydio 'r afon :
Hwy na hir y cofir hela
Cadno cyfrwys Craig-y-Byllfa.

Troes yn awr am nawdd a chysgod
I'r Garreg-lwyd—hen ffau 'r llwynogod ;
Ond gwylwyr effro a chŵn yr Ystrad
Yma dorrent ar ei fwriad.
At Graig-y-llyn cyfeiria 'n brysur,
Ond prysurach ei erlidwyr :
Rhy ddiweddar edifara
Adael cilfach Craig-y-Byllfa.

Clywch y floedd sy'n rhwygo'r entrych !
Mae 'n carlamu 'n Nghwm-grefelych ;
At Bont Walby hwylia'r cidwm,
A thrwy'r coed wrth Aberpergwm.
Mae'n Nghwm-medd,—ond ofer iddo—
Ddisgwyl hamdden i orffwyso :
Rhy ddiweddar edifara
Adael cilfach Craig-y-Byllfa.

Helwyr, meirch, a chŵn yn ymlid
A'i troes yn ol, er cadw 'i fywyd,
At Graig-y-llyn â'r gorgoch eto,
I'r Garreg-lwyd am le i ymguddio :

Cerdd Hela.

Methai gyrraedd ffau ddiogel ;
Dyna'r fonllef ar yr awel,
" Daliwyd, daliwyd, daliwyd yma,
Gadno cyfrwys Craig-y-Byllfa ! "

Nid hyn yw'r cyfan,—dacw'r cwmni
Wrth groesawgar fwrdd y Gelli,
A gwydriaid llawn a chalon lawen,
Yn yfed ' Hedd a llwydd y nenbren ! '
Yfed ' Teulu Blaen-y-corwg,
A helwriaeth gwlad Morgannwg ! '
A phob gwron a fu'n hela
Cadno cyfrwys Craig-y-Byllfa.

Alun.

LXI.

RHYWUN.

Clywais lawer son a siarad
Fod rhyw boen yn dilyn cariad,
Ar y son gwnawn innau chwerthin
Nes y gwelais wyneb Rhywun.

Rhywun.

Ni wna cyngor, ni wna cysur,
Ni wna canmil mwy o ddolur,
Ac ni wna ceryddon undyn
Beri im' beidio caru Rhywun.

Gwyn ac oer yw marmor mynydd,
Gwyn ac oer yw ewyn nentydd,
Gwyn ac oer yw eira Berwyn,
Gwynnach, oerach, dwyfron Rhywun.

Er cael llygaid fel y perlau,
Er cael cwrel yn wefusau,
Er cael gruddiau fel y rhosyn,
Carreg ydyw calon Rhywun.

Tra bo clogwyn yn Eryri,
Tra bo coed ar ben y Beili,
Tra bo dwfr yn afon Alun,
Cadwaf galon bur i Rhywun.

Pa le bynnag bo'm tynghedfen,
P'un ai Berhiw neu Rydychen,
Am fy nghariad os bydd gofyn,
F' unig ateb i fydd—Rhywun !

Rhywun.

Caiff yr haul fachludo 'r borau,
Ac â moelydd yn gymylau,
Gwisgir fi mewn amdo purwyn,
Cyn y peidiaf garu Rhywun.

Alun.

LXII.

CYFLAFAN MORFA RHUDDLAN.

Cilia'r haul draw dros ael bryniau hael Arfon ;
Llenni'r nos sy'n mynd dros ddôl a rhôs weithioni ;
Pob rhyw chwa ymaith a gilia o'r llwyni ;
Ar fy nghlust draw mae ust y don yn distewi ;
Dan fy mron clywa'm llon galon yn curo,
Gan fawr rym digter llym, wrth im' fyfyrïo
Ar y pryd pan fu drud waedlyd gyflafan,
Pan wnaed brad Cymru fad ar Forfa Rhuddlan.

Trwy y gwyll gwelaf ddull teryll y darian ;
Clywaf si eirf, heb ri, arni yn tincian ;
O'r bwâu gwyllt mae'n gwau saethau gan sïo ;
A thrwst mawr nes mae'r llawr rhuddwawr yn siglo ;
Ond wedi sain twrf y rhai'n, ac ochain y clwyfog,
Fry hyd Nef clywir cref ddolef Caradog,—

Cyflafan Morfa Rhuddlan.

“ Rhag gwneud brad ein hen wlad, trown ein cad
weithian,
Neu caed lloer ni yn oer ar Forfa Rhuddlan !”

Wele fron pob rhyw lon Frython yn chwyddo !
Wele’u gwedd fal y cledd fflamwedd yn gwrido !
Wele’r fraich rymus fry’n dyblu’r ergydion !
Yn eu nwy’ torrant drwy lydain adwyon.
Yr un pryd Cymru i gyd gyfyd ei gweddi,—
“ Dod yn awr nerth i lawr yn ein mawr gynt.
Boed i Ti, O ! ein Rhi, noddi ein trigfan !
Llwydda’n awr ein llu mawr ar Forfa Rhuddlan !”

Troswyf daeth, fal rhyw saeth, alaeth a dychryn,
Och ! rhag bost bloeddiau tost ymfrost y gelyn ;
Ond O ! na lawenha, fal a wnai orchest ;
Nid dy rym ond dy Ri ddwg i ti goncwest.
Ow ! rhag braw’r dorf sy draw’n wylaw o’r drysau,
Am lwydd cad Cymru fad,—rhad ar eu harfau !
Mewn gwyllt fraw, i’r geillt fry, rhedy pob oedran,
Wrth weld brad gwyr eu gwlad ar Forfa Rhuddlan.

Bryn a phant, cwm a nant, lanwant a’u hoergri ;
Traidd y floedd draw i goedd cymoedd Eryri ;
Yr awr hon y mae llon galon hen Gymru
Am fawr freg ei meib teg, gwiwdeg, yn gwaedu.

Cyflafan Morfa Rhuddlan.

Braw a brys sydd drwy lys parchus Caradog ;
Gwaeddi mawr fynd i lawr flaenawr galluog ;
Geilw ei fardd am ei fwyn delyn i gwynfan,
Ac ar hon tery dôn, hen "Forfa Rhuddlan."

Af yn awr dros y llawr gwyrddwawr i chwilio
Am y rhai mae eu rhan farwol yn huno.
Ond y mawr Forfa maith yw eu llaith feddrod,
A'i wyrdd frwyn a'r hesg lwyn yw eu mwyn gofnod !
Ond caf draw, gerllaw'r llan, drigfan uchelfaith
Ioan lân, hoffwr cân, diddan gydymaith.
Ac yn nhy'r Ficar fry, gan ei gu rian,
Llety gaf :—yno'r af o Forfa Rhuddlan.

Ieuan Glan Geirionnydd.

LXIII.

RHIEINGERDD BUGAIL CWMDYLI.

'E ddiffannodd clog y gwlaw,
F'anwylyd wiw !
Oedd yn toi'r Eryri draw,
F'anwylyd wiw !

Rhieingerdd Bugail Cwmdyli.

Mae yr haul ar hyn o dro
Yn goreuro bryniau'n bro ;
I'r hafoty rhoddwn dro,
F'anwylyd wiw !

Ni gawn wrando'r creigiau crog,
F'anwylyd wiw !
Yn cyd-ateb can y gog,
F'anwylyd wiw !
A diniwed fref yr ŵyn
A'r eidionau ar bob tŵyn,
A'r ehediaid llon o'r llwyn,
F'anwylyd wiw !

Ond ar fyrder beth i mi,
F'anwylyd wiw !
Fydd Cwmdyli hebot ti,
F'anwylyd wiw !
Yn iach i wrando 'th adsain dlos
Wrth dy wyllo dros y rhos
Yn dod i odro fore a nos,
F'anwylyd wiw !

Ac yng nghanol dwndwr tre',
F'anwylyd wiw !

Rhieingerdd Bugail Cwmdyli.

A diddanion llon y lle,
F'anwylyd wiw !
Nac anghofia un a fydd
Ar dy ol yn wylo'n brudd
Yng Nghwmdyli nos a dydd,
F' anwylyd wiw !

Ieuan Glan Geirionnydd.

LXIV.

CANIAD Y GOG I ARFON.

Perffaith yw dy waith, Duw Iôr,
Mae tir a môr yn dystion !
Da a didwyll gwnaed hwy oll,
Heb goll na dim diffygion ;
Ond o'r cyfan goreu gwnaed
Goreuwlad wirfad Arfon.

P'le mae cynnar ganiad cog
Mewn glaswydd deiliog glwysion,
Dyfnion neint, a chreigiau serth,
A phrydferth reieidr mawrion ?
Ar Eryri uchel wawr,
Ar erfawr lannau Arfon.

Caniad y Gog i Arfon.

Defaid filoedd sy'n porfau
Ar hyd ei brynau meithion,
Ei gweunydd heirdd, a'i bronnydd teg,
Sy'n llawn o wartheg duon,
Da yw'r pysgod sydd yn gwau
Yn nyfnion lynnau Arfon.

Clywir adlais bêr ddibaid
Y clau fugeiliaid gwiwlon,
A'u chwibaniad hyd y dydd
Ar hyd ei gelltydd gwylltion,
A diniwed frefiad ŵyn
Ar ir-frwyn fryniau Arfon.

Clywir miwsig bwysig, bêr,
Trwy fwynder twrf y wendon,
Nos a dydd y sydd a'i si
Yn golchi 'i glannau gleinion;
O! na chawn ni rodio o hyd
Hyd forfin hyfryd Arfon!

P'le mae amlaf geinciau pêr
Y gwiwber delynorion,
Pawb yn canu yn eu cylch
O'n hamgylch fwyn benillion,
Yn gariadlon, gyson gôr?
Yng ngoror erfai Arfon!

Caniad y Gog i Arfon.

P'le mae mwynder, doethder dysg
Ac addysg teg agweddion,
Odlau cu, a mydru mawl,
A siriawl, ddoniawl ddynton?
P'le mae'r beirddion mwya'u clod,
Anorfod, ond yn Arfon?

Pwy sydd bur heb dwyll na brad,
Drwg fwriad na dichellion?
Pwy sydd hawddgar heb naws gwg,
Neu gynnal drwg amcanion.
Pwy sydd un ac un, i gyd,
Ond dewr-feib hyfryd Arfon?

Hardd yw'r haul ar foreu teg,
A gloewdeg uwch gwaelodion;
Hardd a llon yw meillion Mai,
Ar ddifai lennydd afon;
Harddach yw menywod mad
Goreu-wlad wir-fad Arfon.

P'le y ceir mewn dolor du
Anadlu iach awelon,
Yfed dyfroedd mawr eu rhin
Sydd well na gwin i'r galon?
P'le ceir llaeth a mêl heb drai?
Yn erfai frodir Arfon.

Caniad y Gog i Arfon.

Pa le bum yn chwareu gynt
Yn chwyn fy hynt a'm troion,
Pan oedd nwyf mabolaeth clau
Yn bywiocau fy nghalon,
Heb drafferthion i'm pruddhau?
Ar erfai frodir Arfon.

Y mae hiraeth i'm trymhau
Am weled glannau gleinion,
Hyfryd ddolydd, meusydd maith
Sy'n lanwaith heb elynion,
Ac am greigiau muriau mawr,
Clogwyn-fawr, erfawr Arfon.

Os da gan glaf ar fin ei fedd
Gael adwedd o'i glefydon,
Os da gan grwydryn yn y nos
Gael llety diddos, boddlon,
Gwell gen i gael lloches glyd
O dwrf y byd yn Arfon.

Gwyn fy myd pe cawn yn awr
Adenydd y wawr dirion;
Hedeg wnawn dros fôr a thir
Yn gywir ac yn union,
A disgynnwn yn ddiau
Ar erfai fryniau Arfon.

Caniad y Gog i Arfon.

Duw a'm dyco cyn fy medd
I fyw mewn hedd a digon,
A chael treulio 'm gweddill oes
Heb loesau anfelusion ;
Hyn yw'm harch, a Duw yn Dad,
Ym mynwes wir-fad Arfon !

A phan y delo diwedd oes,
A du loes angau creulon,
A dod o'r dydd i'm rhoddi'n fud
Yn nistaw fyd marwolion,
Boed i'm corff gael bedd yng nghlai
A daear erfai Arfon !

Ieuan Glan Geirionnydd.

LXV.

CARIAD A RHESWM.

Fenyw fwyn, gwranddo gŵyn
Un sy'n curio er dy fwyn ;
Mae i mi ddirfawr gri
Ddydd a nos yn d' achos di.
Wylo'r dwr 'rwy', eiliw'r dôn,
Gwél fy mriw o tan fy mron ;
Nid oes arall feddyg imi
Ond tydi, lili lon.

Cariad a Rheswm.

Dy bryd, blodau'r byd,
Sydd o hyd i'm pruddhau ;
Cofio'th lendid hyfryd di
Wna i mi fawr drymhau.
'Rwy' fel un mewn carchar caeth,
Drwy fy oes yn dioddef aeth,
Ac oblegid saethau Ciwpyd
Darfu'm gwrid, gofid gwaeth !

Derbyn di, wych ei bri,
Hyn o annerch gennyf fi.
Mae fel sêl fy mod, gwêl,
Yn dy garu yn ddigêl.
Dengys it' fy mod yn brudd
O dy gariad nos a dydd ;
Dwys ochneidion a gwasgfeuon,
Trwm yw son, imi sydd.
Er bod îs y rhod
Rai a'u clod fel tydi,
Eto ti yw'r unig ferch
Ai a'm serch rymus i ;
Ac am hynny, deg ei llun,
Dyro'n awr i druan un
Air o gysur, gwêl fy llafur,
Llaesa'm cur, fwynbur fun.

Cariad a Rheswm.

Rheswm sydd nos a dydd
Am fy nwyn o'r rhwyd yn rhydd,—
“Caru bun deg ei llun,
“’Rwyt yn fwy na Christ ei hun !
“Cofia gywir eiriau Duw,
“Rhai sy'n dweyd am bob dyn byw,
“Mai fel blodau neu wyrddlysiau
“Yw eu clau degwech, clyw !
“Ac, O ! dyro dro
“Tua bro mynwent brudd ;
“Gweli yno feddau breg
“Rhai oedd deg yn eu dydd.
“Yn ddiameu yma rhydd
“Rhywun d' eilun di ryw ddydd
“Er maint arni a ryfeddi,
“Cofia di, felly fydd.”

Ond er hyn, gruddiau gwyn
Hon o hyd a'm deil yn dynn ;
Trechach yw anian fyw
Na dysgeidiaeth o bob rhyw.
Gwared fi o'm cledi clau,
Gwrando'm cwynion heb nacau,
Gwella'r dyfnion faith archollion
Dan fy mron, feinir fau.

Cariad a Rheswm.

Pa fri yw i ti
Fy mod i yma'n dwyn
Rhyw hiraethog lidiog loes
Ar hyd f' oes er dy fwyn?
Tyrd i wella'r briwiau hyn—
Oni ddeui, dos a phryn
Arch ac amdo er fy nghuddio
O dan glo yn y glyn.

Ynfyd wyf oddef clwyf
Drwy ryw ffôl anianol nwyf,
A byw cyd yn y byd
I ryfeddu'th wyneb pryd.
Ow! y drych a welaf draw
Ar dy degwch pan y daw
I gael arno bridd-glai oernych
Yn y rhych gyda'r rhaw!
Y gwrid oedd mor brid,
Gwywa i gyd dan y gŵys;
Cleidir byddar daear denn
Dynn dy ben dan ei bwys.
Yna'r gruddiau goleu gwiw,
Wnaeth fy nhirion fron yn friw,
A ddaw'n delpyn oer heb ronyn
O dy lun a dy liw.

Cariad a Rheswm.

Eto i gyd, nid dy bryd
Yw y cyfan aeth a 'mryd.
Nid dy liw wnaeth fy mriw,
Er mor wynn a gwridog yw.
Ond trysorau mwy 'u parhad,
Rhagoriaethau'r meddwl mad,
Didranc dlysau nas gall angau
Du na'r bedd wneud eu brad.
Ac os, feinir dlôs,
Mwy nid oes in' yma'n dau
Gael ein dwyn wrth allor dyn
Dan yr un dyner iau,
Ni gawn fry wrth allor fwy
Ein clymu 'nghyd mewn cwlwm hwy,
Bythol uniad ein dau enaid,
Lle ni raid 'madael mwy.

Ieuan Glan Geirionnydd.

LXVI.

GLAN GEIRIONNYDD.

A mi un diwrnod teg o haf
Yn rhodio ar fy nhro

Glan Geirionnydd.

Graeanaidd lân Geirionnydd lwys,
Fy mabwysiadol fro,
Lle treuliais lawer difyr awr
Yn nhymawr mebyd pan
Yn tynnu 'i bysg o'r tonnau byw
A'i laswiw ddwfr i'r lan;
Pan oedd pob meddwl tan fy mron
Mor ysgafn bron a'r gwawn,
Yn dilyn gwib mabolaidd fryd
O foreu hyd brydnawn.

Gostegai'r awel ar y llyn,
Heb chwa yn crychu 'i wedd,
A natur oll mor dawel ai
A distaw barthau'r bedd;
Ond gwawch y gigfran ambell waith
O'r graig uchelfaith draw,
A bref y defaid ar y twyn
A'r llonwych wŷn gerllaw,
A thrwst y maen wrth dreiglo hyd
Y llithrig dybryd, serth,
A chwhw'r gog yn pyncio'n fwyn
Ar friglwyn ucha'r berth.

Tueddai'r holl olygfa'n fwy
I goledd myfyr syn

Glan Geirionydd.

Na chwywio'r tant ar bluen freg
Hyd wyneb teg y llyn ;
Hi lanwai'm hyspryd â rhyw brudd
Hiraethlon gofion dwys,
A ddygai'r dagrau dros fy ngrudd
Gan faint eu grym a'u pwys ;
Arweinid fy meddyliau'n ol
Ar ryw freuddwydiol hynt
I adfyfrio ar a fu,
A gwedd y dyddiau gynt.

Yr enwair ar y graean mân
I orwedd roed yn awr ;
Ac ar ryw lwydwyn faen gerllaw
Eisteddwn innau i lawr.
Edrychwn amgylch ogylch ar
Y fangre unig fud,
Heb sain na gwedd un dynol fod
Drwy 'i holl ororau i gyd.
Fy unigolrwydd oedd mor lwyr
A'r meudwy yn ei gell,
Neu Selkirk pan yn alltud ar
Fernandes anial, bell.

Effeithiau y distawrwydd mawr
A greai dan fy mron

Glan Geirionnydd.

Ryw annirnadwy hiraeth am
Yr holl gyfoedion llon
Oedd ddoe mor ddifyr gyda mi
Yn rhodio'r llennyrch hyn,
A'u hadlais ar yr awel bêr
Yn dadsain nant a bryn ;
Nis gallwn lai na holi'n brudd,
"Pa le yn awr y maent?"
Ond adsain a'm hatebai'n ol,
"Pa le yn awr y maent?"

A buan iawn y daw y dydd
I minnau'u dilyn hwy,
Pan, er fy ngheisio wrth y llyn,
Na cheir mo honof mwy.
Ac os daw rhywun ar ei dro
I rodio'r glennydd hyn,
A meddwl am eu bardd a dweyd
Mewn prudd ymholiad syn.
"Mae Llyn Geirionnydd eto'r un,
Ond Ieuan ! P'le mae ef?"
Yr adsain a'i hateba'n chwai,
"Ond Ieuan ! P'le mae ef?"

Ieuan Glan Geirionnydd.

LXVII.

Y FERCH O'R SCER.

“ Mab wyf fi sy'n byw dan benyd
Am f' anwylyd fawr ei bri;
Gwaith ei charu fwy na digon
Curio wnaeth fy nghalon i.
Gwell yw dangos beth yw'r achos
Nac ymaros dan fy nghur:
Dere, 'r seren, ata'i 'n union,
Ti gei barch a chariad pur.”

“ Pwylla, 'r bachgen gwyllt ei anian,
'Rwyf dan ofnau rhwymo'm llaw,
Gwaith cael digon o rybuddion
Wrth gariadon yma a thraw.
'Rwyf rhy ifanc eto i ddianc,
Cymraf bwyll cyn mynd rhy bell:
Pan bwy'n barod, ryw ddiwarnod
Clywed gei, os bydd gwell.”

LXVIII.

Y FWYALCHEN YN LLATAI.

O gwrando, y beraidd Fwyalchen !
Clyw, edn mwyn, serchog, liw du !
A ai di yn gennad heb oedi
At ferch fum i'n garu mor gu ?
A dywed mal hyn wrth liw'r manod,
O'i chariad 'rwy'n barod i'r bedd,
A 'mywyd, ar soddi, sy'n gorffwys
Ar ddwylo'r un geinlwys ei gwedd.

Mae'n dda mod i'n galed fy nghalon,
Lliw blode drain gwynion yr allt !
Mae'n dda mod i'n ysgawn fy meddwl,
Lliw'r banadl melyn ei wallt !
Mae'n dda mod i'n ieuanc, 'rwy'n gweled,
Heb arfer fawr drafod y byd,—
Pam peidiaist ti, ferch, a 'mhriodi,
A finne'n dy ganlyn di cyd ?

LXIX.

BUGAIL ABERDYFI.

Mi geisiaf eto ganu cân
I'th gael di'n ol, fy ngeneth lân,
Ar gadair siglo ger y tân
Ar fynydd Aberdyfi.

Paham, fy ngeneth hoff, paham
Gadewaist fi a'th blant dinam?
Mae Arthur bach yn galw 'i fam,
A'i galon bron a thorri.

Mae'r ddau oen llywaeth yn y llwyn,
A'r plant yn chwareu gyda'r ŵyn,—
O, tyrd yn ol, fy ngeneth fwyn,
I fynydd Aberdyfi.

Nosweithiau hirion, niwliog, du
Sydd o fy mlaen, fy ngeneth gu :
O, agor eto ddrws y tŷ
Ar fynydd Aberdyfi.

O, na chait glywed gweddi dlos
Dy Arthur bach cyn cysgu'r nos,
A'i ruddiau bychain fel y rhos,
Yn wylo am ei fami !

Bugail Aberdyfi.

Gormesaist lawer arnaf, Gwen,
Gormesais innau—dyna ben !
O, tyrd yn ol, fy ngeneth wen,
I fynydd Aberdyfi.

Fel hyn y ceisiaf ganu cân
P'th gael di'n ol, fy ngeneth lân,
I eistedd eto ger y tân
Ar fynydd Aberdyfi.

'Rwy'n cofio'th lais cyn canu'n iach,
Ond fedri di na neb o'th âch
Ddistyru gweddi plentyn bach
Sydd eisieu gweld ei fami.

Rhyw chwareu plant oedd dweyd 'Ffarwel,'
Cyd-faddeu wnawn, a dyna'r fel,—
Tyrd dithau'n ol, fy ngeneth ddel,
I fynydd Aberdyfi.

LXX.

GWENO FWYN GU.

A ddoi di, fy nghariad, i gysgod y llwyn ?
Hai ho, Gweno fwyn gu !
I glywed yr adar yn trydar ar dwyn ?
Hai ho, Gweno fwyn gu !
Daw'r fronfraith i ganu ar frigyn y pren,

Gweno Fwyn Gu.

A'r hedydd i gwafrio yn entrych y nen,
A'r fwyalch i byncio,—i blesio fy Ngwen,
Hai ho, Gweno fwyn gu !

Mi wn bydd y rhosyn prydfert haf ar wŷdd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !
Yn chwennych cusanu y gwrid ar dy rudd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !
A'r lili'n adlewyrch clærwynder dy fron,
Gan ddweyd, O, na bawn i cyn hardded a hon !
A minnau'n addoli dy lygad glâs llon,
Hai ho, Gweno fwyn gu !

Ar ol i ni rodio drwy gydol y dydd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !
Y nos wrth fynd adre' cei gyffes fy ffydd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !
Bydd swyn ein cwmniaeth yn fwsig a medd,
A'r lloer yn tywynnu yn hoew mewn hedd,
A'r sêr yn ddisgleiriach pan welant dy wedd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !

O, mawr yw fy mhleser, a mwynder fy myd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !
Pan fyddwyf yn dotio ar lendid dy bryd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !
A'm meddwl yn rhedeg o hyd ac o hyd

Gweno Fwyn Gu.

Ar bethau mwy gwerthfawr na golud y byd,
Priodas a chariad, a babi a chryd,
Hai ho, Gweno fwyn gu !

LXXI.

HEN WLAD FY NHADAU.

Mae hen wlad fy nhadau yn anwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri ;
Ei gwron ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
Dros ryddid collasant eu gwaed.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad ;
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd,
Pob dyffryn, pob clogwyn i'm golwg sy'n hardd,
Trwy deimlad gwladgarol mor swynol yw si
Ei nentydd afonydd i mi.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
Mae heniaith y Cymry mor fyw ag erioed ;
Ni luddiwyd yr Awen gan erchyll law brad,
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.

Ieuan ab Iago.

LXXII.

YMADAWIAD A CHARIAD.

Ymadael ! O siomedig, ddrylliedig, eiddig air !
Pa fodd dioddefaf hanner y poethder sy'n y pair ?
Ymadael !—O'r munudyn !—â'r unig un erioed
A gerais mor ragorol drwy ganol ieuanc oed.

Diweddwyd pob dedwyddwch a'm heddwch mwyn
fy hun,
Ffodd gwawrddydd, daeth y ddu-nos, i'm haros yn
ddi-hun,
Brathiadau saethau hiraeth a'm deil yn gaeth i gyd,
A mynwes wag ddigalon, anfoddlon i'r hen fyd.

Fy ngwaith fydd ocheneido, a chwyno'n afiach iawn,
A'm diwedd fel blodeuyn anhydyn ar brynhawn ;
Anadlon awel adfyd yn treulio'r bywyd byr,
Ac einioes dan bob gwaneg yn araf deg a dyr.

Bydd gwrthrych serch a chariad ymhell o'r wlad
lle'r wy'
A'i henaid yn dihoeni, na welaf moni mwy ;

Ymadawiad a Chariad.

Gwirionedd gwedi ei rannu—gwahanu cywir un,
Dau gulwys oedd un galon, o fwynion, lwysion lun.

Pan fyddwyf ar fy nheithiau llwyd wenau'r lleuad
wen, [mhen.
A ddaw fel câr, o draserch, i'm hannerch uwch fy
Ces gynt, a'i goleu euraid a'm henaid gyda mi,
Oleuni'r ardal lonydd yn newydd arnom ni.

Pa un ai byw ai marw, fodd chwerw, fyddwch chwi,
Ni roddir dim newyddion i 'mron hiraethlon i ;
Yn llwythog anfon llythyr o galon bur o barch,
A chwithau, feallai, 'Nghalon, dan gloion oerion
arch.

Yn iach ! yn drallodedig 'rwy'n dweyd fy unig ferch,
Mae achos trist i'm ochi wrth sylwi ar fy serch ;
Ond gwelaf wawriad gobaith ar ol y daith a'r dydd
Y cawn, 'r ol cyd-ofidio, gyd-rodio'n gwbl rydd.

Ffarwel ! Iôn a'ch bendithio, a'ch cadwo ar bob cŵys,
A'ch dygo'n un o'i berlau i lannau'r nefoedd lwys.
Pa un fydd gyntaf yno, a'i byncio yn ddiball,
Ar diroedd gorthrymderus trallodus fydd y llall.

Cawrdaf.

LXXIII.

CWYNFAN Y DALL.

Yn fy ngalar am fy ngolwg
Mawr a gwynais ym Morgannwg,
Urddau natur heirdd o 'neutu,
A mi'n fulaidd ymbalfalu
Heb un gannwyll wedi'm geni—yn cyfateb
Duoer wyneb o drueni,
A du lennau di-oleuni—heb gael canfod
Mannau hynod ddim ohoni.

Yn y tywyll nos 'rwy'n oesi
Heb haul a'i wyneb, heb oleuni;
Araf ydyw fy ngherddediad,
Teithio'n amlaf wrth fy nheimlad,
Hyd ymylau llethrau llithrig—wrth ymlwybro
Dyrus curo tros y cerrig ;
A gwedd adwyth tramgwyddedig—bron yn methu
Gallu gwenu, 'n ddall ac unig.

Er cael hyfryd iechyd uchel
A phob arwydd tywydd tawel,

Cwynfan y Dall.

Ni chai'n gudeg yn y gadwyn,
Fwynhau gwenau haf na gwanwyn, [iant
Mwy na gweld yr harddwych liwiau—yn eu hurdd-
Wyneb ledant hyd y blodau;
Y mae'r eirian burlan berlau—er mor ddrudion,
Yn boen i galon heb y golau.

Yn y fan y rhown, O f' enaid,
Fwy na Lloegr am fy llygaid,
I weld o 'neutu flodau natur,
Nad yw eu gosod imi'n gysur;
Yn iach am byth i'r mynych bethau,—ni chaf weled
Yma bared hwyr na borau;
Gwn y bydd, pan rwygo'r beddau—y dof allan
O'u gwael fan, a gwelaf finnau !

Boreu'r Farn caf gadarn godi
Heb un dallineb tywyll eni,
A rhyw ddidor ryfeddodau
Imi weled ar gymylau;
Mae llawenydd yn fy llenwi—wrth ystyried
Y daw a'i loned o oleuni;
Er cael fel y pren fy ngeni—mi gaf ganfod
Yno'n hynod iawn o heini !

Cawrdaf.

LXXIV.

CAN Y BARDD WRTH FARW.

O gwnewch imi feddrod wrth ffrydlif y mynydd,
Na cherfiwch un linell i adrodd fy hynt.
Ac yno telored glas donnau'r afonydd
Eu cerddi yn gymhlith â chwiban y gwynt.

Na chlywer un och lle mae'r prydydd yn huno,
Na choder un cofnod i ddangos y fan.
Yno na weler un serchog yn wylo,
I dorri â'i dolef dawlwech y lan.

Gosodwch fi i bydru heb gwynion na galar,
Diamdo, dienw, ac unig fy ngwedd.
Na ddwedwch fy mod i mor drist ac edifar
Wrth deithio i dawl ystafell y bedd.

Pan ddychwel y gwanwyn, uwchben fy ngorwedde
Pored y milyn dywarchen fo gwerdd.
Chwyfia y grug yn awelon y bore,
Ac adar y moelydd a ganant fy ngherdd.

Can y Bardd wrth Farw.

Iesu, fy Nuw, yn y preseb a rwymwyd,
Maddeu fy nghamwedd, tro drallod yn hedd !
Ti'r Hwn dros ddyd pechadurus groeshoeliwyd,
Cofia fy lludw yng nghilfach y bedd !

Pan seinio yr utgorn trwy'r nen ddychrynedig
Alargan ddiweddaf y ddaear a'r môr,
Gad imi orffwys lle cân y gwardedig
Gathlau i'th foliant, fy Ngheidwad, fy Ior !

Gwenffrwd.

LXXV.

Y MORWR MWYN.

I nodi'r man rhoir meini hardd
Lle hun rhai hoff mewn hedd,
Ac englyn geir o fri gan fardd,
Neu wers i gofio'r bedd ;
Ond maen ni cheir, er cof na chwyn,
I nodi bedd y morwr mwyn.

Yng ngladdfa'r llan gwerdd ywen sydd
Yn gwâr gysgodi'r bedd,

Y Morwr Mwyn.

A chesglir perion flodau blydd
I hulio'r gwely hedd;
Ond ywen l as na blodau llwyn
Ni huliant fedd y morwr mwyn.

Cwsg ef ymhell o'i anwyl fro,
A'i lan, O ! lymed wedd ;
Lle mae tymhestloedd lawer tro
Yn rhuthro dros ei fedd ;
Ond un ar dir a ddeffry g wyn
Mynwesol am y morwr mwyn.

Ac aml mae un bur ei bron
Ar lan y morfin du
Yn dal cyfeillach gyda'r d on,
Ei serch heb farw sy :
Ond grudd laith, llygad llawn a ch wyn
Sydd ganddi am y morwr mwyn.

Dymuniad ddaw o'i mynwes l an,
Lle gwnaeth gwir gariad graith,
I'r wylan ddwyn ei galar g an
Dros f r a'i donnau maith.
Fy ngeneth, taw, anghofia'th g wyn,
Dy lais ni chlyw y morwr mwyn!

Y Morwr Mwyn.

Na chrwydra, Gwen, y morlan maith,
Pob deigryn ofer yw,
Nis gŵyr dy gariad alar chwaith
Na gwae dy fynwes friw;
Uwch gwely'r heli nid oes gwyn
A ddeffry gwsg y morwr mwyn.

Dwg gysur clau ryw ddydd a ddaw
Y geilw'r utgorn ef
O eigion môr heb boen na braw,
Caiff uno plaid y nef.
Dos at yr Iôn, taer weddi dwyn,—
Cai eto gwrdd a'r morwr mwyn.

Gwenffrwd.

LXXVI.

FY MWTHYN GENEDIGOL.

Hoff ar awelon hefin wawr
Arogli blodau'r ardd,—
Y rhosyn coch sydd bur ei sawr,
Yn britho'r berth lle tardd;
Hoff gan rai mwyn yw'r lleuad wen
Pan gânt mewn serch gydrodio;

Fy Mwrthyn Genedigol.

Ond hoffach fil na dim îs nen
Yw'r bwth y'm ganwyd ynddo.

Hoff ydyw cân yr 'hedydd llon
Yn deffro côr y dyffryn,
Hoff llais y fronfraith fwyn ei bron,
Pan gân brynhawnol emyn;
Hoff gan y lodes lân ei bri
Y pwysi iddi a blethwyd;
Ond hoffach fil na dim i mi
Yw'r bwthyn bach lle'm ganwyd.

Gwenffrwd.

LXXVII.

HIRAETH Y BARDD AM EI WLAD.

Er cael pleserau 'ngwlad y Sais,
A gweld ei ddyfais wiwber,
Mae gwlad yr Awen, geinwen gell,
Er hynny'n well o'r hanner;
Ei hawel iach a'i melus ddwr,
A chyflwr ei thrigolion,—

Hiraeth y Bardd am ei Wlad.

Wrth gofio'i beirdd rhyw hiraeth draidd
Drwy giliau'r wanaidd galon.

Braidd na ddywedwn yn ddiwad

Mai nefol wlad yw Cymru.

O na bai nhraed yn sengu hon

Ar finion ceinion Conwy!

Ac O, mor gynnar yn ein gwydd
Ar benfrig bydd y fronfraith
A'i nodau'n glir, newidiog lef,
Yn moli'r Nef mewn afaith,
A'r enwog fwyalch gyda'r dydd
Ar gân a rydd ogoniant,
Ar frigyn pren tan glogwyn serth
Gaeadnerth uwch y goednant.

Braidd, &c.

Mae'r Sais yn dangos im' bob dydd
Mewn gwir ei rydd hawddgarwch,
A'r nos caf ganddo wely clyd
A digon byd o degwch.
Ond pan bo'm corff yn huno'n bêr
Ar wely tyner manblu

Hiraeth y Bardd am ei Wlad.

Fe gwyd fy yspryd ac fe 'hed
I 'mweled a thir Cymru.

Braidd, &c.

Ac wedi deffro gyda'r dydd
Mor bruddaidd fydd y galon,
Nid daear Cymru fydd fy lle
Ond canol tre' Manceinion.
Cyn codi'r haul o'r dwyrain draw
Yr yspryd ddaw i'w lety
I brudd fyfyrion fel y bu
Yng nghanol teulu Cymru.

Braidd, &c.

Yn nyffryn Conwy mae fy nhad
Yng nghanol mad gyfeillion,
Ac yno bydd nes geilw Duw
A'i alwad wyw farwolion,—
Cael benthig bedd wrth ystlys hwn,
A wir ddymunwn innau,
I orffwys nes daw'r meirw'n ol
O garchar ingol angau.

Braidd, &c.

John Jones, Llansantffraid.

LXXVIII.

MYFYRDOD AR LANNAU CONWY.

Ar lannau Conwy ar fy nhro,
 Pan byddwy'n rhodio ar hynt,
 Ni fedra'i lai na dwyn ar go',
 Wrth gofio'r dyddiau gynt,
 P'le mae fy hen gyfeillion llon,
 A'm cyd-chwaryddion res :—
 Er chwilio yma amser hir,
 Ni byddai'n wir ddim nes.
 Ond gwaith ffol—ddyddiau'n ol,
 Ni wiu eu 'morol mwy !

Bum yno ganwaith ar fy nhro,
 Yn rhodio ar ei hyd,
 Pan oedd difrifwch heb fy nal,
 Heb ofal yn y byd :
 A'm cydgyfeillion, wiwlon wedd,
 Un tuedd oeddynt hwy.
 Ffarwel yn awr i'r dyddiau gynt,
 Ni welir monynt mwy !
 Ond pa les—nid wyf nes,
 Nid oes dim o'u hanes hwy.

Myfyrdod ar Lannau Conwy.

Fe ddarfu'm hen gyfeillion hael
Fy ngadael braidd i gyd.
Mae rhai yn gorwedd dan y gwys
Yn llwyr o bwys y byd ;
A rhai yn fyw,—gwasgarant oll
Ar goll i'r pedwar gwynt.
Mae hynny bron a dwyn fy ngho'
Wrth gofio'r dyddiau gynt :
Aent ar hynt fel y gwynt,
Ac ni welir monynt mwy !

John Jones, Llansantffraid.

LXXIX.

EI CHARIAD DORRODD EI CHALON.

Plygu mae y llyisiau gwyrddion
Uwch ben ei bedd ;
A'r rhosyn leda'i wridog ddwyfron
Uwch ben ei bedd.
Ocheneidiau torr ei chalon
Sugnwyd gan y trist awelon,
Glywai 'm mrig yr yw hiraethlon
Uwch ben ei bedd.

Ei Chariad Dorrodd ei Chalon.

Pedair welaf o wryfon,
Uwch ben ei bedd,
Yn cymysgu'r dafnau heilltion
Uwch ben ei bedd ;
Heb ynganyd gair o'u genau
Namyn gollwng hoff ochneidiau,
A chusanu'r gwylaidd flodau
Uwch ben ei bedd.

Na nesaed y trystiog droediad
Uwch ben ei bedd.
Na ddoed dwyfron oer ddideimlad
Uwch ben ei bedd.
Doed y galon wŷr am doriad,
Gwaew, cur, a siomiant cariad,
A dyfrhaed y blodau eurad
Uwch ben ei bedd.

Caled farmor nid oes yno,
Uwch ben ei bedd,
Fel y galed fynwes honno,
Uwch ben ei bedd.
Dim ond rhywbeth fel ei chalon,
Y blodau per a'r ywen dirion
Fydd yn goffadwriaeth ddigon,
Uwch ben ei bedd.

Ei Chariad Dorrodd ei Chalon.

Cenwch obaith wedi gwywo,
Uwch ben ei bedd ;
Cenwch ffalsder,—melldith iddo !
Uwch ben ei bedd.
Lleda'i bron, ond druan oedd hi,
Picell gadd yng nghôl y pwysi !
Bellach cenwch heddwch iddi,
Uwch ben ei bedd.

Bore ddaw ceir gweld ei Phrynwr
Uwch ben ei bedd ;
Ac yn serchog chwalu'r pentwr
Uwch ben ei bedd.
Yntau gafodd rwygo'i ddwyfron,
Deffry ei deimladau'n union,
Bloeddia, "Cwyd yn gyfa'th galon !"
Uwch ben ei bedd.

John Jones, Llangollen.

LXXX.

DEIO BACH.

Megais fachgen bach ac anwyl
Ar fy mron mewn trafferth mawr.

Deio Bach.

Deio, ti yw'r bachgen hwnnw,
Nad wn ble yr wyt yn awr.
Maith yw'r amser er y'th welais,—
'Machgen anwyl wyt ti'n iach?
Os na elli ddyfod drosodd,
Anfon lythyr, Deio bach !

Pan y gwenit yn fy wyneb,
Pan chwareuit gylch fy nhraed,
Codai hiraeth yn fy nghalon,
Am dy anwyl, anwyl dad.
Do, ti godaist dan fy nwyfron,
Yma hiraeth mawr a chlwy',
Ond mae'th oeraidd ddiotalwch
Heddyw'n codi hiraeth mwy.

Gaeaf oer im' fu'r diweddaf,
Anwyd lawer ddygais i.
Peidiais cwyno rhag cwtogi
Gronyn ar dy lawnder di.
Nid oes rhaid i wraig y dafarn,
Nac i'th flys dy hun gael cam ;
Os yw'n anodd spario dimai,
Gad yn angof gŵyn dy fam.

Caled yw fy nhamaid bara,
Ie, caled iawn a phrin,

Deio Bach.

Tra mae 'mhlentyn, mi obeithia',
Gyda'i fara gwenith gwyn.
Pan f'och di, fy anwyl blentyn,
Wrth dy ford heb nych na nam,
Os nad yw yn ormod gofyn,
Cofia damaid gwael dy fam.

Os nad yw yn ormod hyfdra
Ar afradlon lencyn hael
I adgofio pwy a'i magodd,
A bod ganddo fam i'w chael,
F' allai y goddefi dithau,
Deio bach, heb dybied cam,
I ryw fenyw a adwaenost
Ddweyd fod gennyt tithau fam.

Os na elli ddyfod drosodd,
Os na elli 'm helpio ddim,
Beiddiaf ofyn unpeth iti,
F' allai rhoddi hwnnw im':
Carreg bedd nid wyf yn ddisgwyl,—
Gormod hyn gan hiraeth iach.
Dyro ddeigryn wrth fy nghofio,
Dim ond deigryn, Deio bach.

John Jones, Llangollen.

LXXXI.

CERDD YR HEN WR.

“ Hen ŵr, hen ŵr, mae’th wallt yn wyn,
Ac oer yw’r awel hon;
Paham y crwydri wlad mor bell
Oddiwrth d’ aneddle lon ?”

“ Mae’r gwynt yn oer, a minnau’n hen,
I deithio o blwy’ i blwy’;
Ond er mynd dros y byd, ni chaf
Aneddle gynnes mwy.”

“ Mae gennyt blant, hen ŵr, ond dwed
Paham na welaf un
Yn cynorthwyo tad mor lesg
I ddringo’r rhiwiau blin ?”

“ Mewn ardal dawel mae fy mhlant,
Ni theimlant loes na chlwy’;
Mewn mynwent maent, ac O, na chawn
Orffwysle gyda hwy !”

“ Ond er i angau fynd a rhai
O’th anwyl dyner gôl,

Cerdd yr Hen Wr.

Mae eto weddill bach yn fyw
I wylo ar dy ol?"

"O! Nac oes, gwelais fwrw'r pridd
A'u cuddio oll mewn hedd;
Darlennais enw hoff pob un
Ar ben ei garreg fedd."

"Wel, dos ar ol dy geraint, cais
Dy hen gyfeillion cu;
Rhont gysur i dy galon drist,
Dy alar trwm a ffy."

"I barthau pell bum ar eu hol,
'D oedd nemawr iawn i'w cael,
A chalon rheiny gefais oedd
Mor oer a'r marw gwael."

Yr hen ŵr syrthiodd gyda'r gair,
Yn welw-lâs ei rudd,
Ac mewn cymylau machlyd wnaeth,
Goleuwr mawr y dydd.

Trannoeth yn ddisglair ac yn dwym
Cododd yr haul i'r lan;
Ond am yr hen bererin prudd,
Ni chododd byth o'r fan.

David Charles.

LXXXII.

UWCH BEN EI BEDD.

Dyna'r goeden ddu a ysgwyd
Uwch ben ei bedd ;
Rhai'n yw'r llysiâu gwyrddion ddygwyd
Uwch ben ei bedd,
Blannodd dwylaw rhai wylofus,
Hoffai 'madrodd mwyn ei gwefus,
Grymodd gyda chalon glwyfus
Uwch ben ei bedd.

Ni raid dod a llech o farmor
Uwch ben ei bedd,
I'w hoer-ddarllen am ryw dymor
Uwch ben ei bedd :
Am ei hienctid, a'i siriolder,
Am ei gwylder, a'i haddfwynder,
Diau cofir gyda phrudd-der
Uwch ben ei bedd.

Ofer son am siomiant cariad
Uwch ben ei bedd ;

Uwch Ben ei Bedd.

Chwerwder calon dwym, a'i thoriad,
Uwch ben ei bedd ;
'N anghof aeth pob testun griddfan,
Mynwent ddiloes yw ei thrigfan,
Lle mae'r gwynt yn hoffi cwynfan,
Uwch ben ei bedd.

Ond mae unpeth eto i'w honni
Uwch ben ei bedd ;
O ! mae meddwl ddichon lonni,
Uwch ben ei bedd :
Cadd wawl tér o Nêr tosturiol,
'Rol hir aros a thaer eiriol
Darfu ei nhos; 'rym ninnau'n siriol
Uwch ben ei bedd.

David Charles.

LXXXIII.

CAN OLWEN.

Afaon bach, mor fwyn y bu
Dy wên a'th garu gynt ;
Ond diffodd wnaeth fel kannwyll frwyn
Y gwanwyn yn y gwynt.

Can Olwen.

Ti anghofiaist fam a thad
I'm cael yn gariad gynt ;
Ond chwythwyd pob adduned dda
Fel manus gyda'r gwynt.

Meddyliais innau'n ddigon gwir
Dy fod yn gywir gynt ;
Ond beth yn ddrych o'th serch a gawn ?
Edafedd gwawn mewn gwynt.

Mi gredaf bellach, er fy lles,
Hen gyngor gês i gynt,
Na rown ar fab a'i haeriad moel
Ddim mwy o goel na'r gwynt.

Eben Fardd.

LXXXIV.

CAN YR UNIG.

Dan bren tewfrig yn y goedwig
Neillduedig, unig wyf,
O glyw hudol dwrf daearol,
Maswedd ac anianol nwyf.
Dadwrdd pobloedd drwy'r dinasoedd,
Uchel floedd ni chlywaf fi ;

Can yr Unig.

Ni raid achwyn rhag eu gwenwyn
Ym mol llwyn yn ymyl lli'.

Mae hyd y gwledydd drafferth beunydd
Rhag wag newydd drwg yn awr ;
A phryd arall chwedlau anghall,
Curo'r naill y llall i'r llawr !
Y goganwr mawr ei ddwndwr,
A'r enllibiwr draw yn lladd,
Cenfigen aelddu, nwyd y fagddu,
Wedi greddfu ym mhob gradd.

Minnau'n unig, neillduedig,
O gyrraedd dig dan gaerydd dail,
Dwys fyfyriaf, ie, wylaf
Yma am na feddaf ail.
Lle bo casddyn yn enllibio,
Pwy gaf yno gu ei foes
I'm hamddiffyn yn ei erbyn
Rhag ail ennyn rhwyg ei loes ?

Pan mewn adfyd yn ddyrystlyd,
Llawer ennyd yn llwyr wan,
'Herwydd trymder, ofn, a phrudd-der,
Neu gyfyngder unig fan,

Can yr Unig.

Rhof fy mhen i lawr i orwedd
Yn fy annedd fach fy hun,
Dryllia chwerwder f' anian dynner,—
Gwel fy llymder, gwael fy llun !

Wrth fyfyrrio cyfyd wylo,
Os eir i gofio'r amser gynt,
Pan yn faban eiddil egwan
Nid awn fy hunan ar fy hynt ;
Gofal mamawl, llaw serchiadawl,
Geiriau denawl, hawddgar, doeth,
Oedd fy nodded a'm hymddiried
Rhag pob caled niwed poeth.

Angau ! Angau ! tost yn ddiau,
Yw dy ymddygiadau'i gyd !
Dwyn a'th ddyrnod geraint hyglood,
A'u rhoi 'ngheudod bedd ynghyd !
Dwyn cyfeillion tyner galon,
Hen gymdeithion llon yn llun,
Gadael Unig yn y goedwig,
Yn soddedig mewn nos ddu !

Rhwng cangau plethawl daw'n belydrawl
Wres a gwawl i'm dyrys gell,

Can yr Unig.

Cyffroawl fiwsig yn y tewfrig,
Perwawd gwyddfrig, pa raid gwell?
Ond er cyngan tonau anian,
Eirioes gân y dyrys goed,
Mae och lewygol bron hiraethol
Yn fwy gerwinol nag erioed.

Os af i rodio dan fyfyrio
I'm llawen fro, mae oll yn frâs;
Llawn o ffrwythau yw'r perllannau,
A'u heirdd lysiau yn wyrdd lân;
Ond ychydig sy'n garedig
Yma i'r Unig, er mor wan;
Rhai fel estron caled galon
Sy'n anfwynion yn y fan.

Pa raid imi anfodloni,
Neu ymboeni yn y byd;
Ie, bellach, pam y grwgnach
Unig, iach er hyn i gyd?
Tra mae llygaid Tad amddifaid
Ar y gweiniaid a'r rhai gwael,
Ef fydd beunydd fy ngwaredydd,
Diogelydd, da ei gael.

Eben Fardd.

YMRYSONFA SERCH.

“Fy anwyl gariad, teimlad dwys,
Yr hon sy'n cynnwys cŵyn,—
Sef canu'n iach, f' anwlyd fach,
I'th lon gyfeillach fwyn!”

“O! canu'n iach! nac enwa'n hwy
Y gair rydd glwy' a gloes!
O! canu'n iach! nac enwa hyn,
O gresyn! na fydd groes!”

“Ffarwel! fy anwyl lanc dilyth
Hyd byth! nid ennyd bach.
Daw dagrau'n lli' o'm llygaid i
'Nol imi ganu'n iach!”

“Paham, f' anwlyd? Dwed paham,
Fy nghanen ddinam ddwys?
Mae gwybod pam y ceni'n iach,
Fy ngeneth bach, o bwys!”

“Oferedd siarad, f' anwyl ddyn,
Y peth i derfyn ddaeth!

Ymrysonfa Serch.

Mae tynged syn yn peri hyn,
'Rwy'n gyndyn ac yn gaeth."

"O! na fydd greulon, na fydd groes,
Na ddyro loes i lanc.

A! gwae a gwŷn, sy ynwy' nglyn,
'Rwy'n drist fel dyn ar dranc!"

"Ho! arfer meibion yw bob awr
Dweyd araith fawr wrth ferch;
Ond wedi 'u treio nid ynt drwm,
Nid cymaint swm eu serch!"

"Wel, wel, f' anwylyd, gwela'n glir,
Mai byw'n annifyr wnaf;
Er pob rhyw lais a thaeraf gais,
Yr hyn a gefais gaf!"

"Gwir iawn, f' anwylyd, a ffarwel!
Iach dawl fyddyddych di."
"Fy nerth a ffoes, 'rwy'n teimlo loes.
Dy ddwylaw moes i mi!"

"Fy nwyllaw'n wir a gei'n ddigoll,
A 'nghalon oll ynghyd,
Mi gofia'n gu'r gyfeillach fu,
Tra bwyf yn sengu'r byd!"

Ymrysonfa Serch.

“ Ffarwel ! fy ngeneth hardd ei gwedd ! ”

“ Ffarwel, fy machgen mwyn ! ”

“ O ymaith dos, ’rwy’n methu dal

I gynnal dan dy gŵyn ! ”

Eben Fardd.

LXXXVI.

MYFYRDOD YM MYSG Y BEDDAU.

Ai yma y mae’n gorwedd,
Mewn gwaeledd y rhai gwych,
A welwyd gynt mewn mawredd ?
O ryfedd ! yma’r ’ŷch !
Er cael ychydig hawddfyd,
Fe ddarfu’r bywyd byr,
Difwynwyd edef einioes,
Mewn duloes hon a dyr.

Mae’r ieuanc yma’n gorwedd
Yr unwedd a’r rhai hen ;
Y rhai fu gynt yn rhwysgfawr,
Fe ddarfu ’u gwawr a’u gwên ;
Mae pawb yn ddiddig yma,
Ni chenfigenna gŵr ;

Myfyrdod ym mysg y Beddau.

Gorweddant mewn bedd isel,
Lys tawel, le distwr.

Y boneddigion trefnus
Yn byw yn foethus fu,
Eu cyrff oedd gynt yn hawddgar
Sydd yn y ddaear ddu;
Gadawsant eu palasau
A'u holl wisgiadau'i gyd,
O ganol bydol fawredd
I'r bedd daeth bonedd byd.

P'le mae'r brenhinoedd dewrion,
A'r pendefigion fu,
Rhyfelwyr llawn o hyder
Fu'n rhwygo llawer llu?
Daeth angau ac a'u cwmpodd,
Fe'u bwriodd oll i'r bedd;
O'r byd bu raid ymadael,
A heddyw gwael eu gwedd.

Pa le mae fy nghymdogion,
Anwylion yn eu hoes,
Cyfeillion cymdeithasol,
Dymunol, da eu moes?

Myfyrdod ym mysg y Beddau.

Cael bod yn eu cyfeillach
Melusach na mêl oedd ;
Ond nid oes un a lefair
Yn awr un gair ar goedd.

Pa le mae 'mherthynasau,
A'u mwynion eiriau'n awr,
Eu hymddiddanion hygar
A'm llonnai ar y llawr?
I'r bedd ! i'r bedd yr aethant !
Ni fuant yma fawr ;
Eu harddwch a ddiflannodd,
A gwywodd eu teg wawr.

Daw dyn fel rhosyn allan,
A'n fuan iawn i'w fedd ;
Fel cysgod ef a gilia,
A'r angau wywa 'i wedd ;
Gosodwyd ei derfynau,
Rhifedi oriau'r oes,
A'r awr i ben pan ddelo,
Ni cheir i luddio'r oes.

Eben Fardd.

LXXXVII.

LLONGWR YN CANU'N IACH I'W
GARIAD.

Ffarwel, fy ngeneth lawen bêr,
Ymado ar fyrder fydd ;
Hiraethus serch, wrth d' adael di,
Yn soddi f' yspryd sydd.

Ymbell o'm bro dy gofio gaf ;
Pan foriaf, poen a fydd
Na chawn yn llon gofleidio'th fron
Yn dirion nos a dydd.

Pan chwytho ffres awelon iach
Dros Gymru bach i'r lli',
O, chwythu wnelo d'anadl pêr
Ar fyrder ataf fi !

Wrth golli 'ngolwg ar y lan,
Y bryn a'r ddiddan ddôl,
I ben yr hwylbren af a'm drych,
edrych ar dy ol.

Eben Fardd.

LXXXVIII.

Y MORWR BACH.

Fe aeth o'r ty dan gau y ddôr,
A throi ei olwg tua'r môr ;
Do, do, fe aeth o gam i gam
At fwrdd y llong o dy ei fam.

Cychwynnai'r llong yn ara' deg,
A'r bachgen serchog tair ar ddeg
Yn rhodio'r bwrdd o gam i gam,
Dan gofio cusan ola'i fam.

'Nol sychu 'i lygad a chael gwynt,
A'r llong yn hwylio'i chwrs yn gynt,
Rhyw dyner wên rhwng llon a phrudd
Chwareuai'n ysgafn ar ei rudd.

A gwibiai drwy ei ieuanc fron
Feddyliai fyrdd yr ennyd hon,
Dan addo popeth yn well, well,
Nes cyrraedd i'r gorllewin pell.

O don i don fe aeth i dir,
I Charleston draw o'i fordaith hir ;

Y Morwr Bach.

Ac erbyn edrych arno'i hun
Fe newidiasai'n fawr ei lun.

'Roedd gwynt y môr a'r haul a'r hin
Oll wedi 'mroi i'w droi a'i drin ;
I'w fam y gyrrai dros y lli'—
“ Ni buasech mwy 'n f' adnabod i.”

Ond nid oedd hyn ond cysgod gwan
O newid mwy oedd ar ei ran ;
Lliw angau syrthiodd ar ei wedd—
Nid lliw y byd, ond lliw y bedd.

O Charleston ni ddychwelodd gam ;
Ond llythyr ddaeth i ddweyd i'w fam
Mai yno'r hunai mwy mewn hedd
Ei hanwyl fachgen yn ei fedd.

Fel hyn bu farw'r llencyn teg
Cyn cyrraedd pedair blwydd ar ddeg,
Oddiwrth ei fam led moroedd draw,
Heb obaith mwy cael ysgwyd llaw.

Ond angel glân a wylia'r lle,
Nes delo galwad fawr y Ne',

Y Morwr Bach.

I ddwyn y llongwr bach i'r lan
Ar draeth Paradwys yn y man.

Eben Fardd.

LXXXIX.

Y DELYN.

Hyfryd ydyw'r delyn fad,
A lleisiau llad lliosain ;
Difyrrwch pur i natur dyn
Yw dilyn ei chyweirsain ;
Dyma i fyw, diamau, faeth,
Beroriaeth bur arwyrain.

Lleisiau a chydgordiad llon
A wnant i'r galon lamu ;
Tynnu mêl o'r tannau mân,
Holl anian yn llawenu ;
Hynaws dôn yw nos a dydd,
Efelydd i'r nef wiwlu.

Er difyrred lleisiau cu
Y mwyalch du a'r fronfraith,

Y Delyn.

Yr eos gerdd a'r llinos gain,
Rai cywrain eu cyweirwaith;
Ond mwy difyr i fy chwant
Yw taro tant naturiaeth.

Goreu tòn cyweirio tant,
Gogoniant yw dy gynnal,
Gwin a medd i'm genau mau
Dy nodau dianwadal;
Llawen sain yn llonni serch,
Wych ebyr, yw merch Iubal.

Pan fai Saul tan ysbryd syn,
Yn adyn i'w boenydio,
Canai Dafydd wrth ei glun
Y delyn, wiwddyn, iddo;
Gwir yw hyn y gyrrai hwnt
Y gelyn brwnt i gilio.

Difyrwrch pur preswylwyr nef
Adeiliau llef y delyn,
Tynnu mwynion dannau maith,
Od eurfawl waith diderfyn;
A dyma fydd, diamau, faeth
Da odiaeth y Credadyn.

Caledfryn.

XC.

Y GWANWYN.

Nid oes dim iâ ar war y llyn,
Na rhew ar fryn na mynydd;
Blodeuog yw briallu'r fron,
A gwyrddion ydyw'r coedydd;
Datodwyd clo y nant a'r iâ,
Fe dreigla yr afonydd.

Y ddaear sydd yn wych ei gwedd,
A'i hagwedd yn llawn bywyd;
Ei chŵysau'n barod sydd i waith
Ar ol hin laith ac annwyd;
Fe ddaeth y Gwanwyn yn ei dro
I'w deffro a'u dadedfryd.

Er gwywo'i gwedd, a cholli'i phryd,
A dwyn ei chlyd fantelloedd,
Wrth fod mewn llafur trwm dros ddyn
Bob blwyddyn am ganrifoedd,
Mewn gwawr mor newydd ac erioed
Cadd ar ei hoed ail wisgoedd.

Y Gwanwyn.

Fe'i gwelir yn y Gwanwyn gwyrdd
A myrdd o'i hepil meirwon
Yn dod i'r lan, a'u lliw yn iach,
A'u gruddiau bach yn gochion;
A rhai yn wyn, rhai'n wyrdd, rhai'n frith,
Yn dewfrith hyd ei dwyfron.

Ni fydd na maes, na dol, na bryn
Y Gwanwyn heb friallu,
A'r rheiny ar bob dyn a'u gwel,
Os heibio'r el, yn gwenu;
A'r adar mân ar frigau'r pren
Yn llon uwchben yn canu.

Y gw lith o berl fu'n llechu'r nos
Ym mynwes y rhosynau
Fydd yn ffarwelio'n llwyr yn awr,
Ar doriad gwawr y borau,
Gan fynd i'w taith, i'r nef uwch ben,
Ar amnaid heulwen olau.

Y mae holl natur dan ei hurdd,
Mae'n wyrdd bob bryn a chlogwyn;
Mor brydferth ydyw'r ddol a'r fron,
Mae meillion ar y dyffryn;
Ac O, mor hardd a fyddai'r byd
Pe bai o hyd yn Wanwyn!

Y Gwanwyn.

Fe glywir tyner lais y gog
Ar lwyni brigog gwyrddion,
A thwi, twi, twi y wennol fwyn,
Aderyn sy'n dwyn hinon;
A llu y goedwig yn gytun
O un i un mewn calon.

Bydd pawb o'r mwya' i'r lleia' oll
Heb goll yn adeiladu,
Pob un ei fan a'i ddull ei hun,
Heb un yn croes ymdynnu; [wael,—
Rhai'n uwch, rhai'n is, rhai'n wych, rhai'n
Pawb am gael lle i lechu.

Caledfryn.

XCI.

BEDD Y DYN TYLAWD.

Is yr ywen ddu ganghennog
Twmpath gwyrddlas gwyd ei ben,
Fel i dderbyn o goronog
Addurniadau gwllith y nen;

Bedd y Dyn Tylawd.

Llawer troed yn anystyriol
Yn ei fathru'n fynych gawd,
Gan ysigo'i laswellt siriol :—
Dyna fedd y Dyn Tylawd !

Swyddwyr cyflog gweithdy'r Undeb
A'i hebryngodd ef i'w fedd ;
Wrth droi'r briddell ar ei wyneb
Nid oedd deigryn ar un wedd ;
'Nol hir frwydro a thrafferthion,
Daeth i ben ei ingol rawd .
Noddfa dawel rhag anghenion
Ydyw bedd y Dyn Tylawd.

Mae'r garreg arw a'r ddwy lythyren,
Dorrodd rhyw anghelfydd law
Gyd-chwareuau ag e'n fachgen,
Wedi hollti'n ddwy gerllaw ;
A phan ddelo Sul y Blodau,
Nid oes yno gân na brawd
Yn rhoi gwyrdd-ddail na phwysïau
Ar lwm fedd y Dyn Tylawd.

Ar sedd fynor nid yw'r Awen
Yn galaru uwch ei lwch,
A chyn hir drwy'r lês dywarchen
Aradr amser dynn ei swch ;

Bedd y Dyn Tylawd.

Un a'r llawr fydd ei orffwysfa,
Angof drosti dynn ei hawd ;
Ond er hynny, angel wylia
Ddaear bedd y Dyn Tylawd !

Ioan Emlyn.

XCII.

OCHENAID.

Ochenaid, ai 'th ddifyrrwch yw
Datguddio briw fy mynwes?
Er ymdrechiadau fwy na rhi',
Ti fynni ddweyd fy hanes.

'E lwyddodd ymdrechiadau gwych
I gadw'n sych fy nwyrudd,
Ond ni all dim dy atal di
I daenu dy adennydd.

Er ceisio cario wyneb iach,
A chelu afiach gŵynion,
Ti ddygi chwedl fod rhyw bwys
Yn gorffwys ar y galon.

Ochenaid.

Wrth gwrdd a chyfaill yma a thraw,
Er estyn llaw yn llawen,
Dy chwedl yma mynni ddweyd,
Er llwyr ddadwneud fy llonwên.

Ond er a fynni gelu 'm brad,
Wyd gufad i dy gofio;
Pan welwyf waethaf pawb o'r byd,
Caf di i gydymdeimlo.

Ti wyddost fy nheimladau dwys,
A dirfawr bwys fy mlinder;
A mynych byddi'n dweyd yn brudd
Mai buan derfydd amser.

Ond er fod swn dy ddwysaidd gri
Yn gwir gyhoeddi tristwch,
Pa rîn ddysgedig îs y nen
All ddarllen dy ddirgelwch?

Mae dofn alarnad yn dy gri,
Pan fyddyich di 'n ymdreiglo;
Ti ddygi beth o'm baich i'r lan
Pan 'r wyf rhy wan i'w gario.

Rho dy gymdeithas ymhob tòn,
Mae 'nghalon yn dy garu;

Ochenaid.

Ti ydwyt unig eli 'm cur,
A'm cysur mewn caledi.

Ond pan fo'm baich ry drwm i'w ddwyn,
Caf roddi 'm cwyn a'm trallod,
A'i anfon yn dy gôl i fan
Lle na cha 'r gwan ei wrthod.

Elen Egryn.

XCIH.

CAN HEN WR Y CWM.

Wel, dyma ŵr a'i dŷ ymhell,
O, mae hi'n oer!
Yn wan a gwael mewn unig gell,—
O, mae hi'n oer!
Mewn bwthyn oer pa beth a wna?—
Hen ŵr trallodus, clwyfus, claf,
Ar wely gwellt galaru gaf;—
O, mae hi'n oer!
O dan fy nghlwy' yn dwyn fy nghlais,
Yn glaf a llesg, pwy glyw fy llais?
Prudd yw fy nghwyn,—pwy rydd fy nghais?
O, mae hi'n oer!

Can Hen Wr y Cwm.

Mae'r gwynt yn uwch, mae lluwch gerllaw,—

O, mae hi'n oer !

Er gwaeled wyf, i'r gwely daw,—

O, mae hi'n oer !

Mae'n arw fod mewn oeraf fan

Rhyw unig ŵr mor hen a gwan,

Yn welw ei rudd, yn wael ei ran,—

O, mae hi'n oer !

O, na chai hen greadur gwan,

Cyn llechu'n llwyr yn llwch y llan,

I'w einioes fer ryw gynnes fan ;—

O, mae hi'n oer !

Mewn eira ceir Hen Wr y Cwm,—

O, mae hi'n oer !

Mewn gwynt a lluwch ac yntau'n llwm,—

O, mae hi'n oer !

Er gweled llawnder llawer llu,

Rhag gofid oer y gaeaf du

Ni feddaf loches gynnes gu,—

O, mae hi'n oer !

O boenau dwys ar ben y daith,

Mewn eisiau'n fud am noson faith

Ar wely llwm mor wael a llaith ;—

O, mae hi'n oer !

Can Hen Wr y Cwm.

Mewn blinaf wynt heb lô neu fawn,—

O, mae hi'n oer !

Heb dân na gwres, heb yd na grawn,—

O, mae hi'n oer !

Pwy ddaw a'i rodd, pwy ddyry ran

O'i ddoniau'n gu i ddynyn gwan,

Na fynnai fynd o fan i fan ;—

O, mae hi'n oer !

Ni flina'i neb fel hyn yn hir ;

Mae'r bedd gerllaw mewn distaw dir ;

Mae yno'n well nag yma, 'n wir,—

O, mae hi'n oer !

Gweryddon.

XCIV.

MOLAWD CYMRU.

Henffych well i wlad fy nghalon,

Llwyddiant iti, Gymru dirion,

Bendith i dy feibion dewrion

A dy ferched glân !

Peraidd yw dy hynod hanes

I wresogi serch fy mynwes ;

Tra bo 'ngwaed yn curo'n gynnes,

Caraf wlad y gân.

Molawd Cymru.

Anwyl wlad fy nhadau,
Caraf dy fynyddau,
Creigiau gleision uwch y nant
Ymwelant a'r cymylau :
Dolydd a dyffrynnoedd firwythlon,
Ffrydiau clir a llynnau llawnion,
Adlewyrchant flodau tlysion
Yn eu dyfroedd glân.
Hiraeth sydd i'm llethu
Am anwylion Cymru ;
Ow ! na chawn fy mhws yn llawn,
A chrêd a dawn i'm denu
Adre'n ol i blith fy nheulu,
A chyfeillion i'm croesawu :
Yn olynol gwnawn foliannu
Cymru, gwlad y gân.

Mil melusach i fy nghalon
Na mwynderau gwlad y Saeson,
Cig a gwin, a da, a digon,
Ydyw gwlad y gân.
Nid oes modd i ngwên lawenu
Tra bo f' enaid yn hiraethu
Am fynyddoedd cribog Cymru,
A'i dyffrynnoedd glân.

Molawd Cymru.

Nid y llawn heolydd,
Mwg a thwrf y trefydd,
Nid y byd, a'i olud drud,
 Sy'n denu bryd y prydydd ;
Ond afonydd—gwyreddion ddolydd—
Swn yr awel yn y coedydd—
Cymau—glynnau—bryniau—bronnydd
 Cymru, gwlad y gân.
 Cara'r oen y ddafad,
 Cara mun ei chariad,
Cara'r cybydd bwrs yn llawn,
 A dyn a dawn ei dyniad ;
Cara'r babi fron ei fami,
Caraf finnau'r wlad wy'n foli—
Duw a wŷr mor anwyl imi
 Ydyw Cymru lân.

Talhaearn.

XCV.

I ADERYN.

O, dyro i mi, aderyn mwyn,
Dy gân o'r llwyn i'm llonni;
Diniwed yw dy galon lân,
Dy anian yw daioni.
Gorlawen yw dy swynol awen,
Wrth byncio'n bêr ar frig y gangen ;
Yn goglais anian yn y goedwig,
A minnau'n dotio ar dy fiwsig,
Wrth wrando mewn pêr-lewyg draw
Gwir alaw dy garolig.

Ow, ow ! na bawn yn dderyn bach,
A'm bron yn iach i ganu,
Yn byw heb ofal, llid na gwŷn,
Fel ti, aderyn mwyngu !
Yng ngwên yr heulwen mi garolwn,
A hedeg wnawn i'r man y mynnwn
Ar edyn swynol serch a gallu,
I yrru f' enaid ar i fyny ;
Hyfrydol ganu wnawn ô hyd
Nes byddai'r byd yn synnu.

Talhaearn.

XCVI.

TROS Y GARREG.

Tros y garreg syllu wnaf,
Hwyr a bore hirddydd haf,
 Am f' anwylyd
 Hardd a hyfryd,
Yn ei lanbryd gwynfyd gaf.
Aled ddenaf ataf fi,
Fel y dena'r lloer y lli.
Deued Aled fwyn i'r ardd :—
Rhosys wridant, anian chwardd—
 Deued, deued,
 O, prysured !
I fy mynwes doed fy mardd !

'Mhlith y blodau rhodio wnawn,
Gwrando wnelwyf trwy'r prynhawn
 Miwsig nefol,
 Geiriau gwrol,
Aled ddynol, ddenol ddawn.
Ennyn wna ei Awen ffri
Serch a ffydd fy nghalon i.
Tros y garreg syllu wnaf,

Tros y Garreg.

Hwyr a bore hirddydd haf,
Am f' anwylyd
Hardd a hyfryd,
Yn ei lanbryd gwynfyd gaf.

Talhaearn.

XCVII.

SERCH HUDOL.

Teg yw dy lun, fy anwyl fun,
Swynol wyt i ennyn gwŷn
A serch fy nghalon i :
Mae tynfaen yn dy siriol bryd
I'm denu atat ti o hyd ;
Er gwaethaf gwg a gwawd y byd,
Fy nghariad ydwyt ti :
O ! fy ngeneth wiw,
Pe bawn yn rhosyn teg ei liw,
Cawn nythu yn dy fron, heb friw
I'th galon dirion di ;
Ac yno'n llawn o hoen a hedd
Addolwn wawr dy ddengar wedd,
A mil melusach fyddai'r wledd
Na gwin a medd i mi.

Serch Hudol.

O ! clyw fy nghân, fy lili lân,
Gresyn ini fyw'n wahân—

Y fwynlan, cymer fi :

Pe bawn yn frenin ar y byd,
Ei aur a'i stôr o drysor drud,
Mi roddwn gyda llawen fryd

Y byd i gyd i ti :

Sul, na gwyl, na gwaith,
Nid erys amser ar ei daith,
Nid erys ynni nwyfiant chwaith

I mhlesio i na thi ;

Am hynny, Gwen, tosturia'n ddwys,
Rhag ofn fy ngyrru dan y gŵys ;

O ! tyrd, fy meinwen lawen lwys,

I'r Eglwys hefo fi.

Talhaearn.

XCVIII.

CODIAD YR HEDYDD.

Cwyd, cwyd, chedydd llon,
O'th ddedwydd nyth ar ael y fron,
I ganu yn y nen :

Codiad yr Hedydd.

Mwyn, mwyn y tonau mêl
O'th beraidd big a'th galon ddêl,
I synnu'r byd uwch ben:
Pawb a hoffant swyn dy gân,
Sy'n llifo'n ffrwd o fiwsig ffri:
Nwyfus fawl dy galon lân
Ennyna dân fy awen i;
Anwylaf wyt o'r adar mân,
Boed bendith Dduw i ti.

Llon, llon yw'r ddaear lawr,
Mae'r haul yn gwenu ar y wawr
Yng ngwrid y dwyrain dêr:
Dring, dring, ehedydd mwyn,
Dyhidla odlau llawn o swyn
O groesaw i dy Nêr:
Cân yn Eden, yn dy gryd
A roist i'r greadigaeth hardd:
Iddi'n awr o bryd i bryd
Alawaidd dôn o'th big a dardd;
A chanu wnei o hyd, o hyd,
Tra haul, a byd, a bardd.

Talhaearn.

XCIX.

PLYGEINGAN.

Pan fo'r bore glas yn gwawrio,
Canaf bennill i fy mun.
Gwylid undyn byw ei deffro,
Mwyn a melus yw ei hun.
Yn ei chwsg y mae'n breuddwydio
Bod hi'n rhodio gyda mi,
Lle mae rhosys yn blodeuo
Ger y Llan ar fin y lli.

Diniweidrwydd yw ei tharian,
Purdeb cariad yw ei bri ;
Mwynach yw nag aur ac arian
I fy nghalon serchlon i.
Er ei bod yn awr yn huno,
Hed ei ffansi ataf fi ;
Tra bo nghalon innau'n curo,
Hed fy nghariad ati hi.

Talhaearn.

C.

CALENNIG I GYMRU.

Gwyn fy myd pe gwelwn Gymru
A'i llu anwyl yn llawenu,
A phob llan a thref yn crefu
Mwy o gynnydd, mwy o ganu :
 Cymru lân, gwlad y gân,
 Cymru lân, gwlad y gân ;
Hyfrydwch bardd yw arddel
 Tonau mel y tannau mân.

Dyma 'ngwaedd, a dyma 'ngweddi
O fy nghalon i fy Ngheli—
I'r wlad hen lle ces fy ngeni
Byd o loniant boed eleni ;

Cymru lan, &c.

Boed it fara gwyn a 'menyn,
Cig a chawl i'th hawl, a thelyn,
Chwarae mawl a chwrw melyn,
Difai wledd ar hyd y flwyddyn;

Cymru lan, &c.

Calennig i Gymru.

Llai o rincian coeg oganau
Hen garolwyr llên gwerylau ;
Mwy o wenau ar dy enau,
A dy lonaid o delynau :

Cymru lan, &c.

Talhaearn.

CI.

AR FARWOLAETH BABAN.

Daeth yma i'r byd i weld ein gwae,
Lle mae gorthrymder garw ;
Ond trodd ei egwein lygaid draw,
Gan godi 'i law a marw.

Er dod am dro i'n daear ni
I brofi'r cwpan chwerw ;
Ni fynnai aros is y nen,
Trodd draw ei ben i farw.

Dros ennyd fer fe rodd ei glust
I wrando'r trist ruddfannau :
Ond buan, buan, blino wnaeth,
A hedodd ymaith adre'.

Ar Farwolaeth Baban.

Ni chawn ei weled yma mwy,
Dan unrhyw glwy'n galaru;
Mae wrth ei fodd ar Seion fryn,
A'i dannau'n dyn yn canu.

Ni welir deigryn ar ei rudd,
Na'i wedd yn brudd wylofus;
Ni chlywir mwy o'i enau ef
Un egwan lef gwynfannus.

Ni rydd un gelyn iddo glwy',
Nis gellir mwy ei faglu;
Ni welir ef yn dewis rhan
Gyda'r annuwiol deulu.

Diangodd draw i wlad yr hedd
O gyrredd pob rhyw ddrygfyd;
Ac uno wnaeth a'r nefol lu
I ganu fry mewn gwynfyd.

Samuel Roberts.

CII.

I FABAN CYNTAF-ANEDIG FU FARW
AR Y DYDD EI GANED.

Ganwyd i'r byd—llawenydd fu ;
Bu farw—dyna alar !
Rhyw hanes byr, ond cymysg yw,
Fel holl hanesion daear.

Daeth yma megis i dynhau
Y rhwymyn priodasol ;
Fe aeth, i ddangos pa mor frau,—
Mae hwythau ill dau yn farwol.

Fe ddaeth i greu a llonni tad,
Ac yna 'i amddifadu !
Fe ddaeth i greu teimladau mam,
Paham, un bach, a'u siomi ?

O ! dwed, un bychan, pam y bu
Mor fer dy daith i'r ddaear ?
Ai onid oedd cyfeillion cu
Yn d' amgylchynnu'n gynnar ?

I Faban Cyntaf-anedig.

Paham na bu i ti ond troi
I mewn, a ffoi i fyny?
A ddarfu gwae a phoen y byd
I wynfyd dy ddychrynu?

Ai canfod daear yn amhur,
A'i hawyr yn llygredig,
Ac ai cythruddo wrth bechod byd
Wnai d' yspryd sancteiddiedig?

O! ddedwydd! purwyd d' enaid di
Cyn torri ei bechod allan!
Cei ganu am rinwedd gwaed y Groes
Am oes ddirai yrwan.

Heb achos yna i foli Duw
Am fyw yn llaw rhagluniaeth,
Dy nerth yn gyfan roddi di
I ganu am iachawdwriaeth.

Bydd saint yn sôn am droion byd,
Gan ganu wrth adgofio;
Cei dithau ddweyd, a dyna'r oll,
"Amen—bum innau yno."

Os dirgel cyngor Duw, mae'n ddoeth—
Na wylwch chwi, rieni;

I Faban Cyntaf-anedig.

Aeth heibio i bechod cas a'i boen,
A gwlad ddihoen trueni.

Hyderwn fod y bychan bach
Yn awr yn iach yn canu,
Ymhell uwchlaw gofidiau'r byd,
Yn glyd ym mynwes Iesu.

Er na wnaeth eich blodeuyn bach
Ar ddaear lawr addfedu,
Ei harddwch wna yn awyr iach
Y nef, fyth, fyth ymledu.

Glan Alun.

CIII.

CYMRU.

Hyfrydol ydyw caffael drych
Ar feusydd gwyrddion teg,
A gerddi ffrwythlawn Lloegr wych,
A'u haddurniadau chweg;
Hyfrytach fil i'm golwg i,
O Gymru! yw'th wylltineb di.

Cymru.

A thra hyfrydlawn hefyd yw,
Ar fy moreawl hynt,
Cael peraroglau blodau gwiw
Yn nofio yn y gwynt ;
Ond mil hyfrytach yw gen i
Un awel o'th fynyddrug di.

Hyfrydol ydyw gweled gwaith,—
Effaith celfyddyd gain,—
A rhyfedd adeiladau braith
Eirian maith aur a main ;
Hyfrytach, Gymru, fil i mi
Dy greigiau llymion, noethion di.

A hyfryd gweld afonydd maith,
Mal moroedd bychain bron ;
A'r llongau gwychion ar eu taith
Gan ddawnsio ar y dòn ;
Hyfrytach, Gymru, fil i mi
Yw tyrddiad cryg dy ffrydiau di.

A hyfryd yw y ddinas lawn,
A phrysur wib ei llu,
A llon gymysgfa dysg a dawn
A'u bywiol siriol ru ;
Hyfrytach, Gymru, fil i mi,
Tawelwch dy bentrefi di.

Cymru.

Mi ddringaf draw i ben y bryn
I edrych tua'm gwlad,
Ond gwawd dieithriaid gaf am hyn,
Eu dirmyg a'u sarhad ;
Ni wyddant hwy pa faint i mi
Sydd, Gymru, plith dy fryniau di.

Glan Alun.

CIV.

BETH YW SIOMIANT?

Beth yw siomiant? Tywyll ddunos
Yn ymdaenu ganol dydd,
Nes i flodau gobaith wywo,
Syrthio megis deilach rhydd.
Beth yw Siomiant? Pryf gwenwynig
Yn anrheithio gwraidd y pren,
Nes ymdaenu crinder drwyddo,
Er dan iraidd wlith y nen.

Beth yw Siomiant? Llong ysplennydd,
Nofia'n hardd i lawer man,
Wrth ddychwelyd tua'i phorthladd
Yn ymddryllio ar y lan.

Beth yw Siomiant?

Beth yw Siomiant? Cwpan hawddfyd
Yn godedig at y min,
Ac yn profi'n fustlaidd wermod
Yn lle bywiol felus win.

Beth yw Siomiant? Calon dyner,
Drom, yn gwaedu dan ei chlwyf,
Mewn distawrwydd, pan o'i deutu
Y mae pawb yn llawn o nwyf.
Beth yw Siomiant? Cynllun bywyd
Mewn amrantiad wedi troi,
Ninnau ar ei ol yn wylo,
Yntau wedi bythol ffoi!

Beth yw Siomiant? Tad yn edrych
Ar ei faban tlws dinam
Arno'n gwenu,—yna'n trengu,
Pan ar fron ei dyner fam!
Beth yw Siomiant? Sylwi 'mhellach
Ar y fam yn wyw ei gwedd,
Ac yn plygu, megis lili,
I oer wely llwm y bedd.

Beth yw Siomiant? Dim ond teimlad
Meddwl claf yn llawn o wae,

Beth yw Siomiant?

Pan yn canfod pob meddygon
Yn ei adael fel y mae.
Beth yw Siomiant? Chwennych bywyd,
Eto methu'n deg a byw ;
Yna plygu'r pen i farw
Dan ochneidio—Dyna yw.

Ieuan Gwynedd.

CV.

PW BRIOD.

Ti wyliaist wrth fy ngwely
Pan ydoedd haul yr haf
A'i danbaid wres bob diwrnod
Yn gwywo'th briod claf ;
Ti wyliaist wrth fy ngwely
Nosweithiau gaeaf oer,
Pan syrthiai ar y llenni
Oleuni llwyd y lloer.

Ti wyliaist uwch fy ngwely
Pan oedd yn wely gwaed,

I'w Briod.

A ffrydiau coch y galon
Yn drochion wrth dy draed ;
Ti wyliaist wrth fy ngwely
Pan oedd y peswch blin
Drwy'r nos yn peri imi
Ddihoeni yn ddihun.

Ti wyliaist uwch fy ngwely
A mawredd cariad merch ;
Dy enaid wrthyf rwymwyd,
Ni syflwyd dim o'th serch ;
Ti wyliaist wrth fy ngwely
Ym misoedd nychdod maith,
A'th fron dy hun mewn cystudd,
A'th dyner rudd yn llaith.

Ti wyliaist uwch fy ngwely
Dan wenu gyda'r wawr ;
Dy serch nid oedd yn pallu,
Pan suddai'r haul i lawr ;
Ti wyliaist uwch fy ngwely
Pan giliai eraill draw ;
Fel angel glân goleuni
Cawn lynnu yn dy law.

Ieuan Gwynedd.

CVI.

TRUGAREDD.

Fy Naf yw Duw'r tangnefedd,
Yr Ion anfeidrol rinwedd—
Prif berl ei rad a'i gariad gwiw
A'i goron yw Trugaredd.

Hi biau hau y bywyd
Ym maban bru a mebyd;
Hi yw ei nerth pan byddo'n wan,
A'i achles pan yn nychlyd.

Hi rydd ei bara'n rhwyddaf
A dŵr yn ddiod araf,
Ac o'i llaw fad daw dillad da
Hynawsaidd a chynhesaf.

A gyr i'n blant ac wŷrion,
Y culwys gyfaill calon,
A gwên ei serch a gwin ei swyn,
A dethol fwyn gymdeithion.

Trugaredd.

Hi ddyry'r chwe' dydd ariant,
A'r eurddydd Sul er urddiant;
Hi rydd ar ol y chwe' dydd chwim
Ei Sabbath im yn seibiant.

Ei Heglwys, hedd gynteddoedd,
Hynafol borth y nefoedd,
A grasol genadwri'r Groes,
A'r Beibl a roes i'r bobloedd.

Ni gawn o'i chalon gynnes
Yn orllawn bob rhyw fawrlles
Yn awr i fod, ac yna ar fyr
Hi ddyry'r nefoedd eres.

Ac yn y nefoedd geinwedd
Y nofiat mewn tangnefedd,
Gan seinio'n angel glwyswel glân
Ragoraf gân Trugaredd.

Nicander.

CVII.

Y BLODEUYN OLAF.

I ble, flodeuyn hardd,
Yr aeth holl flodau'r ardd?
Nid oes yr un a chwardd
Ger bron.

Mae anian oll yn brudd,
A'r llwydrew ar ei grudd,
A thithau'n unig sydd
Yn llon.

Mi welaf yn dy wawr
Ryw ddrych o olaf awr
Y sant ar ado'r llawr
I'r nef.

Bydd pawb yr adeg hon
Yn wylo ger ei fron,
Ni bydd yr un yn llon
Ond ef.

Mae gweld dy wenau di
Yn dwyn ar gof i mi
Y Gwr fu ar Galfari,
Fy Nuw.

Y Blodeuyn Olaf.

Pan gilio pawb mewn braw,
Caf help ei gadarn law
I'm dwyn i'r nefoedd draw
I fyw.

Emrys.

CVIII.

CRYD GWAG FY MHLENTYN.

Mae'r cryd yn wag, ond pwy a'i gwêl
Mor werthfawr a myfi?
Bob dydd 'rwy'n sefyll uwch ei ben
A'm dagrau brwd yn lli;
Os gofyn neb paham yr wyf
Mor llawn o deimlad byw,
Fe wŷr pob mam pan glyw fi'n dweyd—
Cryd gwâg fy mhlentyn yw!

A! dyna'r fan lle gwenai gynt
Mor anwyl ger fy mron,
Tra'm llaw a'm llais yn temtio cwsg
I selio 'i lygaid llon;
Ond yn y bedd mae'r anwyl un,
Dan gysgod prudd yr yw,

Cryd Gwag fy Mhlentyn.

'Does yma ond y fan lle bu—
Cryd gwag fy mhlentyn yw !

Ni raid i mi wrth bennill bardd,
Na llen na mynor faen,
I gadw 'mhlentyn yn fy nghof
Tra byddo hwn o'm blaen ;
Os rhaid im werthu'r dodrefn ty
Dan faich i'm cadw'n fyw,
Nid ymadawaf byth â hwn,—
Cryd gwag fy mhlentyn yw !

Emrys.

CIX.

I WENNOL GYNTAF Y TYMOR.

Wennol fwyn, ti ddaethost eto
I'n dwyn ar go' fod haf ar wawrio,
Wedi bod yn hir ymdeithio ;
Croeso, croeso i ti ;
Nid oes unrhyw berchen aden
Fwy cariadus na'r wenolen,
Pawb o'th weled sydd yn llawen :
Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

I Wennol Gyntaf y Tymor.

Ha ! mi wela'th fod yn chwilio
Am dy nyth o dan ein bondo;
Y mae hwnnw wedi syrthio,
 Wennol, coelia di ;
Nid myfi yn wir a'i tynnodd,
Gwynt a gwlaw y gaea' a'i curodd,
Yntau o ddarn i ddarn a gwmpodd :
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

Wennol dirion, paid a digio,
Gelli wneud un newydd eto ;
A phe gallwn, gwnawn dy helpio—
 Aros gyda ni!
Casglaf glai, cei dithau 'i weithio,
A chymeraf ofal trosto,
Rhag i'r 'deryn to ddod iddo :
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

P'le gadewaist, wennol heini',
Dy gymdeithion, dorf aneiri',
Oedd y llynedd yn ein llonni
 Yma gyda thi ?
A fu'r oll o honynt feirw,
A'th adael di'n amddifad weddw ?
Byddai hynny'n chwedl arw :
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

I Wennol Gyntaf y Tymor.

Wennol fach, paham diengi
Draw oddiwrthyf? Paid ag ofni ;
Aros, bydd yn gyfaill imi—
 'Rwy'n dy garu di.
Credu'r wyf fod gennyf galon
Bur, ddiniwed, gywir, ffyddlon—
Peth anfynych ym mblith dynion :
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

Llawer blinder chwerw brofais
Er y tro o'r blaen y'th welais,
Wennol fwyn, a llawer gwynais—
 P'odd ymdrewaist ti ?
A fyddwch chwi, wenoliaid, weithiau
Yn cyfarfod â blinderau,
Nes troi'ch twi, twi, twi, 'n gwynfannau ?
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi !

Mi ddymunais, wennol lawen,
Ganwaith feddu ar dy aden,
I allu hedeg yn yr wybren
 Uwch y byd a'i gri :
Ymryddhau oddiwrth helbulon
Bywyd dynol, a'i ofalon,
Ac fel tithau'n iach fy nghalon
 Canu uwch eu pen—Twi, twi !

I Wennol Gyntaf y Tymor.

Mae'th ddyfodiad, addfwyn wennol,
Ini'n dysgu gwersi buddiol
Ar bob tymor yn olynol

Yr ymweli â ni.

Wyt yn adwaen dy dymhorau,
Ac yn cadw dy amserau—

“Cymrwch rybudd, gwnewch fel finnau,”

Ydyw'r llais ym mhob twi, twi!

Dyma gamp a ddysgi eto,

Cadw'th wisg yn lân a chryno,

A thithau'n trin y clai a'i ddwbio,

Wrth it wneud dy waith.

Hoffwn innau ddysgu honno—

Trin y byd a myned trwyddo

Heb halogi 'm gwisgoedd ynddo,

Na rhei arno'm calon chwaith.

Hiraethog.

CX.

ADGOFION MEBYD.

Awen ! telyn fwyn fy ienctyd,
Ti felusaist lawer awr,
Fuasent hebot ti yn ofid
Prudd, ac annifyrrwch mawr :
Chwareu ar dy dannau mwynion
A'm difyrrai pan yn syn ;
Gyrrodd fyrdd o ddrwg ysprydion
Ymaith lawer gwaith cyn hyn.

Sibrwd rhediad afon Aled
Tros y cerrig llyfnion mân
A dy dentiai wrth ei glywed
Lawer gwaith i eilio cân ;
Tyner fysedd yr awelon,
Pan chwareuent ar y dail,
A'th ennynt dithau'n union
I wneud pennill bob yn ail.

Pan y byddai blinder llwythog
Neu ryw nychdod dan y fron,

Adgofion Mebyd.

Awel iachus hen Hiraethog
A adferai iechyd llon ;
Llawer hafddydd ar ei fryniau
Dreuliais yn dy gwmi gynt,
Lle ni safai ein gofidiau
Mwy na'r us o flaen y gwynt.

Mae'm dychymyg yn delweddu
Hen lanerchau'r funud hon
Buost, Awen fwyn, yn tynnu
Llawer pigyn o fy mron ;
Wrth adgofio hen linellau,
Mae myfyrdod yn fy nwyn
Eto'n ol i'r hyfryd fannau
Cefais bob rhyw linell fwyn.

Nid oes heddyw ond yr adgof
Am y pethau hynny gynt—
Adgof swm y ffrwd risialog,
Si y dail wrth chware â'r gwynt :
Adgof awel iach y mynydd,
Adgof bref y defaid mân,
Adgof hen deimladau dedwydd—
Adgof ydyw'r oll o'm cân !

Hiraethog.

CXI.

BETH SY'N HARDD.

Beth sy'n hardd? Y tyner lili
 'N plygu'i ben dan bwysau'r gw lith ;
 Pelydr haul, disgleirdeg gwisgi,
 'N dawnsio ar fron y rhosyn brith :
 Hyn sydd hardd :—ond gwelaf wrthrych
 Tecach, harddach na hwynt-hwy,
 Deigryn merch uwchben amddifad—
 Arwydd teimlad dros ei glwy'.

Beth sy'n hardd? Y cwmwl goleu
 'N nofio yn yr awyr fry,
 Pan fo disglair haul y bore
 Yn goreuro'i odre cu :
 Hyn sydd hardd;—ond, A! canfyddaf
 Rywbeth harddach, er mor wiw,
 Tremiad geneth yn arddangos
 Calon serchog dan ei briw !

Beth sy'n hardd? Yr aur a'r perlau,
 Sidan, porffor, lliain main,

Beth sy'n Hardd?

Addurniadau teg dduwiesau,
Gwisgoedd gwychion—golwg gain :
Hyn sydd hardd ;—ond canmil harddach
Agwedd isel, gwylaidd lef
Boneddiges mewn taer weddi
'N codi 'i golwg tua'r nef.

Hed glân angel trwy'r cymylau,
Sathr eu godre, daw i lawr,
Diystyrfa'r aur a'r perlau,
Pasia'r blodau glwys eu gwawr ;
Cwyd y deigrin—hoffa'r tremiad—
Clyw'r ochenaid—yna chwardd ;
Lleda'i edyn, rhwyga'r awel,
A gan sibrwd—“ Hyn sydd hardd ! ”

Ieuan o Leyn.

CXII.

Y LILI.

Blentyn bychan, edrych di
Ar y lili ;
Gwylaidd blygu pen mae hi,
Dyner lili !
Gwelodd Iesu hon yn wen
Ger ei fron yn gwyro'i phen,
Ac fe ddysgodd wers o'r nen
Drwy y lili ;
Blentyn bychan, drwy dy oes
Dysga dithau wylaidd foes
Gan y lili.

Blentyn bychan, gwel y gwlith
Ar y lili ;
Perlio mae rhwng blodau brith,
Brydferth lili !
Mae pob gwlithyn yna sy
O dan lewyrch heulwen fry
Yn ymffurfio'n goron gu
Ar y lili ;
Blentyn bychan, boed heb rith
Dy foesau da fel disglair wlith
Ar y lili.

Y Lili.

Arogl per a hyfryd iawn
Ddyry'r lili,
Yn y maes ar hafaidd nawn,
Serchog lili ;
Cyn ei gweld dan gysgod clyd,
Lle blodeua'n deg ei phryd,
Arogl mwyn a ddwed o hyd
Lle mae'r lili ;
Blentyn bychan, y mae swyn
Mewn enw da, fel arogl mwyn
Gan y lili.

Blentyn bychan, yn y llyn
Gwél y lili ;
Yno tyf fel rhosyn gwyn,
Brydferth lili ;
Pan y cesglir hon o'r lli,
Chwala'r dwr o'i mynwes hi
Fel rhyw berlau cain eu bri,
Perlau'r lili ;
Blentyn bychan, gwyn dy liw,
Gad o'th ol rinweddau gwiw,
Fel y lili.

Iorwerth Glan Aled.

CXIII.

BEDD FY NGHARIAD.

Y mae'r ywen werdd yn tyfu
Uwch ben y bedd,
Lle mae 'nghariad bach yn cysgu
Yn llwch y bedd;
Y mae'r rudd a wisgai rosyn
Dan y gwallt oedd fel aur gadwyn,
At y meirwon wedi disgyn,
Yn llwch y bedd.

Tyner wyllo mae'r awelon
Uwch ben ei bedd,
Fel o deimlad ddagrau'n loewon,
Uwch ben ei bedd;
Y gwynt yn distaw sio'i chyntun
Yn yr ywen ledai'i brigyn,
Ac o honi'r dagrau'n disgyn
Ar lwch ei bedd.

Cangau'r ywen sy'n telori
Uwch ben ei bedd,

Bedd fy Nghariad.

Farw-gân alarus iddi
Uwch ben ei bedd;
Wrth fynd heibio bedd y wenfron
A grudd laith a llygaid gwlybion,
Rhoi ochenaid mae'r awelon
Uwch ben ei bedd.

Blodau'r haf a dyfant yno
Ar lwch ei bedd,
Ac a blygant bennau i wyllo
Ar lwch ei bedd ;
Nid oes dim yn tyfu yno
Ar nad ydyw yn ymdeimlo,—
Gwellt a blodau sy'n cyd-wylo
Ar lwch ei bedd.

Gwylia, 'r byw, wrth rodio'r beddau,
Rhag rhoi dy droed
Ar ei bedd i blygu'r blodau
O dan dy droed ;
Paid a rhuthro yn ddideimlad,
Bydded ysgafn dy gerddediad,
Paid a sathru bedd fy nghariad
O dan dy droed.

Ionoron Glan Dwyryd.

CXIV.

Y BWTHYN MYNYDDIG.

Mynyddau ban ysgythrog sydd
Yn gaerog dorch o gylch fy llannerch,
Lle mae murmurog ffrydlif rydd
Ac adsain megis yn ymannerch.

Yr harddfrith goron uwch y pen
Yw eira, rhew, a thrwyth cymylau ;
A bolwyn niwl, yn hwyrol len,
Yw gwlanog addurn ei hymylau.

Pan guddia nos y faenol werdd,
A theg lusernau'r nef yn wychion,
Gordroellog gurwynt chwyrn wna gerdd
Yng nghrombil holltau'r creigiau crychion.

Tabwrdd ystorm yw muriau'r ty,
Tra duon aeliau'r hwyr yn cuchio ;
Chwim folltau mellt a chenllysg lu
O'r uchelderau sy'n ymluchio.

Ymrwyga'r nen, ymsigla'r llawr,
A'r lloer mewn caddug yn ymdduo ;

Y Brothyn Mynyddig.

Ymhyrdda croch daranau'n fawr,
A thwrf y corwynt yn ymruo.

Er hyn wrth dân o fawn heb sen
Y tylwyth sydd yn ymddiddanu ;
Fy mam a'i throell,—gwna'm tad lwy bren,
Tra'm chwaer yn gwau a minnau'n canu.

O! dyma grwydryn ar ei daith,
Ac angen arno ei achlesu ;
Rhoi iddo fwyd sy hyfryd waith,
Ynghyd a gwely i'w gynhesu.

A chyda'r wawr daw'r heulwen iach,
A dorau'r dwyrain yn agori ;
Caf arwain fy niadell fach
Gerllaw'r grisialaidd ddwfr i bori.

Y rhaiadr ar ei gwypmp a chwardd,
A sibrwd gân wrth ymddylyfo ;
A natur yn ei lifrai hardd
Arddengys dlysau uwch eu rhifo.

I blentyn gloddest, swrth a gwan,
Y drem fawreddog sy ry arw ;

Y Bwthyn Mynyddig.

Ond rhwng y creigiau,—dyna'r fan
Y carai Cymro fyw a marw !

Robyn Ddu Eryri.

CXV.

UCHENAID AM GYMRU.

Ha Gymru ! i'th fynwes ehed fy uchenaid,
Mewn adgof o'th foelydd yr wyf yn pruddhau ;
Yng nghadwen dy enw ymglymodd fy enaid,
Nid oes ond dy gerdded a all ei ryddhau.

Ucheldrem dy gedyrn fynyddoedd a garaf,
Clogwyni'th gadernid a ddenant fy mryd ;
Ymwisgant ym mhlethiad melynwyn niwl araf,
Ireiddion gymylau gusanant ynghyd.

Tryliwiog yw'th ddaear o feillion a phwysi,
Teg emau pefr natur a drwsiant dy fron ;
A'th wyrddfôr grisialaidd, ymdorchog ei gwysi,
A chwardd ar dy orchest yn nrylliad ei don.

Trwst ban ddisgyniadau y rheieidr i'th lennydd
A felus chwareuant trwy'th nentydd eu sain,
A phelydr goreurog yr heulwen ysblennydd
A ddawnsiant ar lygaid y grisial yn gain.

Uchenaid am Gymru.

Ha Gymru ! dy dlysau ŷnt dra gogoneddus,
Pob ogof o'th eiddot sy ddengar ac erch ;
Serth feini crogedig uwch ben sy fawreddus,
Addurnant dy goron, gorlyncant fy serch.

Prid orllwyn a chromlech sydd urdd i'th lechweddau,
Maen chwyf dy Dderwyddon a adgan dy fraint ;
Hidl ddaagrau tosturi a seliant y beddau
Lle huna dy ddewrion, lle gorffwys dy saint.

Ymwibied meis gloddest yng ngrym eu blynydd-
oedd

Y destlus wastadedd, a hawddfyd i'w mysg ;
Clegyrog ysgythriad y crychion fynyddoedd
Ynt bennaf anwylion myfyrdod a dysg.

O'm gwydd aed pŕ erddi a'u blodau deniadol,
Encilied arogliaid y lili wen lân ;
I mi rhowch y moelydd a'r creigiau serchiadol,
Hwynt oll a gysegrwyd—i ryddid a chân.

Robyn Ddu Eryri.

CXVI.

YR AFONIG.

“ Afonig fechan, fywiog, fad,
Pa le'r ai di ? ”

Yr Afonig.

“ Af adref, adref at fy nhad,
Môr, môr i mi !”

“ Mae'r rhwystrau'n fawr, mae'r daith yn hir,
Mae'r ffordd drwy lawer diffaith dir,
Gwell iti oedi'r hynt yn wir,
O, aros di !”

“ Na, na, nid all nac anial maith,
Nac unrhyw fryn na bro ychwaith,
Fy rhwystro i gyrraedd pen fy nhaith,
Môr, môr i mi !”

“ Afonig fechan, aros, paid
A choledd twyll ;
Fe all mai troi yn ol fydd raid,
O, cymer bwyll !
O'th flaen mae'r mynydd uchel, serth,
Ei ddringo ef nis gall dy nerth,
I'r yrfa hon beth wyt o werth ?
O, aros di !”

“ Er mynydd mawr, ni lwfrhaf,
Can's ceisio dringo hwn ni wnafr,
Ond heibio iddo'n ddiidig af,
Môr, môr i mi !”

“ Afonig fechan, yma'n awr
Da yw dy fod ;

Yr Afonig.

A pham y mae am gefnfor mawr
Dy ddyfal nod?
Mae'th eisiau ar y felin draw,
Ac ar y weithfa wlân gerllaw;
Cyd-ddeisyf wnant yn daer ddidaw,
O, aros di!"

"Gweinyddaf arnynt wrth fynd trwy,
Ac ar laweroedd gyda hwy,
Er hyn fy llef a fydd fwy, fwy,
Môr, môr i mi!"

"Afonig fechan, peraidd sawr
Sydd ar dy lan,
Ac mae'r planhigion gwyrdd eu gwawr
Yn harddu'r fan;
Mae'r helyg ystwyth uwch dy don,
A'r blodau hoff o'th gylch yn llon,
Yn dweyd gan bwysu ar dy fron,
O, aros di!"

"Cânt fy nifyrru ar fy nhaith,
Ond myned rhagof fydd fy ngwaith,
Nes myned adref, dyna'm hiaith,
Môr, môr i mi!"

"Afonig fechan, hardd i mi
Dy weld yn awr ;

Yr Afonig.

Ond beth a ddaw o honot ti
Mewn dyfnder mawr?
Mae'r eigion yn ddirgelwch prudd;
Dychryнна rhag ei geudod cudd,
Ac na ddos iddo mor ddiludd,
O, aros di!"
"Gwir fod y dwfn yn ddieithr wlad,
Ond hyn a wn,—mae'n gartre 'nhad;
Caf fy nghroesawu yn ddifrad,—
Môr, môr i mi!"

Roger Edwards.

CXVII.

MYNWENT CWMWR DU.

Os caret gael gorweddfa glyd
Ymhell o ddwndwr byd a'i drin,
Ar lan murmurog afon ferth
A choed yn berth ar ei dwy fin,—
Pa le caet lannerch f'ai mor gu
A mynwent fechan Cwmwr Du?

Hwy wedant cwsg y byw yn well
Heb fod ymhell o si rhyw dôn,

Mynwent Cwmwr Du.

Pan ddeffry miwsig pur y llif
Ddi-rif freuddwydion tan y fron :
Nis gwn,—ond pwy na charai fedd
Lle chwery'r ffrwd ei salm o hedd ?

Fe grwydra haf-awelon pêr
Trwy lathraidd dderw'r allt sy draw,
Pob deilen yn cyd-odli'n fwyn
Ar gainc pob llwyn â'r ffrwd islaw ;
Ac weithiau yn y gaeaf trwm
Ysguba'r corwynt trwy y cwm.

Mae masnach ar ei diwyd daith,
A dyfais dyn ar waith o hyd ;
Newidia llawer man ei wedd,
Anurddir heddwch bore byd ;
Ond yma,—pe doi'r hên ar hynt,
Caent bopeth agos megis cynt.

Oedd yma Fwci 'stalwm byd,
Pan oedd y rhyd heb bont yn groes,—
Dyn yn grogedig wrth ei draed ;
Fe rewai'r gwaed gweld y ddwy goes !
Pan-godwyd pont ar Gloidach ddu,
Fe aeth y Bwci gyda'r lli !

Mynwent Cwmwr Du.

Yn iach, Fwciod ! Dilys yw
Na flinwch chwi mo'r byw yn hwy ;
Dydd eich gwasanaeth ddaeth i ben,
O dan y llen gorffwyswch mwy ;
Dyn ni chaiff aros yn ei nyth,—
A roir i *chwi* deyrnasu byth ?

O fewn i'r unig wyrddlas bau,
Yn pêr fwynhau eu holaf hun,
Mae'r 'chydig o gyfeillion hoff,
Heb faen i goffa am yr un ;
Ond am eu gwâr rinweddol foes
Fe bery'r cof o oes i oes.

Fe orffwys yma'r athro mad
Na lechai brad o dan ei fron,
A, lle y gweli newydd fedd,
Mewn tawel hedd yn awr mae'r hon
A fu gymhares yn ei gôl,
A'i henw'n hyfryd ar ei hôl.

Heddwch i'w llwch ! A doed y pryd
Pan gaffwyf gyda mynwes iach
Ymweled weithiau a'r hen fro
A rhoddi tro trwy'r fynwent fach,

Mynwent Cwmwr Du.

A chyd-addoli gyda'r llu
Yng nghapel bychan Cwmwr Du.

Gwilym Marles.

CXVIII.

Y SEREN GYNFFON.

Ryw hwyr, a mi yn cychwyn
I 'nghartref yn y dyffryn,
Meddyliais weled yn y nen
Y lleuad wen gyferbyn.

Ond O, y fath ryfeddod
Oedd yno er fy syndod !
Disgleirwyn gorff o deneu dân
A chynffon lân i'w chanfod !

Mi gofiais ddaroganau
Haneswyr yr hen oesau,
A chofiais glywed gynt fy mam
Yn siarad am gomedau.

Y Seren Gynffon.

O! 'r fath lawenydd hyfryd
A lanwodd fy holl yspryd,
Am unwaith weled comed, clywch,
Yn chwyfio uwch daearfyd.

O aros, wibiad eres !
Bydd fad am ganiad gynnes ;
Arafa ennyd rwysg dy daith
I hynaws draethu'th hanes.

O ble y deilliaist allan ?
O ba ryw oror eirian ?
Pa beth a'th yrrodd gyntaf o
Dra hoenus fro dy hunan ?

Ai'n amser dig wrthryfel,
Rhyw echdwr croes i ochel,
Y crwydraist ar dy hynt am hedd,
Nes deuai'th sedd yn dawel ?

Sawl un ohonoch heno
Drwy'r nwyfre bur sy'n hwylio ?
Ai plant ieuengaf nefoedd ych
Mewn nwyf di-nych yn nofio ?

Y Seren Gynffon.

Ple bu dy gwrs hyd yma?
Pa olygfeydd hawddgara
A wnest yn oleu? A ryw bryd
A welaist geinfyd Gwynfa?

O, beth am y planedau
A'r sêr, ŷnt megis blodau
Hyd eang faes y nef yn frith,
A thi'n eu plith yn chwarau?

A ydynt breswylfaoedd?
A welaist o'th ucheloedd
Ar wastad lawr a chribog fryn
Wedd bodau yn y bydoedd?

I ble mae mwy dy dynfa?
A chwili am orffwysfa?
Ai ynte teithio'th dynged fydd
Nes gwawrio'r dydd diwedda'?

Os wyt ti ar ymado,
Pa bryd y deui eto?
A gawn ni weled byth dy wedd
Cyn troi i'r bedd i huno?

Y Seren Gynffon.

A raid i oesau meithion
Droi ar eu mud olwynion,
Cyn gwelir ol lle'r wyt yn awr,
A dwyre o'th wawr dirion ?

Yn iach it', seren hyfryd !
Y llaw sy'n awr yn ddiwyd,
Nad bryd y delot ar dy hynt,
A wywa'n gynt i'r gweryd.

Gwilym Marles.

CXIX.

CAN Y FAM I'W PHLENTYN.

Cwsg, fy anwylyd dinam,
Tecach na rhosyn wyt ti ;
Huna ym mynwes dy fam,
Tarian dy fywyd yw hi ;
Gwelw yw'r nos wrth y drws,
Lleddf ac ystormus ei chri ;
O ! mae dy ruddiau yn dlws—
Cannwyll fy llygad wyt ti.

Can y Fam i'w Phlentyn.

Draw ar y don mae dy dad,
Yn ymladd a gwyntoedd yr aig;
Dychwel wna eto i'w wlad
At ei anwylyd a'i wraig.
Gweled dy wyneb mae'n awr,
Clywed dy lais ar y lli;
O! mae'n dy garu di'n fawr,—
Cannwyll ei lygad wyt ti.

Stormydd y gaeaf a'u gwg
Eto ar fyrder a ffy;
Gwanwyn a'i lesni a ddwg
Fywyd o londer i lu,
Tithau, fy mhlentyn dinam,
Chwerddi ar dywod y lli,
Efo'th gwch bychan a'th fam—
Cannwyll ei llygad wyt ti.

Rhuo mae'r gwyntoedd o hyd,
Tuchan yn ffenestr y cefn;
O! 'rwyd ti'n gariad i gyd—
Rho i mi gusan drachefn.
Bellach gorweddwn i lawr,
Cysga, si lwli, si, si!
Huna, wel huna yn awr,—
Cannwyll fy llygad wyt ti!

Glan Padarn.

BUGEILGERDD.

Awn allan, fwyn forwynion !
 Fe ddaeth Gwyl Ifan ddoeth,
 Boreuddydd y Bedyddiwr gwyn
 Sy'n euro'r bryniau noeth :
 Awn allan gyda'n gilydd
 I droed y Mynydd Mawr
 I rwymo'r llwdwn gwyn ei wân
 A blodau teg eu gwawr !
 Cyn yfo'r haul y mân-wlith
 O gwpan-flodau'r waen,
 A chyn i'r tes a'i wridog wres
 Ymwibio'n ol a blaen,
 Awn allan hefo'n gilydd
 I droed y Mynydd Mawr
 I blethu grug yn gorlan glws
 Cyn iddi dorri'r wawr.

Awn allan, fwyn forwynion !
 Mae'r cloddiau'n wyrddion las,
 A'r adar glân yn ceincio cân
 Rhwng brigau'r brysglwyn bras :

Bugeilgerdd.

Awn allan hefo'n gilydd !
O ! awel, saf yn syn,
I weled llun y crinllys cun
Yn llonydd ddwfr y llyn !
Awn allan yn gariadlon
I droed y Mynydd Mawr,
I ddisgwyl cân rhyw fugail glân
Cyn agor dorau'r wawr !
Awn, deuwn, hefo'n gilydd,
A dawnsiwn ar y bryn,
Nes delo'r dydd i roddi'n rhydd
Y gwlanog lwdn gwyn.

Glasynys.

CXXI.

CAN SERCH.

Mae gwenau fy anwylyd
Yn hyfryd ac yn hardd :
Cusanu'r foch wen wridog goch
Yw hoffder penna'r bardd.

Mae rhywbeth byw mewn cariad,
Mae'n wastad dan fy mron ;

Can Serch.

A swynion serch y firain ferch,
Mae'n llenwi'r fynwes hon.

O ! moes dy gusan, Gwenno,
Mae honno'n amod merch :
Er gwg y byd, dy wefus ddyd
Hudolion swynion serch.

Y mae dy gusan, Gwenno,
Im heno'n well na gwin ;
Dy finion mêl sy'n llawn o gêl
Gyfrinion dwyfol rin.

Yr wyf yn caru Gwenno,
Wrth huno daw o'm blaen ;
Mewn gwyrdd a gwyn, lliw glân y glyn,
Fel Morfudd ar y waen.

Prioder fi â Gwenno,
Ein huno fydd yn hawdd :
Fel eira gwyn ar fynwes llyn,
Fy mron i'w bron a dawdd.

Wrth hel y mwyar duon,
Lliw llygaid gloewon Gwen,
Y carem gynt mewn hoew hynt
O dan gysgodol bren.

Can Serch.

Cariadon gwynion Gwenno
Yn rhwydd mi fynna'm rhan :
Nid dau, ond un,—myfi a'r fun,—
Wrth allor deg y Llan.

Cawn yno'n cyfan ieuo,
Ein cydio'n dau yn dyn ;
Yn un hyd dranc bydd hon a'i llanc,
Sef Gwen ac Owen Wyn.

Glasynys.

CXXII.

CAN GWEN.

Hoff gan rai yw twrw tref,
Lle nad oes bref y ddafad,
Hoff gan eraill fyw ymhell
Mewn unig gell anynad,
Ond gwell gen i gael trin yr ŵyn,
A gwenau mwyn fy nghariad.

Onid yw yr oen a'r myn
Ar war y bryn yn heini?

Can Gwen.

Felly finnau, mae fy mron
Heb ynddi don o gyni;—
Y mae amser da yn dod,
'Rwy'n barod i briodi.

Glasynys.

CXXIII.

CI LLYWELYN.

Tra bo dŵr, fe fydd afonydd;
Tra bo dail, bydd gleision glosydd;
Tra bo coed a maes a mynydd
Yn dwyn ini dân awenydd,
Dylid beunydd gyda'r delyn
Uchel foli Ci Llywelyn!

Tra bo llwydlas yr helygen,
Tra bo'n crynnu ddail yr aethnen,
Tra bo'n wynion flodau'r perthi,
Tra bo'n llawen adar llwyni,
Tra bo canu gyda'r delyn,
Uchel folir Ci Llywelyn!

Ci Llywelyn.

Pwy mor dirion, pwy mor anwyl?
Gweddus cadw iddo arwyl;
Do, bu hwn hyd anghau'n ffyddlon
Yn gwaredu baban gwirion;
Tra gwerthforir cân a thelyn,
Uchel folir Ci Llywelyn!

Tra bo'r Wyddfa yn Eryri,
Tra bo dolydd is Cwm Dyli,
Tra bo hedydd uwch y gweunydd,
Tra bo maenor, môr, a mynydd:—
Cofir gan yr oesoedd ddilyn
Argel wely Ci Llywelyn!

Glasynys.

CXXIV.

GLYN YR WNION.

Mor dlws yw Glyn yr Wnion!
Yr afon loew lân
Ddolenna drwy'r ddol lanwedd,
A sua felus gân ;

Glyn yr Wnion.

Ei glennydd teg sy'n gleinio
Mewn gwisg o wyrdd a gwyn;
Y breilw mân a wenant
Ar loewon llon y llyn.
Bargodir Glyn yr Wnion
A derw'n goedfron gref,
Ac ar ei eithaf weithion
Yn drofa saif y dref;
Mae'r glyn yn dlws odiaethol
Wrth draed y bryniau ban;
Mor anwyl glyn Meirionnydd,
Tawelaf, fwynaf fan!
Ei ddolydd ir meillionnog,
A'i feusydd llwythog llawn,
Ac ynddo gerddi gwyrddion
Yn drwm o ffrwythau gawn;
Dylenwant fy meddyliau
A phur deimladau mwyn,
Nes canaf ynddo'm calon,
Fel adar llon y llwyn.
I hwn daw'r gwanwyn gwenawg
Yn gyntaf i roi tro,
Ac ynddo haf a erys
Yn olaf man o'r fro.
Pa ryfedd fod ei wyneb
Yn llawn tlysineb hardd,

Glyn yr Wnion.

A'i dawel deg encilion
Mor berion gan y bardd!
Oblegid myn yr Awen
Gael nythu yn ei goed,
A hwythau'r glân wryfon
Gael rhodio'n ysgafn droed,
I wrando'r nant yn siarad
Am bethau'r amser gynt,
Neu'r awel droellog araf
Yn goglais clust y gwynt,
Neu ynte'r chwa yn sisial
Yn ddyfal seiniau serch,—
Mai pur ei nodau perion
O geinion mwynion merch!

Glasynys.

CXXV.

MYFANWY.

Y 'deryn pur, yn llatai dos
At feinir dlos gariadus;
Sibryda yn ei chlust fy nghŵyn,
Hyfrydol swyn 'r afradus;

Myfanwy.

Mae fy nghalon yn ysgyrion,
Mae fy ngruddiau'n welw lwydion,
Och! na chawn i heno'n goflaid
Wasgu meinwen gymen gannaid;
O! Gwener anwyl, gwella 'nghlwy,—
Myfanwy bia f' enaid!

Ym mrig yr hwyr dan dderi'r llwyn
Dymunol mwyn ymannerch;
Darfyddai prudd-der yn fy mron
Wrth drosi union draserch;
Ciliai gofid, od fai adfyd,
Toddai'n wyl yngwedd f' anwylyd;
Hion haul ar aeron euraid
Ydyw golwg glân ei llygaid;
Hon yw blodyn hardda'r plwy'—
Myfanwy bia f' enaid!

Glasynys.

CXXVI.

CAN HYWEL I FYFANWY.

Mae swyn mewn serch,
Mwyn, mwyn yw merch,
O draserch dyrysaf;
Lliw blodau'r ardd,
Mor bêr a'r nardd,
Mor fwyn y chwardd arnaf!
O! Myfanwy, y mae f' enaid
Yn dy garu, 'r fun deg euraid;
Ar fy nwyrudd llwyd a gwelw,
Gwel, fe gerfiodd serch ei ddelw!
Mae fy nghariad yn weladwy,
Mae fy enaid am Myfanwy.

Ei lliw sydd wyn
Fel trochion llyn,
Neu ewyn y wendon;
Dau rosyn coch,
Un ar bob boch,
A welir yn wiwlon!

Can Hywel i Fyfanwy.

Pwy na chân i'r fwyn Fyfanwy?
Croenwen ydyw megis Creirwy,
Glân rianon fel Aranrod,
Deune Gwen, neu gaenen manod,
Tlysach hon na'r lon Wenonwy,—
Mae fy enaid am Myfanwy!

Ei dannedd mân,
A'i minion glân,
O! riain gariadus!
Ail Ddwynwen yw,
Yr hardda'n fyw,—
Llawn o'r lliw lladus;
Irwedd, lanwedd, loew-wedd Lili,
Edrych! gwêl fy nagrau heli;—
Megis dafnau'n tyllu ogof,
Ysa dagrau 'nghalon ynof,
Y mae 'nghariad yn ofnadwy!
Clyw fy nghwynfan, O! Myfanwy

Meillionen wiw,
Ei llun a'i lliw,
Eilun yw Ngwenfron!
Ei dwyael main
Uwch perlau cain,
Delw'r glain nidron!

Can Hywel i Fyfanwy.

O! mor swynol yw cusanu
Gwefus ruddgoch mun lygeitu
Dan y fedwen fonwen fanwallt,
Neu gerddinen llwyn y wenallt,—
Dwfn yw 'ngalar, afar ofwy
Am y feinir deg Myfanwy.

Mae nghân a nghŵyn
Yn llenwi'r llwyn,
O eisiau'r fwyn fanon;
Fel eos lwyd
Ar ddreiniog glwyd
Yn tywallt ei chalon;
Ail y wylan, yn cwynfannu,
Cwyno, cwyno,—byth yn canu;
Trydar beunydd fel colomen
Am y fywiol siriol seren;—
Dos yn llatai, ddwfr y Ddyfrdwy,
Dwed fy nghŵyn i'r fwyn Fyfanwy.

Fel alarch gwyn
Ar loew lyn,
Neu forwydd wrth farw;—
Mae 'nghalon lân
Yn deilchion mân,
O! riain, mae'n arw!

Can Hywel i Fyfanwy.

Ust! rho yma'th glust i glywed,
Dere, euron galon galed,
Min fy medd,—tydi a'm lleddaist,
Do, fy nghalon dirion dorraist;—
Rhof er hyn wastadol ofwy
I fy anwyl, lân Fyfanwy!

Glasynys.

CXXVII.

ANGEL.

A gaiff fy yspryd i
Yng ngharchar defnydd du
Fydryddu'th hanfod cu,
O angel rhydd?
A gaiff carcharor tlawd
Trwy rydlyd farrau cnawd
Dy weld a'th alw'n frawd
O wlad y dydd?

O, braidd nad ydyw'n fai
I un sy gymaint llai,
O fewn ei gragen glai,
Dy enwi di!

Angel.

Myfi mewn cyfyng gell,
A thi yn rhyddid pell
Y tragwyddoldeb gwell
Yn Nuwdod fry!

Adarwr creulawn ddaeth,
A'm dal yn fore wnaeth
O fewn ei faglau caeth,
Sef pechod du;
Pan ddeui ar dy hynt
Ar edyn dwyfol wynt,
Mae cof o'm rhyddid gynt
I'm llethu i.

Ac eto 'rwy'n mwynhau
Dy bell leferydd clau,
Fel swn rhyw ddwyfol drai,
Mae'n sisial hedd;
Mae'n addaw agor dôr
I ryddid fel y môr,
I anfarwoldeb Iôr,
Tu draw i'r bedd.

Mi ganaf, ysbryd gwyn,
Y dagrau-odlau hyn,
Na chymer dithau'n syn
Os lleddf eu sain;

Angel.

Feallai cyn bo hir,
Daw'r anthem yn fwy pur,
Daw seiniau mil mwy clir
I foddi'r rhain.

Islwyn.

CXXVIII.

FY MAM.

Fy mam! a fu i mi
Y fath angyles gu
Pan oeddwn wan,
A fu i mi ei llaw
Wrth odre mebyd draw
I'm dwyn i'r lan,
Ai breuddwyd mawr ei rin
A gefais wrthyf f' hun,
Ai rhyw gerubaidd lun
A welais fry,
Un fraich o dan fy mhen,
A'r llall fyth tua'r nen
Yn gofyn bendith wen
A rhad i mi?

Fy Mam.

Na! ofer yw y dyb,
Mae'm gruddiau yn rhy wlyb,
Mae'r deigrol li'n rhy lawn;
Pa fodd mae cofion dyn
Am bopeth mawr ei rin
Fel gweledigaeth gun
Yn ebrwydd iawn?

Anfona, Awen fwyn,
Am unwaith er ei mwyn
Y seiniau mwya'u swyn,
Dy guaf gân;
Dod ar ei beddrod hi
Y blodau tecaf sy
Yng ngardd dy frodyr fry,
Yr engyl glân.

O! cofia'r cyfnod pan
Yr oeddit eto'n wan,
A'r ffordd ymbell i'r lan
I'th ddinas wen,
A'r modd y caffem ni
Lonyddwch, drwyddi hi,
I araf esgyn fry
O nen i nen.

Fy Mam.

Cymerai bethau'r byd
A gofal hwn i gyd
I'w rhan ei hun bob pryd,
 Tra byddem ni
O fewn y fyfyr gell
Yn pyncio am y pell
Ororau, canmil gwell,
 Lle'n awr mae hi.

Islwyn.

CXXIX.

CYSTUDD YN Y GWANWYN.

Daeth yn ei dro y Gwanwyn llon
 Y flwyddyn hon fel arfer,
Gan ddwyn i'r hen leshad o'i boen,
 I'r ieuanc hoen a llonder,—
I mi, fab llên, ni ddygodd ddim
 Ond cystudd llym a gwywder.

Mae wedi agor ar y glas,
 O flaen y plas fu lawen,

Cystudd yn y Gwanwyn.

Rosynau'r glyn, ryw Seion glau,
Ond nid rhosynau'r Awen ;
Mae wedi cau ar y ddwy foch
Ddau rosyn coch y perchen.

'Rol clywed trwy'r ffenestri cau
Yr adar clau yn pyncio,
A gweled ar ymylau'r ffyrdd
Friallu fyrdd, dros rifo,
Mor brudd yw gweld yn nrych y bardd
Y gwyneb hardd yn gwywo!

Istwyn.

CXXX.

CYMRU.

Os bechan ydwyt, Gymru wiw,
Os cyfyng yw dy le,
Cydgasglwyd ar dy fynwes bêr
Bob ceinder is y ne;
Ein rhandir yn eangach fu,
Ond digon dy amrywiaeth di.

Pa le y dengys anian lon
Ei swynion o bob rhyw,

Cymru.

A'i miliwn harddwch mal yn hon?
Byd mewn mân-ddarlun yw;
Gwg anian ar ei hwyneb gawn,
A'i gwên hawddgaraf yno'n llawn.

Os gedy'r mynydd ar ei hynt
Y niwl a'r gwynt ar ol,
Canfyddwn yn ei gysgod mawr
Orddenawl wawr y ddôl:
Os gwga'r creig ar ogwydd fry,
Rhos Eden obry'n gwrido sy.

Rhwng holtau y mynyddoedd pell
Dyffrynnoedd gwell eu gwawr
Orweddant—nid oes gwynt na rhu
I'n haflonyddu'n awr:
O! llawer paradwysaidd lyn
A olcha draed y creigiau hyn!

Mynyddoedd hon, rhagfuriau ynt
Ar gyfer gwynt a gwlaw,
I gadw nerth pob storom flin
A min pob drycin draw:
O dan eu nodded chwardd y waen,
A'i thwf tyneraf yno daen.

Istwyn.

DYFFRYN CLWYD.

Hoff Ddyffryn Clwyd yng nghofion yr ymdeithydd
 A gwyd fel delwedd o brydferthwch llonydd.
 Teilynga y flaenoriaeth am lonyddwch,
 Ei olygfeydd a'i baradwysaidd heddwch.
 Llifeiriol lawnder donna dros ei dolydd,
 Môr aur cynhaeaf yma sy ysplennydd.
 Ac hyd ei ochrau fel i'w lawn amddiffyn
 Heirdd furiau o fynyddoedd sy'n ymestyn,
 Gwyrddlesni'r fro yn dal am eu cysgodau
 A weua iddynt fentyll o bob lliwiau.
 Ardderchog goed â'u gwyrddni pell-lifeiriol
 Ddyfnhant ogoniant yr olygfa swynol.

Uwchlaw darluniad yw y swyn amgylcha
 Y preswylfeydd a frithant yr olygfa;
 Mor syml, mor llonydd hyd y fro eu gwelaf,
 Y gair dedwyddwch ar eu mwg ddarlennaf.
 Heddychol fannau, lle y câr hapusrwydd
 Breswyllo gydag anian a boddlonrwydd;
 Prydferthwch ogylch, a thangnefedd ynnoch,
 A gwên y nefoedd sy'n tywynnu arnoch.

Dyffryn Clwyd.

Mae anian yma fel yn llunio dyn
I'w hagwedd lonydd ac i'w delw ei hun :
Nerth yn y corff, bywiogrwydd yn y meddwl,
A wna ei oes yn hirddydd llon digwmwl.
Mor ddedwydd yw ei gyfran hwyrddydd odiaeth,
Pan fyddo'r fro yn llafar gan beroriaeth,
Cyngherddol adar ar y coed yn pyncio,
A'r dail yn sibrwd hanner-geiriau wrtho.

Yr afon Clwyd a lonydd ymddolenna
Prif fendith, pennaf addurn yr olygfa,
Ni ruthra heibio gyda thwrf tymhestloedd,
Mae yspryd yr olygfa ar ei dyfroedd.
Trwy ganol rhyfeddodau y gwelediad
Mor araf a myfyrgar ei mynediad!
Dirwyna ei harianllif hyd y dolydd,
A mynych y gohiria plith y coedydd,
Ac o'i chyfeiriad union aml troa,
Fel un a fynnai lawn fwynhau'r olygfa;
A phan ymedy tua ffordd y moroedd
Y mae rhyw swm o hiraeth ar ei dyfroedd.

Islwyn.

CXXXII.

Y DYLANWAD.

Pan y myn y daw,
Fel yr enfys a'r gwlaw,
Fel odlau yr eos ger y gwyrddaf lyn draw;
Nid mwy anibynnol y seraff y sydd
Yn disgyn ar donnau diweddaf y dydd,
Pan fyddo'r gorllewin, rhwng huan a môr,
Fel i dragwyddolfyd yn ffurfio y ddôr.

Pan y myn y daw,
Fel y ser dros adfail y cwmwl draw
Yn llwyr anibynnol ar amser islaw;
Pan y myn, heb orfodaeth na dyled i'r byd,
Pan y myn, fel pethau y nefoedd i gyd.

Dylanwad yr awen,
Y pruddaidd a'r llawen,
Mae'n hŷn yn ei darddiad na'r ser bore fu
Yn canu uwch bydoedd dwyrëol di-ri;
Mae'n ddyfnach o Dduw na'r moroedd didraul
O ddyfroedd; mae'n gwawrio lle machlud yr haul.

Y Dylanwad.

Fel yr enfys y daw,
Fel arwydd cyfamod tragwyddol wnaed draw
Rhng Meddwl a Duwdod, pan araf ddychwelai
Môr mawr tragwyddoldeb hyd nes ymddanghosai
Mynyddoedd pell amser, ac Arch y Meddyliau
Tragwyddol yn disgyn yn iach ar eu bannau.

Islwyn.

CXXXIII.

SEREN HEDDWCH.

Seren heddwch! i'r crwydredig
Hyfryd yw goleuni hon;
O, siriola'r morwr unig
Draw ar y don!

Seren ffydd, pan ballo'i hyder,
Pa y llwyr ddiffygio 'i fron,
Dod i'w fynwes nefol gryfder
Draw ar y don.

Seren ddwyfol, arwain bellach,
Dwg y crwydryn adre'n llon,

Seren heddwch.

Profwyd ef yn gyflawn mwyach
Draw ar y don.

Seren gobaith, O! llewyrcha
Ar y noson olaf hon,
Nes y try'n dragwyddol hindda
Draw ar y don !

Islwyn.

CXXXIV.

CARTRE'R BARDD.

Cartre'r bardd caredig mwyn
Sydd dan y llwyn celynen;
Pwy a welodd lencyn bach
Siriolach is yr heulwen?
Dymunoldeb pur a'i todd,
Mae'n lle wrth fodd yr awen.

Mynydd mawr tu cefn i'r tŷ
Ymgoda fry mewn mawredd,
Creigiau noethion ar ei war
Sydd goron arucheledd;

Cartre'r Bardd.

Ac ar gopa tal y bryn
Mae'r cwmwl gwyn yn eistedd.

O! mae'r ardd o flaen y drws
Yn arlun tlws o Eden
Hawdd yw gweld oddeutu'r lle
Ei fod yn gartre'r awen;
Yn y gwrychoedd gylch y tŷ
Barddoniaeth sy 'mhob deilen.

Mynyddog.

CXXXV.

MAE CÂN YN LLOND YR AWEL.

Mae cân yn llond yr awel fwyn
Sy'n ysgwyd gwynt y borau,
A holl gerddorion mân y llwyn
I gyd yn ffurfio'n gorau;
Mae teg amrantau'r wawrddydd dlos
Yn agor yn swm canu,
A chanu wed'yn gyda'r nos
Yn suo'r byd i gysgu.

Mae Can yn Llond Yr Awel.

'Does dim yn fud
Trwy'r nef na'r byd,—
Mae natur lân yn gân i gyd.

Mae adlais canu yn y môr
O amgylch glannau Cymru,
A thonnau moliant pur i'r Iôr
Yn fodrwy am Eryri;
Mae anthem gref y ceunant mawr
Yn esgyn fry i'r bryniau,
A ffrydiau moliant ddônt i lawr
Yn genllif o'r cymylau.
'Does dim yn fud
Trwy'r nef na'r byd,—
Mae natur lân yn gân i gyd.

Mynyddog.

CXXXVI.

HWYRGAN.

Yr hwyrnos brudd sy'n ocheneidio'n wanllyd
Wrth roi ei phen i lawr mewn melus hun,
Mae'r bryniau oll mewn dwyfol orchudd tanllyd
Ym moli Duw am wyllo dyn;
Cyd-nofio mae'r cymylau,
Ac aur hyd eu hymylau;
Yn seiniau cerddi hwyrol ha',
Tyner chwa
Ddwed "Nos da!"

Y blodau mân a wylant wlith ariannaidd,
Ymgrymant oll o flaen yr hwyrnos gu,
Yr hon sy'n dod ar draed o bluf sidanaidd
I guddio'r byd mewn pruddaidd amdo du;
Ac o'r aelwydydd tawel,
Ehedeg gyda'r awel
Mae seiniau cerddi hwyrol ha';
Yna'r chwa
Ddwed "Nos da!"

Mynyddog.

CXXXVII.

YR HAF.

Fe gladdwyd tlysni anian
Ym medd y gaeaf du,
A'r gwynt rydd brudd alargan
Mewn oer gwynfannus gri :
Ond, ha! daw'r haf toreithiog
A bywyd yn ei gôl,
A thaena flodau gwridog
Ar wyneb bryn a dôl.

Mae'r goedwig mewn hardd unedd
Yn gwisgo mantell werdd,
A'r haf sydd ar ei orsedd
Yn chwareu tannau cerdd ;
Mae'r delyn gynt fu'n hongian
Ar helyg gaeaf gwyw
Yn rhoddi miwsig allan,—
Ust! Clywch! Mae'r byd yn fyw !

Telynog.

CXXXVIII.

YR EHEDYDD.

O'r nyth,

A'i asgell deg yn llawn o wllith,

Dyrchafu i fyny megis rhith

O blith y brwyn

Mae'r hedydd mwyn,

I byncio ei foreuol lith.

O!'r swyn !

Sy'n llifo o dy garol fwyn,

Aderyn bach !

Dy fiwsig iach,

A ysgafnha fy loes a'm cŵyn.

Os mud

Yw dan draed yr hunawl fyd,

Fe'th glywir di yn canu'n glyd

Ar risiau'r gwawl

Ddihalog fawl,

Yn ffrydio o dy heddwch drud.

Yr Ehedydd.

Mor gu

A hoenus yw dy osgo di
Ynghanol firwd o heulog li;

O'r wybren dêr

Dy gathl bêr

A seinia fel y mêl i mi.

Ossian Gwent.

CXXXIX.

Y GWLITHYN.

Ar fore tawel yn yr ardd

Yn ymyl chwarddol wlithyn,

Canfyddid wrth ei fodd y bardd

Yn syllu ar ei wyneb hardd,

Yn ddistaw ar ei ddeulin.

Bu yno uwch ei ben yn hir

Mewn ymdrech i amgyffred

Y wên oedd ar ei wefus bur,

Fe'i gwyliodd, do, nes oedd yn wir

O'i olwg wedi myned.

Y Gwlithyn.

O lys yr haul, ar ffrwst i lawr
Daeth tlws belydryn llawen;
Ar fin y gwlithyn teg ei wawr
Argraffodd gusan, ffwrdd o'r llawr
A'i denodd ar ei aden.

A deigryn hiraeth ar ei rudd
Mae'r bardd ei law yn estyn,
Gan lefain—"Haul, mi welaf ddydd,
Pan gwag dy eang rod a fydd!
Diflenni fel y gwlithyn!"

Fe wawria bore gwelir di
A'r sêr fel gw lith yn esgyn
O'u nennau pell, yn loew lu,
I ffurfio enfys ddwyfol fry,
Yn aig y dydd diderfyn.

A'r ddaear fydd fel gem i'w chloi,
A myrddiwn o gerfiadau,
A Llaw Anfeidrol yn ei thoi,
Ddwg fyrdd o edyn claer i droi
Uwchben ei ryfeddodau.

Y Gwlithyn.

Mae llais yr adgyfodiad pell
Fel ar fy nghlust yn disgyn:—
“I'r pur a'r glân mae bywyd gwell
A'i tyn cyn hir o'i farwol gell,
Fel tyn yr haul y gwlithyn!”

Ossian Gwent.

CXL.

FY NARLUN AR Y PARED.

Hawddamor it, fy Narlun hardd,
Mae'n llondid im dy weled ;
Dy swydd yw cynrychioli bardd,
A hapus boed dy dynged ;
Mae'th siriol wên a'th olwg syw
Yn gwneud it edrych fel yn fyw,—
O, hynod mor naturiol yw
Fy Narlun ar y pared !

Ond er ein bod ein dau yn awr
Yn edrych cyn debyced,
Yn fuan rhyw wahaniaeth mawr
Cydrhyngom geir ei weled ;

Fy Narlun ar y Pared.

Dirlethir fi dan bwys y byd,
A henaint ddaw i grino 'mhryd,—
Ond ieuanc, hoenus, fydd o hyd
Fy Narlun ar y pared.

Wrth edrych ar dy wyneb di
Cyfeillion gânt fy ngweled,^z
Pan holant hwy am danaf fi,
A minnau wedi myned ;
Os bydd y rhain a golwg brudd,
A deigryn hiraeth ar eu grudd,
A'i wedd yn dawel, hawddgar bydd
Fy Narlun ar y pared.

Ioan Arfon.

CXLI.

GREEN Y BALA.

Y Bala, Salem wen,
Gad im dy alw,
Boed bendith ar dy ben,
Ti haeddi'r enw !

Green y Bala.

Os bu rhyw lecyn mad
O ddaear ein hoff wlad
Yn deml i Dduw a'r Tad,
Y Green yw hwnnw.

Ein tadau gyda hwyl
A pher Hosanna,
Fel tyrfa i gadw gwyl,
A gyrchent yma !
O ! na cheid eto'r fraint
O weled yn ei maint
Gymdeithas fawr y saint
Ar Green y Bala !

Nid teml oedd hon ychwaith,
Heb un Seceina ;
Mor amlwg lawer gwaith
Bu gwedd Iehofa,
Na feiddiai undyn byw,
Mewn rhyfyg balchaf ryw,
Ofyn pa le'r oedd Duw,
Ar Green y Bala.

Maes cysegredig yw,
Rhyw hynod Fethel,
Lle bu angylion Duw
Y cyrchu'n ddirgel ;

Green y Bala.

Bu'n borth y nefoedd trwy
Eu rhad wasanaeth hwy
Yn gweini balm i glwy'
Pechadur isel.

Wrth gofio'r amser gynt
Ar Green y Bala,
Yr angel ar ei hynt
Fan hyn orffwysa,
Nes llwyr anghofio 'i daith
Mewn gwledd fyfyriol faith,
Wrth feddwl am y gwaith
Gyflawnwyd yma.

Pery yr enw pan
Y cyll yng Ngwalia
Yn air teuluaidd gan
Drigolion Gwynfa;
Tra cenir am y gwaed,
A'r bywyd ynddo gaed,
Fe genir am a wnaed
Ar Green y Bala.

Maes a neilltuodd Duw
O groth diddymdra,
I godi o farw'n fyw
Ancrif dyrfa;

Green y Bala.

A phan yn ulw mân
Troir meusydd Cymru lân,
Yr olaf roir i'r tân
Fydd Green y Bala.

Huw Myfyr.

CXLII.

Y GARREG WEN.

Os pell yw telyn aur fy ngwlad
O'm dwylaw musgrell i;
Os unig wyf o dy fy nhad
Lle gynt chwareuid hi:
Mae'r iaith er hynny gyda swyn,
Fel ysbrydoliaeth yn fy nwyn
I ganu cerdd, os nad yn fwyn
I'r byd—mae'n fwyn i mi.

Mae nant yn rhedeg ar ei hynt
I ardd fy nghartref i,
Lle cododd un o'm teidiau gynt
Ddisgynfa iddi hi.
Mae helyg melyn uwch y fan,
Lle syrthia tros y dibyn ban,
A choed afalau ar y lan
Yn edrych ar y lli.

Y Garreg Wen.

O dan ddisgynfa'r dŵr mae llyn,
A throsto bont o bren;
A charreg fawr, fel marmor gwyn,
Gynhalia'r bont uwchben.
Fy mebyd dreuliais uwch y lli,
Yn eistedd yno arni hi;
A mwy na brenin oeddwn i
Pan ar fy Ngharreg Wen !

Pan ddeuai'r Gwanwyn teg ei bryd
Ar ol tymhestlog hin,
Ac adfywhau'r llysieuog fyd
Yn ei gawodydd gwin;
Yn afon fawr âi'r gornant fach;
Pysgotwn ar ei glennydd iach—
A phin blygedig oedd fy mach
Yn grog wrth edau lin.

Ni waeth pa ran o'r eang fyd
A grwydraf tra bwyf byw,
Wyf wrth y Garreg Wen o hyd,
A'r nant sydd yn fy nghlyw ;
A phan hysbyswyf estron ddyn
Mai ati hedaf yn fy hun,
Maddeua'm ffoledd am mai un
O gofion mebyd yw.

Y Garreg Wen.

Ffurfafen bell yw mebyd oes,
Serennog fel y nen;
Ac ym mysg dynion neb nid oes,
Na hoffa godi ei ben
I edrych draw i'r amser fu—
A syllaf finnau gyda'r llu—
Ac O! fy seren fore gu
Wyt ti, fy Ngharreg Wen!

Os cyrraedd ail fabandod wnafl,
Cyn gollwng arna'r llen;
Os gaeaf einioes byth a gaf,
A'i eira i wynnu'm pen—
Bydd angau imi'n "frenin braw,"
Nes caffwyf fynd i Walia draw,
At dy fy nhad, i roi fy llaw
Ar ben y Garreg Wen.

Byth, byth, ni ddygir o fy ngho'
Gyfeillion mud yr ardd;
Nis clywir trystfawr sw'n y gro
Ar gaead arch y bardd:
A dagrau pur tros ruddiau'r nen
Fo'r oll o'r dagrau uwch fy mhen—
Os cyfaill fydd, gwnaed garnedd wen
O gerryg gwynion hardd.

Y Garreg Wen.

Colofnau wnaed i feibion bri,
Uchelfawr tua'r nen ;
Ond noder fy ninodedd i
Gan garnedd uwch fy mhen :
'Rol gado ' gwlad y cystudd mawr,'
Os byw fy enw hanner awr,
Na alwed neb fi ar y llawr
Ond Bardd y Garreg Wen.

Ceiriog.

CXLIII.

CAN HYWEL I FYFANWY.

Mewn gweithred, mewn gwisg, ac mewn gwedd,
Un rhyfedd yw bardd ym mhob oes,
Un trwstan o'i febyd i'w fedd,
A siwr o wneud popeth yn groes ;
Os disgyn ei lygad ar ferch
Prydyddu wneiff ef iddi hi
Yn lle mynd a siarad ei serch.
Rhyw garu go wirion yw danfon penillion i ti—
Yw cuddio penillion i ti.

Can Hywel i Fyfanwy.

Myfanwy ! 'rwy'n gweled dy rudd
Mewn meillion, mewn briall, a rhos,
Yng ngoleu dibalog y dydd,
A llygaid serenog y nos :
Pan gyfyd claer Wener ei phen
Yn loew rhwng awyr a lli,
Fe'i cerir gan ddaear a nen.
I f' enaid, Myfanwy, goleuach, O, tecach wyt ti,
Mil lanach, mil mwynach i mi !

Fe ddwedir fod beirddion y byd
Yn symud, yn byw ac yn bod,
Rhwng daear y doeth a Gwlad Hud,
Ar obaith anrhydedd a chlod ;
Pe bai anfarwoldeb yn awr
Yn cynnyg ei llawryf i mi,
Mi daflwn y lawryf i lawr—
Ddymunwn i moni, fe'i mathrwn os na chawn i di,—
Myfanwy, os na chawn i di !

Myfanwy ! ai gormod yw dweyd
A honni mai bardd ydwyf fi ?
Os ydwyf—'rwyf wedi fy ngwneud
A'm hurddo i'r swydd gennyt ti !
Dy lygad fu'r 'cleddyf diwain,'
A'th wyddfod oedd 'gorsedd' fy mri,

Can Hywel i Fyfanwy.

Cylchynnaist fi byth gyda 'main ;'
O, fywyd fy Awen ! Myfanwy, mi ganaf i ti—
Anadlaf fy nghalon i ti !

O, na bawn yn awel o wynt
Yn crwydro trwy ardd Dinas Brân,
I suo i'th glust ar fy hynt,
A throelli dy wallt ar wahan :
Mae'r awel yn droiog a blin—
Un gynnes ac oer ydyw hi ;
Ond hi sy'n cusanu dy fin.
O, feinwen fy enaid, nid troiog fy serch atat ti,
Tragwyddol yw'm serch atat ti !

Mewn derwen agennwyd gan folllt
Draig-fellten wen-lachar ac erch,
Gosodaf fy mraich yn yr hollt
A chuddiaf beithynen o serch.
Ni'm gwelir gan nebun, ond gan
Y wenlloer—gwyn fyd na baet hi,
Er mwyn iti ganfod y fan ! [thi—
Ond coelio mae'm calon, fod ysbryd eill sibrawd â
Eill ddwedyd y cwbl i ti !

Ceiriog.

CXLIV.

CAN OWAIN I OLWEN.

Mae gennyf wen golomen ddof,
Erioed heb golli pluen,
Ac edrych arni leinw'm cof
A holl brydferthwch Olwen ;
O, mae hi'n hardd, a hardd fydd byth
Aderyn diniweidrwydd !
Pan alwaf arni tan ei nyth,
Hi ddisgyn ar fy ysgwydd ;
Ond hyn sy'n torri'm calon i,
Pan alwaf Olwen, ni ddaw hi !

Ac mewn gwialeg ar y mur
Mae deryn du bigfelen,
A dau eithafedd harddwch pur
Yw'r deryn du a'r glomen ;
Y du yn edrych ar y wen
Trwy wiail ei gaethiwed,
A hithau'n chware uwch ei ben
Heb gymryd arni weled ;
Ac er yr awr caethiwaist fi,
O, Olwen anwyl, felly ti !

Can Owain i Olwen.

Yn fynych iawn gwnai'r deryn du
Ryw olwg bur ddigalon,
A mawr ddymunai golli 'i blu,
A chael rhai eraill gwynion ;
Rho'i ben i lawr yn brudd a syn,
Fel pab yn mynd i weddi,
A dwedai, " O ! na bawn yn wyn !
Doi'r glomen fach i'm hoffi."
Ac felly, Olwen, dwedaf fi,
O na bawn wyn i'th olwg di !

Pan oedd y wen ar nen y ty
Ryw fore teg ym Medi,
Mi welwn ryw golomen ddu
Yn hedeg tuag ati ;
Ac ar ol caru am ddwy awr,
Addawai'r wen briodi ;
Ai felly fu ?—na choelia'i fawr,
Y du aeth adref hebddi ;
Awgrymed hyn i'm Holwen i,
Rhag ofn mai felly siomir hi.

Cyn i mi gael y glomen gu
Gan un o'm hen gyfeillion,
Un distaw oedd y deryn du,
Heb ganu ar ei galon ;

Can Owain i Olwen.

Ond pan y daeth y glomen lân,
Disgynnodd arno'r awen,
A'i galon bur a dodd yn gân,
I gyffwrdd serch y glomen :
Ond ofer canu iddi hi,
Ac ofer cân i'm Holwen i !

Ceiriog.

CXLV.

NANT Y MYNYDD.

Nant y mynydd, groew, loew,
Yn ymdroelli tua'r pant;
Rhwing y brwyn yn sisial ganu,
O na bawn i fel y nant !

Grug y mynydd yn eu blodau,
Edrych arnynt hiraeth ddug,
Am gael aros ar y bryniau
Yn yr awel hefo'r grug.

Adar mân y mynydd uchel
Godant yn yr awel iach,

Nant y Mynydd.

O'r naill drum i'r llall yn hedeg—
O na bawn fel 'deryn bach !

Mab y mynydd ydwyf finnau,
Oddi cartref yn gwneud cân,
Ond mae'm calon yn y mynydd
Efo'r grug a'r adar mân !

Ceiriog.

CXLVI.

TI WYDDOST BETH DDYWED FY
NGHALON.

Yn araf i safle'r gerbydres gerllaw
Y rhodiai fy mam gyda'i phlentyn;
I waelod ei chalon disgynnodd y braw,
Pan welai y fan oedd raid cychwyn.
Ymwelwodd ei gwefus—ei llygaid droi'n syn,
Rhy floesg oedd i roddi cynghorion;
Fe'i clywais er hynny yn sibrwd fel hyn—
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.”

Ti Wyddost beth ddywed fy Nghalon.

Canfyddodd fy llygad mewn dagrau'n pruddhau,
Gwir ddelw o'i llygad ei hunan ;
Hyn ydoedd am ennyd fel yn ei boddhau,
Er nad fy nhristau oedd ei hamcan.
Ond er fod cyfyngder yr ennyd yn gwneud
Atalfa ar ffrwd o gysuron,
Mudanrwydd rodd gennad i'w hanadl ddweyd,—
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.”

Nid son am gynllwynion y diafol, a'i fryd,
Er ennill ieuentid i'w afael—
Nid son am ffolineb, a siomiant y byd,
Yr ydoedd pan oedd yn fy ngadael ;
Dymunai'n ddiameu bob lles ar fy nhaith,
Trwy fywyd i fyd yr ysbrydion :
Ond hyn oedd yr oll a ddiangodd mewn iaith,—
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.”

I eiriau dirmygus, dieithrol nid wyf,
Mi wn beth yw llymder gwatwariaith ;
Y munud diffygiwn dan loesion eu clwyf,
Y nesaf dro'i oll yn ddieffaith ;
Do, clywais hyawdledd—er teimlo ei rym,
Mewn effaith ni lŷn ei rybuddion ;
Ond hyn gan dynerwch fyth erys yn llym,—
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.”

Ti Wyddost beth ddywed fy Nghalon.

Mae ysbryd yr oes, megis chwyddiad y môr,
Yn chware â chreigiau peryglon ;
O'm hamgylch mae dynion a wawdiant Dduw Iôr,
Wyf finnau ddiferyn o'r eigion ;
Fy nghamrau brysurant i ddinistr y ffôl,
Ond tra ar y dibyn echryslon
Atelir fi yno gan lais o fy ôl.—
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.”

Pe gwelwn yn llosgi ar ddalen y nef
Y tanllyd lythrennau “NA PHECHA !”
Pe rhuai taranau pob oes yn un llef—
“Cyfreithiau dy Dduw na throsedda ;”
Pe mellten arafai nes aros yn fflam,
I'm hatal ar ffordd annuwiolion,
Annhraethol rymusach yw awgrym fy mam,—
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon !”

Ceiriog.

CXLVII.

GOFIDIAU SERCH.

Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi
Dros hen dderw mawr y llwyn,
Pan ddywedaist yr aberthet
Nef a daear er fy mwyn?
Wyt ti'n cofio'r dagrau gollaist
Wrth y ffynnon fechan draw?
Wyt ti'n cofio'r hen wresogrwydd,—
Wyt ti'n cofio gwasgu'm llaw?

“Hyd fy marw!” oedd dy eiriau,
Y parhaet yn ffyddlawn im;
O fy ngeneth, O fy nghariad!
Nid yw poenau marw'n ddim.
Er wrth dorri'th addunedau
I ti dorri'm calon i,—
Magi anwyl, mae dy gariad
Eto'n gariad pur i ti.

Mae'th lythyrau yn gwneud imi
Lwyr anghofio mi fy hun;
Mae dy gydyn gwallt yn hongian
Fel helygen tros dy lun!

Gofidiau Serch.

Llun dy wyneb, Magi anwyl,
O mae'n t'wynnu fel yr haul !
Nes 'rwy'n teimlo gwae a gwynfyd,
Nef ac uffern, bob yn ail !

O f' anwylyd ! er mai cyfaill
Yw yn awr fy enw i,
Maddeu imi am ddefnyddio
Yr hen enw arnat ti ;
Cariad wyt ti, Magi anwyl,
Bur, ddihalog, fel erioed ;
Troist dy wyneb, cefnaist arnaf,
Minnau garaf ôl dy droed !

Ceiriog.

CXLVIII.

TUAG ADRE'.

O ddydd i ddydd mae melyn haul
Yn pasio yn ei gerbyd ;
O nos i nos mae'r lleuad wen
Yn codi ac yn machlud ;
O awr i awr mae'r sêr yn troi
Ar draws yr eangderau ;—

Tuag Adref.

Yn wir, mae holl gre'digaeth Duw
Yn teithio tuag adre'.

Mae'r ffrydlif fach, ar ben y bryn,
Yn rhedeg megis crwydryn;
Ac afon fawr, y dolydd is,
Yn rhedeg yn y dyffryn;
Mae'r gwynt yn crwydro yn y nef,
A symud mae'r cymylau;—
Ac O! mae holl gre'digaeth Duw
Yn teithio tuag adre'.

Mae gwynt Diwygiad ar ei daith,
A derw Cymru'n gildio,
A swn gorfoledd yn y dail,—
Mae swn canghennau'n cracio;
O! Anadl, tyrd o'r pedwar gwynt,
A chymer y byd mewn hymnau,
Cân a moliant iddo Ef,
I byrth tragwyddol gartre'.

Ceiriog.

CXLIX.

BETH YW CARIAD?

A fedrwch chwi ateb ai cryfder yw cariad,
Neu ynte rhyw wendid perthynol i ddyn?
Rhyw dro aeth athronydd i wneuthur atebiad,
Ond syrthiodd mewn serch, ac ni wyddai pa un!
Aeth mynach dro arall i wneuthur traethodyn,
I ateb y cwestiwn yn ddoeth, megis mwnc,
Ond cofiodd am lances wrth ymdrin a'r testyn,
A llosgodd ei bapur cyn deall ei bwnc!

Gan frawd o fynachydd fe'i gwawdiwyd ar unwaith
Am wendid ei synwyr, a gwendid ei gnawd;
A'r ail a ddechreuodd gyflawni gorchestwaith,
I ddangos ei ddoniau yn gryfach na'i frawd:
Bu flwyddyn a hanner—os gwir ydyw'r stori—
Yn dal at ei draethawd yn ddiwyd a chaeth,
Ac yna fe gymrodd y goes o'r mynachdy,
A byth ni hysbyswyd ble gebyst yr aeth.

Bu prydydd yn treio, a threiodd ei oreu
I roddi esboniad, a dwedyd wnai ef,—
Mai gwllith ydyw cariad o Eden wen foreu,
Yr hwn gan yr haul ni chymerwyd i'r nef.

Beth yw Cariad?

Ac yna bu critig go sychlyd ei deimlad—
Y beirdd oeddynt ffeidd yng ngolwg y dyn—
Yn ffurfio deffiniad dysgedig o gariad,
Ond yn ei ddeffiniad—prydyddodd ei hun!

“ Mae'r byd wedi 'i hulo â philosophyddion,
A phrin gellid meddwl fod un cyfrin gell
Ym mhalas mawr natur, na rhôl o gyfrinion,
Na dim yn rhy ddwfn, na dim yn rhy bell;
Yng ngolwg fferyllydd elfenau a nwyau
Yw'r awyr a'r ddaear, a phob peth a wêl;
Ond bywyd a chariad a heriant wyddonau,
Maent hwy megis llythyr heb agor ei sêl.”

P'un bynnag ai cryfder ai gwendid yw cariad,
Dadleued prydyddion a doethion y byd ;
Fe adwaen i lances rhwng bryniau fy mam-wlad
Sy'n deall y testun yn well na nhw i gyd ;
'Does ynddi ddim rhodres dysgedig furseniad,
'Dyw hi ddim yn gritig, athronydd na mwnc:
Ond pe baech yn disgyn tan amrant ei llygad,
Chwi deimlech eich calon yn deall y pwnc.

Ceiriog.

CL.

YR ARAD GOCH.

Os hoffech wybod sut
Mae dyn fel fi yn byw :
Mi ddysgais gan fy nhad
Grefft gyntaf dynolryw ;
Mi ddysgais wneud y gors,
Yn weirglodd ffrwythlon ir ;
I godi daear las
Ar wyneb anial dir.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr,
Ac yn codi efe'r wawr,
I ddilyn yr og, ar ochor y Glog,
A chanlyn yr arad goch
Ar ben y mynydd mawr.

Cyn boddio ar eich byd,
Pa grefftwyr bynnag foch,
Chwi ddylech ddod am dro
Rhwing cyrn yr arad goch :
A pheidiwch meddwl fod
Pob pleser a mwynhad

Yr Arad Goch.

Yn aros byth heb ddod
I fryniau ucha'r wlad.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Yn ol eich clochau heirdd,
Bob bore codwch chwi:
Y wawr, neu wyneb haul,
Yw'r cloc a'n cyfyd ni;
Y dyddiaduron sydd
Yn nodi'r haf i chwi;
Ond dail y coed yw'r llyfr
Sy'n dod a'r haf i ni.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Nis gwn i fawr am fyw
Mewn rhwysg a gwycheder byd;
Ond diolch, gwn beth yw
Gogoniant bwthyn clyd,
Ac eistedd hanner awr
Tan goeden ger fy nôr,
Pan aiff yr haul i lawr
Mewn cwmwl tân i'r môr.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Cerddorion Ewrob ddônt
I'ch mysg i roddi cân:

Yr Arad Goch.

'Rwyf innau'n ymfoddhau
Ar lais y fronfraith lân ;
Wrth wrando'r gwcw las,
A'r hedydd bychan fry,
A gweled robyn goch
Yn gwrando'r deryn du.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Ddinaswyr gwaelod gwlad,
A gwŷr y celfau cain,
Pe gwelech Fai yn dod,
A blodau ar y drain,
Y rhosyn ar y gwrych,
A'r lili ar y llyn,
Mi hoffech chwithau fyw
Mewn bwthyn ar y bryn.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Pan rydd yr Ionawr oer
Ei gaenen ar yr ardd,
Y coed a drônt yn wyn
Tan flodau barrug hardd ;
Daw bargod dan y to
Fel rhes o berlau pur,
A'r eira ddengys liw
Yr eiddew ar y mur.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Yr Arad Goch.

Daw Ebrill yn ei dro,
A chydag ef fe ddaw
Disymwth wenau haul
A sydyn gawod wlaw:
Fel cyfnewidiog ferch,
Neu ddyn o deimlad gwan,
Galara'r awyr las,
A gwena yn y fan.
'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr, &c.

Ceiriog.

CLI.

CLYCHAU ABERDYFI.

Wrth feddwl am y gangen gyll
Ddanfonodd Menna imi,
Draw yn y pellder clywwn swm
Hen glychau Aberdyfi—
“Menna eto fydd dy fun,
Gad y pruddglwyf iddo'i hun,
Cwyd dy galon, bydd yn ddyn!”
Meddai clychau Aberdyfi.
“Un-dau-tri-pedwar-pump-chwech,
Cwyd dy galon, bydd yn ddyn!”
Meddai clychau Aberdyfi.

Clychau Aberdyfi.

Hawdd gan glychau ganu'n llon,
Tra na bo dim i'w poeni:
Hawdd yw cael gweniadau merch,
Ond mil mwy hawdd eu colli.
"Menna eto fydd dy fun, &c.

Pe bai etifedd i ŵr mawr
Y fory'n cael ei eni,
I ganu cainc dechreuech chwi,
Hên glychau Aberdyfi.
"Menna eto fydd dy fun, &c.

Pe bai rhyw ddeuddyn yn y wlad
Y fory'n mynd i'w priodi,
I ganu cainc dechreuech chwi,
Hên glychau Aberdyfi.
"Menna eto fydd dy fun," &c.

Pe bawn i fory'n mynd i'r bedd,
A'm calon wedi torri,
I ganu cainc dechreuech chwi,
Hên glychau Aberdyfi!
"Menna eto fydd dy fun," &c.

Ceiriog.

CLII.

AROS MAE'R MYNYDDAU.

Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt ;
Clywir eto gyda'r wawr,
Gân bugeiliaid megis cynt.
Eto tyfa'r llygad dydd,
Ogylch traed y graig a'r bryn :
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hên fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt
Newid ddaeth o rod i rod :
Mae cenhedlaeth wedi mynd,
A chenhedlaeth wedi dod.
Wedi oes dymhestlog hir,
Alun Mabon mwy nid yw:
Ond mae'r heniaith yn y tir,
A'r alawon hên yn fyw !

Ceiriog.

CODIAD YR HEDYDD.

Clywch, clywch foreuol glod,
 O fwyned yw'r defnynnau'n dod
 O Wynfa lân i lawr !
 Ai mân ddefnynnau cân
 Aneirif lu ryw dyrfa lân
 Ddiangodd gyda'r wawr ?
 Mud yw'r awel ar y waen,
 Brig y grug yn esmwyth gryn :
 Gwrando mae yr aber gain,
 Yn y brwyn ymguddia'i hun,—
 Mor nefol swynol ydyw'r sain
 Sy'n dod i ddeffro dyn.

Cwyd, cwyd, Ehedydd, cwyd,
 O le i le ar aden lwyd,
 Yn uwch, yn uwch o hyd !
 Cân, cân dy ddernyn cu,
 A dos yn nes at lawen lu
 Adawodd boen y byd.
 Canu mae, a'r byd a glyw,
 Ei alaw lon o uchel le :

Codiad yr Hedydd.

Cyfyd hiraeth dynol ryw
Ar ei ol i froydd ne'—
Yn nes at ddydd, yn nes at Dduw,
I fyn fel efe.

Ceiriog.

CLIV.

Y GWANWYN.

Dadseinio'r oedd y brigog Iwyn
Gan gerdd pob mwyn aderyn :
A minnau'n un a'r adar mân,
Ddatgenais gân i'r gwanwyn.

Y meillion tyner welid draw
Ar fur y dedwydd fwthyn,
Atebent fi mewn siriol wrid,
Pan genais enw'r gwanwyn.

Y pren afalau acw sydd
Ar fur y dedwydd fwthyn,
Ei flodau gwynion wisga'n llu
Er mwyn croesawu'r gwanwyn.

Y Gwanwyn.

O gopa'r bryn lle'r hulia'r grug,
Y myg ehedydd esgyn :
Ei dant yw'r cyntaf gryn gan fawl
Yng nghlust yr ieuanc wanwyn.

Y gornant fach sy'n dod i lawr
I afon fawr y dyffryn ;
Rhy hithau ar ei llanerch werdd,
Furmurol gerdd i'r gwanwyn.

Os gwelsom eira'n hulio'r byd,
A'r cyd-ddadmeriad wed'yn,
Adgofio'r gaeaf hwnnw'n awr
Ry fwy o wawr i'r gwanwyn.

Ces innau gydag egin mân
Gyrhaeddyd oedran plentyn ;
O na bai modd i'm dysgu i
I werthfawrogi'r gwanwyn !

Os mathrwyd egin o'r un oed
A mi tan droed y gelyn :
Mae'r syniad hwn i'm llawenhau,
Daw iddynt hwythau wanwyn.

Ceiriog.


CLV.

CERDDI CYMRU.

Cerddi Cymru sydd yn byw
Trwy'r blynyddau yn ein clyw :
Sibrwd ein halawon gynt
Mae cwynfannau trwm y gwynt :
Dwyn yn ol lais mam a thad
Mae hen donau pur ein gwlad.

Pan sisialo dail y llwyn,
Clywir chwi yn lleddf a mwyn :
Dweyd mae'r môr wrth ruo 'i gân
Ddarnau cerddi Cymru lân :
Ac mae clust y Cymro'n gwneud
I'r gre'digaeth oll eu dweyd.

Ceiriog.



NODIADAU AR YR AWDWYR.

TUD. RHIF.

1. i. Ychydig iawn a wyddys hyd yn hyn o hanes bywyd GWILYM TEW. Ceir ei enw fel bardd ym Morgannwg yn 1430. Dywed 'Cyfinach y Beirdd' mai 'Gwilym Tew o Dir Iarll, a Dafydd Nanmor a gad yn oreuon eu hawen' yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin. Gwrthwynebodd ef a dau o feirdd ereill Morgannwg drefniadau newydd Dafydd ap Edmwnd ar y pedwar mesur ar hugain cerdd dafod yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451. Yr oedd yn llywydd Cadair Morgannwg yn 1460. Y mae nifer o'i gynhyrchion llenyddol mewn llawysgrifau. Ym mhlith llawysgrifau Peniarth y mae un yn llawysgrif y bardd ei hunan. Cynnwys hwnnw ym mblith pethau ereill Ramadeg Gymraeg; a gellir casglu oddiwrtho ei fod yn ysgolor gwych mewn Lladin yn ogystal á Chymraeg.
2. ii. Codwyd y gân hon, a Rhif iv., allan o gasgliad Mr. J. H. Davies o 'Ganiadau yn y Mesurau Rhyddion' (Cyf. v., vi. 'Cymdeithas Llên Cymru,' 1905).
3. iii. HANAI RISIART HUWS (?-1618) o deulu urddasol Cefn Llanfair, yn Lleyn. Yr oedd yn fab i'r hen fardd Huw Lleyn. Ni wyddys pa bryd y'i ganed. Ymddengys ei fod wedi dwyn ei fyd ym more'i oes yn y fyddin. Yn Bhagfyr, 1599, cafodd flwydd-dal o hanner can' punt gan y frenhines Elisabeth, ac yn y cofnodiad dywedir ei fod yn un o wastrodion neilltuol y frenhines. Bu farw tua'r flwyddyn 1618, a chladdwyd ef, fel yr ymddengys, ym Mynwent Llantedrog. Yr oedd yn fardd o gryn fri yn ei oes. Mae ei ganeuon yn bwysig yn hanes datblygiad barddoniaeth rydd Gymraeg. Y mae ei weithiau wedi eu cyhoeddi mewn diwyg bardd yng Nghyfres las Cymdeithas Llen Cymru dan olygiaeth J. H. Davies, M.A., ac wedi hynny yng 'Nghynfeirdd Lleyn' gan Myrddin Fardd.
6. v. Ganwyd HUW MORUS mewn tyddyn o'r enw Pont y Meibion yng Nglyn Ceiriog, yn Sir Ddimbych, yn y flwyddyn 1622. Nid yw'n debyg iddo gael llawer o fanteision addysg, eithr i'w athrylith ei hun y mae'n ddyledus am ei ragoriaeth a'i fri fel bardd. Daeth gyntaf i sylw trwy ei Ganeuon Serch, o'r rhai y ceir engreifftiau cywraïn yn y llyfr hwn. Bu ei ddull ef o 'annerch' neu 'foli' merch yn gynllun i'r beirdd Cymreig am amser

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

maith. Canodd Huw Morus ar lawer o destynan heblaw serch—ceir rhestr faith o'i ganeuon, rhai o honynt eto heb eu cyhoeddi, yng nghasgliad Gwallter Mechain a gyhoeddwyd yn ddwy gyfrol yn 1823 dan yr enw 'Eos Ceiriog.' Y mae Gwallter Mechain wedi dosbarthu'r caneuon yn ol dull priodol iddo'i hun—'Mabinogion,' 'Hanesion,' 'Priodolion,' 'Moesolion,' 'Dwyfolion,' &c. O'r 'Mabinogion' y cymerwyd y chwe' chân gyntaf geir yn y llyfr hwn. Cafodd Huw Morus oes faith, ac yr oedd iddo gymeriad uchel ar ei hyd. I blaid y Brenin y perthynai ef yn ystod cyfnod cynhyrfus y Gwrthryfel a'r Werin-lywodraeth. Y mae ganddo amryw ganeuon sy'n dangos ei farn am bobl a helyntion y dyddiau hynny. Y mae 'Marwnad Gwyr Olifer,' neu 'Gwyn y Rowndiaid,' yn bur adnabyddus, ac yn un o'r tuchangerddi goreu yn yr iaith—

'Hai how! Hai how!—ni wela'r un
Yn dangos ei lun y leni!
Oni bai'r llawenydd dan fy mron,
Mi a fyddwn ddwyfron ddi'fri'.
Tybio'r wyf na welir byth
Monynt yn sefyll mor dra syth;
Fe ddarfu dryllio llawer nyth
A chwalu'n chwith uchelwyr.
Ond rhyfedd oedd eu mynd yn wan
A diodde' eu herlid ym mhob man;
Ni feddant dre', na lle, na llan,
Yrwan dan yr awyr!'

Yr oedd Huw Morus hefyd yn fedrus dros ben am ganu Carolau Plygain, a diau mai ei garolau ef, fel ei ganeuon serch, oedd cynllun y beirdd a ganasant gymaint am y Nadolig yn y cyfnod cyn y Diwygiad. Bu farw y bardd Awst 31, 1709, wedi cyrraedd yr oedran teg o 87 mlwydd, a chladdwyd ef ym mynwent Llansilin.

'Côr Silin, lle cerais sylwi—gennyf,
Mae'n gynnes dy feini,
Am fod hyd ddydd cyfodi
Huw Morus wrth d' ystlys di!'

Bardd Nantglyn.

6. v. 'Rhiain y Rhianedd' ac nid 'Rhian y Rhianod,' ydyw ffurf briodol y geiriau. Gofodir hyd yn oed Gwallter Mechain gan anghenion yr odl i adael y gair 'rhiain' fel y mae mewn mwy nag un o ganeuon Huw Morus. Am y lliosog 'rhianedd' gwel 'Carol Cwpyd' (*Edward Morus*), tud. 30,

Nodiadau ar yr Awdau.

TUD. RHIF.

'Pen bloden rhyw union rhianedd.'

Penn. 2, llin. 4, 'mor ddi-ddrwyg yw dy ddrych.' Darlleniad G.M. ydyw 'dda drefnus yn y drych,' ond nid ydyw hyn yn odli'n briodol. Awgrymodd yr Athro J. Morris Jones y darlleniad a fabwysiadwyd yma, ac ymddengys i mi, beth bynnag, yn derfynol.

18. xi. Codwyd y penillion prydfarth hyn o 'Farwnadau,' neu 'Alar-Gwynion' (G.M.) Huw Morus.

22. xiii. '*Huw Morus, medd rhai,*' a geir o dan y gân ddoniol hon yn y 'Blodeugerdd.' Y mae'n cithaf tebyg mai efe a'i piauw, gan fod ganddo rai caneuon ar yr un mesur.

26. xiv. EDWARD MORUS, o'r Perthi Llwydion, yn ymyl Cerrig-y-drudion, ydoedd gyfaill i Huw Morus, ac un o feirdd goreu'r ail ganrif ar bymtheg. Ychydig o'i hanes sydd ar gael. Yr oll a wyddys i sicrwydd am dano ydyw mai porthmon ydoedd ac iddo farw yn Essex, yn Lloegr, yn 1689.

'Dacar Essex, dir isod,
Ydyw beddle, claddle clod,'

meddai Huw Morus am dano. Y mae'n amlwg fod gan ei gyfoedion feddwl uchel ohono fel bardd—yn wir honna un ohonynt, Matthew Owen o Langar, ei fod yn rhagori ar Huw Morus.

'Mae dyfais fawrgais ofergerdd—gan *Huw,*
I ymhoewi mewn gwaelgerdd;
Caniadau pynciau pencerdd
Ned a gân enaid y gerdd.'

Gormodiaith yn ddiau yw hyn—ond fe dystia'r ddwy gân a geir yma fod Edward Morus yn fardd medrus a phert dros ben am ganu ar serch.

34. xvi. Ganwyd EDWARD SAMWEL yng Nghwt y Defaid, yn Mhenmorfa, Sir Gaernarfon, yn y flwyddyn 1674. Trwy nawdd Dr. Humphreys, Esgob Bangor, cafodd addysg yn Rhydychen i'w gymhwyso ar gyfer urddau Eglwysig, ac yn y flwyddyn 1702 penodwyd ef yn berson plwyf Betws Gwerfil Goch. Symudodd oddiyno i blwyf Llangar yn 1721, a bu farw yn y lle hwnnw Ebrill 8, 1748. Ysgrifennodd Edward Samwel lawer mewn rhyddiaith, ac y mae rhai o'i gyfieithiadau eto yn llyfrau o fri. 'Melwawd Mai' ydyw'r darn barddonol goreu o'i waith, ac y mae'n engraifft dda o ddostarth o ganeuon crefyddol y mae llu o honynt i'w gwled yn y 'Blodeugerdd.'

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

39. xvii. Mab i Siôn Phylip o Hendre Waelod, Ardudwy, ydoedd GRUFFUDD PHYLIP. Blodeuai tua chanol yr ail ganrif ar bymtheg, oblegid dywedir iddo ganu marwnad i'w dad yn 1620. Nid oes dim o'i waith yn y 'Blodeugerdd' ond y gân hon ar 'Y Coler Du,' neu'r 'Felan-coli.'
41. xviii. Saif enw ELIS WYN o Lasynys yn rhenc flaenaf llen-orion Cymru, ac ni raid dweyd dim yma am ragoriaethau 'Gweledigaethu'r Bardd Cwsc.' Ganwyd Elis Wyn yn 1671, a threuliodd ei oes yn ei ardal enedigol. Yr oedd bywioliaethau Llanfair, Llandannwg a Llanbedr—yr oll yn ardal Harlech—ar un adeg o dan ei ofal. Claddwyd ef yn Eglwys Llanfair yng Ngorffennaf, 1734. Cymerwyd y penillion sydd yma o'r 'Bardd Cwsc,' ac argreffir hwy fel y maent yn yr argraffiad cyntaf.
42. xix. Ganwyd WIL HOPCIN ym mhlwyf Llangynwyd, Sir Forgannwg, yn y flwyddyn 1701. Bu farw Awst 19, 1741, yn 40 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llangynwyd. Ceir llawer o fanylion dyddorol ynghylch ei hanes yn 'Y Bardd a'r Cerddor' o waith Ceiriog. Merch Cefn Ydfa, 'geneth ifanc o'r un plwyf,' yn ol geiriau Ceiriog, biau'r clod o symbylu'r bardd i ganu un o'r cerddi serch prydferthaf sydd yn yr iaith. Dywedir iddi farw o dor calon am Wil Hopcin.
44. xx. Nid oes dim arall ar gael o waith PETER LEWIS ond y gân hon a godwyd o'r 'Blodeugerdd.' 'Y Parch. Peter Lewis o Gerrig-y-drudion,' ydyw'r enw sydd wrthi, ac y mae'n debyg mai curad y plwyf hwnnw ydoedd yr awdwr. Ceir yn yr *Alumni Oxonienses* enw un Peter Lewis, mab Stephen Lewis, ficer Gwyddelwern, a ganwyd ef yn 1672. Y mae'n eithaf tebyg mai y Peter Lewis hwnnw gyfans-ddodd 'Guthl y Gair Mwys.'
46. xxi. Y mae'r gân adnabyddus hon, fel 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn,' yn nhafodiaith Morgannwg, a phriodolir hitan hefyd i Wil Hopkin.
47. xxii. Ar fesur a elwid 'Minfwyn' y canwyd y penillion hyn, a gymerwyd, yn ol y 'Blodeugerdd,' o'r 'Gell Gymysg.' Y mae'r awdwr yn anadnabyddus.
48. xxiii. Ganwyd EDWARD RHISIART ym mis Mawrth, 1714, yn y plwyf yr enillodd ei glod a'i enw ynddo, sef Ystrad Meurig, yn Aberteifi. Efe ydoedd sylfaenydd, gwadd-olwr ac athro cyntaf ysgol enwog Ystrad Meurig. Yr oedd nid yn unig yn fardd, ond hefyd yn hynafiaethydd ac ysgolhaig o fri yn ei ddydd, a bu hefyd yn athro ac yn noddwr i amryw feirdd ac ysgolheigion. Bu farw

TUD. RHIF.

Chwef. 28, 1777. Ei Fugeilgerddi ef ydyw'r rhai goreu a feddwn. Yr oedd Ambrose Phillips—sydd wedi ei anfarwoli wrth yr enw 'Namby-Pamby'—ac eraill yn Lloegr yn canu bugeilgerddi o ryw fath yn amser Edward Rhisiart; ond nid cynhyrchion egwein ei gyfoedion Seisnig a gymerodd athro Ystrad Meurig yn gynllun, eithr hen feistriaid y Fugeilgerdd, sef Theocritus a Fersil.

58. xxv. Er fod JOHN HOWEL yn perthyn i gyfnod diweddarach nag amryw feirdd sydd yn ei ddilyn yn y llyfr hwn, rhoddwyd y gân hon o'i eiddo yn y man y mae oherwydd ei thebygrwydd o ran arddull i ganeuon y cyfnod cyntaf. Efelychai John Howel feirdd y cyfnod hwn, yn enwedig Huw Morus. Adnabyddir ef oreu fel golygydd 'Blodau Dyfed,' sef casgliad o ganiadau Beirdd Dyled a gyhoeddwyd yn 1824. Yr oedd John Howel yn gerddor ac yn fardd. Ganwyd ef yn Abergwili, Sir Gaerfyrddin, yn 1774, a bu farw Tach. 18, 1830.

61. xxvi. Prin y mae'n rhaid dweyd llawer am LEWIS MORUS wrth neb sy'n gwybod rhywbeth am hanes llenyddiaeth Cymru. Fel y dywed Goronwy Owen am dano, tra bo

'Gwiwdeb ar iaith a gwaed y Brython,
Ac awen gwyndud, ac ewyn gwendon,
Daear a nef, a dwr yn afon,
Ef a gaiff hoewaf wiw goffion.'

Ganwyd ef Mawrth 12, 1700, ym mhlwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, ym Mon, ac yn yr ynys honno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Bu am amser ym mesur tir i foneddigion yr ynys, ac wedi hynny bu'n swyddog y Dollfa yng Nghaerdybi, heb fod ymhell o 'greigiau Grigyll.' Wedi hynny symudodd i Geredigion, lle y bu yn arolygu tiroedd a mwngloddiau'r Brenin, &c. Bu farw ym Mhenbryn y Barcut, ger Aberystwyth, Ebrill 11, 1765, a chladdwyd ef ym mynwent Llanbadarn Fawr. Yr oedd Lewis Morus yn wr hyddysg a medrus mewn amryw gelfyddydau. 'Dywedir,' meddai Golygydd y 'Diddanwch Teuluaid,' 'y medrai Lewis Morus wneuthur telyn a'i chware, gwneuthur llong a'i hwylio, gwneuthur cywydd a'i ddatgan gan dant.' A chanodd Goronwy,

'Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,
Llwybrau'r taranau a'r terwynion
Fflamawg felst, llamawg foltau llymion,—
Is awyr gannaidd a sêr gwynion;
Nodau'r lloer a'i newidion—hynt cwmwl
O fro y nifwl i fôr Neifion.'

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

O aneirif fawrion Môn nid y lleiaf, yn ddiau, oedd Lewis Morus—yn wir ni welai Goronwy fawr dda ym Môn wedi ei farw.

‘Doethach im dewi weithion ;
Heb Lewis mwy ba les Môn?’

66. xxviii. Ochr yn ochr a Lewis Morus y saif ei ddisgybl—GORONWY OWEN—y mwyaf o feirdd Môn. Fel pob gwir fardd yr oedd Goronwy'n argyhoeddedig o'i anfarwoldeb.

‘Cair yn sôn am Oronwy,
Llonfardd Môn, llawn fyrdd a mwy ;
Caf arwydd lle cyfeiriwyf,
Dengys llu â bys lle bwyf.’

Ganwyd ef yn Llanfair Mathafarn Eithaf, ger y Traeth Coch, rywbryd tua diwedd y flwyddyn 1722, oherwydd erys ym Mangor gofnod o'i fedydd ar Ionawr 1, 1723. Mab oedd i Owen Gronw a Sian Parri. Yr oedd ei rieni'n dlodion iawn, a thrwy garedigrwydd teulu Pentre Eirianell—teulu Lewis Morus—y rhoddwyd ef ar y ffordd i gael addysg ac i ymddyrchafu'n y byd. Bu yn ysgolion Botwnnog a Bangor, a daeth yn aelod o Goleg yr Iesu, yn Rhydychen, yn 1742. Urddwyd ef yn ddiakon yn 1745, a bu yn gurad yng Nghroesoswallt, yn Donnington (yn Sir Gaer), yn Walton (gerllaw Lerpwl), ac wedi hynny yn Northolt, ger Llundain. Ymfudodd i'r America yn 1757, a phenodwyd ef yn athraw Ysgol Ramadegol Williamsburg, Ebrill 7, 1758. Ymddiswyddodd yn 1760, a phenodwyd ef yn Rheithior plwyf St. Andrew, Williamsburg, Medi 14, 1760. Arwyddodd ei ewyllys Gorffennaf 3ydd, 1769, ac yr oedd wedi huno cyn Gorffennaf 22, 1769. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys St. Andrew. Dyddiau blin oedd dyddiau Goronwy, wedi ei alltudio o'i hoff ynys a'i wlad. Fel y canai ef ei hun,

‘Dyn didol dinod wyf,
Ac i dir Môn estron wyf ;
Dieithr i'm hiaith hydriaith hên,
Dieithr i berwawd awen.’

Ychydig a ganodd, hyd y gwyddys, ar fesur rhydd ; ond yn y mesurau caethion nid oes yr un o'r beirdd Cymreig mor rymus, coeth, a chlasurol ag ef.

69. xxix. WILLIAMS, PANTYCELYN, ‘peraidd Ganiedydd Cymru,’ fel y'i gelwir ef, ydyw prif emynydd ein gwlad. Yn wir, nid lgormod ydyw ei restru fel y cyfansoddwr

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

emynnau goreu a welodd unrhyw wlad. Yn ei ganiadau ef y cawn enaid y Diwygiad, ac nid oes neb all fesur eu dylanwad. Ganwyd ef yn Llanfair-ar-y-bryn yn Sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1717. Bu'n gydweithiwr selog a Harris a Rowlands yn y Diwygiad Methodistiaidd. Ychydig sy'n awr yn gwybod am bregethau'r Diwygwr a chewri eraill fu'n eu dilyn, ond y mae emynnau Williams eto'n aros yn fwy eu dylanwad na dim ond y Beibl ar fywyd crefyddol Cymru. Bu farw Ionawr 11, 1791.

72. xxx. Ym mhlwyf Llanefydd, yn Sir Ddimbych, y ganwyd THOMAS EDWARDS yn y flwyddyn 1739. Yn fuan iawn symudodd ei rieni i le a elwid y Nant, yn agos i Nantglyn, ac fel 'Twm o'r Nant' yr adnabyddir y bardd gan ei gydgenedl. Anwybodaeth, neu ddiffyg barn, yn ddiu a barodd i rywun roi'r enw 'Shakespeare Cymreig' ar Twm o'r Nant. Nid pethau gwael ar un cyfrif ydyw 'interliwtiau' Tomos Edwards; ond gwneir anhegwch dybryd ag ef drwy geisio ei gymharu a Shakespeare. Yr oedd Twm ar ei oreu yn fardd medrus, a meddai allu neilltuoel i adnabod a darlunio cymeriadau, ond ysgrifennodd lawer o bethau isel a dichwaeth. Cariwr coed ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ni chafodd fawr o fanteision addysg. Dyma fel y dywed efe ei hun am 'ddull ei ymarweddiad' am ran fawr o'i oes:

'Drwy'r byd fy hanes aeth o hyd—
Am bob ynydrwydd a sur wagsawrwydd,
Bum fel yn arglwydd, neu frenin ebrwydd fryd,
Nes imi hau a'm gwagedd
Dir Gwynedd draw i gyd ;
Swydd syn,—bum felly'n chwalu chwyn
Hyd feusydd trachwant, mewn ofer nwyfiant,
Gan chwydu 'nrygchwant, fel y llyffant ar fol llyn :
Danghosodd Duw drugaredd
Yn rhyfedd i mi er hyn.'

Rhan o'i 'Gân Edifeiriol' wedi iddo gael damwain ydyw'r geiriau hyn. Yn niwedd ei oes daeth yn ei edifeirwch i ymuno a'r Methodistiaid Calinaidd yn Nimbych, ac yn y dref honno y bu farw Ebrill 3, 1810. Cymerwyd y gân gyntaf sydd yma o'i eiddo o'i 'interliwt' 'Y Tri Chryfion Byd,' a'r llall o 'Bleser a Gofid.'

67. xxxii.

Ganwyd ROBERT DAVIES, a adnabyddir fel *Bardd Nantglyn*, yn Nantglyn, ger Dimbych, yn y flwyddyn 1769. Fe ddywedir mai Twm o'r Nant a'i hannogodd i ddechreu prydyddu, a bu am beth amser yn treio ei law ar 'interliwtiau' yn ol dull Twm ei hunan. Ysgrifennodd amryw awdlau o dro i dro, ac enillodd ei gadair gyntaf

Nodiadau ar yr Awarwyr.

TUD. RHIF.

- yn Eisteddfod Caerwys yn 1798. Yr oedd Bardd Nantglyn yn un o'r tri fu'n euog o gollfarnu awdl Dewi Wyn o Eifion ar 'Elusengarwch,' a bu rhaid iddo ddioddef llawer oherwydd y ddedfryd anffodus honno. Bu farw Rhagfyr 1, 1835.
79. xxxiv. O Rif xxxiv. i xlii. ceir detholiad o benillion telyn nad yw enwau eu hawdwyr yn hysbys. Cymerwyd hwynt bron i gyd o gasgliad Mr. W. Jenkyn Thomas; y maent yn engreiffitiau da a barddonol o'r torraeth penillion a gyfansoddwyd o dro i dro i'w canu gyda'r tannau.
86. xliii. Un o feirdd Arfon ydoedd DAVID THOMAS (*Dafydd Ddu Eryri*), a ganwyd ef yn 1760, ym mhlwyf Llanbeblig. Bu'n cadw ysgol am beth amser ym Mhentraeth ac yn Amlwch, Môn, ac wedi hynny bu'n byw yn y Waenfawr ac yn Llanrug, yn Arfon. Casglodd Dafydd Ddu lawer o wybodaeth yn fore yn ei ddyddiau, ac fel ysgolfeistr y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd yn gryn ysgolhaig, ag ystyried ei fanteision, ac yn fardd a llenor cyfarwydd. Ennillodd amryw gadeiriau, ac y mae ei farddoniaeth oreu yn y mesurau caethion. Bu farw Mawrth 30, 1822.
92. xlv. Yn y mesurau caethion y canodd DAVID RICHARDS (*Dafydd Ionawr*) fwyaf, ac o'i gywydd goreu y cymerwyd y gân o'i waith a geir yma. Un o feibion Meirion oedd efe, a ganwyd ef yn Nhywyn, Ionawr 22, 1751. Cafodd addysg dda yn ysgol Ystrad Meurig ac yn Rhydychen—ond ymddengys iddo flino ar y brifysgol cyn graddio. Bu yntau, fel Dafydd Ddu, yn cadw ysgol, —bu'n athro am beth amser ar ysgol rad Tywyn, ac wedi hynny ar ysgol Dolgellau. Bu farw yn Nolgellau Mai 11, 1827. Y mae gwaith barddonol Dafydd Ionawr yn llanw cyfrol drwchus, ond prin y mae ei le fel bardd mor uchel ag y myn rhai i ni gredu. Yr oedd yn gynghaneddwr cywrain, ond y mae'n aml yn aberthu barddoniaeth a synwyr i'r gynghanedd. Y mae 'Cân Gwenfion,' fodd bynnag, yn ddernyn coeth a swynol, ac yn engrafft dda o'i ddawn.
59. xlvi. Un arall o feirdd Arfon ydoedd ROBERT WILLIAMS, neu *Robert ap Gwilym Ddu*, o'r Betws Fawr. Ganwyd ef yn 1767, a bu farw Mehefin 11, 1850. Amaethwr ydoedd o ran ei alwedigaeth, ond yr oedd hefyd yn hynafiaethydd, yn gerddor, ac yn fardd. Fel bardd saif ymhlith gorcuon ei oes. Ychydig oedd a wnelo ef a'r Eisteddfod, ac ni ddaeth ymgais am wobr ond unwaith, hyd y gwyddys, i gloffi ei awen ef. Canodd rai cywyddau ac

Nodiadau ar yr Awdau.

TUD. RHIF.

englynion penigamp, a chyfansoddodd amryw emynnau nad oes eu gwell yn y Gymraeg. Nid oes cynulleidfia yng Nghymru heb wybod am

‘ Mae’r gwaed a redodd ar y Groes
O oes i oes i’w gofio ;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I ddweyd yn iawn am dano.’

Cyhoeddwyd ei waith barddonol gan Caledfryn yn 1841 mewn cyfrol o’r enw ‘Gardd Eifion.’ Cadwai Robert ap Gwilym Ddu safon uchel o’i flaen bob amser, a phrin y mae cyfrol o farddoniaeth yn yr iaith a chyn lleied o us ynddi a ‘Gardd Eifion.’

69. xlvii.

Enw barddol y Parch. DANIEL EVANS, Cymrawd o Goleg yr Iesu yn Rhydychen, ydyw *Daniel Ddu o Ger-edigion*. Ganwyd ef yn 1792, ym Maesmynach, Llanfihangel-Ystrad, yn Sir Aberteifi. Yn Rhydychen yr arhosodd wedi iddo raddio, ac nid ymddengys iddo ddal bywioliaeth o unrhyw fath. Bu farw Mawrth, 28, 1846. Cyhoeddodd gyfrol o’i waith barddonol yn 1831, o dan yr enw ‘Gwionllan y Bardd,’ ac ail-argraffwyd hi, gydag ychwanegiadau, yn 1872. Er nad yw Daniel Ddu’n haeddu ei restru ymhlith beirdd blaenaf ei oes, y mae ôl llafur a chwaeth ddysgedig ar yr oïl o’i weithiau.

101. xlix.

Câr i Daniel Ddu, a chyd-efrydydd ag ef yn Rhydychen, ydoedd y Parch. JOHN JONES (*Tegid neu Ioan Tegid*). Ganwyd ef yn y Bala, Chwef. 10fed, 1792. Lianwodd amryw swyddau Eglwysig yn Rhydychen, ac wedi hynny yn Esgobaeth Tyddewi. Bu farw yn Nanyfer Mai 2, 1852. Ysgrifennodd amryw lyfrau a thraethodau rhyddieithol heblaw barddoniaeth. Awen lled swrth ydoedd eiddo Tegid—prin y teilynga le cyfocir a’r hanner dwsin beirdd sydd o’i flaen ac ar ei ôl yn y llyfr hwn.

103. li.

Ganwyd DAVID WILLIAMS (*Dafydd ap Gwilym o Fwallt*) mewn bwthyn bychan o’r enw Pen y Banc Bach, gerllaw Llanwrtyd, Mai 3ydd, 1804. Cafodd addysg foreuol dda yn ysgol y plwyf. Dechreuodd bregethu pan yn 18 oed. Bu yn cadw ysgol ddyddiol ym Mheniel, Panteg, Caerfyrddin, tua 1823. Aeth i Ysgol Ystrad Meurig yn 1824, ac yno y daeth i gydnabyddiaeth a’r ieithoedd clasurol a’u llenyddiaeth. Wedi bod am tua blwyddyn yn Ystrad Meurig sefydlodd yn ardal Merthyr Tydvil, lle bu am tua thair blynedd. Bu farw yn sydyn yn y Geufron, Llanwrtyd, Medi 23, 1828, yn 24 oed.

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

- Dechreuodd farddoni yn ieuanc iawn. Yr oedd yn gystadlenydd a Gwilym Cawrdaf yn 1822—yn 18 oed—ar 'Ddymchweliad yr Aifftiaid yn y Môr Coch,' a chyhoeddwyd ei awdl yn 1823. Yn 1827 cyfieithodd 'Fyfyrdodau Harvey' i'r Gymraeg a chyhoeddwyd y gwaith yn 1828. Codwyd y gân hon o'r 'Llinos,' Merthyr, 1827.
- 106 lii. *Gwilym Iltid* oedd enw barddol WILLIAM JONES, Caerffili. Cyhoeddwyd rhan o'i weithiau barddonol yn 1858 mewn cyfrol yn dwyn yr enw 'Poems Original and Translated.' Codwyd y gân hon o'r 'Fwyalchen,' cronfa o 'Ganiadau Newyddion' a gyhoeddwyd ym Merthyr, 1835.
- 107 liiii. Codwyd y gân hon o'r 'Llinos,' casgliad o 'Ganiadau' a gyhoeddwyd ym Merthyr, 1827.
- 109 liv. Y mae y Parch. JOHN BLACKWELL (*Alun*) yn ei ganauon ar fesurau rhyddion yn un o feirdd goreu Cymru. Nid oes dim yn y Caniadau hyn sy'n rhagori ar ei ganauon ef o ran flurf a cheinder. Y mae 'Cathl i'r Eos,' yn enwedig, yn un o'r 'telynegion' mwyaf perffaith yn y Gymraeg. Ganwyd ef ym Mhontarwyl, ger y Wyddgrug, yn 1797. Trwy garedigrwydd nifer o foneddigion, anfonwyd ef i Kydychen, a graddiodd yno o Goleg yr Iesu yn 1828. Wedi bod am beth amser yn gurad yn Nhreffynnon, cafodd fywioliaeth Manordeifi, yn Sir Benfro, yn 1833. Bu farw yno Mai 19, 1840, yn yr oedran cynnar o dair blwydd a dengain. Cyhoeddwyd ei waith barddonol yn 1851 o dan yr enw 'Ceinion Alun'—a phery y gyfrol hyd heddyw yn un o berlau llenyddiaeth farddonol Cymru.
123. lxii. Un arall o'r cewri ydyw *Ieuan Glan Geirionnydd*, neu y Parch. EVAN EVANS—un o feirdd hoffusaf

'Goreu-wlad wir-fad Arfon.'

Ganwyd ef yn Nhrefriw, ar lan yr afonig sy'n rhedeg o Lyn Geirionnydd i afon Conwy, Ebrill 20, 1795. Derbyniodd ran o'i addysg foreuol yn ysgol rad Llanrwst, am yr hon y canodd flynyddau wedi hynny,

'Ystlum a'u mud ehediad
Sy'n gwau eu hwydrwm hynt,
Lle pyncid cerddi Homer
A Vergil geinber gynt.'

Wedi iddo benderfynnu cymeryd urddau Eglwysig aeth i Goleg St. Bees, lle yr arhosodd hyd 1826. Tra yn gurad

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

yn Christleton, yn Lloegr, priododd foneddiges ariannog o'r enw Miss Wilson,—a bu mewn amgylchiadau cysurus am y gweddill o'i oes. Bu'n gurad parhaus yn Ince o 1843 hyd 1852. Ar ol bod yn aros am beth amser yn Nhrefriw, aeth i wasanaethu fel curad yn y Rhyl, ac yno y bu farw Ionawr 21, 1855. Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol mewn cyfrol ddestlus rai blynyddau yn ol tan olygiad Gwalchmai. Y mae rhai o'i awdlau, megis 'Hiraeth Cymro am ei wlad,' a 'Gwledd Belsasar,' fel y dywedai Eben Fardd, yn llawn

'Pêr rinau pur awenydd,'

ac fel emynnydd nid oes ond Williams, Pantycelyn, ac Ann Griffiths, hwyrach, i'w rhestru o'i flaen. O'r emynnau a alwodd rhywun yn 'Emynnau'r Afon,' nid oes un mor boblogaidd ag 'Ar lan Iorddonen ddofn.'

139. lxxvii. Ceir yn y gân hon, a'r tair sy'n ei dilyn, eiriau o waith awdwyr anadnabyddus a genir ar alawon poblogaidd.
144. lxxi. *Ieuan ab Iago* yw enw barddonol EVAN JAMES. Ganwyd ef yng Nghaerffili yn y flwyddyn 1809. Treuliodd fore'i oes ym Margoed, ac oddi yno aeth i Bontypridd, lle bu farw Ionawr 16, 1892. Cyfansoddodd eiriau "Hen Wlad fy Nhadau" i dôn o waith ei fab James, telynor, yn Ionawr, 1856. Mae "Hen Wlad fy Nhadau" wedi ei chyfieithu i'r holl ieithoedd Celtaidd, ac i'r Saesneg.
145. lxxii. Ganwyd WILLIAM ELLIS JONES (*Cawrdaf*, neu *Gwilym Cawrdaf*), yn Nhyddyn Sion, Abererch, Sir Gaernarfon, Hydref 9, 1795. Dygwyd ef i fyny fel argraffydd yn swyddfa igefnder, Richard Jones, Dolgellau, abun'gweithio fel argraffydd yn y dref honno ac yng Nghaernarfon. Yr oedd ganddo gryn allu fel arlunydd, a bu am beth amser yn Llunden ac ar y Cyfandir yn dilyn y gelfyddyd. Bu farw yng Nghaerfyrddin Mawrth 27, 1848. Heblaw barddoniaeth ysgrifennodd *Cawrdaf* fath o ffighchwedl o dan yr enw 'Y Bardd, neu y Meudwy Cymreig,' ac allan ohoni hi y cymerwyd y gân gyntaf o'i waith a welir yma. 'Hiraeth Cymro am ei Wlad' ydyw'r awdl fwyaf adnabyddus a gyfansoddodd *Cawrdaf*; y mae ynddi un englyn sydd wedi dod yn ddiareb yn yr iaith:
- 'Awenawg ŵr o Wynedd—o hiraeth
A yrrwyd i'r llygredd,
Ac arall dir i orwedd;
Dyma fan fechan ei fedd !'
149. lxxiv. Brodor o Dreffynnon oedd THOMAS LLOYD JONES (*Gwenffrwd*), a ganwyd ef yn y flwyddyn 1810. Ymfudodd yn lled foreu yn ei hanes i'r America, ac yno y bu

Nodiadau ar yr Awdawyr.

TUD. RHIF.

- farw Awst 16, 1834, yn 24 mlwydd oed ! Fel y dengys y tair canig a geir yma, yr oedd *Gwenffraid* yn fardd swynol a choeth. Cyhoeddodd gyfrol o ganiadau dethol o dan yr enw 'Ceinion Awen y Cymry,' a fu unwaith yn llyfr pur boblogaidd.
- 153 lxxvii. Ganwyd JOHN JONES (*Iota*) yng Nghonwy yn 1784. Crydd oedd wrth ei alwedigaeth. Wedi iddo briodi, ymsefydlodd ym Mhen-y-maes, Treffynnon. Symudodd i fyw at ei ferch ieuengaf ar ol marwolaeth ei briod yn 1846. Bu farw ym Mryn-y-Gadlys, Bagillt, Awst 30, 1874, a chladdwyd ef ym mynwent yr Eglwys yn Nhrefynnon. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i Alun, Robert Davies Nantglyn, Twm o'r Nant, a Nicander.
- 157 lxxix. Gweinidog gyda'r Anibyswyr a ymfudodd i'r America ydoedd y Parch. JOHN JONES, Llangollen. Ni chyfansoddodd lawer o farddoniaeth, ond y mae ei gerdd 'Deio Bach' yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn yr iaith.
- 162 lxxx. Y Parch. DAVID CHARLES, ieuaf, Caerfyrddin, ydyw awdwr 'Cerdd yr Hen Wr.' Ganwyd ef yn 1803, a bu farw yn 1880. Gweinidog gyda'r Methodistiaid oedd efe, ac fel ei dad o'r un enw, awdwr
'Rhagluniaeth fawr y Nef,'
yr oedd yn emynnydd gwyach.
- 165 lxxxiii. Y mae EBENEZER THOMAS (*Eben Fardd*), yn un o ser disgleiriaf llenyddiaeth ddiweddar Cymru. Y mae pawb sy'n darllen rhywfaint o Gymraeg yn gwybod am ei awdl ar 'Ddinystr Jerusalem.' Fel rheol, ychydig o ddarllen ar awdlau sydd ymysg gwerin Cymru, ond y mae'n debyg fod darnau o'r awdl hon yn swy aduabyddus i liaws y genedi na dim arall ym marddoniaeth gaeth Cymru, os na ddylid eithrio awdl Hiraethog ar 'Heddwch.' Ganwyd Ebenezer Thomas yn Nhanlan, ym mhlwyf Llanarmon, yn Eifionnydd, yn Awst, 1802, a chafodd ei addysg gyntaf o dan athrawiaeth ei frawd yn Llanybi. Wedi hynny, bu'n ddisgybl yn ysgol Tudweiliog, a daeth cyn hir i fod yn athraw arni. Yna aeth yn athraw ar Ysgol Genedlaethol Clynnog, ac ychydig flynyddau cyn diwedd ei oes agorodd ysgol yng Nghlynnog, ar ei gyfrifoldeb ei hun yn bennaf, er mwyn paratoi ymgeiswyr am y weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calfnaidd. Bu farw Chwefror 17, 1863. Rhagorai Eben yn y mesurau caethion, ac y mae ganddo amryw awdlau gwyach heblaw yr un ar 'Ddinystr Jerusalem.' Fel engraifft o'i ddawn naturiol yn y gynghanedd, gwasanaethod y ddau englyn a ganlyn :

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

'Iti, Dad, eto dodaf—ogoniant,
Ac yna mi gysgaf;
Ac wedi nos codi wnafl,
Am Ddaw eilwaith meddyliaf.

Dyro, Iesu, dy nawdd dros of—maddeu
Fy meddwl a'm hanghof:
Rhin dy waed nac aed o'm cof,
Gwnaed gannaid enaid ynnof.'

178 lxxxix. Ganwyd *Caledfryn*, neu y Parch. WILLIAM WILLIAMS, yn Nimbych, Chwefror 6ed, 1801. Gweinidog gyda'r Auibynwyr ydoedd, a bu yn gwasanaethu eglwyst yn Llanerchymedd, Caernarfon, Llundain, Llanrwst, a'r Groes Wen ym Morgannwg. Daeth i enwogrwydd mawr fel bardd a beirniad llenyddol yn ei ddydd. Yr oedd efe ac Eben Fardd yn ysgrifennu'n aml i'r *Traethodydd*, pan y golygid y cylchgrawn hwnnw gan Dr. Lewis Edwards. Diau na fu erioed well beirniadaeth lenyddol yng Nghymru na'r hyn a ysgrifennwyd gan y llenorion hyn i rifynnau cyntaf y *Traethodydd*. Bu farw Caledfryn yn y Groes Wen, Mawrth 23, 1869. Adnabyddir ef oreu fel awdwr yr awdl ar 'Ddrylliad y Rothsay Castle' a ennillodd y gadair yn Eisteddfod Beaumaris yn 1832. Curodd Caledfryn Eben Fardd yn y gystadleuaeth honno, ond erbyn hyn prin yr ystyrir ef yn yr un dosbarth o feirdd ag Eben. Y mae mwy o'r ffurfiol na'r gwir awenyddol yng nghan-iadau Caledfryn, ac yn yr ail ddosbarth o feirdd Cymru y dyiidd ei restru ef heb fawr o betrusder.

182 xci. Ganwyd JOHN EMLYN JONES (*Ioan Emlyn*), yng Nghastell Newydd Emlyn, Ionawr 8, 1820. Wedi derbyn ei addysg gartref, rhwymwyd ef yn oriadurwr yn ddeuddeg oed. Gymaint oedd ei awydd am addysg fel y caniatuodd ei feistr iddo fyned i Grughywel yn bymtheg oed, ac ynno wrth draed yr enwog Garnhuanawc y dysgodd elfennau barddoniaeth ac hanesiaeth. Dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr, ac ordeiniwyd ef yn weinidog ym Mhontypridd yn 1852. Ysgrifennodd lawer iawn i newyddiaduron a chyfnodolion ei ddydd, ar bynciau hanesyddol a bywgraffyddol yn bennaf. Cyhoeddodd amryw lyfrau gwerthfawr, y pennaf o ba rai ydyw 'Hanes Prydain Fawr' a'r 'Parth-sylliudd, sef hanes yr holl fyd.' Yn 1863 anrhydeddwyd ef a'r gradd o LL.D. gan Brif Athrofa Glasgow. Derbyniwyd ef yn aelod o Orsedd y Beirdd yn Abergafenni yn 1838, yn ddeunaw oed. Ennillodd amryw gadeiriau, yr enwocaf oedd Cadair Dimbych yn 1860 ar 'Y Pentecost.' Bu farw yng Nglyn Ebwy Ionawr 18, 1873.

Nodiadau ar yr Awdwyr.

TUD. RHIF.

- 182 xcii. Ganwyd ELEN EVANS (*Elen Egryn*) yn Llanegryn, Tachwedd 12, 1807. Cyhoeddwyd ei gweithiau barddonol dan olygiaeth Hiraethog o dan y teitl 'Telyn Egryn,' yn 1850. Bu farw yng Nghaerlleon Ebrill 29, 1876.
- 186 xciii. Cyhoeddwyd 'Cân Hen Wr y Cwm' yn y *Geiniog-werth* yn y flwyddyn 1849. Enw barddol JOHN EVANS, brodor o Ddyffryn Ardudwy, oedd *Gweryddon*.
- 188 xciv. Yn yr Harp, Llanfair Talhaearn, Ionawr 19, 1810, y ganwyd JOHN JONES (*Talhaearn*). Asiedydd oedd ei dad, ond cadwai dafarn hefyd. Dygwyd y bardd i fyny fel arch-adeiladydd, a symudodd i Lunden er dilyn ei grefft yno yn 1843. Bu am amser yng ngwasanaeth Sir Joseph Paxton, a bu yn arolygu amryw adeiladau enwog, megis palasdai y Barwn Rothschild ym Mentmore a Pharis, a'r Palas Grisial. Bu ym Mharis am dair blynedd 'a'i drwyn mewn firwyn yn Ffrainc,' fel y dywed, ac oherwydd dioddef oddiwirth y droedwst bu raid iddo ddychwelyd i'w hen gartref yn yr Harp, Llanfair. Yno y bu farw, Hydref 17, 1869. Yr oedd llawer o bethau yn debyg i Burns yng nghymeriad Talhaearn. Y ddiod fu ei fagl yntau, fel y bu i'r bardd o'r Alban. Yr oedd yn wladgarwr selog, ac yn gymwynaswr da i lawer o'i gyd-wladwyr. Ennilodd le mawr hefyd fel arweinydd Eisteddfodol. Y mae llawer iawn o brydferthwch a chywreinrwydd yng nghaneuon goreu Talhaearn, ac yn y gwaith o gyfansoddi geiriau ar gyfer alawon Cymreig nid yw hyd yn oed Ceiriog yn feistr arno.
- 198 ci. Ganwyd y Parch. SAMUEL ROBERTS yn Llanbrynmair, Mawrth 6, 1800. Gweinidog gyda'r Annibynwyr ydoedd, ond adnabyddid ef oreu, o dan yr enw S.R., fel un o lenorion a gwleidyddwyr mwyaf dylanwadol ei oes. Gwnaeth ef a'i frawd J.R. lawer trwy eu hysgrifeniadau yn y *Cronicle* i hyrwyddo rhyddid gwladol a chrefyddol yng Nghymru. Bu S.R. yn byw yn yr America am ddeng mlynedd yn adeg gynhyrfus y rhyfel cartrefol. Dychwelodd i Gymru yn 1867, a sefydlodd yng Nghonwy, lle y bu farw Medi 24, 1885.
- 200 cii. Gweinidog gyda'r Methodistiaid oedd y Parch. THOMAS JONES (*Glan Alun*), a ganwyd ef yng Nghefngader, Wyddgrug, Mawrth 11, 1811. Bu farw Mawrth 29, 1866. Y mae y rhan fwyaf a'r rhan oreu o'i farddoniaeth i'w cael mewn cyfrol a gyhoeddodd yn 1862, dan yr enw 'Ehed-iadau Byrion.'
- 204 civ. Enw barddol EVAN JONES, a anwyd ym Mryn Tynoriad,

Nodiadau ar yr Ardwyr.

TUD. RHIF.

- ger Dolgellau, Medi 20, 1820, ydoedd *Ieuan Gwynedd*. Dechreuodd ei yrfa gyhoeddus fel gweinidog gyda'r Anibynwyr, ond oherwydd gwendid iechyd bu raid iddo roddi'r goreu i bregethu. Bu am rai blynyddau yn newyddiadurwr, a gwnaeth waith mawr dros ei gydgenedl yn y cymeriad hwnnw. Nid oedd ei iechyd un amser yn gryf, a bu farw Chwefror 23, 1852. Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol gan y Mri. Hughes a'i Fab yn 1876.
- 208 cvi. Ni ddylid mesur teilyngdod y Parch. MORRIS WILLIAMS (*Nicander*) fel bardd yn ol y lle bychan a roddir iddo yn y llyfr hwn. Yn ei ddydd gallai ddal ei dir a'r beirdd goreu, megis Eben Fardd a Chaledfryn. Nid yw yntau, mwy na Chaledfryn, o'r un cyff barddonol ag Eben, ond y mae yn gyfansoddwr cywrain a choeth dros ben. Ychydig heddyw, hwyrach, sy'n gwybod am awdlau a phryddestau Nicander, ond y mae llu o Gymry eto'n gwerthfawrogi ei 'Ddamhegion Esop ar Gân.' Ganwyd ef ym mhlwyf Llanguybi, yn Eifionnydd, yn 1809. Addysgwyd ef yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychen. Bu yn beriglor yn Amlwch ac yn Llanrhyddlad ym Môn, a bu farw yn y lle olaf Ionawr 3, 1874.
- 210 cvii. Cydoeswr, a chydymgeisydd am lawryson, â Chaledfryn a Nicander ydoedd y Parch. WILLIAM AMBROSE (*Emrys*). Ganwyd ef yn y gwesty sydd yn awr yn Goleg Gogledd Cymru, Awst 1, 1813. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadegol Bangor. Dechreuodd bregethu gyda'r Anibynwyr, ac yn 1836, sefydlwyd ef yn weinidog ym Mhorthmadog, lle'r arhosodd hyd ei farwolaeth, Hydref 31, 1873. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd, ac yn llenor Eisteddfodol o fri mawr. Fel bardd teilynga le ymhlith goreugwyr ei oes.
- 212 cix. Fel bardd, llenor, a phregethwr, ni safai neb yn uwch yn ei ddydd na'r Parch. WILLIAM REES (*Gwilym Hiraethog*), a phery rhai o'i gyfansoddiadau ef am amser maith yn addurn i lenyddiaeth Cymru. Ganwyd ef yn Chwibren Isaf, ym mhlwyf Llansannan, Tachwedd 8, 1802. Darlunir ei ardal enedigol yn ei 'Adgofion Mebyd'—cân y ceir y pum' pennill cyntaf o honi yn y llyfr hwn. Ei meithder yn unig yw'i achos na bai'r gân ddoniol hon yma i gyd. Fel ei frawd clodwiw, Henry Rees, yn Lerpwl y treuliodd Hiraethog y rhan fwyaf o'i fywyd gweinidogaethol. Bu farw yng Nghaerlleon Tachwedd 8, 1883. Y mae awdl-bryddest Hiraethog, 'Job,' a'i awdl ar 'Heddwch,' a'i gerdd ardderchog 'Emanuel,' ymhlith pethau goreu llenyddiaeth ddiweddar Cymru. Dichon mai yn y mesurau rhyddion y rhagorai efe—ond gresyn na fuasai

Nodiadau ar yr Awdwyr.

RHIF. TUD.

- ganddo fwy o ddarnau bychain 'telynegol' fel y gellid rhoddi mwy o engrifftiau o'i waith yma. Ysgrifennodd Hiraethog lawer hefyd mewn rhyddiaith, ac nid oes hwyrach ond Daniel Owen yn unig wedi rhagori ar y darluniau o fywyd Cymreig a geir yn 'Helyntion Bywyd Hên Deiliwr' a 'Llythraau'r Hên Ffarmwr.' Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o weithiau barddonol Hiraethog gan y Mri. Gee a'i Fab yn 1855, a'i 'Emanuel' yn 1861.
- 218 cxi. Ganwyd JOHN H. HUGHES (*Ieuan o Leyn*) yn Nhy'n y Pwll, ym mhlwyf Llaniestyn, Lley, Hydref 11, 1814. Cafodd addysg yn ysgol Botwnnog ac yng Ngholeg Aberhonddu. Bu'n weinidog gyda'r Anibynwyr am beth amser yn Llangollen, ac yn ddilynol aeth yn genhadwr i India'r Gorllewin a Deheudir America. Bu raid iddo ddychwelyd oherwydd afiechyd ei wraig, a gweinidog-aethodd mewn amryw lecoedd yn Lloegr, ac yn olaf yn y Cefn Mawr. Bu farw yng Ngwrecsam Mawrth 7, 1893.
- 220 cxii. Enw barddol y Parch. EDWARD ROBERTS, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ydoedd *Iorwerth Glan Aled*. Ganwyd ef yn Llansannan Ionawr 5, 1819, a bu farw yn y Rhyl, Chwefror 18, 1867. Canodd *Iorwerth Glan Aled* gryn lawer yn y mesurau rhyddion, ond prin y safai yn nosbarth blaenaf beirdd ei oes.
- 222 cxiii. Ym Mlaenau Ffestiniog y ganwyd ROWLAND WALTER (*Ionoron Glan Dawyryd*), a dygwyd ef i fyny fel chwarelwr yn yr ardal honno. Ymfudodd i'r America, a chyhoeddodd gyfrol o'i waith barddonol o Utica, N.Y., yn y flwyddyd 1872.
- 224 cxiv. Ganwyd *Robyn Ddu Eryri* yng Nghaernarfon, Ionawr 4, 1804. Treuliodd ei flynyddau boreuol mewn dull lled ansefydlog; yr oedd yn awyddus am fod yn bregethwr, ond yr oedd llawer o rwystrau ar ei ffordd. Bu am beth amser yn yr America, ac wedi hynny teithiodd rannau o Gymru yn y cymeriad o un o 'Saint y Dyddiau Diweddaf.' Yr oedd yn llenor llafurus, a chyfieithodd lawer iawn o farddoniaeth a rhyddiaith Seisnig yn ystod ei oes. Bu farw yn Llwydlo, Swydd Henffordd, Tachwedd 4, 1892.
- 227 cxvi. Ganwyd y Parch. ROGER EDWARDS yn y Bala, Ionawr 26, 1811. Wedi bod yn cadw ysgol yn Nolgellau am ychydig amser, symudodd yn 1830 i'r Wyddgrug, ac yno y treuliodd y gweddill o'i oes fel gweinidog dylanwadol gyda'r Methodistiaid. Bu farw Gorffennaf 19, 1886. Yr oedd Roger Edwards yn un o lenorion mwyaf llafurus ei oes ac yn arweinydd crefyddol a gwladol o ddylanwad

Nodiadau ar yr Awdawyr.

RHIF. TUD.

- mawr. Bu ganddo ran yng nghychwyniad y *Traethodydd*; bu'n gyd-olygydd y cylchgrawn hwnnw i ddechreu gyda'r Dr. Lewis Edwards, ac wedi hynny gyda'r Dr. Owen Thomas. Bu hefyd yn golygu'r *Drysofa* am flynyddau lawer.
- 230 cxvii. Ganwyd WILLIAM THOMAS (*Gwilym Marles*) yn ardal Brechfa, Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1834. Wedi gorffenn ei addysg gartref, anfonwyd ef i ysgol Ffrwd-fâl. Aeth oddiyno i Goleg Caerfyrddin. Enillodd ysgoloriaeth y Dr. Williams ac aeth i Brifysgol Glasgow, lle y graddiodd yn A.C. Agorodd ysgol yn Llandysul, ac urddwyd ef yn weinidog yn Eglwys Undodaidd y Llwyn. Bu farw Rhagfyr 11, 1879. Yr oedd yn dra hoff o farddoni er yn ieuan, a chyfansoddodd lawer o emynnau a darnau barddonol pwydferth. Cyhoeddwyd cyfrol fechan o'i weithiau yn ddiweddar yng 'Nghyfres y Fil.'
- 236 cxix. Chwarelwr oedd *Glan Padarn*, ac wrth droed yr Elidir a glannau Llyn Padarn y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd yn gerddor ac yn fardd, ac y mae llawer o'i gan-euon bychain yn brydferth neilltuoel. Bu farw ychydig flynyddau'n ol yn Llanfair Pwll Gwyngyll.
- 238 cxx. Ganwyd OWEN WYN JONES (*Glasynys*), mewn tyddyn bychan o'r enw Brithdir, yn Rhostryfan, Sir Gaernarfon, Mawrth 4, 1828. Ar ol bod am beth amser yn chwarelwr cafodd foddion i fyned am ysbaid i ysgol Eben Fardd yng Nghlynnog, ac wedi hynny i Goleg Athrawol Caernarfon. Dychwelodd i Glynnog fel athraw ar yr Ysgol Genedlaethol. Urddwyd ef yn ddiakon yn Eglwys Loegr yn 1860, a bu yn gurad yn Llangristiolus a Llanrhyddlad ym Môn, ac ym Mhontlotyn, Mynwy. Bu farw Ebrill 4, 1870. Y mae Glasynys yn un o feirdd mwyaf swynol Cymru, yn enwedig yn y mesurau rhyddion, a theilynga 'Murmuron y Gragen' le uchel ymhlith ceinion ein llenyddiaeth.
- 250 cxxvii. Saif WILLIAM THOMAS (*Islwyn*) ar ei ben ei hun ymhlith beirdd diweddar Cymru, a myn rhai mai efe yw y mwyaf o honynt oll. Ganwyd ef Ebrill 3, 1832, yn agos i'r Ynys Ddu, yn Nyffryn Sirhowy, Sir Fynwy, wrth droed y mynydd y cymerodd ei enw barddonol oddiwrtho. Cafodd addysg dda, a dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid yn 1854. Treuliodd ei oes yn ei ardal enedigol, ac yno y bu farw Tachwedd 20, 1878. Y mae'r oll sydd ar gael o waith Islwyn newydd ei gyhoeddi mewn cyfrol drwchus a hardd gan Mr. O. M. Edwards. Diau yr addefa pawb fod mwy o *feddrol* yng ngweithiau Islwyn nag sydd yng nghynhyrchiion unrhyw fardd arall a gododd

Nodiadau ar yr Awdwyr.

RHIF TUD.

ying Nghymru. Y mae'n amlwg fod dylanwad Wordsworth yn gryf iawn arno, ac y mae ei ganiadau drachefn a thrachefn yn ein hadgoffa am waith awdwr yr *Excursion*. Fe ddywedodd Matthew Arnold, '*Wordsworth needs to be relieved of a great deal of the poetical baggage which now encumbers him,*' a gellir cynhywso'r un geiriau'n deg at Islwyn. Y mae darnau meithion o'i gyfansoddiadau yn feichus i'w darllen oherwydd eu diffygion mewn ffurf ac arddull. Ar ei oreu, fel y dengys hyd yn oed ambell un o'r caneuon a geir yma, y mae Islwyn yn cyrraedd tir uchel iawn; ond droion eraill y mae'n ymylu ar ryddiaith noeth. Mewn rhaglith i gasgliad bychan o'i ganiadau gyhoeddwyd gan y Mri. Hughes a'i Fab, dywed,

'Daw adeg ar farddoniaeth na fydd un
Gyfundrefn gaethol o fesurau blin,
Na deddf
Ond greddf.'

Dywedir ar awdurdod uchel nad oedd y bardd o ddifrif pan ysgrifennodd y rhaglith hwnnw, a'i fod mewn gwirionedd yn hoffi cyfansoddi ar fesurau caethion. Fodd bynnag, fel ymosodwr ar y caeth-fesurau yr adnabyddid Islwyn, ac yn y cymeriad hwnnw efe yw tad 'y bardd newydd' y mae cymaint o ddadlau ynghylch ei ddull a'i ddawn y dyddiau hyn. Fel meddyliwr beiddgar a gwreiddiol nid yw Islwyn yn ol i'r un o feirdd Cymru. Ond er y dylai'r bardd gael 'tragwyddol ryddid,' ni welir y dydd y

'gorffennir galw barddas yn gelfyddyd.'

A diffyg *celfyddyd*—diffyg gofal am y ffurf—yn unig sydd yn sefyll rhwng Islwyn a'r lle blaenaf ar restr prif-feirdd Cymru.

- 261 cxxxiii. Ganwyd RICHARD DAVIES (*Mynyddog*) yn Llanbrynmair Ionawr 10, 1833. Mab ydoedd i amaethwr, ac yn amaethwr y dygwyd yntau i fyny. Yr oedd Mynyddog yn fardd swynol, ac ym mlynnyddoedd diweddaf ei oes nid oedd ei hafal fel arweinydd Eisteddfod. Bu farw yng Nghemaes Gorfennaf 14, 1877. Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol mewn tair cyfrol gan y Mri. Hughes a'i Fab—'Caneuon Mynyddog' (1856), 'Yr Ail Gynnyg' (1870), a'r 'Trydydd Cynnyg' (1877). Y mae y tair cyfrol hyn i'w cael hefyd yn un llyfr. Trwy ganiatad y cyhoeddwyd yr argreffir y tair canig a geir yma.
- 265 cxxxvii. Ganwyd THOMAS EVANS (*Telwynog*) Medi 8, 1840, yn Aberteifi. Wedi cael ychydig o addysg elfennol, rhwym-

Nodiadau ar yr Awdwyr.

RHIF. TUD.

- wyd ef ar un o longau bychain ei dref enedigol. Ymhen ychydig flynyddoedd dibangodd oddiar fwrdd ei long ac aeth i Aberdar i weithio dan y ddaear. Wedi hir ddioddef oddiwrth y darfededigaeth, bu farw yn Aberdar, Ebrill 29, 1865. Danghosodd hoffter at farddoni yn ieuanc iawn, ac ennillodd lawer o wobrwyon eisteddfodol ym mlynnyddoedd olaf ei fywyd. Cyhoeddwyd ei weithiau dan yr enw 'Barddoniaeth Telynog' ym Merthyr Tydfil yn 1866, ac ail argraffiad yng Nghwmafon yn 1870.
- 266 cxxxviii. Y mae JOHN DAVIES (*Ossian Gwent*) yn un o feirdd 'telynegol' goreu yr hanner canrif diweddaf. Y mae rhywbeth yn debyg ynddo i Ceiriog—anian yn ei phrydferthwech, yr adar, y blodau, 'y dolydd i'r a'r llynau llawnion,' ydoedd testyn amlaf ei gân. Ganwyd ef yn Aberteifi yn 1839, a bu farw Ebrill 24, 1892. Cyhoeddwyd rhan o'i waith mewn cyfrol yn dwyn yr enw 'Caniadau Ossian Gwent' yn 1873, a chasgliad o'i holl waith dan yr enw 'Blodau Gwent' yn 1898.
- 269 cxl. Ganwyd JOHN OWAIN GRIFFITH (*Ioan Arfon*) ym Mronllwyd, ym mhlwyf Llanbeblig, yn y flwyddyn 1828. Bu am amser yn gweithio fel chwarelwr, ac yn byw yn y Waenfawr. Treuliodd y rhan olaf o'i oes yng Nghaernarfon, lle y bu farw yn 1881. Fel gwleidyddwr a llenor safai yn uchel ym marn ei gydgenedl.
- 270 cxli. Brodor o Lanfihangel Glyn Myfyr, plwyf yr enwog Owain Myfyr, ydoedd y Parch. HUGH JONES (*Huw Myfyr*). Ganwyd ef yn y flwyddyn 1845. Bu'n weinidog gyda'r Methodistiaid yn Llanrhaidr ym Mochnant, yn Llanllechid, ac yn Ninorwig. Yn y lle olaf y bu farw yn y flwyddyn 1891.
- 273 cxlii. Ganwyd JOHN CEIRIOG HUGHES Medi 25, 1832. Yn foreu yn ei yrfa aeth i Fanceinion i fod yn glerc yng Ngor-saf y Rheilffordd yn London Road. Yno y bu, fel y dywed,
- 'oddi cartref yn gwneud cân,
Ond a'i galon yn y mynydd
Efo'r grug a'r adar mân.'

Yn ddilynol penodwyd ef yn orsaf-feistr ar linell y Cambrian yn Llanidloes, Tywyn, a Chaersws. Yn y lle olaf y bu farw, Ebrill 23, 1887. Gan y gwelir cyfeiriadau mynych at Geiriog yn y Rhagdraeth, ni raid dweyd dim yn y fan hon am ei le a'i neilltuolion fel bardd. Y mae gweithiau Ceiriog i'w cael mewn dwy gyfrol hardd a

Nodiadau ar yr Awdwyr.

RHIF. TUD.

gyhoeddir gan y Mri. Hughes a'i Fab, ac a wneir i fyny o chwe' llyfr a gyhoeddwyd fel y canlyn :—' Oriau'r Hwyr ' (1860), ' Oriau'r Bore ' (1862), ' Cant o Ganeuon ' (1863), ' Y Bardd a'r Cerddor ' (1865), ' Oriau Ereill, ' (1868), ac ' Oriau'r Haf ' (1870). Allan o ' Oriau'r Hwyr ' ac ' Oriau'r Bore ' y cymerwyd yr oll o'r caneuon a argreffir oddigerth un, sef ' Codiad yr Hedydd, ' sydd i'w gweled ymhlith ' Cant o Ganeuon. '

NODIADAU AR EIRIAU.

TUD. LL.

- I 2 a'm gwired : Yma nid Ansoddair Cyfartal (*Equal Adjective*) yw 'gwired,' ond enw dansoddol yn disgyn o ffurf debyg i'r enwau Lladin a'r terfyniad *-itas*, megis *veritas*, *civitas*, yn union fel clywed, gweled, damuned, &c. Daethpwyd i arfer enwau o'r math hwn fel ansoddeiriau, ac nid yw'n anodd gweled y camau. Gallai 'cyn gryfed â llew' ar y cychwyn feddwl 'with the strength of a lion,' gan gadw 'cryfed' fel Enw. Mae'r ystyr yr un a phe dywedid 'as strong as a lion,' a dyna 'cryfed' yn Ansoddair Cyfartal. Y cyfeithiad yma yw, 'I am in love, God knows it, and my sincerity,' *i.e.*, how true I am. Cymh. ll. 9. 'Ni chán yngwig ei phered : ' there singeth not in the woods one as sweet.' ll. 12. 'Ni chanes bardd ei cheined : ' Bard has not sung how fair it is.'
- 4 'ba edwyn.' Ceir 'pa' yn aml yng Nghymraeg y Canol Oesoedd, lle dywedem ni 'pa beth.' Yr ystyr yma yw 'pa ddyd edwyn serch, cyhyd ydyw?' 'What man knows how lasting is love?' Cymh. *Mysyrian Archaeology*, 135b, 'Pa roteiste,' *i.e.*, 'What gavest thou?'
- 8 pawr: porfa, *pasture*.
- 12 yngwig : yng nghoed. Cymh. *coedwig*.
- 13 gallt : yn y Gogledd 'bryn' llechwedd, ond yn y De 'llwyn o goed.'
- 17 oet dydd = oed, ll. 5, sef *appointment*. Cedwir y *t* yn galed gan y *d* a ganlyn. Cymh. ad-dal yn troi'n atal.
- 2 1 gweiliaf = gwieiliaf? plethu â gwial.
- 2 neued : *wish*, *longing*, o'r un gwreiddyn a'r gair new-yn. Cymh. cnau, cnewyllyn; cenau, cenawon; tenau, tenew-yn; crau, crewyn; llysiâu, llysew-yn.
- 4 damuned = dymuniad, o'r gwreiddyn *mun* a geir yn 'gofuned' td. 66, darofun, &c. Ymgynwied *a* yn y sill gyntaf a'r sain aneglurach y yn fynych, os bydd yr acen ar y sill ddilynol : amherawdr, ymherawdr, amddiffyn, ymddiffyn, &c.
- 3 1 Gwener gwyn : *holy Friday*. Cyfeiriad at arfer Pabyddion o ymprydio ar ddydd Gwener. Ceir 'gwyn' ym meddwl 'sanctaidd' yn aml, *e.g.*, Duw gwyn, Sulgwyn, Mair wen, Gwyn ei fyd, &c.

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL.
- 10 lle'i delid, 'wherever it be brought.'
- 4 1 coweth, cywaeth, cyfoeth: cymh. dyfod, dywad; cafod, cawod, cawad. Try 'f' yn 'w' yn fynych; cymh. td. 11, ll. 6, 'cywaeth hudoliaeth bywioliaeth y byd.'
- 12 Anfodlon, td. 16, ll. 11, bodlonrwydd. Try *ddl* ymhobman yn *dl*. Aeth sawddl yn sawdl, anaddl yn anadl; ac felly yn rheolaidd â boddlon yn fodlon.
- 5 5 doedai, sef dywedaf i. Ceir *doydud* gan Dr. John Dafydd Rhys yn ei Ramader; ac hyd heddiw clywir gan yr hen bobl, 'dŵyd,' treigliad ychydig pellach ar y ffurf. Cymh. oen, ŵyn, croen, crŵyn. Yn *Llyfr yr Ancr* cawn yn lle 'mwy' y ffurf 'moe.' Hefyd seinir 'moethau' yng Ngwynedd fel 'mwythau,' a 'mwythlyd' yn lle 'moethlyd.'
- 11 nadu: rhwystro. Y ferf yw gadu; ond o dra mynych gysylltu'r rhagferf 'na' ag ef mewn gorchymyn (na ad iddo, nad iddo, &c.), tybiwyd mai berf arall oedd yma, sef nadu o'r un ffurf a'r ferf a ddaeth o'r enw 'nad,' cân, ond a'i ystyr yn wahanol.
- 6 teitl Arwyrain: cân i ganmol neu ddyrchafu. Y ferf yw arwyreaf: yr un modd cawn dwyrain, dwyreaf: 'I rise up,' or 'I lift up.' Yr haul yn y dwyrain: the sun at its rising, sunrise.
rhiain y rhianedd: the maiden of maidens. Cymh. 'Cân y caniaidau,' 'The song of songs,' fel teitl Cân Selyf. Wrth gwrs, rhiain yw'r unigol a rhianedd y lluosog, ac nid rhian rhianod, fel y tybia rhai. Cymh. gwraig, gwragedd; celain, celanedd. Td. 125, ll. 11, cawn 'ei gu rian' gan Ieuan Glan Geirionnydd; fe ddylasai wybod yn amgen.
- 7 11 gwawr: *lady*. Felly td. 8, ll. 8; 9, ll. 19; 13, ll. 23, &c.
- 25 Ar dwyn: twyn yw bryn. Gwel td. 32, ll. 16, 'briallu yn tyfu 'mhob twyn,' ar dwyn: mewn lle amlwg. *Openly, conspicuously*.
- 9 21 lliwied: *reproach*; ed-liwied.
- 11 14 cloer: *a hutch*. Fel rheol golyga gilfach mewn pared, fel cwpwrdd, ond heb ddrws arni.
- 16 lîfin: *living*.
- 15 21 eiriach: arbed. Deut. xiii. 8, 'nac arbeded dy lygaid ef, ac nac eiriach ef.' Isaiah ix. 19, 'nid eiriach neb ei frawd.'
- 19 18 baeach: *almost*.
- 21 5 yn wr cynnes: yn wr da ei amgylchiadau. Yn Saesneg, 'a warm man.'

Nodiadau ar Eiriau.

TUD. LL.

- 10 ysgoewan : anwadal, *inconstant*.
- 22 20 cogio : gwel nodyn yr Athro J. Morris Jones, *Bardd Cwsc*, td. 180. O'r Saesneg 'to cog,' math ar dwyllo, yn a bennig wrth chwarae a'r disiau.
- 23 13 roiff : y flurf a geir yn fynych ar y gair 'rhydd' ar lasar. Yn Ngwynedd dywedir 'mi roiff' lawer,' neu 'mi roith' lawer,' a cheir flurfiau mewn 'iff' neu 'ith' ar bob ferf bron, e.g., canith, caniff, gweliff, gwelith, deudith, &c. Nid oes yng Nghymraeg y Canol Oesoedd engraifft o'r cyfryw derfyniad i'r berfau hyn. Yn unig cawn yn rholaidd, cáf, 3ydd person, *caiff*; gwnaf, *gwnaiff*. Tybed ai oddiyma yr ymledodd y dull hwn o flurfio'r 3ydd person ar lasar gwlad? Wedi ymarfer â dywedyd 'caiff,' nid anodd oedd flurfio 'caniff,' a chan fod ff ac th yn newid lle yn aml (fel pencenaff, pencnath, *penknife*; benffyg a benthyg o *beneficium*), daeth -ith i fewn hefyd. Hwyrach fod dylanwad y Saesneg yn help i hyn, wrth gofio cymaint o'r berfau sy'n ychwanegu -eth yn y 3ydd person, megis *live, liveth; sing, singeth, &c.*
- 21 Beiau *cymaint un* : beiau bob un. Gwel Ephes. v. 33, 'Ond chwithau hefyd *cymain' un*, felly cared pob un o honoch ei wraig.' *Llyfr yr Aneur*, td. 116, ll. 22, 'A'r brodyr kymein hun.'
- 24 2 Y methiant lu : arferir 'methiant' yn aml fel ansoddair ar lasar gwlad Gwynedd. 'Mae o wedi mynd yn bur *fethiant* rwan,' fel pe dywedid 'methiannus.' Cymh. perigl, lle perig' = lle peryglus; dyn perig, 'a dangerous individual.'
- 25 4 Llwydlo, sef Ludlow.
- 27 7 Cerdd gwplws = can â'r naill ran wedi ei chyplysu wrth y llall ag odlau : *linked song*.
- 9 dynes aneiriol : gwraig na ellir dim o honi er eiriol; *im- placable to entreaty*.
- 30 1 ymsiria : *cheer up!* O'r Saesneg *cheer* cawn 'sîr,' fel siawns o *chance*, sianel o *channel*, &c. Yna gwnaethon 'siriol' allan o sîr fel ansoddair, ac 'ymsirio' fel berf gymysgryw, gwel 31, ll. 20, 'ymsirio am fy seren.'
- 9 pwyntmanne : lliosog pwyntmant, o'r Saesneg '*appoint- ment*.' Gwel 31, ll. 3.
- 32 teitl llatai : 'O'r gair llad, rhodd, a hai terfyniad yn golygu gweithredwr.'—Yr Athro J. Morris Jones. Cennad rhwng cariadau i gludo anrheg neu lythyr oddiwrth y naill at y llall.
- 5 nod yngan. Yngan yw llefaru. Hwyrach mai '*limit of speech*' fuasai'r cyfieithiad. 'Dydd da naw dengwaith iti,'

Nodiadau ar Eiriau.

TUD. LL.

neu hyd eithaf iaith. Yng *Nghyfes y Fil* darllena yr ail linell fel hyn :

'Mi'th wela di'n odiaeth yn newidio pob glyn.'

Oni bai am y darlleniad yna galledid tybio fod y bardd wedi gweld yr haf yn newid wyneb y glynnoedd naw deng-waith !

16 meillion ; blodau glofer.

34 13 eiliwn : plethwn. Cymh. adeilio.

'Adeiliais dŷ fry ar fryn,
Diddos i gadw deuddyn.'—D.G.

37 1 had yr heiniar : cwnw y ddaear yw heiniar.

'A rhan a gei o'r heiniar
A'r yd a ddelo o'r âr.—D.G.

12 hinon greulon groes : tywydd teg yw hinon, ond yma fe'i harferir fel yn gyfystyr â hin. Yn y Llydaweg, *hynon*.

17 Celi : enw ar Dduw o'r Lladin 'Deus *Coeli*.'

39 teitl Y coler du : o'r Saesneg '*choler*,' *melancholy*.

41 5 mae'l. "Gall mai 'mae fel' ? a olygid, *h.y.*, 'pa fodd' ? Ond y mae diffyg gofynnod yn erbyn y dyb hon . . . feallai wedi'r cyfan, mai 'Mal' yn syml a feddylid."

rhygyngu : "Rhygyng ydyw symudiad ceffyl arafach na throtian. 'Ynteu a gymierth *ryging* gan i farch,' *Mabinogion*, td. 10. Merched Jerusalem yn 'rhygyngu wrth gerdded,' *Esaiiah* iii. 16, cerdded yn araf, defosiynol falch : yn Saesneg, 'mincing as they go.'"—Yr Athro J. M. Jones.

43 5 cwnn, sef cyfod. Gwel ll. 13, cwonna. Gan Richards, *d.g.* cawn : "Cwyn, cwynnu, commonly cwonna ; in some places *cywynnu*, to arise, raise. Hence *cychwyn*." Yn Sir Fforgannwg dyma'r gair arferir am gychwyn, neu godi : â'r *chw* yn rheolaidd yno yn *wh*, chware yn 'whare,' chwaer yn 'whaer,' &c., ac felly beth ellid ddisgwyl o 'gychwynu' yno ond 'cywynnu' ? Y cam nesaf yw 'cwynnu' (cymh. cweirio o 'cyweirio'), ac aiff cwynnu yn 'gwnnu,' yn union fel 'gwybod' yn 'wbod' ar lafar gwlad. Am *ch* ynghanol gair yn cyfnwid âg *h* cymh. 'ymhoelawd,' *Llyfi yr Ancr*, td. 108, ll. 11, sef 'ymchwelawdd.' Hefyd 'cyhwfan' a 'cychwyfan,' engraffit ymhellach o newid *wy* yn *w*. Eto i gyd, er amlyced yw tarddiad y gair, cymerir ef gan rai i esbonio 'esgynnu,' 'disgynnu,' geiriau a dardd yn rheolaidd o'r Lladin *ascend, descend*. Yng Ngwynedd clywir weithiau 'cwonna ! gi,' pan fydd ci ar y ffordd, ond cychwyn yw'r gair arferol. 'Cychwyn hi' ! 'Get out of the way.'

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL.
- 5 oco, neu yco, yn nhafodiath y De am 'acw.' Yn y Canol Oesoedd *racco* a ysgrifennid, ffurf amheronol, 'rhag,' fel 'yno,' ffurf amheronol 'yn.'
- 46 11 irad, hefyd girad : 'terrible, piteous.'—Richards.
18 ysgawn : ysgafn. Gwel ar 'coweth,' td. 4, ll. 1, engraifft arall o'r cyfnewid sydd rhwng 'f' ac 'w.' Gwel 140, ll. 11.
'Ysgawn daith dan ysgin dail.'—D.G.
- 47 teitl herodraeth : neges, *embassy*.
- 49 2 coelaid : ffurf ar 'coflaid,' a cheir engreiffiau prin o'r gair 'cofl' fel 'coel.' Yn ngwaith yr awdur
'Mae Crist â pheraidd lwysaidd lais,
I'w *goel* yn ne'n galw ni.'
- 51 3 Brwyno : pordir defaid yn agos i Fynachlog Ystrad Fflur.
14 Gwenllian : mam y prydydd.
- 53 17 Pont Einion : ar y Deifi wrth Ystrad Meurig.
- 54 9 Nanteos, Mabwys, Trawsgoed : plasau yng nghyffiniau cartre'r bardd.
- 55 11 lafant a lili : *lavender*.
- 56 1 CwMBERWYN : rhwng y brynau uwchlaw Tregaron.
- 57 8 deilen erfynen : erfinen? Cymh. 53, ll. 3, cawl erfin : potes maip.
- 61 teitl Lladron Grigyll. Yn y *Diddanwech Teuluaidd* (1763), uwchben y gerdd hon cawn a ganlyn :
"The Trial of the Mob
On robbing of a Liverpool Brigantine, stranded at Grigyll in Anglesea : and of the Proceedings thereupon at Beaumares Assizes, 1741."
- 62 8 sidyll : olwyn ; 'troi yn sidyll,' 'to whirl round.'
- 17 Siapel : sef Syr William Chapel, prif farnwr Môn 1729-37. Hwyrach fod mwy o fin arno nag ar Rogers Holland, y prif farnwr yn y Sir o 1737 hyd 1745, adeg yr helynt hwn.
Morus oedd twrne'r lladron.
Vernon : Admiral Vernon.
- 63 4 serfyll : anwadol, sigledig.
9 yspred : gwehilion cymdeithas, *outcasts*.
- 12 distyll : y trai pellaf, a elwir felly ym Môn (o'r Lladin *destillo*).

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL.
- 22 terfyll : o 'tarf,' chwalu? *terribilis*
- 64 3 o fesul dau : o fesur dau, *two by two*.
- 65 9 hwswiaeth : o'r Saesneg *housewife*, yn cyfateb i hwsmon-aeth, o hwsmon (*houseman*).
- 13 gleisiad : a *young salmon*, oherwydd ei liw glas.
- 66 17 rhyddiriwn, *beseech, entreat*.
- 18 gofuned : gwel ar 'damuned,' td. 2, ll. 4.
- 67 7 araul : *pleasant*.
- 11 twysg : casgliad : 'the quantity of yarn usually contained on a spindle,' medd W. O. Pugh. Yna casgliad o unrhyw beth.
- 14 gwasgawdwydd : coed cysgodol, gwel 68, ll. 2, gwasgawd (*vo-skát*), cysgawd (*con-skát*), o'r un gwraidd a'r Saesneg *shade*.
- 68 6 arab : *pleasant, witty*. Cymh. arabedd, *wit*.
- 15 mŷr : lliosog môr.
- 69 1 adwedd : dychweliad ; gwel 130, ll. 14, da gan glaf . . . gael *adwedd* o'i glefydon.
- 11 stŵr, o'r Saesneg *stour; tumult*, o'r Hen Ffrangeg, *estour*.
- 70 7 gau : o'r ansoddair Lladin *cavus* daw cau yn Gymraeg. Gwel 110, ll. 12, ceunos, 'the hollow depths of night.'
- 72 5 carcus : o'r Saesneg *carck*, gofal. Felly gofalus yw'r ystyr.
- 74 13 rydid : o rhydd-did. Try *dd-d* yn *d*, megis yn y gair 'diwedydd' o 'diwedd-dydd.'
- 76 5 Suddas : Judas. Gair hanner dysgedig a fenthyciwyd yn ddiweddar trwy'r Saesneg, mal y dengys yr *S* yn ei ddechreu am *f*. Yr enw cyntefig o'r hen gyfnod arno oedd Iddas, ffurf reolaidd a geir yn Llyfr Du Caerfyrddin wedi ei ysgrifennu Itas (saif *t* am *dd*).
- 17 rhuso : dal yn ol ; cymh. petruso. 'Ceffyl am *risho*,' ar lafar gwlad, 'a shying horse.'
- 78 12 corddiganau. Ni welais mo'r gair o'r blaen. Ceir *eradigan* yn yr hen feirdd ym meddwl cân.
- 80 12 y delyn *farnais* : o'r Saesneg *varnish*, the varnished harp.
- 82 17 didawl : heb ddarfod na phallu.
- 84 2 berth : tlws. Cymh. pryd-ferth.
- 6 mrifo : briwo. Engraifft eto o'r cyfnewid sydd rhwng *w* ac *f*. Cymh. lliw, llifo—*to dye* (lliw-o.)

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL.
- 93 8 orawr : camffurf ar y gair goror. Nid *awr* yw'r ail sill o gwbl, ond *or*. Yn y Wyddeleg y mae *or* i'w gael, a'r un ystyr a gor-or, sef ymyl, min, glan.
- 98 4 gor-iesin : tlws iawn.
- 106 5 siengyd : llafar gwlad am sengi (o *sang*). Ychwanegir *d* yn aml at ferfau a fo'n diweddu â llafariad, e.g., rhoid, perud, glynud.
- 7 syw : doeth.
- 18 achlaf : claf iawn. Cymh. achul (cul), achwyn (cwyn). Mae'r blaendod *a-* yma yn cryfhau.
- 108 1 ffrîw : yr wyneb.
- 9 llad : (1) rhodd, (2) diod.
- 112 7 telori : *to warble*. Telawr, yn ol Pugh, yw '*goldfinch*.'
- 15 hilio : hilio = *to cover over*. Mae y terfyniad *-io* fel rheol yn meinbau sain *u* yn y sill o'r blaen. Seindir tostur-io fel tostirio, cuddio fel ciddio, llunio, llinio, &c.
- 116 7 idd eu godro. Darganfuwyd idd gan rywun a feithodd iawn sillebu iddo. Perthyn yr *dd* i'r terfyniad, cymh. er-of, er-ddo; yn-of, yn-ddo. Felly imi, iti, i-ddo. Mae *idd* mor ddialw am dano âg yw *yudd* yn lle *yn*.
- 120 2 cae : yma yn ei ystyr cyntefig o *wrych*, yr hyn sydd yn *cau* lle i fewn. (Yn y *Mabinogion* sillebir y ferf kaeu, kayu). Erbyn hyn y cae yw'r hyn a gaewyd i fewn—y maes, ac nid y gwrych. Ceir amryw engreiftiau o'r ystyr hynaf yn y Beibl, e.g., Esaiah v. 5, 'Tynnaf ymaith ei *chae* fel y porer hi, torraf ei *magwyr*,' &c.; Diarhebbion xv. 19, 'Ffordd y diog sydd fel cae drain.' Yn Saesneg : 'The way of the slothful man is as an *hedge* of thorns.'
- 15 cidwm : (1) blaidd, (2) yma, llwynog, (3) enw ambarchus. Cymh. 'Twm Sion Twm y cidwm cas.'—*Goronwy Owen*.
- 123 12 teryll : *fierce, cruel*.
dull : *battle array*. Y cyfieithiad hwyrach yw, "I see thro' the murk the shields in fierce array."
- 16 rhuddwawr : gwawr = lliw (gwel gwyrdd-wawr, 125, ll. 5).
Felly, lliw coch.
- 124 17 rhad = bendith : *grace*; rhadlawn, rhadlon, *gracious*. Yn y Wyddeleg, *rath*.
- 23 am sawr *freg* : o'r Saesneg *break*; difreg, *flawless*, bregus, *weak, rotten*. Yma breg = dinistr.
Gwel 133, ll. 11, 'Gweli yno feddau *breg*.'
137, ll. 1, 'Chwywio'r tant a'r bluen *freg*.'

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL.
- Yn y rhain arferir *breg* yn debyg i'r modd y cawn eiriau fel *clau* mewn barddoniaeth, yn swy er mwyn yr odl nag er dim ychwanegiadau er da na drwg at yr ystyr. Beddau *breg*: *sad graves*; pluen *freg*, *the fragile (?) fishing-fly*.
- 128 24 erfai: ystyr dda sydd i'r ansoddair, ond beth yw, nis gwn. Fel rheol, cyfieithir ef 'fautless' fel pe'r un a di-fai; ond cymharer er-fawr, 127, ll. 12. Nid negyddu y mae *er*, ond cryfhau. Awgrymodd Monsieur Loth yn y *Zeitschrift* iv. td. 104, ei fod yn perthyn i'r gair Gwyddeleg eirb, myn gafr. Pe felly, llon, llawen, a fyddai'r meddwl. Y mae gwreiddyn arall, orb- neu erb-, ym meddwl cyfoeth neu etifeddiaeth, a hwyrach y gall *erf-* yn erfai darddu o hwnnw, ac iddo olygu cyfoethog; ond erys yr ystyr yn amwys nes i'r goleu ddyfod ar yr ail sill.
- 137 1 chwywio = chwyfio: ysgwyd o amgylch. Cymh. cyhwan, cyhwyfan, cychwyfan. Gwel ar 'cwanna,' 43, ll. 5.
- 138 21 chwai: buan, cyflym.
- 140 5 manod: mân od; *sine snow*.
- 141 9 oen llywaeth (llaw-faeth), yr *f* wedi 'mgolli yn yr *w*.
- 143 1 i gwafrio: o'r Saesneg, *quaver*.
- 144 9 hoff bau: *pau* yw tir neu wlad; o'r Lladin *pagus*. Yn y Gernyweg *pow*, ac yn y Lydaweg Hen. *pou*. Yn y *Myfyr-ian*, td. 231b fe gân Einion ab Gwalchmai:
 'Gorpwyf y gan duw vry gwedy gwedyeu
 Goruod gorffowys baradwys *beu*,'
 'May I, after my sins, be allowed by God above to rest in the land of Paradise.' Ond ceir *peues* yn amlach yn y Gogynfeirdd. Cymh. y Ffrangeg *pays*. Y *Myfyr-ian* 161a,
 'Dybrys alaf deifr y drefad Bowys
 Y *beues* y hendad,'
 'He drives the cattle of the men of Deira into Powys, his ancestor's land.'
- 146 2 o fwynion lwysion lun: ystyr glwys yw sanctaidd, yna prydferth; ond beth am y gystrawen? Ai *glwysion*, lliosog glwys sydd yma ynte *glwys-iawn*? Cawn linell debyg gan Ddafydd ab Gwilym i Forfudd. Cywydd xxxi., ll. 2.
 Fain iawn ael *fwynion olwg*.
 Ai glwysiawn yn lwysion, fel y cawn purion o 'pur-iawn.'
- 151 1 perion flodau blydd: dyry'r Dr. W. O. Pugh y gair blydd, a chyfieitha ef, 'sappy, soft, delicate,' &c.: ond tybiaf mai o'i ben ei hun y cafodd ef, oherwydd esplydd a phlydd yw'r

Nodiadau ar Eiriau

TUD. LL. unig ffurfiau y rhydd engreiffiau o'u harfer. Gwel Llyfr Du Caerfyrddin, xxvb.

Afallen peren blodev *essplit* (= esplydd).

Hefyd *Myf. Arch.*, 175 b15, 334 a 15.

Lluyt usuyt nyt *plyd* nyt plyc

Clot gyhoed caeroed cerryc.

Nid yw'n hawdd penderfynu'r meddwl nes cael mwy i weithio arno, ond dyfelir gan Pugh mai dyma yw : 'soft, delicate, flexible,' fel blydd.

152 13 hefin: cymb. *Mehefin*. Nid o haf-hin, pe felly, heffin fuasai'r gair, ond haf-in. fel *eurin*, *derw-in*, *haernin*, &c. Yn y Llyfr Du, xviii. ceir 'Kintevin keinhaw amser' (cynt-hefin), a phrofir trwy'r disgrifiad a ganlyn mai'r gwanwyn a feddylid yn dddiadl.

156 10 'morol : ymoralw, 'to call for ;' fel yr aeth gwachadw, trwy'r ffurf gwarchadw yn 'gwarchod,' felly y troes ymoralw yn ymoralw ac ymorol.

158 5 ynganyd : ynganu, torri geiriau, fel sengyd, perud, o sengu, peru, &c.

163 17 machlyd, yn lle machlud, o ymachludd. Daw achludd o'r Lladin 'occludo,' 'to close up, to hide ; ymachludd felly yw ymguddio, 'to hide oneself,' fel yr haul wrth ymachludd.

Y mae gwely i'm gelyn,

Lle'r *ymachludd* deurudd dyn.—*Maredudd ap Rhys*.

'where one's cheek sinks out of sight,' gan feddaled yw ! Try'r *dd* yn *d* yn niwedd gair ambell waith, neu collir hi yn gyfangwbl. Ar lafar ceir diffod yn lle diffodd, 'sbydu, yn lle dihybyddu, felly hefyd gormod o'r ffurf germodd yn y Canol Oesoedd.

165 11 tēr : 'pure, clean, clear.'

169 4 eirioes : 'fair.'

174 3 a lefair : 'who speaks,' y trydydd person unigol o llefaraf yw llefair, fel safaf, saif, paraf, pair, &c., yn awr llefara yw'r ffurf arferir amlaf.

178 4 lliosain : llios-sain ; ceir llios a lliosydd yn fynych yn y beirdd lle dywedem ni lliaws.

'Ni fyn cariad ei wadu

Na'i ddangos i *lios* lu.'—*Dafydd ap Gwilym*.

14 efelydd : 'the like of, the equal of,' o hafal ; cedwir yr *h* fel rheol, a dywedir hefelydd. Cyfetyb o ran tarddiad i'r

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL. Lladin 'similis,' a chawn o hono yn ogystal wedi i'r sill gyntaf ddiacen golli, y geiriau fal, fel, a mal, 'like, so, that.'
- 184 2 hawd : ceir yn y geiriaduron yr ystyr—'course, sweep of a sword, of a fly,' &c. Ai dyna'r meddwl yma nis gwn. A barnu oddiwrth y pennill i gyd, gair o'r un ystyr a 'hood' sydd yn eisiau, rhyw fath o orchudd.
- 198 1 rhincian : 'to make a gnashing or creaking noise, e.g., 'rhincian dannedd.'
- 202 14 chweg : dyma ansoddair eto, a ddefnyddir fel clau, breg, &c., yn fwy er mwyn odl na synnwyr. Ei ystyr gysefin yw melys, a dyna'r ystyr sydd iddo yn y Lydaweg (c'houek) a'r Gernyweg (whck).
- 208 8 achles : 'succour.'
- 213 2 bondo : 'the eaves' (y bon-dô?)
- 219 10 gwawr : yma 'lliw.'
- 224 1 ysgythrog : ar y cyntaf, 'having fangs or tusks' yw'r ystyr. Ysgwthr neu ysgythr oedd y daint ci, neu ddaint y llygad. Yng nghyfreithiau Hywel Dda, cawn : "gwert pob un or danted buwc ac ugaint : gwert pob un o'r yscitred dwybuw a deugaint ariant canys bucail y danted ynt," yr hyn o'i gyfeithu yw,—'The worth of each of the teeth is a cow and a score of silver, the worth of each of the fang-teeth, two cows, and two score of silver, because they guard the teeth' (*Lit.* 'they are the shepherd of the teeth.') Ysgythr baedd = boar's tusk. Cyfystyr felly yw creigiau ysgythrog â chreigiau danheddog : 'jagged rocks.' Daeth ysgythr i feddwl cerfio, ysgythredig cerfiedig, cymh. td. 83, ll. 12 :
'Ysgythriad y crychion fynyddoedd.'
- 224 6 trwyth cynylau : sef y gwlaw.
- 227 5 prid orllwyn : prid yw gwerthfawr, costus ; gorllwyn (cymh. cynllwyn), yw canlyn arall, 'to escort.' Tybed fod y bardd yma yn ei gymryd fel yn gyfystyr â llwyn o goed? 'a fair grove.'
- 227 6 maen chwyf : cymh. chwyfio, cychwyfan (cyhwfan), 'a rocking stone.'
- 12 clegyrog : perthynas agos yw clegyr i'r gair clog, td. 146, ll. 11, ac i ddechrau clogwyn, a dynoda fan creigiog.
- 230 13 berth : tlws, fel yn pryd-ferth.
- 14 perth : 'a bush.'
- 17 gwedant : dy-wedant. Mae'r naill mor gywir a'r llall.

Nodiadau ar Eiriau.

- TUD. LL.
- 233 11 daroganau : 'foretellings, prophesyings.'
- 234 14 echdwr : yn gywirach Echdwr, sef Hector, arwr Troia.
18 nwyfre : 'the ether.'
- 236 4 dwyre : y ferf yw dwyreaf. 'I rise up,' dwyrain, 'a rising.' Ceir arwyre, ac arwyrain hefyd ('a raising or lifting up'), gwel uchod.
- 237 2 aig : ffurf a ddyfeisiwyd fel unigol eigion, ac eigion ei hunan yn unigol yn larod. Nid yw amgen na benthg y'r Lladin 'oceanus,' Groeg, 'okeanos.'
- 238 15 clws : tlws. Felly Huw Morris,
'Yn *glws* dy lun a glas dy liw,
Yn wych yn wen winwydden wiw,' &c.
Am gyfnewid tebyg ar *tl* i *cl*, cymh. dyn *clawd* ar lafar gwlad am ddyw *tlawd*. Yn Saesneg hefyd dywed y plantos 'likle' yn lle 'little,' 'genkle' yn lle 'gentle,' ond nid ynt eto yn ganiatadwy yn iaith y beirdd!
- 242 6 closydd : lliosog clos, o'r Saesneg *close*, yn golygu lle wedi ei gau, cae, neu fuarth; clos yr eglwys yw, 'the cloister of the church.'
- 243 2 arwyl : 'funeral obsequies.'
- 244 1 gleinio : glain yw 'gem,' gleinio felly yw disgleirio fel gem.
3 breilw : rhosyn, yn ol Dr. Davies. Cymer Glasynys effel lliosog, yn meddwl 'lilies,' 'waterlilies.' Yn y Gernyweg, rhosyn yw *breilu*; ond yn y Llydaweg ystyr *brulu* yw bysedd cochion, 'the foxglove.'
- 247 5 nardd : Cymreigiad o *nard*.
- 248 2 Creirwy, &c.: o'r Trioedd yn y *Myf. Arch.* 410b.: 'Tair gwenriain ynys Prydain. *Gwenn* ferch Cywryd ab Crydon, *Creirwy* ferch Ceridwen, *Arianrod* ferch Don. Cyfieithir tair gwenriain yn 'three immaculate ladies,' ond 'fair maidens' fuasai'n orau, wrth gofio moes Arianrhod.
4 deune : deuliw (dau + gne).
caenen manod : 'a layer of fine snow' (td. 148, ll. 16).
5 Gwenonwy : merch deg. Dywed Dafydd ab Gwilym yn ei gywydd, 'I fanaches na welsai oud ei hwyneb gan ei chrefydd wisg,' ei fod wedi syllu nes delwi yn nhâl 'ac yn wyneb Gwenonwy.' Dyfalodd Pugh mae hi oedd merch Ifor Hael; ond yr oedd Dafydd yn gynnefnin ddigon âg wyneb honno, ac â chanu moliant 'i'w gwallt melyn,' ond am y fanaches du o bryd oedd hi,

Nodiadau ar Eiriau.

TU D. LL.

- 'Diliau yw ei haeliau hi,
Dail sabl fel dwyael Sioli.'
- 248 10 Dwynwen : yn ol Bonedd y Saint (*Myf. Arch.* 423b),
Dwynwen, ferch Brychan, oedd y santes a roes enw i Lan-
ddwyn, ym Mon. Edrychid arni fel duwies cariadon bron,
a chyrchid yn aml at ei hallor gan y cyfryw i weddio arni am
ei nawdd a'i chymorth mewn helyntion serch.
- 24 nidron : ystyr nidr yw rhwystrus, 'entangling, ensnaring,'
'the ensnaring bewitching eyes, sparkling like jewels.'
Gwel ar 'glain,' td. 100, ll. 1.
- 249 4 cerddinen : 'the rowan or quicken tree,' coeden criawol.
Llydaweg, kerzin; Gwyddeleg, caorthann.
- 5 afar ofwy : 'a visitation of wrath.' Gofwy yw ymweliad.
'Dydd y gofwy' yn y prophwydi yw 'dydd yr ynweliad.'
- 259 16 dwyreol : gwel dwyre uchod (92, ll. 4).
- 269 6 hawddamor : 'prosperity.' Wrth gyfarch arferid ef fel
'croesaw.'
- 278 16 peithynen : darn o bren wedi ei gymhwyso i ysgrifennu
arno.
- 279 11 gwialeg : 'a cage made of rods,' *i.e.*, gwiail. Cymh. ll. 16,
'Edrych trwy wiail ei gaethiwed.'
- 288 16 ble gebyst; daw cebystr o'r gair Lladin 'capistrum,' a'i
ystyr yw rhaff ymhen ceffyl, 'halter.' Oddiyma y daeth y
llw, 'myn cebystr,' 'by the halter,' 'myn y rhaff a'm crogo.'
Ond pallodd yr hen ystyr, a bellach teimlir mai enw ar y
gwr drwg fel arfer sydd ar ol 'myn,' ac arferir ef fel ansodd-
air i gryfhau brawddeg. Cymh. 'What the devil,' &c., yn
Saesneg, a llwon dof tebyg.
- 290 11 Y Glog : yr un ystyr sydd i'r gair 'clog' ac i 'glogwyn.
Cymh. y Wyddeleg, *clock*.
- 292 21 bargod : 'the eaves, y darn sy'n tafu allan o'r to. Yma,
y dyferynnau rhewedig fydd yn y gaeaf ynghrog wrtho,
icicles.
- 298 2. myg : 'honoured'? cymh., edmyg-u, dir-myg-u, &c.

MYNEGAL.

	TUD.
A ddoi di, fy nghariad, i gysgod y llwyn - - - - -	142
A fedd synhwyrau diau dowch - - - - -	76
A fedrwech chwî ateb ai cryfder yw cariad - - - - -	288
A gaiff fy yspryd i - - - - -	250
A mi un diwrnod teg o haf - - - - -	135
A welaist, a 'dwaenost ti Doli - - - - -	115
Afaon bach, mor fwyn y bu - - - - -	165
Afonig fechan, fywiog, fad - - - - -	227
Ai yma y mae'n gorwedd - - - - -	172
Ar fore tawel yn yr ardd - - - - -	267
Ar lannau Conwy ar fy nhro - - - - -	156
Aros mae'r mynyddau mawr - - - - -	295
Awen ! telyn fwyn fy ienctyd - - - - -	216
Awn allan, fwyn forwynion - - - - -	238
Beth sy'n hardd ? Y tyner lili - - - - -	218
Beth yw siomiant ? Tywyll ddunos - - - - -	204
Blentyn bychan, edrych di - - - - -	220
Blodau'r flwyddyn yw f' anwylyd - - - - -	83
Canmoled Athen yn gytun - - - - -	103
Cariad unwaith aeth i chwarae - - - - -	101
Cartre'r bardd caredig, mwyn - - - - -	261
Cerddi Cymru sydd yn byw - - - - -	299
Cilia'r haul draw dros ael bryniau hael Arfon - - - - -	123
Clywais lawer sôn a siarad - - - - -	121
Clywch, clywch foreuol glod - - - - -	296
Clywch ddyrchafiad geirwir gariad - - - - -	72
Cwsg, f' anwylyd dinam - - - - -	237
Cwyd, cwyd ehedydd llon - - - - -	194
Dadseinio'r oedd y brigog lwyn - - - - -	207
Daeth yma i'r byd i weld ein gwae - - - - -	198
Daeth yn ei dro y gwanwyn llon - - - - -	254
Dan bren tewfrig yn y goedwig - - - - -	166
Dod dy law, ond wyd yn coelïo - - - - -	84
Dyn a garo grwth a thelyn - - - - -	81
Dyn wyf fi sy brudd heb wên - - - - -	4
Dyna'r goeden ddu a ysgwyd - - - - -	164
'E ddiflannodd clog y gwlaw - - - - -	125
Er a welais dan y sêr - - - - -	64
Er cael pleserau 'ngwlad y Sais - - - - -	153
Er pan ydwyf yn y byd - - - - -	39

Mynegai.


	TUD.
F' anwyl ferch, delw'm serch, clyw anerch clwy' enaid	117
Fe acth o'r tŷ dan gau y ddôr	176
Fe ddarfur' gaeaf crealon	98
Fe gladdwyd tlysi'n anian	265
Fel'r oeddwn nos Wener yn cymryd fy'smwythder	26
Fenyw twyn, gwrande gŵyn	131
Fy anwyl gariad, teimlad dwys	171
Fy ngwenithen lawen liwus	16
Fy mam ! a fu i mi	252
Fy Naf yw Duw'r tangnefedd	208
Ffarwel, fy ngeneth lawen bêr	175
Gan godi'r dydd cynta' o Fai o'r claeara	32
Ganwyd i'r byd—llawenydd fu	200
Gorffwys, don, dylifa'n lonydd	109
Gwedwch, fawrion o wybodaeth	85
Gwrandewch gamol brig y don	2
Gwych gan bobol onest, lân	61
Gwyn fy myd pe gwelwn Gymru	179
Gwyr yr aur, ond gwych y fai	41
Gwynt ar fôr a haul ar fynydd	86
Ha, Gymru ! i'rh fynwes ehed fy uchenaid	226
Hardd yw gwên yr haul yn codi	83
Hawddamor it, fy narlun hardd	269
Hên wr, hên wr, mae'rh wallt yn wyn	162
Henffych well i wlad fy nghalon	188
Hi aeth, f' anwlyd, yn Glangaea'	44
Hoff ar awelon hefin wawr	152
Hoff gan rai yw canu, 'n wir	107
Hoff Ddyffryn Clwyd a erys yn dragwydd	257
Hoff gan rai yw twrw tref	241
Hoff iawn oedd gorffennu tŷ haf wrth Lyn Teifi	56
Hyfryd ydyw'r delyn fad	178
Hyfrydol ydyw caffael drych	202
I ba beth y gwnaed y byd	22
I ble, flodeuyn hardd	210
I nodi'r man rhoir meini hardd	149
Ieuencid nwyfus, anrhydeddus	18
Is yr ywen ddu ganghenog	182
Iehofa hael	92
Llysiuyn glwys a dengar	96
Llawen ydyw llais y gog	80

Mynegai.

	TUD.
Mab wyf fi sy'n byw dan benyd	139
Mae awelon dydd yn deffro	118
Mae cân yn llond yr awel fwyn	262
Mae genyf wen golomen ddof	279
Mae gwenau fy anwylyd	239
Mae hên wlad fy nhadau	144
Mae swyn mewn serch	247
Mae'r cryd yn wag, ond pwy a'i gwêl	211
Mae'r ddaear fawr firwythlon, a'i thrysor, yn ddigon	58
Megais fachgen bach ac anwyl	159
Megys llestr hên a drylliog	69
Mcillionen burwen buredd, o fonedd, rinwedd ryw	6
Mewn gweithred, mewn gwisg, ac mewn gwedd	276
Mi gei-iaf eto ganu cân	141
Mi sydd fachgen ifanc ffôl	42
Mor dlws yw Glyn yr Wnion	243
Mynnaf gasglu'r niwl a'i hel	79
Mynyddau ban ysgythrog sydd	224
Nant y mynydd, groew, loew	281
Nid oes dim ia ar war y llyn	180
O chawn o'r nef y peth a grefwn	66
Ochenaid ai'th ddi-fyrwch yw	184
O, dyro i mi, aderyn mwyn	191
O ddydd i ddydd mae melyn haul	286
O gwnewch i mi feddrod wrth ffrydlif y mynydd	149
O gwranddo, y beraidd Fwyalchen	140
O hyd yr oes pechadur wyf	95
Ond diddan iawn y dyddiau'n ol	78
O'i nyth a'i asgell deg yn llawn o wllith	266
Os caet gael gorweddfa glyd	230
Os hoffech wybod sut	290
Os pell yw telyn aur fy ngwlad	273
O wir drymder canu'r wy	3
Pa le y dengys anian lon	255
Pa wrthrych fu o'm mebyd	166
Pam mae'm calon fel y don	102
Pan fo'r bore glas yn gwawrio	196
Pan guddio nos ein daear gu	112
Pan y myn y daw	259
Perffaith yw dy waith, Duw Iôr	127
Plygu mae y llysiau gwyrddion	157
Pob glanddyn cariadus, afeithus yn fwyn	19
Pwy a'm hymddygodd yn ddilys	86
Pwy ydyw'r dyn truan fel hyn wrtho'i hunan	48

Mynegai.

	TUD.
Rhoes fy mryd a'm serch yn llwyr	1
Ryw hwyr, a mi yn cychwyn	233
'Rwy'n wylu'r dŵr oddiwrth fy nghalon	47
Sech yw'r ddeilen ar y brigyn	111
Seren heddwch ! i'r crwydredig	260
Teg yw dy lun, fy anwyl fun	193
Ti wyliaist wrth fy ngwely	206
Tosturus yw ystyried	74
Tra bo dŵr, fe fydd afonydd	242
Tros y garreg syllu wnafl	192
Trwy ba bleserau byd	113
Wel, dyma ŵr a'i dŷ ymhell	186
Wennol fwyn, ti ddaethost eto	212
Wrth feddwl am y gangen gyll	293
Wrth wrando llais yr ednaint glân	82
Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi	285
Y Bala, Salem wen	270
Y 'deryn pur a'i adain las	46
Y 'deryn pur, yn llatai dos	245
Y sun iraidd fwyn, clyw ganu clau gwyn	8
Y gangen gain, foddol, fain	12
Y gangen wen ei gwawr	89
Y gu eneth gain, a'r goleuni glain	10
Y mae'r ywen werdd yn tyfu	222
Y teulu hynod haelion	34
Ymadael ! O siomedig, ddrylliedig, eiddig air	145
Yn araf i safle'r gerbydres gerllaw	282
Yn fy ngalar am fy ngolwg	147
Yr hwyrnos brudd sy'n ocheneidio'n wanlyd	264
Ystyriwch, baunes dirion, a'r minau mwynion mêl	17



0. 6084

